



Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Agweddau ar Ddwyieithrwydd

Enlli Môn Thomas a Peredur Webb-Davies

Cyhoeddwyd yr e-lyfr hwn gyntaf yn 2017 gan
Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3WQ
www.colegcymraeg.ac.uk

Rhif llyfr rhyngwladol (ePDF): 978-1-911528-07-4

© Penodau 1, 2, 3, 4, 10, 11: Enlli Môn Thomas

© Penodau 5, 6, 7, 8, 9: Peredur Webb-Davies

© Llyfryddiaeth: Enlli Môn Thomas a Peredur Webb-Davies

Mae hawlfraint ar gynnwys yr e-lyfr hwn ac mae'n anghyfreithlon atgynhyrchu unrhyw ran ohono heb gytundeb
ysgrifenedig y cyhoeddwr ymlaen llaw.

CYNNWYS

<u>RHAGAIR</u>	5
<u>DIOLCHIADAU</u>	6
<u>PENNOD 1: Cyflwyniad i Ddwieithrwydd</u>	7
<u>PENNOD 2: Diffinio Dwyieithrwydd</u>	15
<u>PENNOD 3: Datblygu Dwy Iaith</u>	21
<u>PENNOD 4: Oed a Sgiliau Caffael Iaith</u>	35
<u>PENNOD 5: Gramadeg Cyfnewid Cod</u>	47
<u>PENNOD 6: Defnyddio Cyfnewid Cod</u>	59
<u>PENNOD 7: Dwyieithrwydd yn y Gymdeithas</u>	69
<u>PENNOD 8: Agweddau tuag at Iaith a Dwyieithrwydd</u>	81
<u>PENNOD 9: Newid Iaith yn y Cyd-destun Dwyieithog</u>	95
<u>PENNOD 10: Manteision Dwyieithrwydd I: Sgiliau Metaieithyddol</u>	111
<u>PENNOD 11: Manteision Dwyieithrwydd II: Sgiliau Uwchwybyddol</u>	121
<u>LLYFRYDDIAETH</u>	135

RHAGAIR

Ac ystyried bod mwy o ieithoedd gwahanol nag o wledydd yn y byd, mae'n anochel bod ieithoedd yn dod i gysylltiad â'i gilydd mewn rhyw ffordd ac ar ryw adeg yn ystod eu bodolaeth. O ganlyniad, poblogaeth amlieithog ei naws yw'r rhan helaethaf o boblogaeth y byd. Er nad oes ffigyrau penodol (neu ddull casglu data digon ymarferol) yn nodi'r union ganran neu union nifer y siaradwyr uniaith a dwyieithog a geir, mae meddu ar ddwy neu fwy o ieithoedd yn ddarlun teg o'r 'norm' ieithyddol cyfredol ar gychwyn yr 21ain ganrif. O'r ychydig dros 6,000 o ieithoedd sy'n parhau i fodoli ledled y byd, prin bod unrhyw un wedi'i hynysu rhag pobloedd neu gymdeithasau ieithyddol eraill. Daw pob iaith bron i gysylltiad ag iaith arall, ond nid pawb sydd o'r farn fod hynny'n dda o beth!

Bwriad y llyfr hwn yw eich cyflwyno i fyd y siaradwr dwyieithog, ac i herio nifer o fythau ynglŷn ag anfanteision – ac, yn wir, manteision – dwyieithrwydd. Y gobaith yw y bydd y darllenydd, o ddarllen y gyfrol hon, yn deall yn well natur ac anghenion unigolion sydd yn meddu ar sgiliau mewn dwy iaith.

DIOLCHIADAU

Hoffai'r awduron ddiolch yn ddiffuant i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am gydnabod pwysigrwydd y maes hwn ddigon i ariannu peth o'r gwaith ac i'r Grŵp Prosiect a grëwyd gan y Coleg am oruchwylio datblygiad y gyfrol mor effeithiol. Diolch hefyd i'r Ysgol Addysg, a'r Ysgol Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg, Prifysgol Bangor, am eu cefnogaeth, ac am sicrhau amser digonol i ni gwblhau'r gwaith. Mae ein diolch hefyd i Nia Peris am brawf-ddarllen y gwaith yn drwyadl ac i nifer o academyddion am ddarllen a chynnig sylwadau ar ddrafftiau cynnar o'r gwaith.

PENNOD 1

Cyflwyniad i Ddwyieithrwydd

1. CEFNDIR I'R MAES

I'r rhai hynny ohonom sydd wedi ymdroi mewn amgylcheddau a chymdeithasau dwyieithog ers cyn cof, anodd iawn yw credu mai maes cymharol newydd yw maes *ddwyieithrwydd*. Ond maes newydd ydyw, ac un sy'n parhau i'n hysbrydoli, i'n diddanu, i'n haddysgu a'n syfrdanu gyda phob darganfyddiad newydd a ddaw i'r fei. Boed gennych chi ddiddordeb mewn niwroleg yr ymennydd dwyieithog (lle a sut mae'r ddwy iaith yn gweithio yn yr ymennydd), prosesau caffael dwy iaith (sut mae'r ymennydd yn llwyddo i ddysgu dwy iaith a pha amgylchiadau sy'n arwain at eu caffael yn llawn), dylanwad un iaith ar y llall (megis defnydd achlysurol o air benthyg, neu farwolaeth iaith) neu sut orau i addysgu plant i fod yn rhugl mewn dwy iaith (addysg drochi neu addysg ddwyieithog), gallwch fentro bod yna ymchwilydd, yn rhywle, yn ymddiddori yn yr un peth!

Er nad oes gennym ni eto'r atebion i rai o'r prif gwestiynau yn y maes, mae ein dealltwriaeth o'r ffenomen gyffrous hon wedi cynyddu'n sylweddol erbyn hyn, gan fwrw amheuan ar rai o'r camdybiaethau mwyaf dilornus a fagwyd yn sgil ymchwiliadau cynnar yn y maes. Ydi, mae gallu siarad dwy iaith yn sgil, ac yn sgil gwerth ei gael. Ond mae'r ymennydd dwyieithog hefyd yn gweithio'n galetach na'r ymennydd uniaith, sydd weithiau'n arwain at fanteision o ran sgiliau iaith a sgiliau anieithyddol, neu, ar adegau eraill, yn amharu ar ruglder y siaradwr dwyieithog. Ond mae manteision dwyieithrwydd yn llawer ehangach na'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng mwy nag un iaith, ac nid yw unrhyw 'anfanteision' o reidrwydd yn barhaol (gweler Pennod 3).

Yn y pen draw, mae llwyddiant y siaradwr dwyieithog yn ddibynnol ar nifer o ffactorau gan gynnwys cymhelliad yr unigolyn i ddysgu'r ddwy iaith, amllder clywed a defnyddio'r naill iaith a'r llall, nifer y siaradwyr yn y gymdeithas, cyfleoedd i ddysgu'r iaith mewn cyd-destunau naturiol vs. ffurfiol, ac oed caffael neu ddysgu iaith. Bydd y bennod hon yn rhoi cyflwyniad byr i'r llyfr, gan amlygu'r math o drafodaeth y gellir ei disgwyl ym mhob pennod ynghyd â pherthnasedd y drafodaeth i'r maes yn ehangach.

Hanes ymchwil yn y maes

Mae hanes ymchwil ym maes dwyieithrwydd yn cael ei rannu'n fras i dri chyfnod yn ôl gogwydd eu canlyniadau: y cyfnod negyddol, y cyfnod niwtral a'r cyfnod cadarnhaol. Trafodir y math o ymchwil sydd ynghlwm â'r tri chyfnod yn eu tro isod.

Cyfnod 1: Y cyfnod negyddol

Er na allwn fod yn gwbl sicr pryd yn union y cynhaliwyd yr ymchwil gynharaf ar ddwyieithrwydd, nac felly pa ymchwil oedd honno, mae dwy garfan o ymchwilwyr ac iddynt y statws o fod ymysg y cynharaf a gyfrannodd i'r maes. Mewn un garfan ceir ymchwilwyr oedd â'u bryd ar ddisgrifio'n fanwl ddatblygiad ieithyddol plant dwyieithog trwy ddull ASTUDIAETH ACHOS (*case study*). Rhydd astudiaeth achos y cyfle i ymchwilwyr astudio – mewn cryn ddyfnder – ymddygiad unigolion neu grwpiau o fewn eu cynefin naturiol. Ym maes datblygiad iaith, defnyddir y dull hwn i astudio patrymau datblygiad iaith dros gyfnod o amser drwy gofnodi, yn lled-reolaidd, ynganiadau ieithyddol a gynhyrchir gan blant. Yn wreiddiol, gwnaed hyn drwy nodi'r ynganiadau ar ffurf dyddiadur. (Erbyn hyn, wrth gwrs, gwneir defnydd o recordwyr sain a fideo.) Yn amlach na pheidio, roedd y plant a gofnodwyd yn blant i ieithyddion megis Werner Leopold, a gofnododd ddatblygiad dwyieithog Almaeneg-Saesneg ei ferch tra oedd hi'n caffael iaith (rhwng 2 a 4 oed), ac a gyflwynodd y wybodaeth yn fanwl mewn cyfres o ddim llai na phedair cyfrol dros y cyfnod 1939–1949. Er ei fod yn ieithydd, wrth gofnodi defnydd cyfnewidiol o'r ddwy iaith – yr hyn a adnabyddir heddiw fel yr arfer arferol iawn ymysg siaradwyr dwyieithog o gyfnewid cod (gweler Penodau 5 a 6) – daeth i'r casgliad fod ei ferch yn 'drysu' rhwng ei dwy iaith gan iddi gynhyrchu geiriau o un iaith wrth

geisio gwneud defnydd o'r iaith arall. Er nad oes modd gwybod sut mae barn arbenigwyr fel hyn yn dylanwadu ar, neu'n llywio, eu dehongliad o'r data heb fod cymariaethau o sefyllfaoedd cyfatebol pan nad yw un rhiant yn ieithydd ar gael, mae'r arsylwadau a amlygwyd yn ei waith yn gwbl arferol. Fodd bynnag, roedd yr ieithwedd a ddefnyddiwyd wrth ddisgrifio sgiliau iaith ei ferch yn anffodus gan fod 'cystadlu' a 'chymysgu' yn meddu ar rinweddau negyddol iawn. Erbyn hyn, wrth gwrs, gwyddom mai ymddygiad cwbl naturiol yw cyfnewid geiriau o un iaith i'r llall, ac y byddai'n gwbl annaturiol pe na bai siaradwr dwyieithog yn cyfaddef gwneud hynny, o leiaf yn achlysurol! Awn ymlaen i drafod materion yn ymwneud â dylanwad un iaith ar y llall ym Mhenodau 3, 5 a 6. Mae'r dull o gasglu data drwy astudiaeth achos yn parhau i fod yn ddefnyddiol, ac yn cyfrannu storfeydd cyfoethog iawn o ddata. Erbyn hyn, mae nifer o ymchwilwyr yn recordio a dadansoddi ynganiadau iaith plant nad ydynt yn blant iddyn nhw eu hunain tra bod eraill yn parhau i recordio a dadansoddi ynganiadau iaith eu plant eu hunain. Yn sgil casgliadau Werner Leopold, dylid nodi o'r cychwyn bwysigrwydd defnydd gofalus o dermau wrth drafod dwyieithrwydd, a'r angen i ddisodli termau negyddol megis **drysu** neu **cymysgu** rhwng dwy iaith â thermau mwy niwtral megis **dylanwad** un iaith ar y llall, **cyfnewid** neu **drosglwyddo** rheol/eitem o un iaith i'r llall, etc.

Bu i garfan arall o ymchwilwyr cynnar achosi niwed nid yn unig i farn unigolion cyffredin ond hefyd i farn ysgolheigion ynglŷn ag effaith dwyieithrwydd ar sgiliau deallusol yr unigolyn. Cynhaliwyd cyfres o astudiaethau yn yr Unol Daleithiau oedd yn cymharu plant i fewnfudwyr â phlant brodorol mewn cyd-destunau addysgol, gan astudio eu galluoedd ieithyddol a'u galluoedd deallusol cyffredinol ('IQ'). Ond nid oedd yr astudiaethau hyn â'u bryd ar astudio effaith dwyieithrwydd neu effaith dysgu ail iaith fel y cyfryw. Yn fwy sinistr na hynny, bwriad yr ymchwil oedd profi bod plant i fewnfudwyr o dras Affro-Americanidd yn israddol yn enetig (gweler llyfr Hakuta 1986 am drosolwg cynhwysfawr o'r ymchwil).

Yn anffodus, fodd bynnag, yn Saesneg yn unig y gweinyddwyd y profion, ac nid drwy gyfrwng mamiaith y plant. O ganlyniad, yr Americanwyr wnaeth berfformio orau, ac esgus ychwanegol i ddilorni'r mewnfudwyr oedd beio dwyieithrwydd (neu'r angen i ddysgu Saesneg ar ben iaith arall) am eu perfformiad.

Ond nid yn yr UD yn unig yr oedd ymchwilwyr ar dân i ddilorni effaith dwy iaith ar lwyddiannau academaidd plant. Yma yng Nghymru, dangosodd Saer (1923) fod plant uniaith Saesneg (rhwng 7 a 14 oed) a fagwyd mewn cymunedau gwledig yng nghefn gwlad Cymru gymaint â 10 pwynt ar y blaen ar fesur o IQ i'w gymharu â phlant Cymraeg iaith gyntaf o'r un oed a'r un cefndir. Dadleuodd ymhellach fod yr un gwahaniaethau (a'r un gwendidau deallusol yr oedd yn barnu eu bod yn bodoli o ganlyniad i fod yn ddwyieithog) yn parhau hyd oed prifysgol. Yn dilyn darganfyddiadau o'r fath, barn nifer o ieithyddion ar y pryd oedd bod siaradwyr dwyieithog yn ddiffygiol o ran geirfa ac o ran eu gallu i ddefnyddio a phrosesu iaith yn gywir. Dwyieithrwydd oedd ar fai, ac nid y ffaith mai yn Saesneg (iaith wannaf y plant) y cynhelid y prawf!

Buan iawn y bu i'r farn honno ledaenu. Ond er i eraill adnabod gwendidau difrifol yn yr ymchwiliadau cynnar hyn, parhau wnaeth y farn fod dwyieithrwydd yn niweidiol i'r unigolyn ar hyd yr 20fed ganrif.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

- : Ydych chi'n meddwl eich bod chi'n gryfach mewn un iaith na'r llall?
- : Ydych chi'n gwneud defnydd o'r ddwy iaith wrth siarad?
- : Ydi bod yn gryfach mewn un iaith neu'r llall neu wneud defnydd o'r ddwy iaith yn gyfochrog yn arwydd o gymhlethdod y meddwl yn eich barn chi?
- : Ydi hi'n rhesymegol meddwl y gall ymddygiad iaith (e.e. bod yn ddwyieithog) ddylanwadu ar sgiliau deallusol ac/neu sgiliau cymdeithasol unigolion?
- : Ydych chi'n teimlo bod eich profiadau iaith/sgiliau iaith yn dylanwadu ar eich sgiliau deallusol ac/neu sgiliau cymdeithasol?

Efallai fod disgwyl i blant dwyieithog arddangos gwendidau penodol o'u cymharu â phlant uniaith ar rai adegau o'u bywyd ac o dan rai amgylchiadau penodol (gweler Penodau 3 a 4). Yn wir, drwy gymharu casgliadau nifer o astudiaethau ochr yn ochr â'i gilydd, daeth Macnamara (1966) i'r casgliad bod yr ymchwil gynnar yn dangos bod plant dwyieithog yn ddiffygiol mewn rhai agweddau ar iaith yn fwy nag eraill. Er enghraifft, dangosodd, o 24 o astudiaethau oedd â mesur teilwng (yn ei dyb ef) o eirfa plant, bod chwech yn dod i'r casgliad bod geirfa plant dwyieithog ac uniaith yn gyfartal. Roedd y 18 astudiaeth oedd yn weddill yn dangos bod siaradwyr uniaith ar y blaen o ran eu storfeydd geirfaol (trafodir hyn ymhellach ym Mhennod 3). O ran sillafu, ar y llaw arall, roedd pump o'r chwech astudiaeth yn dangos cysondeb ym mherfformiadau'r plant ar draws y ddau grŵp. Yn dilyn yr arsylwadau hyn, daeth Macnamara i'r casgliad fod y plentyn dwyieithog yn dioddef o ddiffyg geirfaol. Barn Macnamara oedd bod y plentyn dwyieithog yn cael llai o gyfle i ddysgu iaith gan ei fod yn cael llai o gyfleoedd i glywed a defnyddio un iaith (gweler y drafodaeth ar NODWEDD DDOSRANNOL y siaradwr dwyieithog – *distributed characteristic* – ym Mhennod 3), a bod iaith o bosib yn sensitif i GYFNOD ALLWEDDOL (*critical period*) ar gyfer meistrolï iaith (gweler y drafodaeth ym Mhennod 4). Roedd hefyd o'r farn bod y plentyn dwyieithog yn ddiffygiol o ran gramadeg a ffoneteg (sain iaith), a hynny, yn rhannol, o ganlyniad i ddiffyg mewnbwn safonol (nid yw eu 'modelau' ieithyddol bob amser yn siaradwyr brodorol yr ieithoedd hynny). Er bod storfeydd geirfaol llai ymysg plant dwyieithog yn parhau i fod yn ddarganfyddiad arferol iawn yn y maes (gweler Pennod 3), mae astudiaethau mwy diweddar wedi dangos bod unrhyw ddiffygion ieithyddol cyffredinol yn rhai cynnar, gydag adnabyddiaeth o eirfa yn cynyddu ag oed a phrofiad iaith. At hynny, ceir tystiolaeth o oediad mewn ymwybyddiaeth plant dwyieithog o rai ffurfiau gramadegol o'u cymharu â phlant uniaith, ond tystiolaeth o well ymwybyddiaeth na phlant uniaith o ffurfiau eraill hefyd (gweler Pennod 3). Anodd, felly, yw dod i un casgliad cyffredinol am effaith dysgu dwy iaith ar ddatblygiad yr unigolyn. Ond dyna a wnaed. Bu i'r neges gynnar hon fod dwyieithrwydd yn niweidiol i'r unigolyn aros am ddegawdau, ac mae'n parhau i gael ei lleisio ymysg rhai hyd heddiw.

Erbyn hyn, wrth gwrs, gwyddom fod nifer o wallau methodolegol ynghlwm â'r astudiaethau cynnar a gynhaliwyd yn y maes, heb sôn am y problemau cynhenid yn y profion deallusol oedd yn cael eu defnyddio ar y pryd. Felly nid oes, mewn gwirionedd, unrhyw dystiolaeth gadarn yn deillio o'r astudiaethau cynnar hyn i gefnogi'r farn bod dwyieithrwydd yn niweidiol i gynnydd deallusol yr unigolyn. At hynny, os am fesur teg o sgiliau siaradwyr dwyieithog rhaid bob amser ymgeisio i fesur eu gallu yn eu dwy iaith. Heb hynny, mae tuedd i oramcangyfrif neu danamcangyfrif eu gallu mewn rhai achosion (yn enwedig pan nad yw dealltwriaeth/gafael yr unigolyn o'r ddwy iaith yn gwbl gyfartal). Yn yr archwiliadau cynnar hyn, un iaith yn unig a ddefnyddiwyd i weinyddu'r prawf, gyda'r disgwyl y byddai plant dwyieithog yn gyfartal â phlant uniaith Saesneg o ran eu sgiliau yn yr iaith Saesneg, ac o ran eu dealltwriaeth gyffredinol a fesurwyd drwy gyfrwng yr iaith honno. Ond gan nad amlygwyd plant y mewnfudwyr i Saesneg 100% o'r amser o'r crud fel eu cyfoedion Americanaidd, a chan nad amlygwyd plant o aelwydydd Cymraeg i'r iaith Saesneg 100% o'r amser fel eu cyfoedion yng Nghymru, annheg oedd disgwyl cyraeddiadau tebyg ar draws plant uniaith

a phlant dwyieithog yn y profion a roddwyd, yn enwedig gan fod y profion hynny wedi eu safoni ar blant uniaith. Ar hyn o bryd, fel yr adeg honno, nid oes digon o fesuriadau dilys wedi eu creu yn arbennig a’u safoni’n benodol ar gyfer mesur gallu ieithyddol y plentyn dwyieithog, ac nid oes llawer o ieithoedd a chanddynt brofion iaith safonol. Os eir ati i gymharu plant dwyieithog â phlant uniaith gan ddefnyddio mesuriadau o’r fath, mae’n ofynnol dehongli’r canlyniadau yn ofalus iawn gan nad oes disgwyl i’r ddau grŵp berfformio yn union yr un fath bob amser, a hynny am nifer o resymau (gweler Penodau 2, 3 a 4).

Cyfnodau 2 a 3: Y cyfnod niwtral a’r cyfnod cadarnhaol

Yn dilyn y cyfnod negyddol o ran canfyddiadau yn y maes, daeth set gaeedig o ymchwiliadau i’r fei oedd yn dangos dim gwahaniaeth amlwg rhwng plant dwyieithog a phlant uniaith mewn amrywiaeth o fesuriadau. Er mai prin oedd yr ymchwiliadau hynny, daeth yn amlwg i’r byd academiaidd fod cyd-destunau ymchwil lle nad oedd anfantais amlwg i’w canfod a bod angen ystyried yn well y berthynas rhwng dwyieithrwydd a’r sgiliau hynny a fesurwyd yn yr ymchwil.

On ddaeth y canfyddiad cyntaf bod posib gweld manteision amlwg i blant dwyieithog yng ngwaith ymchwil dylanwadol Peal a Lambert (1962). Gwnaed ymdrech bwrpasol yn yr ymchwil yma i sicrhau nad oedd y diffygion amlwg a welwyd yn yr ymchwiliadau blaenorol yn bodoli drwy samplu’n ofalus (e.e. cymharu dau grŵp o’r un oed, o’r un ardal) a thrwy gynnwys amrywiaeth ehangach o brofion gwybyddol tu hwnt i IQ. Dangosodd eu dadansoddiadau bod y plant dwyieithog yn perfformio’n well na’r plant uniaith mewn 15 o’r 18 o dasgau, ac yn benodol y rheini oedd yn gofyn am rywfaint o hyblygrwydd meddyliol, gyda’r naill grŵp a’r llall yn perfformio fel ei gilydd yn y tri phrawf oedd yn weddill. Er bod yna ddiffygion methodolegol (megis lefelau sosio-economaidd gwahaniaethol ar draws y ddau grŵp) yn parhau i fodoli gyda’r ymchwil hon, agorodd y drws i nifer o ymchwiliadau dilynol oedd â’u bryd ar gyfrannu ymchwil wyddonol gadarn i geisio taflu mwy o oleuni ar y maes.

Yn dilyn y canfyddiadau hyn, daeth mwy a mwy o dystiolaeth i gefnogi’r syniad bod manteision penodol i feddu ar ddwy iaith, gyda’r astudiaethau hynny a fu’n archwilio’r cwestiwn yn cynyddu o ran ansawdd fel yr oedd technegau arbrofi yn datblygu yn y maes. Erbyn hyn, mae nifer helaeth o astudiaethau wedi eu cynnal, gyda rhai o’r rheini yn manteisio ar y methodolegau diweddaraf megis sganwyr fMRI. Fel y mae’r maes wedi ehangu ac wedi mynd yn fwy cymhleth, felly hefyd y mae’r canlyniadau o ran manteision dwyieithrwydd. Ydi, mae bod yn ddwyieithog yn fanteisiol (gweler Penodau 3, 11 a 12), ond mae pryd, sut ac ymhle mae’r manteision hynny’n cael eu harddangos yn destun rhagor o ymchwil yn y maes. Pa ffactorau sy’n dylanwadu’n bositif ar yr unigolyn dwyieithog? Pa ffactorau sy’n dylanwadu’n llai positif? O wybod yr atebion i’r cwestiynau hyn, gallwn adnabod yn well natur ac anghenion siaradwyr dwyieithog er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth bwrpasol ar gael iddynt fel y gallant fanteisio i’r eithaf ar y profiad. Bydd y llyfr hwn, felly, o ddefnydd nid yn unig i’r rhai hynny sy’n ymddiddori mewn iaith (a’r iaith Gymraeg yn benodol) a dwyieithrwydd, ond hefyd i’r rhai hynny sy’n astudio iaith a dwyieithrwydd, ac yn addysgu plant ac oedolion dwyieithog drwy gyfrwng un iaith neu ddwy.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: Fedrwch chi feddwl am unrhyw ffactorau penodol sydd wedi dylanwadu’n gadarnhaol ar eich datblygiad iaith a’ch datblygiad deallusol chi fel unigolyn dwyieithog?

: Fedrwch chi feddwl am unrhyw ffactorau penodol sydd wedi dylanwadu’n negyddol ar eich datblygiad iaith a’ch datblygiad deallusol chi fel unigolyn dwyieithog?

2. CWESTIYNAU YMCHWIL

Erbyn heddiw, mae agweddau unigolion a llywodraethau tuag at ddwyieithrwydd wedi gwella, yn enwedig o ran hawliau ieithyddol. Mae’r dulliau ymchwilio yn y maes, yn enwedig o safbwynt

seicoieithyddol ('psycholinguistic'), wedi datblygu'n fawr, ac mae modd llunio dulliau ymchwil manwl sy'n caniatáu i ni geisio atebion i nifer o gwestiynau llosg yn y maes. Ymysg y rhain mae'r canlynol:

- Sut mae plant sy'n derbyn dwy iaith ar yr un pryd yn dysgu'r ieithoedd hynny?
- Sut mae trywydd datblygiad plant dwyieithog yn wahanol i blant sydd ddim ond yn dysgu un iaith?
- Beth yw natur dealltwriaeth plant o'u dwy iaith ac i ba raddau mae ffactorau megis amllder, cysondeb a safon yr iaith yn y mewnbwn yn effeithio ar natur, cyflymder a thrywydd eu dealltwriaeth?
- Beth yw'r manteision gwybyddol sy'n deillio o fod yn ddwyieithog?
- Beth sy'n digwydd i un iaith tra bo'r llall yn cael ei defnyddio?
- Beth yw dylanwad un iaith ar y llall?
- Beth yw goblygiadau unrhyw wahaniaethau rhwng plant sy'n datblygu'n ddwyieithog a phlant sy'n datblygu'n uniaith i'r cyd-destun addysgol?
- Beth os oes gan blentyn dwyieithog broblemau iaith?
- Sut mae addysgu y plentyn dwyieithog i'w lawn botensial yn yr ysgol?
- Sut mae darbwylo rhieni ynghylch y sefyllfaoedd mwyaf llewyrchus ar gyfer magu eu plant yn ddwyieithog?
- Sut mae atal marwolaeth iaith?

Ar wahân i gwestiynau sylfaenol o'r fath, mae'r ffaith bod y diffiniad o ddwyieithrwydd mor eang yn caniatáu i ni godi rhagor o gwestiynau tebyg, megis y canlynol:

- Beth sy'n digwydd os yw'r plant yn dysgu'r ail iaith ymhell ar ôl cychwyn dysgu'r iaith gyntaf?
- A oes un cyfnod oed pendant pan fydd dysgu iaith yn haws na chyfnod arall?
- A oes rhai elfennau ieithyddol na fydd siaradwr ail iaith byth yn llwyddo eu meistroli? A oes ots am hynny?
- Faint o drosglwyddo sy'n digwydd rhwng y ddwy iaith, ac a yw hynny'n gryfach pan fo'r ddwy iaith yn cael eu caffael ar unwaith ynteu un ar ôl y llall?

Er bod nifer o gwestiynau'n berthnasol i ddwyieithrwydd cynnar, nid â phlant yn unig y mae dwyieithrwydd yn ymwneud. Wedi iddynt gaffael eu sgiliau dwyieithog, bydd nifer o'r plant hynny'n datblygu i fod yn bobl ifanc ac oedolion dwyieithog, tra bydd eraill efallai'n colli gaffael ar un o'u hieithoedd am lu o resymau gwahanol. Bydd eraill yn dysgu ail iaith yn hwyr, ond mewn cyd-destun dwyieithog, ac yn ymddwyn fel unigolyn dwyieithog ac nid unigolyn ail-iaith, ac eraill wedyn yn ychwanegu ail iaith yn oedolion ac yn datblygu nodweddion siaradwyr dwyieithog yn y broses. Bydd eu defnydd o'r naill iaith neu'r llall yn newid dros gyfnod eu hoes, ac o ganlyniad i nifer o wahanol ffactorau. Mae ceisio dod i ddealltwriaeth ynglŷn â defnydd a natur dealltwriaeth oedolion a phobl ifanc o'u dwy iaith mewn sefyllfa ddwyieithog, a pha nodweddion all ddylanwadu ar y ffactorau hynny, yn sail i gangen arall o ymchwil ar ddwyieithrwydd.

Mae'r rhain oll, a nifer o gwestiynau tebyg, yn destunau craidd mewn ymchwiliadau dynamig a thrawsddisgyblaethol, ac nid yn unig yn cyfrannu at ddamcaniaethau cyfoes, ond hefyd yn cyfrannu'n ymarferol at bolisiau addysg a pholisiau iaith. Yn y pen draw, mae'r atebion i'r cwestiynau hyn yn fodd o helpu'r siaradwr dwyieithog ymdopi â'i ddwy iaith, ac yn arfogi'r addysgwr neu'r ymarferwr proffesiynol i lunio'r dulliau gorau a mwyaf pwrpasol o sicrhau ymdriniaeth deg â siaradwyr dwyieithog er mwyn caniatáu'r datblygiad personol gorau, hyd eithaf eu gallu.

Er ei fod yn faes cymharol newydd, mae'n amlwg bod y posibilïadau ymchwiliol ac ymarferol o fewn maes dwyieithrwydd yn enfawr. Yma yng Nghymru, mae cynnydd sylweddol wedi bod o

ran ymchwil yn y maes, a hynny ym meysydd sosioieithyddiaeth, seicoieithyddiaeth ac addysg dros y blynyddoedd. Bydd y llyfr hwn yn trafod nifer o gwestiynau llosg ym maes dwyieithrwydd, gan gyfeirio nid yn unig at dystiolaeth sy’n deillio o’r cyd-destun rhyngwladol, ond hefyd at dystiolaeth gyfoes a safonol o Gymru. Trwy ddyfodiad canolfannau ymchwil megis y Ganolfan Ymchwil ESRC i Ddwyieithrwydd mewn Theori ac Ymarfer ym Mhrifysgol Bangor, mae cyfoeth o waith ymchwil wedi ei gynnal gyda’r boblogaeth ddwyieithog yng Nghymru, a bydd y llyfr hwn yn gwneud yn fawr o’r ymchwiliadau hynny i ddarlunio profiadau a bywyd nifer o wahanol fathau o siaradwyr dwyieithog.

Trefn y llyfr

Cyn trafod ffeithiau difyr am ddwyieithrwydd, rhaid cytuno ar ddiffiniad. Mae Pennod 2 yn cychwyn â thrafodaeth am gymhlethdodau’r term, gan geisio dod i gonsensws ar sut i ddiffinio ac i drafod siaradwyr dwyieithog. Mae diffinio dwyieithrwydd yn ddibynnol ar nifer o ffactorau, gan gynnwys pryd mae plentyn yn dysgu ei ddwy iaith. Mae Pennod 3 yn mynd i’r afael â sut mae plentyn yn caffael iaith, a beth yw’r gwahaniaethau pan fo plentyn yn dysgu dwy iaith, ac yn trafod pa ffactorau sy’n dylanwadu ar allu plentyn i gaffael dwy iaith. Mae Pennod 4 wedyn yn trafod oed caffael iaith a beth sy’n unigryw am fywyd a phrofiadau plant sy’n hwyluso’r broses o gaffael iaith. Mae Penodau 5 a 6 yn mynd ymlaen i drafod un nodwedd unigryw ar siaradwyr dwyieithog ac amlieithog, sef cyfnewid cod. Beth yw cyfnewid cod? Sut mae’n digwydd? Pryd mae’n digwydd? A pham? Ym Mhennod 6 awn ymlaen i drafod sut gall agweddau unigolion tuag at eu hunain ac at unigolion eraill ddylanwadu ar y modd y maent yn ymwneud â’u hieithoedd. Mae Pennod 8 yn symud y drafodaeth oddi wrth ddwyieithrwydd unigol (sef dwyieithrwydd o fewn yr unigolyn) at ddwyieithrwydd cymdeithasol. Sut a phryd mae pobl yn dod ar draws dwy iaith ac yn defnyddio eu dwy iaith yn eu cymdeithas? Gan barhau i drafod dwyieithrwydd cymdeithasol, mae Pennod 9 yn disgrifio canlyniadau posib dwyieithrwydd mewn cymdeithas, sydd yn aml yn arwain at newid, adfywio neu farwolaeth iaith. I gloi, ym Mhenodau 10 ac 11 cawn drafodaeth ar fanteision dwyieithrwydd – pa sgiliau penodol y ceir effaith gadarnhaol arnynt yn sgil meddu ar ddwy iaith, sut bynnag y mae rhywun yn dod i fod yn ddwyieithog? Beth yw sail y manteision hynny? Ac i ba raddau y mae’r manteision hynny’n gyffredin i bob siaradwr dwyieithog?

Gobeithiwn y bydd y llyfr hwn yn rhoi blas i’r darllenydd ar (i) natur sgiliau ieithyddol siaradwyr dwyieithog a (ii) union ddylanwad a phwysigrwydd nifer o ffactorau ar sgiliau’r siaradwr dwyieithog, gan gyflwyno ymchwil gyfredol o faes sosioieithyddiaeth, seicoieithyddiaeth ac addysg yn y cyd-destun Cymreig fel tystiolaeth gefnogol.

GWAITH DARLLEN ALLWEDDOL

Baker, C. a Wright, W. (2017). *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism*, 6ed argraffiad. Clevedon: Multilingual Matters.

Hakuta, K. (1986). *Mirror of Language: The Debate on Bilingualism*. Efrog Newydd: Basic Books.

Hoffmann, C. (1991). *Introduction to Bilingualism*. Llundain: Routledge.

Romaine, S. (1994). *Bilingualism*, 2il argraffiad. Rhydychen: Wiley.

[Mae'r pedair cyfrol yma yn rhoi trosolwg cyffredinol o'r maes, gyda Baker a Wright yn rhoi cryn bwyslais ar addysg ddwyieithog, Hakuta yn adnodd da ar gyfer hanes datblygiad y maes, a Hoffmann a Romaine yn adnoddau da ar gyfer trafod diffiniadau a safbwyntiau sosioieithyddol yn bennaf]

AWGRYMIADAU DARLLEN AM DDWYIEITHRWYDD YN Y GYMRAEG

Thomas, E. M. a Mennen, I. (goln) (2014). *Advances in the Study of Bilingualism*. Clevedon: Multilingual Matters. [Mae'r gyfrol hon yn rhoi trosolwg trawsddisgyblaethol o'r mathau o ymchwiliadau cyfredol yn y maes gan ganolbwyntio'n benodol ar siaradwyr dwyieithog Cymraeg-Saesneg er bod un bennod ar blant sydd yn datblygu'n bennaf ddwyieithog mewn Cymraeg-Almaeneg gyda Saesneg fel trydedd iaith]

PENNOD 2

Diffinio Dwyieithrwydd

1. CYFLWYNIAD

Gan amlaf mae'r termau DWYIEITHRWYDD (*bilingualism*) a DWYIEITHOG (*bilingual*) yn cyfeirio at siaradwyr sy'n meddu ar ryw lefel o ddealltwriaeth o ddwy iaith. Ond mae rhai awduron hefyd yn defnyddio'r termau i ddisgrifio siaradwyr sy'n meddu ar dair neu fwy o ieithoedd (yn sgil natur ieithyddol y gymuned neu yn sgil arferion unigryw'r cartref), tra bod eraill yn defnyddio termau megis AMLIEITHRWYDD (*multilingualism*) ac AMLIEITHOG (*multilingual*) ar gyfer sefyllfaoedd o'r fath. Defnyddir y term *dwieithrwydd* drwy gydol y llyfr i gyfeirio at sefyllfaoedd lle mae siaradwr neu gymuned ieithyddol yn gwneud defnydd o ddwy (neu fwy) o ieithoedd. Lle bo'n briodol, gwahaniaethir rhwng y termau *dwieithrwydd* ac *amlieithrwydd*.

Bydd y bennod hon yn ceisio diffinio maes cymhleth dwieithrwydd drwy amlygu'r gwahanol sefyllfaoedd sydd yn magu dwieithrwydd a'r gwahanol fathau o ddwieithrwydd sy'n bodoli, a sut mae dynodi pwy sydd – ac i ba raddau y maen nhw – yn ddwieithog.

2. Y GWAHANOL SEFYLLFAOEDD SY'N MAGU DWYIEITHRWYDD

Mae'r modd y mae unigolyn yn datblygu ei ddwieithrwydd, boed hynny'n gydamserol neu'n olynol, yn newid o un sefyllfa i'r llall – o unigolyn i unigolyn, o deulu i deulu, o gymuned i gymuned, o wlad i wlad, o genhedlaeth i genhedlaeth ac o iaith (neu bâr o ieithoedd) i iaith (neu bâr arall o ieithoedd) (gweler Pennod 7). Mae hefyd yn newid dros amser ac yn ôl newidiadau sefyllfaol, megis drwy symud o un gymuned neu wlad i un arall, drwy symud o amgylchedd y cartref i amgylchedd gwahanol yr ysgol, drwy newid ffrindiau, neu drwy briodas, etc. Mewn rhai sefyllfaoedd mae dysgu dwy iaith yn anorfod os yw'r unigolyn am ffynnu yn y sefyllfa honno – e.e. lle nad oes addysg neu gyfleoedd gwaith ar gael yn eu mamiaith – er bod cryn wrthwynebiad i orfodaeth ieithyddol mewn rhai achosion, yn enwedig o ran addysg. Ambell waith, mae'r angen i fagu iaith newydd yn disodli iaith gyntaf y siaradwr, gan arwain, yn yr achosion mwyaf andwyol, at farwolaeth iaith mewn cymuned (gweler Pennod 9) neu gaffaeliad anghyflawn ymysg unigolion (gweler Pennod 3). Mae adnabod pryd a sut mae ieithoedd yn diflannu yn sgil cysylltiad ag iaith arall yn faes difyr a phwysig dros ben, ac yn cyfrannu at ymdrechion llywodraethol i atal dirywiad iaith, yn enwedig mewn sefyllfaoedd ieithoedd lleiafrifol.

Dro arall, bydd y siaradwyr yn eithaf bodlon mabwysiadu'r ail iaith. Mewn achosion o'r fath, yr unigolyn ei hun sy'n rheoli a yw'n datblygu i fod yn siaradwr dwieithog llwyddiannus ai peidio. Waeth beth fo'r ffactorau sy'n arwain at gysylltiad rhwng ieithoedd, mae'r unigolion y bydd y ffactorau hynny'n effeithio arnynt yn amlach na pheidio'n datblygu i fod yn unigolion dwieithog ac yn magu eu plant mewn cyd-destunau dwieithog, boed hynny o dan reolaeth yr unigolyn ai peidio.

Yn gyffredinol, felly, ni fydd unrhyw siaradwr dwieithog yn profi'r un profiadau ieithyddol â siaradwr arall, ac nid yw profiadau unrhyw siaradwr yn aros yr un fath ar hyd ei oes. O ganlyniad, ceir gwahaniaethau mawr rhwng 'natur' gwahanol siaradwyr dwieithog, sy'n gur pen i ymchwilwyr!

3. MATHAU O SIARADWYR DWYIEITHOG

Yn gyffredinol, cyfeirir at siaradwyr dwieithog fel un o ddau 'fath': siaradwyr dwieithog CYDAMSEROL (*simultaneous*) neu siaradwyr dwieithog OLYNOL (*successive*). Siaradwyr cydamserol yw'r rheini fu'n caffael ac yn cael mewnbwn yn eu dwy iaith o'r crud (neu o leiaf o fewn tair blynedd gyntaf eu bywydau). Gan amlaf, bydd unigolyn yn datblygu ei ddwy iaith yn gydamserol:

- (i)

pan fydd yn cael ei eni mewn cymuned ddwyieithog, lle gall iaith y cartref fod yn wahanol i iaith fwyafrifol y gymuned; neu
- (ii)

pan fo un rhiant yn siarad un iaith â'r plentyn (unig iaith y gymuned weithiau) a'r rhiant arall yn siarad iaith wahanol â'r plentyn yn y cartref.

Mae rhai ymchwilwyr eraill, megis Annick De Houwer, wedi dadlau bod angen gwahaniaethu’n fanylach eto, gan wahaniaethu rhwng y plant hynny sy’n cael mewnbwn o’r ail iaith o fewn y mis cyntaf (CAFFAELIAD IAITH GYNTAF DWYIEITHOG – *bilingual first language acquisition*) a’r rhai hynny sy’n cael y mewnbwn hwnnw rywdro ar ôl y mis cyntaf (CAFFAELIAD AIL IAITH DWYIEITHOG – *bilingual second language acquisition*) (gweler, e.e., De Houwer 1995).

Cyfeirir at siaradwyr dwyieithog olynol fel unigolion sy’n caffael eu hail iaith wedi iddynt gychwyn dysgu eu hiaith gyntaf (gan amlaf ar ôl iddynt gyrraedd eu trydydd penblwydd). Er nad oes ffin eglur rhwng bod yn ddwyieithog neu’n *siaradwr ail iaith*, mae’n arferol yn y llyfryddiaeth ymchwil i drafod plant sy’n caffael iaith ychwanegol yn ystod eu plentyndod cynnar fel siaradwyr dwyieithog *cynnar* neu siaradwyr dwyieithog *hwyr* yn hytrach na siaradwyr ail iaith, gan gyfeirio at blant sy’n caffael ail iaith yn eu harddegau neu’n oedolion fel siaradwyr ail iaith.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: Edrychwch eto ar y ddau brif fath o ddwyieithrwydd cydamserol a nodir uchod. Sawl math o sefyllfa y gwyddoch chi amdanynt (yng Nghymru a thu hwnt) sy’n berthnasol fan hyn?

: Yna, meddyliwch am sefyllfaoedd sy’n magu dwyieithrwydd olynol. Trafodwch y mathau o sefyllfaoedd y gwyddoch chi amdanynt (yng Nghymru a thu hwnt) sy’n berthnasol i ddwyieithrwydd olynol, a meddyliwch am oblygiadau’r sefyllfaoedd hynny o safbwynt gallu’r plentyn i ddysgu’r ddwy iaith i’w lawn botensial.

: Yn dilyn eich trafodaethau, ystyriwch pa derm y dylid ei fabwysiadu wrth gyfeirio at blant/ pobl ifanc sy’n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ond yn dod o gartrefi uniaith Saesneg.

Oherwydd bod nifer o wahanol sefyllfaoedd cyd-destunol yn magu’r gwahanol fathau o ddwyieithrwydd, mae’n dilyn felly bod natur dealltwriaeth yr unigolyn – neu afael yr unigolyn ar ei ddwy iaith – hefyd yn mynd i newid o un sefyllfa i’r llall. Tra bod rhai’n rhugl yn eu dwy iaith, ceir eraill sy’n gryfach mewn un iaith na’r llall, ac eraill eto sy’n ffafrio siarad un iaith ac ysgrifennu yn y llall, etc. Nid yw’r ffaith bod unigolyn yn meddu ar sgiliau mewn mwy nag un iaith yn golygu ei fod yn gallu defnyddio’r ddwy iaith ym mhob cyd-destun ieithyddol, nac yn wir yn dymuno gwneud hynny.

Mae’r cwestiwn ynglŷn â sut yn union y mae mesur lefel dwyieithrwydd unigolyn yn newid o ymchwil i ymchwil, fel y mae’r derminoleg a ddatblygir ac a ddefnyddir i ddisgrifio’r gwahanol fathau o siaradwyr yn newid. Er mwyn darlunio’r broblem, archwiliodd Wei (2000) y gwahanol labelau a ddefnyddiwyd gan wahanol ymchwilwyr ac ieithyddion mewn cyhoeddiadau yn ystod yr 20fed ganrif. Darganfyddodd ddim llai na 37 term gwahanol i ddisgrifio gwahanol fathau o siaradwyr ac/neu sefyllfaoedd dwyieithog, er bod nifer o’r rhain yn cyfeirio at yr un ‘math’ (gweler Tabl 1).

Tabl 1: Mathau o siaradwyr dwyieithog (addasiad o Wei 2000)

TERM	YSTYR
Achieved bilingual*	Yr un fath â <i>late bilingual</i>
Additive bilingual	Pan fydd cyfuniad o’r ddwy iaith yn cyfoethogi ei gilydd
Ambilingual	Yr un fath â <i>balanced bilingual</i>

TERM	YSTYR
Ascendant bilingual	Rhywun sy’n datblygu ei allu i weithredu mewn ail iaith yn dilyn cynnydd yn ei defnydd
Ascribed bilingual	Yr un fath ag <i>early bilingual</i>
Asymmetrical bilingual	Gweler <i>receptive bilingual</i>
Balanced bilingual	Rhywun sydd â meistrolaeth led-gyfartal o’i ddwy iaith
Compound bilingual	Rhywun sydd wedi dysgu ei ddwy iaith ar yr un pryd, yn yr un cyd-destun
Consecutive bilingual	Yr un fath â <i>successive bilingual</i>
Co-ordinate bilingual	Rhywun sy’n dysgu ei ddwy iaith mewn cyd-destunau cwbl ar wahân
Covert bilingual	Rhywun sy’n celu adnabyddiaeth o un iaith arbennig o ganlyniad i agwedd arbennig
Diagonal bilingual	Rhywun sy’n ddwyieithog mewn iaith ansafonol neu dafodiaith ar y cyd ag iaith safonol (ond lle nad oes cysylltiad rhwng y ddwy iaith)
Dominant bilingual	Rhywun sydd â gwell meistrolaeth o un o’i ieithoedd ac sy’n ei defnyddio lawer iawn mwy na’r llall
Dormant bilingual	Rhywun sydd wedi mewnfudo i wlad estron am gyfnod sylweddol ac yn cael prin ddim cyfle i wneud defnydd gweithredol o’i iaith gyntaf
Early bilingual	Rhywun sydd wedi caffael ei ddwy iaith yn ystod ei blentyndod cynnar
Equilingual	Yr un fath â <i>balanced bilingual</i>
Functional bilingual	Rhywun sy’n medru gweithredu mewn dwy iaith, boed ganddynt feistrolaeth gyflawn ar gyfer y dasg dan sylw ai peidio
Horizontal bilingual	Rhywun sy’n ddwyieithog mewn dwy iaith sy’n gwbl unigryw/ar wahân ond sy’n debyg neu’n gyfartal eu statws
Incipient bilingual	Rhywun sy’n dechrau datblygu’n ddwyieithog ond lle nad yw un iaith wedi datblygu’n llawn
Late bilingual	Rhywun sydd wedi dod yn ddwyieithog wedi cyfnod plentyndod
Maximal bilingual	Rhywun sydd â meistrolaeth led-frodorol o ddwy neu fwy o ieithoedd
Minimal bilingual	Rhywun sydd ddim ond ag ychydig o eiriau ac ymadroddion mewn ail iaith
Natural bilingual	Rhywun na chafodd hyfforddiant arbennig ac nad ydyw mewn sefyllfa i fedru cyfieithu neu ddehongli rhwng dwy iaith yn llwyddiannus
Passive bilingual	Yr un fath â <i>receptive bilingual</i>
Primary bilingual	Yr un fath â <i>natural bilingual</i>
Productive bilingual	Rhywun sydd nid yn unig yn deall ond hefyd yn siarad a hyd yn oed ysgrifennu dwy iaith neu fwy
Receptive bilingual	Rhywun sy’n deall ail iaith, yn llafar neu’n ysgrifenedig, ond nad yw’n siarad neu ysgrifennu’r iaith o reidrwydd
Recessive bilingual	Rhywun sy’n dechrau profi anhawster deall neu fynegi ei hun yn hawdd oherwydd diffyg defnydd o’r iaith

TERM	YSTYR
Secondary bilingual	Rhywun sydd wedi ychwanegu ail iaith at iaith gyntaf drwy hyfforddiant ffurfiol
Semibilingual	Yr un fath â <i>receptive bilingual</i>
Semilingual	Rhywun nad oes ganddo wybodaeth ddigonol o'i ddwy iaith
Simultaneous bilingual	Rhywun sydd â'i ddwy iaith yn bresennol o'r cychwyn cyntaf
Subordinate bilingual	Pan fo ymyrraeth o'r iaith gyntaf ym mhatrymau'r ail iaith
Subtractive bilingual	Rhywun sy'n caffael ei ail iaith ar draul y cymwysterau y mae eisoes wedi'u caffael ar gyfer yr iaith gyntaf
Successive bilingual	Rhywun sy'n ychwanegu ail iaith rywdro wedi i'r iaith gyntaf gychwyn datblygu
Symmetrical bilingual	Yr un fath â <i>balanced bilingual</i>
Vertical bilingual	Rhywun sy'n ddwyieithog mewn iaith safonol ochr yn ochr ag iaith ac/neu dafodiaith sy'n perthyn, ond yn gwbl ar wahân

* Nodir y termau yn eu ffurfiau Saesneg gwreiddiol gan mai felly y cawsant eu cyflwyno yn y llyfryddiaeth.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: Sawl un o'r labelau yn y tabl sydd yn eich disgrifio chi?

: Sawl un o'r labelau yn y tabl sydd yn disgrifio unigolion eraill yr ydych yn eu hadnabod yn dda?

CWESTIWN AC ATEB

Edrychwch eto ar y diffiniadau sydd ynghlwm â'r labelau sydd yn y tabl.

Beth sy'n gyffredin ar draws rhai o'r diffiniadau?

Pa ffactorau sy'n cael eu defnyddio o fewn y diffiniadau hyn er mwyn categoreiddio siaradwyr yn un math neu'r llall?

4. MESUR Y MATH O SIARADWR DWYIEITHOG

Ond sut mae dynodi *pwyl* sy'n ddwyieithog, a pha *fath* o siaradwr dwyieithog ydi o neu hi? A pham mae hyn yn bwysig?

Mae penderfynu pa fath yn union o siaradwr dwyieithog yw rhywun yn broses eithaf cymhleth. A ddylid mesur dwyieithrwydd yn ôl pa mor rhugl yw siaradwyr yn eu dwy iaith? Os felly, sut mae mesur rhuglder siaradwyr dwyieithog yn eu naill iaith a'r llall? A yw'n deg mesur eu gallu drwy gymhariaeth â siaradwyr uniaith? A ddylai siaradwyr dwyieithog gynnwys y rhai hynny sydd â gallu cyfartal yn eu dwy iaith yn unig? A oes angen gwahaniaethu rhwng y rheini sy'n gallu siarad dwy iaith a'r rheini sydd ddim ond yn gallu siarad un o'u hieithoedd a deall, darllen neu ysgrifennu'r llall? A yw'r rhain oll yn ddwyieithog? Ai medredd iaith yw'r unig ffordd o asesu dwyieithrwydd, ynteu a ddylai defnydd o'r ddwy iaith fod yn ganolog i'r asesiad hefyd? Beth am hunanddelwedd yr unigolyn ynghylch ei allu ieithyddol a'i hunan-farn am ei gategori ieithyddol ei hun? A ddylai ffactorau o'r fath gyfrannu at ddiffinio *pwyl* sy'n ddwyieithog? I ba raddau mae 'lefel' dwyieithrwydd unigolyn yn aros yn gyson dros amser? Hynny yw, a yw gallu ieithyddol unigolyn yn ei ail iaith yn gallu newid dros amser ac yn ôl y sefyllfa? (Gweler Baker a Prys Jones 1998 am ragor o ystyriaethau o'r cwestiynau hyn.)

Waeth sut yr aiff rhywun ati i ddiffinio'r unigolyn dwyieithog, mae'n broses hollbwysig i'w chyflawni, yn enwedig mewn cyd-destunau addysgol lle ceir disgwyliadau penodol ynghlwm â sgiliau iaith yr unigolion. I rai, mae'r broses yn cynnwys mesuriadau o allu ieithyddol yr unigolion; i eraill, mae'n cynnwys mesur o amllder clywed a defnyddio'r iaith; a dro arall, mae'n cynnwys ymwybyddiaeth o agweddau unigolion, cymunedau a hyd yn oed llywodraethau tuag at ddefnydd o'r ddwy iaith. Yn y bôn, nid oes unrhyw un o'r rhain yn well mesur o ddwyieithrwydd na'r llall. Mae'r dewis o fesuriad yn dibynnu'n llwyr ar bwrpas y diffiniad, felly nid oes consensws clir ymysg ymchwilyr iaith ynglŷn â'r hyn sy'n diffinio dwyieithrwydd orau a pha ddulliau sydd orau i'w fesur. Hyd yma, nid oes gwybodaeth o'r fath ar gael i'r fath fanylder ym mhob ymchwil nac ym mhob achos, a rhaid felly bod yn wyliadwrus wrth ddehongli a chyffredinolï ar sail y data a ddaw o astudiaethau yn y maes.

Mewn sefyllfa lle gellid dylanwadu ar ddyfodol neu ddatblygiad unigolion dwyieithog, megis yn yr ystafell ddosbarth, dylid ceisio llunio cofnod manwl o gefndir ieithyddol yr unigolion, os yn bosib, ynghyd â chofnod o'u gallu ieithyddol yn y ddwy iaith. Dim ond wedyn y gellir teilwra'r ddarpariaeth addysgol yn wahaniaethol ac yn bwrpasol yn ôl anghenion iaith yr unigolion.

5. GWEITHGAREDD CRAIDD

Wrth ddarllen gwahanol benodau'r llyfr, dylid ceisio ystyried yr hyn a drafodir o safbwynt gwahanol fathau o siaradwyr a sefyllfaoedd dwyieithog. Er mwyn hwyluso hynny, ceisiwch ystyried sut mae'r hyn a drafodir yn dylanwadu ar yr unigolion dychmygol canlynol sy'n ddwyieithog yn sgil gwahanol ddylanwadau ieithyddol:

Rhys, 9 oed: Bachgen sydd wedi ei fagu mewn cymuned lle mae'r mwyafrif yn siarad Cymraeg yw Rhys, ac mae'n mynychu ysgol lle mae nifer helaeth o'r plant yn dod o gartrefi lle mae'r rhieni yn siarad Cymraeg. Ei ffrind pennaf yw Huw, sy'n dod o gartref lle mae pawb yn siarad Cymraeg, ond mae ei gymdigion ar y stryd lle mae'n byw yn dod o gartrefi di-Gymraeg.

Bethan, 9 oed: Mae Bethan yn dod o gartref lle mae'r fam yn siarad Cymraeg a'r tad yn siarad Saesneg. Mae ganddi ddwy chwaer hŷn sy'n siarad Cymraeg gan amlaf, ond yn defnyddio cryn dipyn o Saesneg hefyd. Maen nhw'n mynychu ysgol lle mae hanner y plant yn dod o gartrefi Cymraeg a hanner yn dod o gartrefi di-Gymraeg. Ymysg ffrindiau Bethan mae'r rhelyw yn dod o gartrefi di-Gymraeg.

Liam, 9 oed: Cafodd Liam ei fagu yn Lloegr nes ei fod yn 6 oed. Ers i'r teulu ddod i Gymru mae Liam wedi bod yn mynychu yr ysgol leol cyfrwng Cymraeg mewn ardal lle mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn ddi-Gymraeg. Erbyn hyn, mae tad Liam wedi cychwyn dysgu Cymraeg hefyd ac yn ceisio defnyddio rhywfaint o'r Gymraeg gyda Liam yn y cartref.

DADANSODDI A DEALL

Edrychwch eto ar y diffiniadau yn Nhabl 1, a cheisiwch eu perthnasu i sefyllfaoedd ieithyddol Rhys, Bethan a Liam.

Pa ddiffiniad(au) o Dabl 1 sy'n berthnasol i sefyllfa Rhys, Bethan a Liam yn awr?

Pa ddiffiniad(au) o Dabl 1 sy'n debygol o fod yn berthnasol i Rhys, Bethan a Liam pan fyddant yn eu harddegau ac yn oedolion? Pa ffactorau fydd yn debygol o ddylanwadu ar hyn?

(Er mwyn ateb y cwestiwn hwn dylech yn gyntaf ystyried pa blentyn – Rhys, Bethan ynteu Liam – sydd â chefnidir iaith fwyaf tebyg i'ch eiddo chi. Ac ystyried eich profiadau chi eich hun a'r hyn a wyddoch am unigolion eraill, ceisiwch feddwl beth fydd taith ieithyddol bosib y tri phlentyn fel y maent yn aeddfedu ac yn cael profiadau eraill.)

6. CRYNODEB

Yn y bennod hon rydym wedi amlygu’r cymhlethdodau sydd ynghlwm â diffinio dwyieithrwydd, gan nodi rhai o’r gwahanol sefyllfaoedd sy’n caniatáu i unigolion ddatblygu’n siaradwyr dwyieithog. Rydym wedi amlygu dau brif ffactor – amseru a sgîl – sydd yn cael eu defnyddio i bennu pa fath o siaradwr dwyieithog yw unigolyn, â’r ddau ffactor yn gweithredu ar gontinwwm. Ar un pegwn i’r continwwm amser mae unigolion sydd wedi eu hamlygu i ddwy iaith o’r crud, ac ar y pegwn arall mae unigolion sy’n ychwanegu ail iaith drwy hyfforddiant ffurfiol a hwythau’n oedolion. Ar un pegwn i’r continwwm sgîl mae unigolion nad oes ganddynt wybodaeth ddigonol o’u dwy iaith ac ar y pegwn arall mae unigolion sydd yn gwbl rhugl yn y ddwy iaith. Dylid cydnabod fan hyn bod y diffiniadau hyn hefyd yn newid dros amser, yn ddibynnol ar brofiadau’r unigolyn. Ond yn bwysicach na dim, mae’r bennod hon wedi amlygu’r broblem o orsymleiddio’r term *dwyieithrwydd*, ac yn tanlinellu’r angen i chi feddwl yn benagored am y term drwy weddill y llyfr.

GWAITH DARLLEN ALLWEDDOL

Bhatia, T. J. a Ritchie, W. C. (2012). *The Handbook of Bilingualism and Multilingualism*, 2il argraffiad. Rhydychen: Wiley-Blackwell.

Edwards, J. (2012). *Multilingualism: Understanding Linguistic Diversity*. Llundain: Continuum.

Grojean, F. (2010). *Bilingual: Life and Reality*. Cambridge, MA: Havard University Press.

Wei, L. (2007). *The Bilingualism Reader*. Llundain: Routledge.

[*Mae’r uchod yn rhoi cyflwyniad da i’r darllenydd o hyd a lled dwyieithrwydd a’i berthnasedd yng nghyd-destun ehangach amlieithrwydd*]

Ateb i’r Cwestiwn ac Ateb:

Mae nifer o’r diffiniadau yn canolbwyntio ar pryd yn union y mae’r unigolyn yn dysgu neu’n dod i gysylltiad ag un iaith neu’r llall. Mae eraill yn talu mwy o sylw i ruglder ieithyddol y siaradwr, gan amlaf yn ei ‘ail’ iaith (neu yn yr iaith sy’n ychwanegiad at iaith yr aelwyd) tra bod un neu ddau’n talu sylw i effaith ychwanegu iaith ar sgiliau’r siaradwr yn ei iaith gyntaf. (Yn achos *additive bilingual*, mae’r ychwanegiad hwn yn un cadarnhaol, ond yn achos *subtractive bilingual* mae’r ychwanegiad hwn yn llai ffafriol.) Weithiau, mae’r diffiniadau’n cyfeirio at ruglder neu sgiliau’r siaradwr mewn peuoedd gwahanol (darllen, deall, siarad, ysgrifennu). Dro arall, ceir cyfeiriad at agwedd yr unigolyn at siarad un iaith yn benodol, tra bod eraill yn nodi pwysigrwydd cyfleoedd i ddefnyddio iaith ac yn diffinio dwyieithrwydd yn ôl eu defnydd o’u dwy iaith.

PENNOD 3

Datblygu Dwy Iaith

1. CYFLWYNIAD

Mae clywed dwy iaith (neu fwy) yn ein hamgylchedd ieithyddol yn hynod gyffredin dros wledydd y byd. Mae bod yn ddwyieithog mewn un ffordd neu'r llall yn fwy o 'norm' nag unrhyw batrwm arall. Drwy gael mewnbwn ieithyddol o ddwy iaith wahanol, caiff plant sy'n cael eu magu mewn cymunedau dwyieithog neu amlieithog eu cyflwyno i ddwy GYSTRAWEN (*syntax*), sef y rheolau sy'n tanlinellu beth yw trefn geiriau mewn unrhyw un iaith; dwy system FFONOLEGOL (*phonology*), sef y rhwydwaith o batrymau seinegol sy'n peri i un iaith swnio'n wahanol i iaith arall; dwy system FORFFOLEGOL (*morphology*), sef y rheolau sy'n tanlinellu sut mae geiriau'n cael eu ffurfio, e.e. y lluosogion *-au* ac *-i* mewn geiriau lluosog fel *cadeiriau* a *peili*; dwy eirfa, neu ddwy LECSICON (*lexicon*), sef geiriaduron y meddwl lle cedwir yr holl eirfa y mae unigolyn yn ei hadnabod, etc. Tasg y plentyn yw darganfod, ymysg y plethora o elfennau a deflir ato yn y mewnbwn ieithyddol cymysg y mae'n ei glywed, bod dwy iaith ar gael. Er mwyn gwneud hynny rhaid adnabod pa elfennau sy'n perthyn i'w gilydd, sut maen nhw'n perthyn, pa elfennau sy'n cael ymddangos gyda'i gilydd, ym mha drefn, pa ystyr maen nhw'n ei chyfleu pan fyddant yn y drefn honno, pa bryd y mae'n bosib cymysgu elfennau o un iaith i'r llall, a pha iaith neu arddull arbennig o ba iaith sy'n berthnasol mewn sefyllfa arbennig, etc. Nid yw hynny'n dasg hawdd. Er hynny, mae miloedd ar filoedd o blant yn llwyddo yn hynny o beth, a hynny'n gymharol ddiymdrech mewn nifer helaeth o achosion.

Un o'r canfyddiadau damcaniaethol mwyaf dylanwadol ym maes dwyieithrwydd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf yw bod perthynas amlwg rhwng yr amser y mae plentyn yn ei dreulio yn clywed ac yn defnyddio iaith a llwyddiant y plentyn i gaffael agweddau ar yr iaith honno. Er nad yw'r canfyddiad hwn i'w weld yn un nodedig iawn ar yr olwg gyntaf (h.y. y cysyniad 'po fwyaf yw *x*, y gorau yw *y*'), a dylid cydnabod hefyd rôl amlwg ffactorau sosioieithyddol sydd hefyd yn cael dylanwad mawr (gweler Pennod 8), mae'n herio nifer o ragdybiaethau sylfaenol am y broses o gaffael iaith, fel y gwelwn yn nes ymlaen yn y bennod. Ond mae'r plentyn dwyieithog, ar gyfartaledd, yn cael llai o amlygiad i unrhyw un iaith na'r plentyn uniaith, a thra bod plant uniaith a phlant dwyieithog yn rhannu nifer o nodweddion iaith yn gynnwys iawn, mae nifer o fân wahaniaethau ar draws y ddau grŵp sydd yn gwbl naturiol ac yn bwysig eu cydnabod a'u trafod mewn modd cadarnhaol. Bydd y bennod hon, felly, yn mynd i'r afael â phatrymau caffael iaith drwy fanylu ar gaffael iaith yn gyffredinol i gychwyn, gan fynd ymlaen i ffocysu'n benodol ar batrymau caffael iaith y siaradwr dwyieithog a'r berthynas rhwng y patrymau hynny a medredd ieithyddol y siaradwr hwnnw maes o law.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

- : Sut, yn eich barn chi, mae plant yn dysgu iaith?
 - : Pa agweddau ar iaith y mae plant yn eu meistrolï gyntaf?
 - : Sut wnaethoch chi ddysgu Cymraeg a Saesneg? Oedd y 'broses' (y 'sut') yr un fath ar gyfer y ddwy iaith ynteu oedd y broses yn wahanol? Pam?
- Cadwch eich syniadau'n ddiogel – byddwn yn dychwelyd atynt yn nes ymlaen yn y bennod.*

2. DAMCANIAETHAU DATBLYGIAD IAITH

Mae nifer o unigolion wedi pendroni ynghylch sut mae plant yn caffael iaith. Gellir disgrifio damcaniaethau caffael iaith – h.y. yr ymgais i esbonio sut mae plant yn dysgu iaith – fel rhai sydd ar ddau begwn gwahanol. Ar y naill begwn ceir damcaniaethau a elwir yn ddamcaniaethau *ffurfiol*, ac ar y pegwn arall ceir damcaniaethau a elwir yn ddamcaniaethau *ymarferol*. Y prif

wahaniaeth rhyngddynt, yn gyffredinol, yw bod damcaniaethau ffurfiol â'u bryd ar esbonio *iaith* tra bo'r damcaniaethau ymarferol â'u bryd ar esbonio *cyfathrebu* (Bialystok 2001). Hynny yw, mae damcaniaethau ffurfiol yn ceisio dehongli iaith o ran y strwythurau haniaethol hynny sy'n sylfaen i'r iaith tra bo'r damcaniaethau ymarferol yn ymdrechu i ddeall iaith o fewn y cyd-destunau hynny lle mae'n cael ei defnyddio.

(i) *Damcaniaethau ffurfiol*

Yr ieithydd (a'r ymgyrchydd gwleidyddol enwog) Noam Chomsky oedd y gŵr a luniodd y brif agwedd ddamcaniaethol o du'r syniadaethwyr ffurfiol yn ôl yn y 1950au, drwy gynnig model GRAMADEG CYNHYRCHIOL TRAWSNEWIDIOL (*Transformational Generative Grammar*) (Chomsky 1957) ac, yn fwy diweddar, MINIMALIAETH (*minimalism*) (Chomsky 1995). Dyma'r safbwynt sy'n cynnig bod y baban yn cyrraedd y byd â'i wybodaeth ieithyddol yn barod yn ei ben. Gelwir y safbwynt yma'n gyffredinol yn SAFBWYNT CYNHENIDOL (*nativist position*). Bu ei syniadau gwreiddiol yn ddylanwadol iawn yn y maes am flynyddoedd lawer, a thrwy addasu ac ehangu ar y syniadau hynny, gan gadw at yr un gwreiddiau egwyddorol, mae'r gwaith wedi arwain at nifer o gynigion damcaniaethol eraill yn y maes.

Mae'n deg dweud mai prif nod Chomsky oedd datrys caffael iaith o safbwynt rhesymegol. Nid oedd â'i fryd ar geisio egluro sut yn union yr oedd y broses o ddysgu yn gweithio ym meddyliau'r plant. Gwaith diweddar Steven Pinker, a'i DDAMCANIAETH DYSG (*Learnability Theory*), sydd wedi cyfrannu fwyaf at yr agwedd honno o'r ddamcaniaeth wreiddiol. Ond waeth pa ogwydd newydd neu addasiad arbennig o'r gwreiddiol a geir mewn rhai fersiynau gwahanol o'r syniadaeth hon, mae'r damcaniaethau ffurfiol oll yn rhannu'r un nodweddion sylfaenol:

- (i) Mae iaith yn cael ei hystyried yn fodiwl **cwbl ar wahân** i unrhyw weithred wybyddol arall yn yr ymennydd. (Yn ôl Reber 1995, modiwl = 'A hypothesized, relatively circumscribed cognitive or perceptual faculty': 465.) Hynny yw, ceir rhan benodol o rwydwaith niwral yr ymennydd sydd yn bennaf cyfrifol am iaith.
- (ii) Mae iaith yn deillio o RAMADEG CYFFREDINOL (*Universal Grammar*) – set ragnodedig o reolau sy'n **gynhenid** (*innate*) i'r meddwl dynol ac yn gyffredin i nifer o ieithoedd, ac sy'n cael ei rheoli gan DDYFAIS CAFFAEL IAITH (*Language Acquisition Device*).
- (iii) Mae iaith yn cael ei chynrychioli yn y meddwl fel **set o wybodaeth haniaethol** ynglŷn â strwythur yr iaith. Hynny yw, drwy fodolaeth Gramadeg Cyffredinol, dim ond y mymryn lleiaf o amlygiad i iaith sydd ei angen er mwyn sbarduno'r broses o danio'r nodweddion ieithyddol priodol o fewn y strwythur haniaethol – nodweddion sy'n berthnasol i'r iaith dan sylw – sy'n golygu bod gwybodaeth plant o iaith yn fiolegol-systemataidd ac yn gaeth i reolau o'r cychwyn cyntaf (gweler, e.e., Pinker 1999).

I Chomsky a'i ddilynwyr, dyma oedd yr eglurhad gorau ar gyfer esbonio gwyrth caffael iaith. Fel y dywedodd Chomsky ei hun:

Language learning is not really something that the child does; it is something that happens to the child placed in an appropriate environment, such as the child's body grows and matures in a predetermined way when provided with appropriate nutrition and environmental stimulation (Chomsky 1978: 519; o Hoff 2001: 14).

Yn ôl Chomsky, roedd yn rhaid i iaith fod yn gynhenid gan nad oedd disgwyl i blant ddyfalu ac adeiladu strwythur ieithyddol cymhleth o'u mewnbwn ieithyddol. Nid yw'r mewnbwn hwnnw fyth yn ddigonol nac yn ddigon cywrain o ran ei ddefnydd (sef DADL GWENDIDAU'R MEWNBWN – *poverty of the stimulus argument*). At hynny, roedd y dystiolaeth a fodolai ar y pryd yn honni mai anaml iawn y câi plentyn ei gywiro pan fyddai'n camddefnyddio strwythur gramadegol (yr hyn a elwid yn DDIFFYG TYSTIOLAETH NEGyddol – *no negative evidence*). (Erbyn hyn, fodd bynnag, gwyddom fod mewnbwn ieithyddol i blant yn llawer llai cymhleth (brawddegau byrrach, ynganiadau arafach, pwysleisio geiriau, etc.) ac yn fwy cyflawn nag a dybiwyd yn y 1950au, ac mae ymchwil

fwy diweddar wedi dangos bod plant yn cael adborth ar eu defnydd o iaith (drwy gael eu cywiro, drwy ofyn iddynt ailadrodd, etc.) ond efallai nad i'r un graddau ag y mae'r damcaniaethwyr ffurfiol yn ei dybio sy'n angenrheidiol ar gyfer iaith.) Yn ôl yr agwedd hon, roedd y syniad bod gennym *Ddyfais Caffael Iaith* i hyrwyddo'r broses o gaffael iaith yn ffordd o egluro gallu'r plant i ddelio â gwendidau'r mewnbwn, tra bo'r syniad o ramadeg cyffredinol yn egluro gallu pob plentyn bron i gaffael iaith yn gywir, ac yn gymharol ddiymdrech (Pinker 1994) er gwaetha'r diffyg tystiolaeth negyddol.

Elfen arall o dystiolaeth a roddodd gefnogaeth i'r syniadaeth yma oedd tueddiadau plant ifanc i OR-REOLEIDDIO (*over-regularisation*) rhai ffurfiau gramadegol. Er enghraifft, clywir yn aml blant Saesneg yn defnyddio *goed* yn hytrach na *went* (e.e. Theakston, Lieven, Pine a Rowland 2002). Dyma enghraifft amlwg o orddefnyddio rheol nodi amser gorffennol y ferf drwy ychwanegu *-ed* at ffurfiau afreolaidd. Yr eglurhad am hyn, yn ôl y farn Chomskyaid, oedd bod ymennydd plant yn cymryd bod y rheol a ddaw o'r gramadeg cyffredinol sy'n sail i'w hiaith yn un reolaidd, ac yn ei defnyddio ar gyfer pob gair hyd nes eu bod yn adnabod eithriadau.

Ond, fel ym mhob maes arall, mae dwy ochr i'r geiniog, a mwy nag un ffordd o ddamcaniaethu am yr un ffenomen.

(ii) *Damcaniaethau ymarferol*

Tra bo'r damcaniaethwyr ffurfiol yn honni bod iaith yn bodoli'n barod fel rhyw storfa haniaethol o wybodaeth o'r crud, mae grŵp arall o ddamcaniaethwyr, a elwir yn DDAMCANIAETHWYR YMARFEROL (*functional theorists*), yn gweld iaith fel cynnyrch a ddatblygir yn sgil rhyngweithiadau cymdeithasol a datblygiad gwybyddol. Fel y dywed Bialystok (2001: 50),

Language is, in part, a formal system, and the formal theories are fine-tuned to capture that aspect. But language is also a social tool, and the functional theories exploit that feature.

Fel yn achos y damcaniaethau ffurfiol, mae'r grŵp o ddamcaniaethau sy'n cael eu hystyried yn ddamcaniaethau ymarferol oll yn rhannu'r un nodweddion:

- (i) Mae iaith yn cael ei hystyried yn ***rhan o wybyddiaeth***, ac yn ddibynnol ar wahanol elfennau o wybyddiaeth ar gyfer ei strwythur, ei hystyr a'i defnydd (Bialystok 2001), yn hytrach na bod yn fodiwl ar ei ben ei hun.
- (ii) Mae plant yn adeiladu iaith o'r ***mewnbwn ieithyddol*** y maen nhw'n ei gael wrth ryngweithio ag eraill ar lefel gymdeithasol (e.e. Tomasello 2000, 2003). Gall yna fod rai elfennau gwybyddol, sy'n gyffredin i bawb, yn helpu i arwain y broses, ond mae'r pwyslais yn amlwg ar egluro datblygiad strwythurau ieithyddol o safbwynt y mewnbwn arbennig y mae'r plentyn yn ei gael yn ei amgylchedd.
- (iii) Mae iaith (fel 'rheolau ieithyddol', pan fyddant yn bodoli) yn cychwyn fel ***rhestrau penodol o wybodaeth*** sy'n ***berthnasol i gyd-destun*** (*contextually bound*). Er enghraifft, mae defnydd cynnar plant Saesneg o ferfau yn gaeth i rai patrymau penodol yn ddibynnol ar yr enwau sy'n rhan o'r ymadrodd – e.e. gall rhai berfau fod yn cael eu defnyddio mewn un cyd-destun yn unig (*Eat X* ond nid *Eat to X*), tra bod eraill yn cael eu defnyddio mewn mwy nag un (*Drink X*, *Drink to X*), etc. (gweler Tomasello 1992 a'i HYPOTHESIS BERFAU YNYSIG – *Verb Island Hypothesis*).

Crynoir y farn gyffredinol sy'n nodweddu syniadaethau'r damcaniaethwyr ymarferol yn y dyfyniad hwn:

We on the other side think that learning language is a long slog, which requires from the child a lot of work. And the child is working as hard as he can, fifteen, sixteen hours a day. We think it requires a relationship with an adult, and a whole set of cognitive abilities (Snow, dyfynnwyd yn Rymer 1993: 37; o Hoff 2001: 14–15).

I gymhlethu'r stori, ceir nifer o wahanol ddamcaniaethau sy'n dod o dan ymbarél damcaniaethau ymarferol. Ymhlith y damcaniaethau hynny ceir GRAMADEG GWYBYDDOL (*Cognitive Grammar*), sy'n ffordd gwbl wahanol o edrych ar iaith fel rhan annatod o wybyddiaeth ehangach, ac yn cydnabod effaith profiad ieithyddol a chymdeithasol (a chyfathrebol) yn natblygiad iaith y plentyn. Ond, tra bo'r ddamcaniaeth hon yn esgeuluso rheoleidd-dra cynhenid a geir ym mhob (ac ar draws pob) iaith, mae'r ddamcaniaeth GRAMADEG ADEILADOL (*Construction Grammar*) yn llwyddo i blethu'r naill begwn â'r llall, sef dylanwad cymdeithasol a gwybyddol ar strwythur y gramadeg ei hun. (Gweler hefyd Thomas a Mayr 2010 am drosolwg.)

Syniadaeth ddamcaniaethol boblogaidd arall yw CYSYLLTIADAETH (*Connectionism*) (y'i gelwir hefyd yn BROSESU YMRANNOL PARALEL – *parallel distributed processing*), sy'n gweld adeiladedd y meddwl dynol fel rhyw fath o rwydwaith o gysylltiadau rhwng unedau prosesu sy'n adnabod rheoleidd-dra yn yr amgylchedd. Mae syniadaeth o'r fath yn gweld pwysigrwydd mawr y mewnbwn i'r broses o ddysgu:

In a connectionist explanation of language acquisition, the language in the environment is the input to the system and the output is the organization of this information into something that resembles a structured grammar (Bialystok 2001: 48).

Un o'r modelau mwyaf adnabyddus o fewn ymchwil iaith yw'r MODEL CYSTADLEUOL (*Competition Model*) a ddatblygwyd gan Bates a MacWhinney (1989). Yn ôl y model hwn, mae gan wahanol giwiau o fewn yr iaith wahanol lefelau o ddilysrwydd, ac mae cryfder y ciw yn dibynnu ar ddibynadwyedd y ciw. Wrth ddysgu iaith, mae plant yn datblygu patrwm o ymateb i'r ciwiau hyn, a'r patrymau hyn sy'n bodoli fel gramadeg yr iaith. Drwy dalu sylw i'r ciwiau hyn mae modd adnabod patrymau ac adeiladu strwythur. A dyma lle mae amllder mewnbwn, yn enwedig yn achos plant dwyieithog, yn hollbwysig. Os oes angen i'r ymennydd dalu sylw i fân giwiau a mân batrymau oddi mewn i wahanol agweddau ar ramadeg iaith, mae amlygiad digonol i iaith er mwyn cael amlygiad digonol i'r mân batrymau hynny yn hanfodol, ac efallai ddim wastad yn bosib ym mhob sefyllfa amlieithog.

Mae'r disgrifiadau uchod, wrth gwrs, yn dangos gwahanol safbwyntiau eithafol ac mae safbwynt rhai damcaniaethwyr yn hofran uwch y ddau begwn gan beri iddynt wrthwynebu'r syniad ymrannol 'un neu'r llall'. Gelwir y damcaniaethau a ddaw o syniadaeth o'r fath yn DDAMCANIAETHAU RHYNGWEITHIOL (*interactionist theories*).

(iii) Damcaniaethau rhyngweithiol

Roedd Bruner (1983) ymysg y cyntaf i gynnig cytgordd rhwng y naill begwn a'r llall, gan gynnig y gall y Ddyfais Caffael Iaith fodoli ochr yn ochr â'r hyn a elwid yn *Language Acquisition Support System* (LASS), neu yn y Gymraeg CYFUNDREFN CEFNOGI CAFFAEL IAITH, sef y strwythurau cymdeithasol, rhyngweithiol a gwybyddol hynny sy'n caniatáu i iaith flodeuo, ac y gall y naill ddylanwadu ar y llall.

Cynigiodd Locke (1993) fod dwy elfen hynod bwysig o fewn ein gallu i brosesu gwybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer caffael iaith. Y gyntaf o'r rhain oedd MODIWL DADANSODDI GRAMADEG – MDG (*grammatical analysis module*). Yr ail oedd arbenigaeth mewn GWYBYDDIAETH GYMDEITHASOL – GG (*social cognition*). Ac ystyried y tri ffactor sy'n gwahaniaethu rhwng y damcaniaethau ffurfiol ac ymarferol a ddisgrifir uchod, gellir gweld bod ei syniadaeth o yn cwmparu syniadaeth y damcaniaethau ffurfiol a'r damcaniaethau ymarferol. Hynny yw, mae'n honni bod rhywfaint o iaith yn fodwlar ac arbenigol (yn rhan annibynnol o'r ymennydd), ond yn cynnig hefyd bod prosesu ieithyddol yn gofyn am ddealltwriaeth a sensitifrwydd cymdeithasol/rhyngweithiol ac felly ddim yn gwbl annibynnol. Mae'n gweld pwrpas i'r mewnbwn er mwyn siapia'r elfennau hynny nad ydynt yn fodwlar (annibynnol), ond yn gweld bod y newyllyn – gan gynnwys y GG – yn gyffredinol (ar gael i bawb) ac yn awtomatig.

Er bod y drafodaeth ynglŷn â sut yn union mae plant yn dysgu iaith yn parhau, mae Bialystok (2001) yn crynhoi pwysigrwydd y weledigaeth gynhwysol fel a ganlyn:

Children come to language learning as biological beings with distinctively human brains, interacting in a social context, and receiving massive linguistic input. Surely, all these features contribute to language acquisition... (Bialystok 2001: 31).

DADANSODDI A DEALL

Ewch yn ôl at eich syniadau chi ynghylch sut mae plant yn dysgu iaith.
A oedd eich syniadau chi, neu rannau penodol o'ch meddwl, yn ymdebygu'n fwy i un garfan ddamcaniaethol neu'r llall?
Os oeddent, pa garfan ddamcaniaethol oedd eich syniadau chi'n ymdebygu iddi fwyaf? Pam?
Ac ystyried y drafodaeth uchod, a yw eich syniadau wedi newid fymryn neu a fu dylanwadau gwahanol arnynt o gwbl? Pam?

3. PATRYMAU CAFFAEL IAITH YMHLITH SIARADWYR DWYIEITHOG

Un nodwedd sy'n cael ei hamlygu'n aml iawn ym maes seicoieithyddiaeth yw bod patrwm caffael iaith plant dwyieithog a phlant uniaith yn debyg iawn, yn enwedig o ran trefn meini prawffllwyddiant. Cychwynna pob plentyn drwy gynhyrchu seiniau a ddisgrifir fel CŴAN (*cooing*), sef y synau cynnar y mae babanod yn eu cynhyrchu pan fyddant yn fodlon eu byd, gan amlaf drwy seinio llafariad. Gydag aeddfeddiad cyhyrau'r geg a'r dafod a'r ymennydd, daw babanod bach i fedru BALDORDDI (*to babble*), sef cyfuno llafariad a chytseiniaid. Ymysg y cynharaf o'r patrymau hyn mae *ma-ma-ma* a *da-da-da* – arwydd syml o ymarfer iaith sydd yn aml yn cael ei gamgymryd fel enghraifft gynnar o ddweud *mam* neu *dad*! Ond ymarfer iaith yn unig yw hyn, ac mae'r ffaith bod plant sy'n fyddar hefyd yn baldorddi yn yr un ffordd yn dystiolaeth bellach o hynny. Fel mae'r plentyn yn cael mwy a mwy o amlygiad i iaith, daw'r patrymau hyn yn fwy amrywiol gan ymdebygu'n gynyddol i iaith yr amgylchedd. Daw'r ynganiadau'n gyfuniadau seingol penodol (e.e. *ba-da-ga-dag*) ac yn ynganiadau sy'n adlewyrchu rhythmau sillafog yr iaith. Yn wahanol i'r cyfnod baldorddi cynnar, nid yw plant sy'n fyddar yn mynd drwy'r cyfnod mwy amrywiol hwn, a hynny gan nad yw'r seiniau a'r rhythmau penodol sy'n nodweddu iaith ar gael iddyn nhw. Yn dilyn y cyfnodau baldorddi, daw plant i gynhyrchu eu geiriau cyntaf, drwy labelu, gan amlaf, y pethau sydd fwyaf amlwg yn eu hamgylchedd (*mam, dad, potel, diod, clwt, pêl*, etc.). Mewn ieithoedd fel Saesneg a'r Gymraeg, mae'r rhan fwyaf o'r labelau hyn yn enwau gan fod oedolion o amgylch plentyn yn dueddol o labelu a thynnu sylw plant at wrthrychau o'u hamgylch yn amlach na'u disgrifio ar y cychwyn. Fel mae'r plentyn yn cyrraedd mäs critigol o rhyw 50 gair, mae'n cychwyn cyfuno geiriau a mathau o eiriau i fynegi ystyron amgenach – *mwy diod* (ga i fwy o ddiod); *côt dim cau* (tydi'r gôt ddim yn cau) vs. *dim cau côt* (paid â chau'r gôt).

Mae nifer o'r farn bod plant sy'n dysgu dwy iaith o'r crud yn dysgu nodweddion ieithyddol sy'n berthnasol i'r ieithoedd hynny'n gynnar, ac mae'r rhain yn cyd-fynd, yn gyffredinol, â'r patrymau a welir gan blant uniaith sy'n dysgu'r ieithoedd hynny (e.e. Genesee 2001; Deuchar a Quay 2000). Mae Bialystok (2001: 217) yn dyfynnu Romaine (1995) sy'n crynhoi fel a ganlyn:

The majority of studies seem to support the conclusion that the developmental sequence for the bilingual child is the same in many respects as for the monolingual.

Ond y man lle mae gwahaniaeth amlwg i'w ganfod rhwng y ddau grŵp o siaradwyr yw **pryd** mae plant yn llwyddo i gyrraedd rhai o'r meini prawff hynny. Gan fod plentyn dwyieithog, ar gyfartaledd, yn cael llai o amlygiad i unrhyw un iaith na'r plentyn uniaith, mae'n cynhyrchu ac yn adnabod llai o eirfa yn unrhyw un o'i ieithoedd na phlentyn uniaith ac yn dangos lefelau gwahaniaethol o sgiliau morffolegol. Er enghraifft, dangosodd Thomas, Williams, Jones, Davies a Binks (2014) fod gwahaniaethau mawr o ran gallu plant dwyieithog o wahanol gefndiroedd iaith (cartrefi iaith Saesneg, cartrefi cymysg Cymraeg-Saesneg a chartrefi iaith Gymraeg) i luosogi enwau yn y Gymraeg. Dangosodd Rhys a Thomas (2013) wahaniaethau o ran gallu plant dwyieithog o wahanol gefndiroedd iaith i adnabod geirfa yn Saesneg, gyda'r plant o gefndiroedd Cymraeg ac o gefndiroedd

cymysg yn adnabod llai o eirfa na phlant o gefndiroedd Saesneg. Mae’r patrymau hyn yn bwysig oherwydd bod cysylltiadau cryf rhwng sgiliau iaith cynnar plant, megis nifer y geiriau maen nhw’n gallu eu cynhyrchu, a’u sgiliau academaidd flynyddoedd yn ddiweddarach (Bleses, Makransky, Dale, Hojen ac Aktürk Ari 2016).

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: Ceisiwch edrych yn ôl ar eich plentyndod chi eich hun.

: Oedd patrwm eich datblygiad yn y ddwy iaith yr un fath neu’n wahanol? Beth oedd yr un fath a beth oedd yn wahanol? Pam?

: Beth am amseru – oedd y datblygiad yr un mor gyflym yn y ddwy iaith?


: Oeddech chi’n teimlo eich bod wedi meistrolïr ddwy iaith i’r un lefelau ar yr un pryd? Pam?

4. PAM Y GWAHANIAETHAU CYNNAR?

Mae nifer wedi ceisio esbonio pam y ceir gwahaniaethau cynnar rhwng datblygiad geirfa a datblygiad morffolegol plant dwyieithog a phlant uniaith, ac mae’r damcaniaethau mwyaf tebygol fel a ganlyn:

O ran geirfa, mae gwybodaeth unigolyn am eirfa wedi ei ‘rhannu’ ar draws dwy iaith y siaradwr dwyieithog (yr hyn y cyfeirir ato fel NODWEDD DDOSRANNOL (*Distributed Characteristic*) y siaradwr dwyieithog gan Oller a’i gyd-weithwyr; gweler e.e. Oller 2005).

Ystyriwch y ffigur isod. Dyma ddarlun syml iawn o eirfa siaradwr dwyieithog. Mae gan y siaradwr dwyieithog set o eirfa yn y naill iaith a’r llall gyda rhai o’r geiriau hynny ar gael yn y ddwy iaith. Hynny yw, bydd gan y siaradwr weithiau labelau am bethau yn Iaith A yn unig; dro arall, bydd ganddo labelau ar gyfer pethau yn Iaith B yn unig; a dro arall eto bydd ganddo labelau am bethau yn y ddwy iaith.



Ond pam mai felly y mae storfeydd geirfa’r siaradwr dwyieithog? Ni fydd siaradwr dwyieithog fyth yn gwario 100% o’i amser yn clywed ac yn defnyddio un iaith; rhaid iddo rannu’r amser pan fydd yn effro yn clywed, prosesu, cadw, adalw a chynhyrchu dwy system ieithyddol, nid un. Yn aml iawn, bydd un neu’r llall o’r ieithoedd hynny yn gaeth i gyd-destun arbennig, megis Saesneg yn unig yn y cartref a Chymraeg (a Saesneg) yn yr ysgol, ac mae caffael geiriau yn gofyn am broses o ddysgu tameidiog, gair wrth air, gan fod rhaid i unigolyn ddod ar draws gair os ydyw am ei ddysgu. Os nad yw plentyn wedi clywed gair am x yn Iaith A mewn cyd-destun penodol, nid oes disgwyl iddo wybod beth yw’r gair yn yr iaith honno – e.e. os nad yw’r plentyn yn trafod hafaliadau yn Saesneg o gwbl yn yr ysgol (na thu hwnt i’r ysgol), nid oes disgwyl iddo fod yn ymwybodol mai’r term Saesneg am *hafaliad* yw *equation*. Yn yr un modd, os nad yw’r plentyn wedi clywed y gair Cymraeg am *rake*, nid oes disgwyl iddo wybod mai’r gair Cymraeg am *rake* yw *cribin*. Ond wrth i’r plentyn gael profiadau amgenach a chael y cyfle i drin a thrafod a darllen am wahanol gysyniadau yn ei ddwy iaith, mae’n datblygu geirfa gyfystyr yn y ddwy iaith – *hafaliad* ac *equation*, *rake* a *cribin* – ac

yn dysgu am hyd a lled yr ystyron sydd ynghlwm â'r geiriau hynny. Gydag amser, felly, bydd y storfa o eiriau cyfystyr yn y ddwy iaith yn ehangu tra bo'r storfeydd geirfa uniaith yn lleihau.

O ran morffoleg (sef rheolau gramadegol sy'n ymwneud â strwythur geiriau) mae'n cymryd yn hwy i gyflawni'r hyn a elwir gan Maratsos (2000) yn FÀS CRITIGOL (*critical mass*) o amlygiad i iaith mewn unrhyw un iaith sy'n angenrheidiol er mwyn gallu adnabod ffactorau cyson oddi mewn i'r iaith a chyffredinol patrymau mewn modd cynhyrchol. Defnyddir y term *màs critigol* i gyfeirio'n fympwyl at y 'talp' o amlygiad sydd ei angen (o ran amllder yr amlygiad yn yr achos hwn) fel bod yr ymennydd wedi cael digon o enghreifftiau i fedru adnabod patrymau penodol. Hynny yw, os ystyrir y meddwl fel rhyw fath o gyfrifiadur, rôl y cyfrifiadur hwnnw yng nghyd-destun iaith yw prosesu mewnbwn iaith ac adnabod cysondeb o ran patrymau er mwyn datblygu set o reolau yn seiliedig ar y patrymau hynny.

Ond y neges gadarnhaol yw, cyn gynted ag y bydd y *màs critigol* wedi ei gyflawni, dylai/gall y gwahaniaethau rhwng plant dwyieithog ac uniaith ddiflannu, os yw'r amgylchiadau'n rhai ffafriol o ran defnydd ac argaeledd iaith. Fodd bynnag, mae cyrraedd y *màs delfrydol* er mwyn i'r ymennydd gyfrifo patrymau micro iaith yn gallu bod yn her mewn iaith leiafrifol. Yn achos ieithoedd nad ydynt i'w clywed yn aml yn amgylchedd plentyn, gall unrhyw gynnydd fod yn araf, yn enwedig ar gyfer strwythurau mwy cymhleth, a gall y diffyg mewnbwn i'r iaith arwain at gaffaeliad rhannol, neu ddiffyg caffaeliad o gwbl, mewn rhai achosion:

In the case of bilinguals with less optimal exposure to the language, the late timing of acquisition for more opaque and more complex structures raises the question of whether some extremely opaque structures... may ultimately be timed 'off the map' for acquisition (Gathercole a Thomas 2005: 871).

Yn gyffredinol, mae'r gwahaniaeth rhwng siaradwyr uniaith a siaradwyr dwyieithog yn debygol o barhau'n hwy o ran eu hadnabyddiaeth o eirfa nag o ran eu hymwybyddiaeth ramadegol. Fel y nodwyd uchod, rhaid dod ar draws gair er mwyn ei adnabod/defnyddio, ac felly bydd geirfa pob unigolyn – ym mhob iaith – yn unigryw. O ran gramadeg, set gaeedig o reolau sydd, ac nid yw'r rheolau hyn yn wahanol i neb. Cyn gynted ag y bydd yr ymennydd wedi adnabod patrwm mae'r 'rheol' wedi ei chaffael a gall siaradwr gynhyrchu faint bynnag o gyfuniadau o'r rheol honno ag y bydd ei eirfa yn ei ganiatáu. Er enghraifft, ar ôl amlygiad digonol i'r Gymraeg, bydd yr ymennydd yn dod i gasgliad bod ansoddair, sef gair sy'n disgrifio enw, yn dilyn yr enw (sef y label ar gyfer y peth) bron yn ddieithriad – *tŷ mawr*, *cath fach*, *ci llwyd*, *dynes annifyr*, etc. Gall unigolyn gynhyrchu faint bynnag o ynganiadau ag y mae'n dymuno o fewn y strwythur enw + ansoddair, cyn belled â bod yr enw'n enw a'r ansoddair yn ansoddair. Ond mae adeiladu rheolau yn lled-ddibynnol ar amllder yr iaith yn eu hamgylchedd, yn enwedig mewn iaith leiafrifol (gweler, e.e., Thordardottir 2011; Thordardottir et al. 2006; Thomas et al. 2014). Gall hyn ddylanwadu'n negyddol ar strwythurau sy'n gymhleth (nifer o ffurfiau afreolaidd, ciwiau aneglur, dim cysylltiad clir rhwng ffurf a strwythur gramadegol gair) a strwythurau sydd efallai'n newid (yn symleiddio neu'n newid yn gystrawennol) o dan ddylanwad iaith fwyafrifol. Yn yr achosion mwyaf andwyol, gall hyn arwain at yr hyn y mae Montrul (2008) yn cyfeirio ato fel CAFFAELIAD ANGHYFLAWN (*incomplete acquisition*):

When language exposure and use is reduced in childhood, the grammatical system of bilingual children in either language, and in some cases of their family language, can be dramatically compromised, especially at the level of morphosyntax (Montrul 2008: 93).

Hyd yn oed mewn sefyllfaoedd iaith fwyafrifol y gymuned, lle ceir llai o wahaniaethau ar draws gwahanol grwpiau o siaradwyr, mae rhuglder ac hadnabyddiaeth o eirfa yn yr iaith fwyafrifol yn gysylltiedig â defnydd, hyd yn oed ymysg oedolion rhugl (Bialystok a Luk 2012).

Nid oes sicrwydd, felly, bod cynnydd mewn gwybodaeth ieithyddol yn digwydd yn awtomatig, yn enwedig mewn cyd-destun lle nad oes amlygiad digonol i strwythurau cymhleth iaith – tystiolaeth bellach fod rôl hanfodol i fewnbwn o fewn y broses o gaffael iaith.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: Ac ystyried eich profiadau chi, oedd yna wahaniaethau o ran amllder y mewnbwn ieithyddol yr oeddech chi'n ei gael yn eich dwy iaith?

: Oedd y gwahaniaethau hynny'n dylanwadu ar eich datblygiad iaith (patrwm y datblygiad, cyflymder, rhuglder, hyder, etc.) o ran siarad, deall, darllen ac/neu ysgrifennu?

: Edrychwch eto ar broffiliau iaith Rhys, Bethan a Liam.

: Beth yw'r gwahaniaethau pennaf o ran y mewnbwn iaith y mae'r tri'n ei gael?

: Ac ystyried yr hyn a drafodwyd uchod, pa batrymau datblygiad iaith penodol fydddech chi'n eu rhagweld ar gyfer y tri?

5. DATBLYGIAD DWYIEITHOG O'R CRUD

Fel y nodwyd eisoes ym Mhennod 2, mae sut a pham mae unigolyn yn dod yn siaradwr dwyieithog yn amrywio o un unigolyn i'r llall ac yn arwain at wahanol fathau o siaradwyr dwyieithog. O ran damcaniaethu ynghylch sut mae plentyn dwyieithog yn datblygu iaith, mae canran uchel iawn o'r llyfryddiaeth yn edrych ar blant sy'n datblygu dwy iaith o'r crud, neu o leiaf lle mae'r ddwy iaith yn cael eu caffael yn ystod y blynyddoedd cynnar. (Ceir set gwbl wahanol o ddamcaniaethau yn ceisio esbonio sut mae plant (ac oedolion) yn dysgu ail iaith (pan fo'r ail iaith wedi ei hychwanegu at yr iaith gyntaf yn hwyrach ymlaen yn natblygiad y plentyn) sydd y tu hwnt i ffocws y llyfr hwn.) Os yw plentyn yn dysgu dwy iaith o'r crud, mae'r plentyn hwnnw'n clywed ac yn derbyn dwy iaith yn ei amgylchedd ac angen storio, adalw, prosesu ac adnabod dwy iaith wahanol. Felly sut a phryd y mae'r plentyn yn gwahaniaethu rhwng y ddwy iaith?

Yn ôl Genesee a Nicoladis (2006), dylanwadwyd ar lawer o'r ymchwil ar ddatblygiad dwyieithog o'r crud gan y rhagdybiaeth bod y meddwl, ar y cychwyn, yn cynnwys un system o rwydweithiau niwral sy'n cynrychioli iaith (*unitary language system hypothesis*), sy'n cynnwys elfennau o'r ddwy iaith, a bod plant dwyieithog, i bob pwrpas, yn uniaith yn ystod cyfnod cynharaf eu datblygiad dwyieithog. Bu i Volterra a Taeschner ddylanwadu'n fawr ar y rhagdybiaeth hon, gan ddweud fel a ganlyn (1978: 312):

In the first stage the child has one lexical system which includes words from both languages... in this stage the language development of the bilingual child seems to be like the language development of the monolingual child... In the second stage, the child distinguishes two different lexicons, but applies the same syntactic rules to both languages.

In the third stage the child speaks two languages differentiated both in lexicon and syntax...

Daw'r rhelyw o'r dystiolaeth i gefnogi'r syniad bod plant dwyieithog yn cychwyn gydag un system o'r arsylwad bod cyfnewidiadau ieithyddol cynharaf plant yn ymddangos yn ansystemataidd (h.y. heb resymeg glir y tu ôl iddynt), a'u bod yn dod i wahaniaethu rhwng geirfa o'r naill iaith a'r llall erbyn eu bod yn cyrraedd 3 oed (e.e. Volterra a Taeschner 1978; Grosjean 1982; Vihman 1985; Redlinger a Park 1980). Yn fwy diweddar, fodd bynnag, mae mwy o ymchwil yn gwyro tuag at y syniad bod plant yn dysgu dwy system ieithyddol o'r crud (e.e. Meisel 1989; Genesee 1989; De Houwer 1990; Paradis a Genesee 1996; Hulk a Müller 2000; Döpke 2000a,b). Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod plant yn creu parau o eitemau o'r ddwy iaith (*translation equivalents*) – yr *hafaliad* ac *equation*, *rake* a *cribin* fel yn y ffigur uchod – i enwi gwrthrychau yn gynnwys iawn, o 10 mis oed yn ôl rhai (e.e. Deuchar a Quay 2000) ac o 17 mis yn ôl eraill (e.e. Lanvers 1999; Nicoladis a Secco 2000). Gyda rhai geiriau, efallai, ar ryw lefel, bydd y plentyn yn gwahaniaethu'n gynnil iawn rhwng y defnydd o'r naill air a'r llall – e.e. *more* i olygu 'swm' = eisiau llawer o rywbeth, a *mwy* i olygu 'rhagor'. Ond, yn amlach na pheidio, mae gan y plentyn ddau air ar gyfer yr un peth a'r un defnydd – e.e. *mummy/mama*, *hand/mano* (Deuchar a Quay 2000) – fel *afal* ac *apple* yn y ffigur uchod. Maent felly yn gyfarwydd â pharau gwahanol o eiriau sy'n cyfateb i wrthrychau sengl o'r cychwyn.

Cwestiwn naturiol sy'n codi fan hyn yw os yw'r ddwy iaith yn datblygu ar wahân, a ydyn nhw'n datblygu'n gwbl annibynnol ynteu a ydyn nhw'n dylanwadu ar ei gilydd yn ystod eu datblygiad. Dewch i ni ystyried hyn ymhellach.

6. DYLANWADAU TRAWSIEITHYDDOL

Er bod dwy system benodol yn datblygu o'r crud, mae'n anochel bod un iaith yn dod i gysylltiad â'r llall mewn rhyw ffordd ac ar ryw adeg neu'i gilydd. Yn gyffredinol, trafodir tri chanlyniad posib cysylltiad trawsieithyddol yn y maes seicoieithyddol: TROSGLWYDDIAD (*transfer*), HYRWYDDIAD (*acceleration*) ac OEDIAD iaith (*delay*) (Paradis a Genesee 1996). Cyfeirir at drosglwyddiad pan geir nodweddion o un iaith ymysg nodweddion iaith arall – '[the] incorporation of a grammatical property into one language from the other' (Paradis a Genesee 1996: 3) – lle nad yw'r nodweddion hynny'n cyd-fynd yn union â'r nodweddion sy'n bresennol fel arfer yn yr iaith honno. Cyfeirir at hyrwyddiad ac oediad iaith pan fo nodweddion iaith y plentyn dwyieithog yn datblygu'n gyflymach (hyrwyddiad) neu'n arafach (oediad) na'r union nodweddion hynny yn iaith y plentyn uniaith. Er enghraifft, ceir tystiolaeth bod plant sy'n dysgu Hwngareg a Saesneg yn cynhyrchu brawddegau mwy cymhleth yn eu mamiaith na phlant uniaith Hwngareg (Kecskes a Papp 2000), a bod plant sy'n siarad Saesneg ac yn mynychu un wers Eidaleg yn wythnosol â sgiliau darllen gwell yn Saesneg na phlant uniaith Saesneg (Yelland, Pollard a Mercuri 1993). (Trafodir un agwedd benodol ar hyrwyddiad iaith yng nghyd-destun sgiliau metaieithyddol ym Mhennod 10.) O ran oediad iaith, ceir tystiolaeth bod plant sy'n ddwyieithog mewn Almaeneg a Ffrangeg a phlant sy'n ddwyieithog mewn Almaeneg ac Eidaleg yn gwneud mwy o gamgymeriadau â'r system GENEDL-ENWI (*noun gender*) – system lle mae enwau wedi eu rhannu'n ddosbarth enwol megis gwrywaidd/benywaidd, neu gwrywaidd/benywaidd/niwtral (*neuter*) – na'u cyfoedion uniaith, yn enwedig yn Ffrangeg (Kupisch, Müller a Cantone 2002), sy'n awgrymu bod oediad yn bosib wrth ddysgu dwy iaith sydd â phatrymau nodi cenedl gwahanol, ac/neu pan fo'r naill iaith a'r llall yn cynnwys gwahaniaethau mawr o ran tryloywder eu systemau.

Mae nifer helaeth o astudiaethau ymchwil sy'n archwilio hyrwyddiad ac oediad iaith wedi gwneud hynny drwy gymharu datblygiad plant dwyieithog â phlant uniaith yn yr ieithoedd hynny. Ond rhaid cofio nad yw cymariaethau o'r fath wastad yn deg gan nad yw'r plant dwyieithog yn dysgu unrhyw un o'u hieithoedd dan yr un amgylchiadau, a bod tuedd i gyfeirio unrhyw wahaniaethau rhwng perfformiad plant dwyieithog a phlant uniaith at broblemau/diffyg ieithyddol yn hytrach na mesur eu gallu yn ôl normau dwyieithog y sampl dan sylw. Ond mae cymariaethau o'r fath yn bwysig er mwyn dod i adnabod unrhyw wahaniaethau posib o ran oediad mewn datblygiad a natur dealltwriaeth plant o'u systemau ieithyddol. Gall hyn fod o ddefnydd i addysgwyr ac eraill sy'n delio â phlant yn ymarferol. (Trafodir oediad iaith yn benodol yng nghyd-destun geirfa a morffoleg isod.)

7. TROSGLWYDDIAD IAITH

Un o nodweddion amlycaf y siaradwr dwyieithog yw ei allu i ddefnyddio agweddau ar ei ddwy iaith wrth gyfathrebu – yr hyn a elwir yn GYFNEWID COD ym Mhenodau 5 a 6. Er bod agweddau ar gyfnewid cod yn gallu cynnwys trosglwyddo nodweddion gramadegol o un iaith i'r llall, yr hyn sy'n angenrheidiol er mwyn bod yn enghraifft o drosglwyddiad ieithyddol ac nid cyfnewid cod yw bod dylanwad un iaith ar y llall yn gyson ac yn gymharol hir-dymor (ond heb fod yn barhaol) (Paradis a Genesee 1996: 3).

Er enghraifft, er bod Saesneg ac Almaeneg yn dod o'r un teulu iaith (Germanaidd – *Germanic*), mae trefn geiriau yn Saesneg ac yn Almaeneg fymryn yn wahanol. Yn Saesneg, ceir y drefn berf (*verb* – gair i ddisgrifio gweithred) + gwrthrych (*object* – yr endid sy'n derbyn y weithred):

John hit [the] tree

Enw – berf – [bannod] – gwrthrych

Yn Saesneg, defnyddir *berf* + *gwrthrych* mewn prif gymalau ac isgymalau fel ei gilydd:

John hit [the] tree [and] damaged it

Enw – berf – [bannod] – gwrthrych – [cysylltair] – berf – gwrthrych

Yn Almaeneg, ar y llaw arall, gellid defnyddio'r drefn geiriau *berf + gwrthrych* a *gwrthrych + berf* (*berf + gwrthrych* mewn prif gymal, a'r ddau mewn isgymalau).

Nododd Döpke (2000a) bod plant oedd yn dysgu Almaeneg a Saesneg yn dueddol o ddefnyddio mwy o'r drefn geiriau sy'n bodoli yn Saesneg (sef *berf + gwrthrych*) ar gyfer pob math o gymal yn eu defnydd o'r Almaeneg na siaradwyr uniaith Almaeneg. Mae'r duedd i orgynrychioli'r defnydd o *berf + gwrthrych* ar gyfer prif gymalau ac isgymalau yn Almaeneg, felly, yn arwydd bod y plant yn ymateb i amllder y ffurfiau hynny yn y mewnbwn ieithyddol y maen nhw'n ei gael *o'r ddwy iaith*. Mae eraill yn dadlau bod trosglwyddiad ieithyddol o'r Saesneg i'r Almaeneg yn bresennol pan fo'r systemau yn y ddwy iaith yn gorgyffwrdd yn unig, fel yn yr enghraifft uchod gyda threfn geiriau, tra bod eraill yn honni y ceir enghreifftiau o drosglwyddiad ieithyddol o'r fath hyd yn oed pan nad yw'r ffurfiau'n gorgyffwrdd.

Daw enghraifft arall o Muller (1998). Mewn astudiaeth o blant oedd yn datblygu'n ddwyieithog mewn Almaeneg gydag iaith arall (un ai Ffrangeg, Saesneg neu Eidaleg), nododd fod y plant yn dueddol o drosglwyddo patrymau trefn geiriau o'r iaith arall wrth siarad Almaeneg, nid oherwydd nad oeddent wedi cymryd bod yna ddwy system wahanol, ar wahân, ond yn hytrach oherwydd eu bod yn llai amwys mewn rhai cyd-destunau yn yr ieithoedd eraill nag y maent yn Almaeneg. Er bod enghreifftiau o gamgymeriadau trefn geiriau tebyg yn bodoli yn iaith plant uniaith Almaeneg, maent yn digwydd yn llai aml ac yn bodoli am gyfnodau byr yn unig. Yn hynny o beth, mae'n anochel y bydd datblygiad uniaith a dwyieithog yn wahanol gan nad oes yna fyth fodd i effeithiau trawsieithyddol ddylanwadu ar ddatblygiad uniaith yn yr un modd.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

Mae nifer o blant sy'n dysgu Cymraeg a Saesneg o'r crud neu'n ychwanegu Cymraeg at Saesneg neu Saesneg at y Gymraeg yn hwyrach ymlaen yn eu datblygiad yn aml yn dangos enghreifftiau o orgyffwrdd gan gynnwys:

1) ar lefel ramadegol – e.e. *ga i cael* (sy'n drosglwyddiad uniongyrchol o'r Saesneg *can I have* yn lle *ga i*); ac

2) ar lefel forffolegol – e.e. ynganu *coeden* fel 'coed-yn' oherwydd bod llafariaid yn sill olaf geiriau Saesneg gan amlaf yn cael eu hynganu â'r sŵn a elwir yn *schwa* (sef y symbol [ə] sy'n cynrychioli'r sŵn a wneir wrth ynganu'r 'y' yn 'yn') fel yn *alien* ('eili-yn'), *cameleon* ('camili-yn'), *taken* ('teic-yn'), etc.

Fedrwch chi feddwl am ragor o enghreifftiau lle ceir dylanwad y Saesneg ar y Gymraeg neu ddylanwad y Gymraeg ar y Saesneg?

8. OEDIAD IAITH

Yn gyffredinol, mae plant sy'n dysgu un iaith yn dueddol o gynhyrchu eu geiriau cyntaf o gwmpas eu penblwydd cyntaf. Mae'r un peth yn wir am blant dwyieithog (gweler, e.e., Genesee 2003 a Patterson a Pearson 2004). Mae'r patrymau geirfaol sydd i'w gweld yn iaith plant uniaith, megis amrediad y categorïau geirfaol (h.y. enwau, berfau, ansoddeiriau, etc.) hefyd yn bodoli ymysg geirfa plant dwyieithog (Nicoladis 2001).

Fodd bynnag, mae nifer o astudiaethau wedi dangos erbyn hyn bod plant dwyieithog yn deall llai o eiriau yn eu dwy iaith na phlant sy'n siarad yr ieithoedd hynny fel eu hunig iaith, ac mae'r darganfyddiad hwn wedi ei ddangos yn rhyngwladol (e.e. Umbel, Pearson, Fernandez ac Oller 1992) a hefyd yma yng Nghymru wrth gymharu gwahanol fathau o siaradwyr dwyieithog (e.e. Gathercole a Thomas 2009; Gathercole, Thomas a Hughes 2008; Rhys a Thomas 2013; Thomas, Gathercole a Hughes 2014).

Er gwaetha'r darganfyddiad hwn bod gan blant uniaith storfeydd geirfaol mwy na phlant dwyieithog ar adegau penodol o'u datblygiad, ac yn bennaf yn ystod y cyfnodau cynharaf, mae nifer hefyd o'r farn bod y canlyniadau'n dibynnu ar y modd y mae'r data'n cael eu casglu. Er mwyn astudio geirfa plant dwyieithog, creodd Pearson, Fernández ac Oller (1993) bedwar mesur gwahanol o eirfa'r plant:

- (i) nifer y geiriau yr oedd y plentyn yn gallu eu cynhyrchu a'u hadnabod yn iaith A;
- (ii) nifer y geiriau yr oedd y plentyn yn gallu eu cynhyrchu a'u hadnabod yn iaith B;
- (iii) cyfanswm sgôr cyfunol yr eirfa o'r ddwy iaith; ac
- (iv) amrediad y cysyniadau unigol sydd â label yn un o'r ddwy iaith.

Dangosodd Pearson et al. (1993) nad oedd gwahaniaeth rhwng y plant dwyieithog ac uniaith o ran eu gallu i *gynhyrchu* geirfa. (Roedd y plant dwyieithog oedd yn gryfach yn eu Saesneg yn dangos meistrolaeth ar nifer debyg iawn o eiriau i'r plant uniaith Saesneg, a'r plant dwyieithog oedd gryfaf yn eu Sbaeneg yn dangos meistrolaeth ar nifer debyg iawn o eiriau i'r plant uniaith Sbaeneg. Roedd y plant oedd yn wannach mewn un iaith neu'r llall yn perfformio'n is na hynny. Ond, at ei gilydd, roedd y grŵp dwyieithog yn ymddangos yn gyfartal o ran y canlyniadau pan gawsant eu cymysgu i gyd fel un grŵp o 'siaradwyr dwyieithog'.) Cafwyd patrwm tebyg o ran *dealltwriaeth* eirfaol, gyda rhywfaint o dystiolaeth bod y plant dwyieithog ar y blaen yn hynny o beth.

Drwy ddadansoddiadau manylach o'u data, dangosodd Pearson a Fernández (1994) fod gwahaniaethau mawr rhwng unigolion o fewn y grŵp dwyieithog. O'r 18 o blant yr arbrofwyd arnynt, roedd 10 yn sgorio o fewn rhychwant perfformiad plant uniaith ar fesuriad tebyg o'r iaith, tra bod yr 8 oedd yn weddill yn bell o dan y lefel hon. Ond nid yw hyn yn rhywbeth i'w ofni o reidrwydd.

Mewn astudiaeth gan Doyle, Champagne a Segalowitz (1978) dangoswyd bod maint geirfa plant uniaith yn fwy na maint geirfa plant dwyieithog oedd yn gryfach yn yr iaith honno. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth hefyd yn nodi bod rhuglder geirfaol y plant dwyieithog yn well na'r plant uniaith. Er hynny, dangosodd Pearson, Fernández ac Oller (1993), er bod plant dwyieithog rhwng 8 a 30 mis oed yn deall/adnabod yr un faint o eiriau yn eu naill iaith â phlant uniaith, roeddent yn dueddol o ddefnyddio llai o eiriau ar lafar yn eu naill iaith na phlant uniaith. Rhaid felly bod yn ofalus ynghylch beth yn union sy'n cael ei fesur, a sut mae'n cael ei fesur, os am ddisgrifio a chymharu datblygiad plant dwyieithog ac uniaith mewn ffordd deg.

Mewn ymchwil fwy diweddar, adroddodd Oller, Jarmulowicz, Gibson a Hoff (2007) ar ddata oedd yn dangos bod plant oedd i bob pwrpas yn uniaith Sbaeneg cyn mynd i ysgol Saesneg yn Memphis yn sgorio ymhell o dan y 'norm' cyfatebol ar gyfer siaradwyr uniaith Sbaeneg ar fesur o'u gallu i gynhyrchu geiriau Sbaeneg ar lafar (ac nid ar eu gallu i ddeall ystyr geiriau), ond eu bod yn sgorio'n debyg i blant uniaith Saesneg ar fesuriadau o'u gallu yn Saesneg. Honnwyd y gall hyn fod o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol lle mae'r plant yn symud yn gyflym o fod yn siarad iaith y cartref i iaith eu cyfoedion (yr hyn a elwir yn y llyfryddiaeth yn *L1-L2 shift* – lle mae L1 yn golygu iaith gyntaf ac L2 yn golygu ail iaith). Gan fod y plant yn medru deall ystyr y geiriau, mae'n bosib bod y wybodaeth yno yn rhywle, ond bod geirfa'r iaith gyntaf (Sbaeneg) yn cael ei hatal (neu ei chadw o'r neilltu) tra bo'r plant yn dysgu'r ail iaith.

Cafwyd canlyniad tebyg yng ngwaith Thomas, Gathercole a Hughes (2014) yma yng Nghymru. Yma, dangosodd y data bod plant o gartrefi Cymraeg neu o gartrefi cymysg Cymraeg a Saesneg yn parhau i ddatblygu geirfa yn 14 a 15 mlwydd oed, ond bod plant o gartrefi di-Gymraeg yn dangos lleihad o ran eu storfeydd geirfa yn y Gymraeg gydag oed. Honnwyd bod hyn o ganlyniad i'r ffaith bod plant o gartrefi di-Gymraeg yn gwneud defnydd ehangach o'r Saesneg yn gymdeithasol ac yn gwneud dewisiadau pynciol cyfrwng Saesneg sy'n lleihau'r mewnbwn angenrheidiol hwnnw y mae arnynt ei angen i'r Gymraeg er mwyn parhau i gaffael yr iaith ar lefel eu cyfoedion.

Yng Nghymru eto, mae Gathercole a Thomas (2009) wedi dangos bod natur ddwyieithog y gymuned yn dylanwadu ar allu plentyn i gaffael geirfa ei iaith. Mewn sefyllfa lle mae'r ddwy iaith yn gallu bod yn sefydlog yn y gymuned (e.e. Gwynedd a Môn), mae swm ac amllder y cyfleoedd i glywed a defnyddio'r iaith yn dylanwadu ar gaffaeliad geirfa yn y naill iaith a'r llall. Mewn sefyllfa o'r fath mae rhai siaradwyr yn clywed a defnyddio mwy o Gymraeg nag o Saesneg, tra bo eraill yn clywed a defnyddio mwy o Saesneg na Chymraeg. Saesneg yw'r iaith 'gryfaf' yn y gymuned oherwydd ei defnydd mewn marchnata a busnes ac yn y cyfryngau. Hi yw'r iaith y mae pawb yn y gymuned yn gallu ei siarad (nid pawb sy'n medru'r Gymraeg ledled Cymru). Mewn sefyllfa o'r fath, mae pawb yn dysgu Saesneg waeth beth yw eu cefndir ieithyddol (Cymraeg yn unig yn y cartref, Saesneg yn unig yn y cartref, Cymraeg a Saesneg yn y cartref – ond gweler Rhys a Thomas 2013 am batrymau diddorol ymysg plant sy'n cael eu hamlygu'n fwy i Gymraeg nag i Saesneg). Ond, ar y llaw arall, mae perfformiad plant ac oedolion ar fesuriadau o eirfa yn y Gymraeg yn gwbl ddibynnol ar natur eu cefndir ieithyddol, a faint o'r iaith y maent yn ei chael ac yn ei defnyddio. Hynny yw, mae plant sydd wedi cael eu magu mewn cartref Cymraeg yn unig yn aml yn perfformio'n well na'r rhai hynny o gefndiroedd cymysg – lle maen nhw wedi cael ychydig o Gymraeg o leiaf o'r crud – neu Saesneg yn unig.

Ond labelau enwol am wahanol endidau a chysyniadau yw geiriau. Mae'n bosib bod gan rai siaradwyr dwyieithog labelau enwol sy'n cyfeirio at endidau arbennig mewn un iaith ond nid yn yr iaith arall. Mewn geiriau eraill, efallai fod plant dwyieithog yn adnabod rhai geiriau am 'bethau' mewn un iaith ond ddim y gair cyfatebol a ddefnyddir i ddisgrifio'r un 'peth' yn yr iaith arall. Felly, mae hyn yn golygu bod maint eu storfa eirfaol (o eiriau o'r ddwy iaith) i ddisgrifio gwahanol gysyniadau yn gallu bod yn fwy na'u storfa eirfaol yn un iaith ar ei phen ei hun ac yn gyfatebol i faint storfa eirfaol siaradwyr uniaith yn yr ieithoedd hynny. Yn sgil hyn, honnodd Pearson et al. (1993) y gall cyfanswm y geiriau y mae siaradwyr dwyieithog yn eu hadnabod yn eu dwy iaith gyda'i gilydd fod yn gyfartal â (os nad yn fwy na) chyfanswm y geiriau y mae siaradwyr uniaith yn eu hadnabod. Felly, yn ddibynnol ar ddulliau mesur gallu, mae'n deg nodi bod gwahaniaethau rhwng maint geirfa gynhyrchiol plant dwyieithog (ac, weithiau, geirfa y mae'r plant yn ei deall), ond bod eu storfeydd cysyniadol yn gallu bod yn fwy na storfeydd plant uniaith.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: Ystyriwch eich profiadau iaith chi. Fedrwch chi feddwl am sefyllfa/amser pan oedd gennych brinder geirfa mewn un iaith neu'r llall?

: Ydych chi'n gallu meddwl am eiriau lle nad ydych yn gwybod beth yw'r gair cyffelyb am yr un peth yn yr iaith arall?

: Ac ystyried eich profiadau chi eich hun, beth yw manteision ac anfanteision hyrwyddiad ac oediad iaith o'r math a ddisgrifir uchod?

: Ystyriwch broffiliau iaith Rhys, Bethan a Liam.

: Beth yw'r goblygiadau hir-dymor ar gyfer datblygiad iaith plant fel Rhys, Bethan a Liam? Hynny yw, ac ystyried amllder eu defnydd o a'u hamlygiad i'r Gymraeg a'r Saesneg, beth fyddai patrymau tebygol eu hymwybyddiaeth a'u defnydd o eirfa a gramadeg yn y ddwy iaith, ac i ba raddau y byddai'r ymwybyddiaeth a'r defnydd hwnnw'n datblygu dros amser?

9. CRYNODEB

Yn y bennod hon, trafodwyd rhai o'r damcaniaethau a luniwyd i geisio esbonio sut mae plant yn caffael iaith. Trafodwyd nodweddion dwy farn benodol ynghylch datblygiad iaith – barn damcaniaethwyr ffurfiol sydd yn ystyried iaith fel ffenomen fiolegol sydd ynghlwm â geneteg yr unigolyn a barn damcaniaethwyr ymarferol sydd yn gweld iaith yn gynnyrch sy'n datblygu o ryngweithiadau dynol. Yn achos y siaradwr dwyieithog, mae'r damcaniaethau hynny'n fodd o esbonio'r gwahaniaethau rhwng y math o iaith y mae gwahanol fathau o siaradwyr yn ei chynhyrchu a faint o'r iaith maen

nhw'n ei ddeall. Maent hefyd yn fodd o esbonio rhai o nodweddion penodol y siaradwr dwyieithog, megis hyrwyddiad iaith, oediad iaith a throsglwyddiad ieithyddol.

Ond sut bynnag y mae plentyn yn mynd ati i ddysgu un neu ddwy neu fwy o ieithoedd, mae'n amlwg bod plant dros y byd i gyd yn gwneud hynny yn llwyddiannus iawn. Bydd y bennod nesaf yn trafod beth sy'n nodweddiadol am fyd y plentyn sy'n caniatáu i iaith ddatblygu a'r gwahaniaeth rhwng dysgu iaith fel plentyn ac fel oedolyn.

AWGRYMIADAU DARLLEN AM DDWYIEITHRWYDD YN Y GYMRAEG

Gathercole, V. C. Mueller (2007). Miami and North Wales, so far and yet so near: Constructivist account of morpho-syntactic development in bilingual children. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism* 10, 224–247.

Gathercole, V. C. M. a Hoff, E. (2007). Input and the acquisition of language: Three questions. Yn *Blackwell Handbook of Language Development*, E. Hoff ac M. Shatz (goln), 107–127. Rhydychen: Blackwell.

Thomas, E. M. a Mayr, R. (2010). Children's acquisition of Welsh in a bilingual setting: A psycholinguistic perspective. Yn *Welsh in the 21st Century*, D. Morris (gol.), 99–117. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

[*Mae'r tri chyhoeddiad yma yn rhoi blas ar y ddau begwn damcaniaethol a drafodir yn y bennod hon, gan ddefnyddio canlyniadau o astudiaethau yma yng Nghymru fel tystiolaeth*]

Gathercole, V. C. Mueller a Thomas, E. M. (2009). Bilingual first language development: Dominant language takeover, threatened minority language take-up. *Bilingualism: Language and Cognition* 12 (2), 213–237.

Gathercole, V. C. Mueller, Thomas, E. M. a Laporte, N. I. (2001). The acquisition of grammatical gender in Welsh. *Journal of Celtic Language Learning* 6, 53–87.

Rhys, M. a Thomas, E. M. (2013). Bilingual Welsh-English children's acquisition of vocabulary and reading: Implications for bilingual education. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism* 16 (6), 633–656.

Thomas, E. M., Williams, N., Jones, Ll. A., Davies, S. a Binks, H. (2014). Acquiring complex structures under minority language conditions: Bilingual acquisition of plural morphology in Welsh. *Bilingualism: Language and Cognition* 17 (3), 478–494.

[*Mae'r pedwar cyhoeddiad yma yn trafod rhai o'r ffactorau amlwg sydd yn effeithio ar gaffaeliad plant o strwythurau cymhleth yn y Gymraeg gan fanylu ar y gwahaniaethau mewn perfformiad ar draws gwahanol fathau o siaradwyr dwyieithog*]

Thomas, E. M. (2007). Natur prosesau caffael iaith gan blant: Marcio cenedl enwau yn y Gymraeg. *Gwerddon* 1, 58–94.

Thomas, E. M. a Gathercole, V. C. Mueller (2007). Children's productive command of grammatical gender and mutation in Welsh: An alternative to rule-based learning. *First Language* 27, 251–278.

[*Mae'r ddau gyhoeddiad yma yn rhoi blas ar y math o brofion sydd yn cael eu defnyddio ym maes seicoieithyddiaeth wrth geisio mesur a chofnodi datblygiad iaith plant ac yn perthnasu rhywfaint ar y canlyniadau i ddamcaniaethau yn y maes*]

PENNOD 4

Oed a Sgiliau Caffael Iaith

1. CYFLWYNIAD

Mae’n amlwg, o’r drafodaeth hyd yma, bod rhai pethau sy’n gwbl angenrheidiol ar gyfer datblygiad iaith, gan gynnwys amlygiad digonol i’r iaith a’r gallu i brosesu, cadw, adalw a chynhyrchu iaith. Mae’n amlwg hefyd bod rhai gwahaniaethau sylfaenol o ran datblygiad ieithyddol plant sy’n dysgu un iaith o’i gymharu â phlant sy’n dysgu dwy iaith (neu fwy) ar yr un pryd, gan gynnwys gwahaniaethau o ran amseriad a chyflymder caffael iaith a gwahaniaethau o ran nodweddion ieithyddol pan fo dwy iaith yn dod i gysylltiad â’i gilydd. Ond mae un peth yn clymu’r rhain oll ynghyd: mae plant, dros y byd i gyd, yn llwyddo i ddysgu un, dwy a mwy o ieithoedd, a hynny’n gymharol ddiymdrech.

Ond yr hyn sy’n groes i’r disgwyl yw nad felly’r drefn gydag oedolion. Er bod oedolion yn llawer mwy medrus na phlant o ran nifer o bethau, gan gynnwys iaith, mae eu gallu i *ddysgu* iaith *o’r newydd* yn gymharol wan. Tra bod rhai oedolion yn llwyddo i feistroli ail iaith fel siaradwr brodorol, mae’r rhan fwyaf o oedolion sy’n ceisio dysgu iaith o’r newydd yn cael cryn drafferth gwneud hynny, yn enwedig o ran magu acen (sef ffonoleg yr iaith). O ganlyniad i arsylwadau o’r fath, mae nifer o’r farn bod rhywbeth yn arbennig am blentyndod sy’n galluogi plant i ddysgu nifer o ieithoedd ar unwaith – ‘talent’ nad yw’n bodoli i oedolion neu ‘sgil’ nad yw mwyach o fewn gaffael yr oedolyn. Gwyddom fod rhai ymddygiadau naturiol sydd dan ddylanwad amser ym myd anifeiliaid (e.e. bydd cywion rhai mathau arbennig o wyddau yn ymlynu (*imprint*) at eu mam (ei defnyddio fel rhyw fath o loches rhag unrhyw niwed drwy ei dilyn yn agos) o fewn ychydig oriau wedi deor; os nad yw’r fam yn amgylchedd y cyw am ba bynnag reswm o fewn y cyfnod hwnnw, bydd y cyw yn ymlynu at ba bynnag wrthrych byw sydd yn bresennol – gweler Hoff 2001 am ddisgrifiad). Cynigiwyd bod rhyw fath o GYFNOD ALLWEDDOL (*critical period*) hefyd yn bodoli ar gyfer dysgu iaith. At ei gilydd, mae’r dystiolaeth sydd ar gael, boed hynny’n deillio o ymchwil empirig neu arsylwadau anecdotaidd o gaffael iaith, yn gymysg o ran ei chyfraniad i’r ddadl ynghylch cyfnod allweddol ar gyfer iaith. Bydd y bennod hon yn mynd i’r afael â’r wybodaeth sy’n bodoli gan annog trafodaeth feirniadol o’r dystiolaeth.

Cyfnod Allweddol (neu sensitif) ar gyfer dysgu iaith

Lenneberg (1967) oedd yn gyfrifol am dynnu sylw amlwg at y syniad y gall cyfnod allweddol o’r fath hefyd fodoli ar gyfer dysgu iaith. (Yn fwy diweddar, tueddir i gyfeirio at gyfnod o’r fath fel *cyfnod sensitif* (*sensitive period*) gan fod y term *allweddol* (*critical*) yn rhy absoliwt.) Y syniad, yn syml, yw os dysgir unrhyw iaith yn ystod y cyfnod hwn, bydd caffaeliad llawn o’r iaith honno’n bosib. Ond, os dysgir unrhyw iaith y tu allan i’r cyfnod hwn (wedi i’r cyfnod ddod i ben), bydd caffael meistrolaeth lawn ar yr iaith yn dipyn anoddach. Arsylwodd Lenneberg fod clefion oedd wedi dioddef nam i’r ymennydd ar ôl cyfnod y glasoed (*puberty*) yn methu neu’n cael cryn drafferth adennill iaith wedi’r niwed hwnnw. Er bod nifer o’r farn bod Lenneberg yn dadlau dros gyfnod allweddol ar gyfer iaith, roedd Lenneberg ei hun yn fwy gofalus o ran honni hynny’n uniongyrchol. I Lenneberg, roedd y ffaith bod rhai oedolion yn medru dysgu ail iaith yn arwain at y posibilrwydd y gellid dysgu ail iaith cyn belled â bod strwythur haniaethol iaith wedi ei sefydlu’n gynnar ym mywyd y plentyn.

2. SUT MAE ARCHWILIO A OES CYFNOD ALLWEDDOL AR GYFER DYSGU IAITH?

Mae tri phrawf da o fodolaeth cyfnod allweddol:

- (i) Amddifadedd iaith: achosion lle nad yw unigolyn wedi cael y cyfle i ddysgu iaith o fewn cyfnod allweddol (sefyllfa caffael iaith fel iaith gyntaf);
- (ii) Plant â nam clyw/byddardod: achosion lle mae amgylchiadau magwrol, cymdeithasol a datblygiadol yr unigolyn yn gwbl arferol, ond lle mae'r mewnbwn ieithyddol ar goll (sefyllfa caffael iaith fel iaith gyntaf);

ac

- (iii) Amseriad caffael ail iaith: achosion lle mae plant ac oedolion yn dysgu ail iaith (sefyllfa caffael iaith fel ail iaith).

Trafodir y rhain yn eu tro isod.

(i) Amddifadedd iaith

Un prawf da o fodolaeth cyfnod allweddol fyddai achosion lle nad yw unigolyn wedi cael y cyfle i ddysgu iaith o fewn cyfnod allweddol, ond bod popeth arall (gwybyddiaeth, sgiliau echddygol (a elwir hefyd yn sgiliau motor), etc.) yn datblygu'n arferol. Er nad oes enghreifftiau perffaith o hyn, mae rhai achosion anffodus wedi bodoli sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at y ddadl ynghylch cyfnod allweddol i iaith. Mae nifer o achosion cynnar o blant y'u hamddifadwyd mewn rhyw ffordd neu'i gilydd – y plant 'gwyllt' (*feral*) megis Victor o Aveyron (c.1800) ac Isabelle (c.1930au) – yn ddiffygiol iawn o ran gwybodaeth gefndirol a chyd-destunol ynglŷn ag amodau amgylchiadau'r plant (e.e. oed, yr hyn a arweiniodd at eu sefyllfa fagwrol, unrhyw broblemau ieithyddol eisoes, etc.) ac o ran mesuriadau o allu'r plant yn ieithyddol ac fel arall. Oherwydd hynny, nid yw'n gwbl eglur pam nad oedd modd i Victor ddysgu iaith wedi iddo gael ei ddarganfod oddeutu 12 oed, tra llwyddodd Isabelle i wneud hynny yn 6 oed. Ond mae un achos a ddaeth i law yn fwy diweddar (yn y 1970au) sydd wedi'i gofnodi'n llawnach (er bod yma eto nifer o ffeithiau coll) – sef achos plentyn y cyfeirir ati o dan y ffugenw Genie. Gwaharddwyd Genie rhag cael unrhyw fath o gyswllt ieithyddol na chymdeithasol o'r adeg pan oedd yn 20 mis oed hyd y cafodd ei darganfod yn 13 oed. Pan y'i darganfuwyd, nid oedd ganddi iaith. Fodd bynnag, yn ôl Hoff (2001), bedair blynedd yn ddiweddarach roedd ganddi storfa eirfaol gyffelyb i blentyn 5 oed, a'r gallu i fynegi ystyr, ac roedd ganddi'r gallu i gyfuno geiriau i lunio ynganiadau go gymhleth. Ond er y llwyddiannau hynny, nid oedd ganddi afael gyflawn ar ramadeg ei hiaith, o ran ei defnydd hi ei hun o iaith (e.e. roedd tuedd iddi greu ynganiadau anghyflawn, rhai nad oeddent yn cynnwys morffemau gramadegol, megis yr adferf *to* sydd ar goll yn *I want Curtiss play piano*) nac o ran ei dealltwriaeth o iaith (e.e. amser y ferf).

Ond roedd achos Genie yn ddiddorol yn niwrolegol hefyd. Yn ôl Hoff (2001), roedd tystiolaeth bod iaith yn ysgogi gweithgaredd yn hemisffer dde ymennydd Genie, a hynny, mae'n debyg, oherwydd na ddefnyddiwyd yr hemisffer chwith o'r cychwyn ar gyfer iaith. Mae tystiolaeth hynod gadarn erbyn hyn fod y rhan fwyaf o unigolion yn prosesu ac yn cynhyrchu iaith drwy ddefnyddio ardaloedd penodol o hemisffer chwith yr ymennydd. Drwy beidio â bod wedi defnyddio'r hemisffer chwith i brosesu iaith, mae'n bosib bod Genie wedi colli'r duedd naturiol o ddelio ag iaith drwy'r hemisffer honno ac wedi gorfod caffael iaith gyda'r hemisffer dde yn hytrach (yn debyg i achosion o adfer iaith wedi strôc neu affasia). Ond y cwestiwn i'w ystyried yng nghyd-destun cyfnod allweddol yw hyn: a oedd Genie wedi cael mewnbwn ieithyddol yn rhy hwyr i ysgogi gweithgaredd ymenyddol hemisffer chwith, fel y disgwyliid yn arferol? Nid oes ateb pendant i'r cwestiwn yma wrth ystyried yr achos yma'n unig. Nid oes modd gwybod a gafodd Genie ei geni'n gwbl iach ynteu a oedd ganddi unrhyw broblemau neu ddiffygion a fyddai wedi dylanwadu ar ei gallu i ddysgu iaith. Ond mae'r dystiolaeth a ddaw o achos Genie yn taflu mwy o oleuni ar y posibilrwydd bod cyfnod allweddol ar gyfer caffael iaith gyntaf yn gyflawn.

Un peth sydd o'i le gyda defnyddio'r enghreifftiau hyn fel tystiolaeth o blaid cyfnod allweddol yw bod caffaeliad iaith o dan amgylchiadau anarferol (ac unigryw) fel hyn yn gwbl wahanol i'r profiad arferol o gaffael iaith. Mae caffael iaith dan amgylchiadau naturiol yn paratoi amgylchedd arbennig ar gyfer dysgu iaith o ran darparu'r profiadau cymdeithasol a gwybyddol hynny sy'n allweddol ar gyfer dysgu iaith (gweler Pennod 3), ac o ran darparu'r gefnogaeth emosiynol sy'n cyfrannu at gyrhaeddiad ieithyddol yr unigolyn.

(ii) Plant â nam clyw/byddardod

Ceir achosion eraill lle mae amgylchiadau magwrol, cymdeithasol a datblygiadol yr unigolyn yn gwbl arferol, ond lle mae'r mewnbwn ieithyddol ar goll. Mae teuluoedd lle mae'r rhieni yn clywed yn arferol ond bod ganddynt blentyn byddar yn un enghraifft amlwg. Mewn rhai achosion, mae'r ffaith nad yw'r plentyn yn gallu cyfathrebu'n llafar, a'r ffaith nad yw'r rhieni'n gallu cyfathrebu drwy iaith arwyddion (a heb gael eu hannog i'w dysgu chwaith mewn rhai achosion), yn tarfu ar unrhyw fewnbwn ieithyddol y gall y plentyn ei gael. Er hynny, daw nifer o blant o'r fath i gysylltiad â phlant eraill sy'n medru iaith arwyddion (rhaid drwy fod wedi cael eu magu gan rieni byddar sydd eisoes yn medru'r iaith, ac eraill drwy fod eu rhieni wedi dysgu neu wedi sicrhau bod eu plentyn yn dysgu iaith arwyddion yn ifanc iawn). Felly, mae posib dod o hyd i grŵp o blant byddar sydd wedi dysgu iaith arwyddion yn gynnar iawn ac eraill sydd wedi'i dysgu'n hwyrach yn eu plentynod neu weithiau fel oedolion. Am y rhesymau hynny, mae nifer o astudiaethau wedi defnyddio'r poblogaethau hyn mewn ymdrech i ymchwilio mwy i gyfnod allweddol dysgu iaith.

Er enghraifft, mewn astudiaeth o oedolion byddar oedd wedi dysgu iaith Arwyddion America un ai'n syth o'r crud, wrth gychwyn ysgol rhwng 4 a 6 oed, neu'n 12 oed, ac eraill a'i dysgodd yn hwyrach na hynny hyd yn oed (e.e. drwy briodas), dangosodd Newport (1990) wahaniaethau mawr o ran eu perfformiad mewn profion iaith. Er bod pob un o'r cyfranwyr wedi cael profiad o ddefnyddio'r iaith am o leiaf 30 mlynedd (roedd oedranau'r cyfranwyr yn ymestyn o 35 hyd 70 oed), roedd y rheini oedd wedi caffael yr iaith yn ystod eu plentynod cynnar yn perfformio'n well na'r rheini oedd wedi cael mewnbwn ar ôl yr oedran hwnnw. (Ceir canlyniadau tebyg gan Mayberry ac Eichen 1991.) Mae tystiolaeth o'r fath yn arwydd cryf bod gwahaniaethau sylweddol yn ymddangos yn ôl oed caffael iaith. Er hynny, nid yw pob darn o dystiolaeth yn arwain at yr un oedran fel pwynt terfyn y cyfnod allweddol. Hynny yw, mae rhai wedi honni bod y gallu i ddygymod ag effeithiau affasia yn well cyn 5 oed (Bates 1993), ac mae ymchwil Newport yn cynnig diffyg sylweddol ar ôl 6 oed.

(iii) Amseriad caffael ail iaith

Enghraifft arall o sefyllfa lle gellir mesur gwahaniaethau o ran oed dysgu iaith yw'r sefyllfaoedd hynny lle mae plant ac oedolion yn dysgu ail iaith. Mae nifer ohonom yn ymwybodol o achosion a straeon anecdotaidd sy'n honni bod plant yn llwyddo i ddysgu ail iaith yn llawer iawn cyflymach a rhwyddach nag oedolion gan eu bod, i bob pwrpas, fel sbwnjys bach, yn amsugno popeth o'u hamgylch. Er hynny, mae'r dystiolaeth wyddonol sy'n ymdrin â hyn yn fwy cymysg.

Mewn astudiaeth gynnar, llwyddodd Oyama (1976) i ddangos bod plant Eidalaidd oedd wedi ymfudo i'r Unol Daleithiau (UD) yn gynnar yn arddangos llai o acen Eidaleg wrth siarad Saesneg na rhai a ymfudodd pan oeddent yn hŷn. Hynny yw, roedd y rhai hynny a ymfudodd yn gynnar wedi cael mwy o fewnbwn o'r acen Saesneg, ac yn gynharach, na'r rhai oedd wedi ymfudo'n hwyrach yn eu datblygiad.

Yn yr un modd, mewn astudiaeth o allu gramadegol, dangosodd Johnson a Newport (1989) fod plant oedd wedi ymfudo rhwng 3 a 7 oed yn perfformio cystal â phlant brodorol Saesneg eu hiaith. Ond roedd y rhai hynny a fewnfudodd yn 8 oed a hŷn yn perfformio'n llawer iawn gwaeth. O edrych ar berfformiad y plant 8 oed a hŷn, roedd y cyfnod allweddol i'w weld yn dod i ben yn 15 oed (glaslencyndod – *puberty*).

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: Fedrwch chi feddwl am unigolion sydd wedi dysgu iaith (Cymraeg, Saesneg neu iaith arall) ar gyfnodau gwahanol yn eu bywydau? Pa mor llwyddiannus oedd y rheini yn ei chaffael/dysgu? Oedd gwahaniaethau penodol yn y modd yr oeddent yn datblygu'r iaith – o ran cyflymder, patrymau iaith ac ati? Oedd unrhyw ffactorau penodol yn dylanwadu ar y llwyddiant hwnnw, yn eich barn chi?

: Ac ystyried amgylchiadau iaith Rhys, Bethan a Liam, i ba raddau y mae oed amlygiad i iaith yn debygol o ddylanwadu ar gyflymder a phatrwm datblygiad iaith y tri yn eu dwy iaith?

Dadleuon yn erbyn Cyfnod Allweddol ar gyfer iaith

Mae nifer o astudiaethau wedi dadlau yn erbyn cyfnod allweddol ar gyfer iaith, neu o leiaf gyfnod allweddol sy'n dod i ben yn ddiamod ar oed arbennig. Yn gyfochrog â hyn, mae Newport (1991) hefyd wedi cynnig HYPOTHESIS PO LEIAF YW'R MWYAF (*less is more hypothesis*). Yn ôl y rhagdybiaeth hon, mae modd i blant ifanc ddysgu iaith yn well na phlant hŷn ac oedolion oherwydd bod eu sgiliau canfyddol a sgiliau'r cof yn llai arbenigol. Hynny yw, fel y mae gallu gwybyddol yr unigolyn yn cynyddu, mae tuedd iddynt brosesu pethau yn eu cyfanrwydd tra bod plant ifanc yn dueddol o brosesu pethau mewn unedau llawer iawn llai. Syniad Newport yw bod strwythur iaith yn haws i'w ddeall/gaffael ac yn haws i'w ddal yn y cof pan astudir iaith mewn unedau bychain. Fel y nodir ym Mhennod 3, mae mewnbwn ieithyddol i blant yn llai cymhleth ac yn aml yn frawddegau byrrach na'r mewnbwn ieithyddol rhwng oedolion, sydd yn gwneud y gwaith o rannu gwybodaeth i unedau llai yn llawer iawn haws. Ond nid oes digon o dystiolaeth eto i gefnogi'r syniad hwn.

Nid yw astudiaethau o'r fath yn cwestiynu'r ffaith bod cael mewnbwn ieithyddol yn ifanc yn bwysig ar gyfer dysgu iaith, ond maent yn cwestiynu rôl aeddfediad biolegol a therfyn pendant ar gyfer cyfnod allweddol o'r fath am resymau megis y canlynol:

- y nifer fechan – ond digon sylweddol ar gyfer y ddadl hon – o oedolion sy'n gallu dysgu iaith i safon siaradwr brodorol (e.e. Birdsong 1992). Os gall dim ond un unigolyn, hyd yn oed, ddysgu ail iaith yn llwyddiannus, ar ôl oed aeddfedu, rhaid cwestiynu rôl aeddfediad biolegol a'r cynnig bod y cyfnod allweddol ar gyfer caffael iaith yn dod i ben yn annisgwyl ar gychwyn oed aeddfediad;
- nifer yr astudiaethau a lwyddodd hefyd i ddangos gwelliannau mewn dysgu iaith yn bell tu hwnt i oed aeddfedu. Yn astudiaeth Birdsong (1999), er enghraifft, roedd mantais gan oedolion 25 oed dros oedolion 30 oed a hŷn wrth ddysgu iaith.

Ond, yn bwysicach na hynny, wrth ddadlau dros gyfnod allweddol ar gyfer unrhyw ymddygiad neu allu arbennig, rhaid dod i gytundeb pendant ynglŷn â beth yn union yw'r ymddygiad neu'r gallu hwnnw yn y lle cyntaf, a rhaid meddu ar ddull dibynadwy o'i fesur. Heb hynny, mae modd camddehongli'r gydberthynas rhwng yr ymddygiad neu'r gallu hwnnw ac effeithiau oed, a chamddehongli dylanwad aeddfediad biolegol ar gaffael yr ymddygiad/gallu hwnnw.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

- : Wrth gymharu cyraeddiadau ieithyddol oedolion a phlant, mae angen diffiniad clir a phendant o ‘gyrhaeddiad iaith’.
- : Sut mae penderfynu a yw siaradwr wedi caffael iaith yn llawn?
- : Wrth drafod y cwestiwn uchod, bydd angen rhoi ystyriaeth i’r hyn a olygir gan *caffael* a *llawn*:
- : Sut mae diffinio *caffael* iaith? Sut mae diffinio *caffaeliad llawn*?
- : Wrth ddiffinio *caffael*, efallai y byddwch yn taro ar ragor o dermau megis *rhuglder* (‘fluency’), *brodor* (‘native’), etc. Ceisiwch ddiffinio’r rheini hefyd.
- : Yna, ystyriwch eto broffiliau Rhys, Bethan a Liam.
- : Ydych chi’n rhagweld y bydd yna wahaniaethau o ran cyraeddiadau iaith y tri? Pam?

3. MESUR A DEHONGLI CAFFAEL IAITH

Mae dehongli iaith – a’i mesur – yn broblem ynddo’i hun am nifer o resymau, megis y canlynol.

Yn gyntaf, mae’r modd y mae ymchwilyr yn gweld iaith yn wahanol yn ôl eu gogwydd damcaniaethol:

- Beth yn union yw iaith?
- Sut mae’n cael ei phrosesu?
- A oes gwahanol rannau o iaith sy’n cael eu prosesu ar wahanol lefelau?
- Sut mae’r gwahanol lefelau o iaith yn cael eu cynrychioli yn y meddwl?

Mae profiadau ieithyddol unrhyw unigolyn hefyd yn unigryw i brofiadau’r unigolyn hwnnw. Hynny yw, bydd storfa geirfa pob unigolyn yn wahanol a bydd yr angen i gyfleu cysyniad a llunio brawddeg benodol yn newid o un cyd-destun i’r llall ac o un unigolyn i’r llall.

Yn yr un modd, mae dehongli caffaeliad a chaffaeliad cyflawn o iaith hefyd yn broblem. Ynghlwm â’r diffiniad o gaffael iaith mae’r syniad o HYFEDREDD (*language proficiency*) a RHUGLDER (*language fluency*). Ynghlwm â *hyfedredd* mae’r cysyniad o sgîl – y gallu i wneud rhywbeth – ond mae i’r cysyniad hwn hefyd nifer o lefelau. Er enghraifft, os yw plentyn yn gallu arnofio’n eithaf cryf, yn gallu nofio broga ond ddim yn gallu nofio ar ei gefn yn iawn neu blymio i waelod pwl i godi carreg, gellid yn hawdd ddod i’r casgliad bod y plentyn hwnnw’n gallu nofio, er gwaetha’r ffaith nad yw eto wedi meistrolï pob agwedd ar y gamp. Yng nghyd-destun dysgu iaith, mae nifer o wahanol agweddau i’w meistrolï, gyda rhai agweddau’n haws i’w meistrolï nag eraill (e.e. deall). A yw rhywun sydd wedi clywed iaith o’r crud ond erioed wedi ei siarad ar lafar (ond yn deall pob gair) wedi ei chaffael, er mai dim ond mewn un agwedd y mae’n rhugl? Oes modd dadlau bod unigolion yn gallu bod yn hyfedr mewn iaith os oes rhyw fath o sgiliau iaith ganddynt? Ac a fyddai hynny’n ddigonol i nodi bod yr unigolyn hwnnw wedi caffael iaith?

Ynghlwm â *rhuglder* mae’r cysyniad o fedru cynnal sgwrs yn ddidrafferth: gallu deall yr hyn sy’n cael ei ddweud ac ymateb yn briodol. Ond mae’r cysyniad hwn hefyd yn un eithaf penagored. A yw rhywun sydd wedi dysgu ychydig bach o Ffrangeg yn yr ysgol ac sy’n gallu cynnal sgwrs dameidiog yn yr iaith yn cael honni eu bod wedi ei chaffael, ond nid ei chaffael yn gyflawn? Ydyn nhw’n cael honni hyfedredd ond nid rhuglder? Oes angen i’r unigolyn fedru deall ac ymateb yn yr un modd ag y byddai oedolyn brodorol o’r iaith yn ei wneud cyn y gellid nodi bod yr unigolyn wedi caffael yr iaith yn llawn? A yw’n deg disgwyl y bydd cyrhaeddiad plant ac oedolion dwyieithog yr un fath â chyraeddiadau plant uniaith yn yr un iaith? Oes angen i’r cyrhaeddiad hwnnw gyfleu’r iaith safonol? Ai cyfleu ystyr sy’n bwysig, waeth sut mae’r iaith yn cael ei chynhyrchu? Beth am unigolion sy’n dysgu ail iaith drwy fewnbwn gan siaradwyr ail iaith? Oni fyddai’n deg disgwyl y byddai gwahaniaethau mawr yn eu defnydd o ffonoleg ac/neu gystrawen yr iaith honno? Beth

am sefyllfaoedd lle mae'r iaith yn newid, lle ceir newidiadau mawr ar lefel strwythurol? Mae'r rhain oll, a rhagor, yn gwestiynau pwysig, yn enwedig er mwyn cyfrannu tystiolaeth i gefnogi neu wrthwynebu hypothesis fel y cyfnod allweddol, ond maent hefyd yn gwestiynau nad oes ateb amlwg iddynt.

Felly sut mae penderfynu, at ddibenion ymchwil o leiaf, a yw plentyn (neu oedolyn) wedi caffael iaith? Yn gyffredinol, mesurir caffaeliad iaith o ran pa mor debyg yw iaith y plentyn i iaith oedolyn sy'n siarad yr un iaith. Y cyfiawnhad, mae'n debyg, yw bod y plentyn yn anelu tuag at lefelau iaith yr oedolyn, a bod yr oedolyn, yn ei dro, wedi bod yn blentyn oedd yn anelu at yr un lefelau. Drwy hynny, mae rhywun yn cymryd yn ganiataol bod yr oedolyn yn rhugl yn yr iaith. Mae'r gymhariaeth hon yn un resymegol wrth edrych ar ddatblygiad iaith plant uniaith, ond nid yw'r gymhariaeth mor hawdd i'w chyfiawnhau wrth ddelio â siaradwyr dwyieithog ac amlieithog. Nid yw profiad pawb o iaith (e.e. o ran ei defnydd, ei chaffael, ei chlywed, ei darllen neu o ran ei hoffi hyd yn oed) yr un fath, ac nid yw profiadau pawb o wahanol agweddau ar iaith yn aros yn gyson ar hyd amser. Mae sefyllfaoedd yn newid, ac mae ieithoedd yn newid, ac mae gafael yr unigolyn ar yr iaith ar wahanol adegau yn gallu newid o ganlyniad. O fewn y sefyllfa ddwyieithog, fel y nodwyd eisoes yn y llyfr, mae profiadau unigolion gyda'u dwy iaith yn amrywiol iawn, ac mae'n anodd iawn dod o hyd i oedolion a phlant sydd wedi cael yr un profiadau yn union er mwyn sicrhau modelau teg i'w cymharu.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...


: Ac ystyried yr hyn sydd eisoes wedi'i drafod uchod, sut dylid ymateb i unigolion nad ydynt yn cynhyrchu iaith sy'n cyd-fynd â'r patrymau a ddisgwyliid yn ôl yr iaith safonol?

: A oes unrhyw sefyllfa lle mae'n hanfodol glynu at yr iaith safonol? Beth yw goblygiadau hynny i unigolion sydd wedi dod ar draws yr iaith ar wahanol adegau o'u bywydau?

: A oes modd i oedolion a phlant gaffael iaith safonol ac iaith anffurfiol o fewn a thu hwnt i gyfnod allweddol?


Pennu ystod Cyfnod Allweddol

Ond, y tu hwnt i'r problemau cyd-destunol hyn, hyd yn oed os oes cytundeb llwyr o ran beth yn union yw iaith a sut mae dod at fesur teg o'i meistrolaeth, rhaid i unrhyw sefyllfa sy'n gaeth i gyfnod allweddol fedru arddangos gwahaniaeth clir (dirywiad pendant) rhwng gallu plant ifanc a phlant hŷn cyn ac ar ôl oed 'cau' y cyfnod allweddol. Hynny yw, byddai patrwm gallu ieithyddol unigolion sydd y tu hwnt i oed cau'r cyfnod allweddol yn dangos patrymau ansefydlog iawn tra bo'r patrwm hyd at oed 'cau' y cyfnod yn dangos patrwm o ddirywiad llyfn a sefydlog. Er enghraifft, yn eu hymchwil hwy, honnodd Johnson a Newport (1989) eu bod wedi llwyddo i ddangos mantais glir ar gyfer yr unigolion hynny oedd wedi mewnfudo i wlad newydd yn ifanc iawn o'u cymharu â'r rhai hynny a gyrhaeddodd y wlad newydd yn hwyrach. Mae'r graff isod yn rhoi braslun o'u perfformiad mewn profion oedd yn gofyn am eu beirniadaeth o dderbynioldeb gramadegol gwahanol frawddegau Saesneg.




Ffigur 4.1: Patrwm sgorau siaradwyr mewn prawf beirniadu gramadeg brawddegau yn ôl eu hoed yn cael mewnbwn Saesneg am y tro cyntaf (wedi ei addasu o Johnson a Newport 1989).

Gellir gweld o'r graff bod cydberthynas negyddol amlwg rhwng oed caffael iaith a sgôr yn y prawf ar hyd yr oedrannau. Ond yr hyn oedd yn ddiddorol oedd y patrwm ymateb a welwyd cyn ac wedi 15 oed. Wrth edrych ar y canlyniadau'n unigol, yr hyn a welwyd oedd bod cydberthynas negyddol arwyddocaol rhwng perfformiad ac oed caffael iaith ym mhob oed hyd at 15 oed, ond nid oedd cydberthynas arwyddocaol na phatrwm amlwg ym mherfformiad unigolion a ddysgodd Saesneg ar ôl 15 oed (h.y. roedd gwahaniaethau enfawr rhwng perfformiad y cyfranwyr ar ôl yr oedran arbennig hwnnw). Roedd y canlyniadau'n edrych rhywbeth yn debyg i'r hyn a ddangosir isod yn Ffigurau 4.2 a 4.3.¹ Ac ystyried y patrymau hynny yn eu data, cynigiodd Johnson a Newport fod cyfnod allweddol ar gyfer iaith, a bod y cyfnod hwnnw'n ymestyn o enedigaeth hyd at 15 oed.



Ffigur 4.2: Sgorau siaradwyr brodorol a'r rhai a ddysgodd Saesneg cyn 15 oed mewn prawf beirniadu gramadeg brawddegau (wedi ei addasu o Johnson a Newport 1989; cyfeiriad y patrwm wedi ei amlygu gan y llinell ddu).

1 Nid oes modd ailgynhyrchu'r graff gyda'r union sgôr ar gyfer pob symbol, felly mae'r graffiau hyn yn ailgynhyrchu darlun y gwasgariad sgorau fel yr ymddangosodd yn yr erthygl wreiddiol.



Ffigur 4.3: Sgorau siaradwyr a ddysgodd Saesneg ar ôl 15 oed mewn prawf beirniadu gramadeg brawddegau (wedi ei addasu o Johnson a Newport 1989).

Felly, roedd data Johnson a Newport yn dangos yn glir bod gwahaniaeth pendant rhwng perfformiad unigolion a ddysgodd Saesneg yn ifanc (cyn 15 oed) a’r rhai hynny a’i dysgodd yn hŷn (ar ôl 15 oed). Roedd toriad pendant (neu ddiffyg parhad) ym mherfformiad (neu yng ngallu) y siaradwyr mewn prawf adnabod gramadeg Saesneg yn ôl eu hoed yn derbyn yr iaith yn eu mewnbyn.

Fodd bynnag, ers hynny mae rhai wedi cwestiynu dilysrwydd y canlyniadau, tra bod eraill wedi casglu data tebyg sy’n dangos canlyniadau sy’n mynd yn groes i ganlyniadau Johnson a Newport. Drwy ddadansoddi’r data mewn ffyrdd gwahanol, mae rhai (e.e. Elman et al. 1996 a Bialystok a Hakuta 1994) wedi llwyddo i ddangos bod modd darganfod dirywiad cytbwys ar draws yr *holl* oedrannau yn hytrach na bod toriad pendant o amgylch 15 oed (e.e. drwy symud yr oed ‘cau’ i 20 oed). Mewn ymchwil arall a luniwyd yn benodol er mwyn astudio’r cyfnod allweddol, llwyddodd Birdsong (1999) i ddangos bod dirywiad arwyddocaol i’w weld cyn ac wedi oed aeddfediad, a bod rhai o’r siaradwyr oedd wedi dysgu’r iaith yn hwyr yn arddangos medredd lled-frodorol o’r iaith – tystiolaeth bellach sy’n gwrth-ddweud honiadau Johnson a Newport.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: Os nad oes modd adnabod cyfnod pendant ar gyfer caffael iaith yn llwyddiannus, neu reswm biolegol i’w gyfiawnhau, beth arall all fod yn gyfrifol am lwyddiant nifer o blant i gaffael iaith yn rhwyddach nag oedolion? Beth sy’n wahanol am brofiadau bywyd plant ac oedolion?

: Ceisiwch lunio rhestr o’r ffactorau sy’n gwahaniaethu profiadau bywyd plant ac oedolion gan geisio ystyried pa rai o’r ffactorau hynny fyddai’n debygol o ddylanwadu ar eu gallu i ddysgu iaith.

Egluro’r ffenomen: tu hwnt i gyfnod allweddol

Felly, os nad yw’n amlwg bod agweddau ar aeddfedu naturiol yn effeithio ar allu’r unigolyn i feistrolï iaith o fewn cyfnod oed arbennig, beth yn union sy’n dylanwadu ar y gallu hwnnw? Waeth pa ffordd y mae’r ymchwil empirig yn dadlau am fodolaeth cyfnod allweddol, mae plant yn parhau i gaffael iaith o fewn cyfnod plentynod yn llawer iawn rhwyddach nag oedolion. Neu, i aralleirio hyn, os nad oes cyfnod allweddol yn bodoli ar gyfer caffael iaith, sut mae egluro’r ffaith bod plant yn gaffaelwyr iaith llawer iawn mwy llwyddiannus nag oedolion?

Yn gyntaf, efallai nad oes angen cau'r drws yn gyfan gwbl ar y syniad o gyfnod allweddol. Efallai fod modd adnabod gwahanol gyfadrannau ieithyddol sy'n fwy caeth i effeithiau cyfnod allweddol nag eraill. Os ystyrir iaith o'r gogwydd ffurfiol (gweler Pennod 3), efallai fod yr elfennau hynny sy'n cael eu hystyried gan rai i fod yn rhan annatod o ramadeg cyffredinol yn gaeth i gyfnod allweddol tra nad yw'r elfennau hynny sy'n unigryw i'r iaith mor gaeth. (Fodd bynnag, mae'n debyg bod dysgwyr o bob oed yn gweld y strwythurau hynny sy'n wahanol yn eu dwy iaith yn anoddach i'w meistrolu yn eu hail iaith na'r strwythurau hynny sy'n debyg (gweler, e.e., Bialystok a Miller 1999).)

Waeth pa syniadaeth ddamcaniaethol y mae rhywun yn ei derbyn, mae gan iaith nifer o gyfadrannau (e.e. ffonoleg, cystrawen, morffoleg). Nid oes raid i bob un gael ei chynrychioli yn yr un ffordd ac nid oes raid i effeithiau oed ddylanwadu ar bob cyfadran yn yr un modd. Efallai fod ffonoleg (e.e. o ran gwahaniaethu rhwng synau a chynhyrchu acen) yn fwy caeth i gyfnod allweddol na SEMANTEG (dealltwriaeth o ystyr geiriau a darnau o iaith), neu efallai fod un agwedd ar iaith yn ymofyn mwy o fewnbwn cyson nag eraill er mwyn caffael y rhan honno o iaith yn gyflawn (e.e. strwythurau cymhleth megis treiglo yn y Gymraeg).

Ac ystyried problemau amlycaf y dysgwr, mae'n amlwg mai meistrolu acen a ffonoleg yr iaith newydd sy'n peri'r trafferthion mwyaf. Ac mae'n wir mai anallu'r unigolyn i gynhyrchu synau'r iaith newydd at safon y brodorion (ei anallu i swnio'n 'iawn') sy'n peri i nifer o ddysgwyr droi eu cefnau ar ddysgu'r iaith honno. Ond yn amlach na pheidio, cwynion a ddaw o du oedolion yw'r rhain. Mae plant, ar y llaw arall, i'w gweld yn mabwysiadu'r acen (a thrwy hynny, efallai, yn magu hyder gyda'r iaith) yn llawer iawn rhwyddach. Yn wir, ceir honiadau fod cyfnod allweddol cynnar iawn i ddysgu acen (h.y. ffonoleg), lle mae gallu'r plentyn i gynhyrchu synau newydd yn gaeth i effeithiau biolegol hyd at derfyn y flwyddyn gyntaf, ond nid wedi hynny (Werker 1995; gweler Bialystok 2001). Yn ôl ymchwil gan Fledge a Fletcher (1992), gellid adnabod acen plentyn pan mae'r plentyn oddeutu 5 oed, ac mae acen, gan amlaf, wedi ei sefydlu erbyn bod y plentyn oddeutu 8 oed. Os yw hyn yn wir, mae'n dilyn, felly, y dylid ehangu'r cyfnod allweddol hyd at 8 oed yn hytrach na blwydd. Ond mae eithriadau i'r drefn – yr achosion hynny sy'n dangos bod plant ieuengach na 5 oed a chanddynt acen a phlant hŷn nag 8 oed sydd eto i arddangos acen y gellid ei hadnabod (os gwnânt o gwbl) – yn taflu amheuan ynghylch dilysrwydd cyfnod allweddol tyn, megis blwydd neu hyd at 8 oed, ar gyfer ffonoleg.

At hynny, mae'n debyg bod effeithiau eraill, megis amllder defnyddio'r iaith ar lafar a sgiliau/dulliau gwybyddol parod yr unigolyn i ddelio â set newydd o ffonemau, yn cael dylanwad cryf ar feistrolaeth plant ac oedolion o system ffonolegol eu hail iaith (gweler isod).

Yn ychwanegol at storïau anecdotaidd ac ymchwil ymarferol yn y maes, mae eraill wedi troi at fesuriadau o weithgareddau'r ymennydd wrth brosesu iaith gyntaf ac ail iaith er mwyn ceisio ateb y cwestiwn ynghylch bodolaeth cyfnod allweddol ar gyfer iaith. Mae ymchwilwyr megis Kim et al. (1997) wedi dangos bod gwahaniaethau, yn ôl oed caffael ail iaith, i'w gweld yn rhan Broca o'r ymennydd (sy'n ymwneud yn bennaf – ond nid yn unig – â chystrawen), a llwyddodd Weber-Fox a Neville (1996) i ddangos bod yr effeithiau'n gryfach ar gyfer cystrawen na semanteg. Er hynny, mae eraill yn dadlau fel hyn: 'We find no evidence to support the hypothesis that a language learned later in life is represented differently from the native language' (Klein, Zatorre, Milner, Meyer ac Evans 1995: 32).

Rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli data niwrolegol o'r fath. Beth yw goblygiadau'r canlyniadau os ystyrir iaith fel sgil/modiwl sy'n datblygu ar wahân? Os yw gallu'r unigolyn i gaffael iaith yn dod i ben ar ddiwedd cyfnod amser arbennig, tra bod galluoedd gwybyddol eraill yn parhau i ddatblygu, mae'n bosib meddwl am iaith fel strwythur ar wahân (cf. y ddamcaniaeth ffurfiol – gweler Pennod 3). Ond beth yw goblygiadau'r canlyniadau os ystyrir iaith fel rhan o weithgareddau ehangach yr ymennydd, megis gwybyddiaeth gyffredinol neu hyd yn oed ymddygiadau echddygol, neu o ran ei chyd-destun cymdeithasol neu gyd-destun ei dysgu? A oes disgwyl i'r ymennydd brosesu ail iaith yn wahanol i iaith gyntaf am resymau tu hwnt i amseriad ei dysgu? Nid oes modd celu'r ffaith

bod caffaeliad iaith yn dirywio ag oed. Ond i ba raddau y mae hynny o ganlyniad i ddatblygiad/ dirywiad yng ngwybyddiaeth gyffredinol yr unigolyn yn hytrach nag oherwydd aeddfediad biolegol yr organeb?

Un ffordd o edrych ar natur y gwahaniaeth rhwng gallu ieithyddol y plentyn a'r oedolyn yw drwy ystyried y gwahaniaethau posib o ran sut maen nhw'n cynrychioli ac yn prosesu iaith. Ceisiodd Bialystok (1997) esbonio hyn o fewn yr egwyddorion cydweddiad a chymhwysiad y soniodd Piaget amdanynt. Yn ôl Piaget, CYDWEDDIAD (*assimilation*) yw'r broses o ddehongli profiadau newydd yn ôl ein gwybodaeth bresennol (e.e. os yw'r wybodaeth bresennol yn dynodi mai *ci* yw enw creadur a chanddo bedair coes, gall plentyn ddisgrifio creadur 'newydd' nad yw wedi ei weld o'r blaen, e.e. *cadno*, â'r un label – *ci*). CYMHWYSIAD (*accommodation*) yw'r broses o addasu cynlluniau gwybyddol parod er mwyn esbonio profiadau newydd (newid y schemata sydd mewn bodolaeth am greaduriaid pedair coes er mwyn cynnwys profiad newydd – *cadno*). Yn hynny o beth, mae Bialystok yn cynnig bod yr unigolyn yn creu cysyniad newydd – arwydd bod y cysyniad newydd hwnnw'n rhy annhebyg i unrhyw gysyniad sy'n bodoli eisoes fel na ellid ehangu'r schema hwnnw i gynnwys y cysyniad newydd drwy gydweddiad. Ond sut mae hynny'n egluro gwahaniaethau o ran gallu iaith plant ac oedolion?

Mae Bialystok (2001) yn nodi ymchwil ar ddatblygiad ffonolegol er mwyn ceisio esbonio sut gall prosesau cydweddu a chymhwyso gyfrannu at y gwahaniaeth rhwng dulliau prosesu iaith mewn plant ac oedolion. Er enghraifft, mae'n trafod gwaith gan Fledge (1992) sy'n dangos bod plant hyd at 5 oed yn creu categorïau ffonolegol gwahanol yn llwyddiannus ar gyfer y gwahanol synau y maent yn eu clywed. Ond, wedi'r oed hwnnw, mae tuedd i'r plant ddibynnu ar gategorïau sy'n bodoli eisoes, er eu bod yn 'anghywir', a cheisio cynnwys y synau 'newydd' o fewn y categorïau parod hynny. Oherwydd hynny, mae unrhyw synau sy'n unigryw i'r ail iaith yn peri problem aruthrol i'r plentyn gan nad ydynt yn cydweddu'n hawdd ag unrhyw gategori sy'n bodoli'n barod ar gyfer yr iaith gyntaf. (Mae hyn yn adleisio ymchwil Bialystok a Miller 1999, y soniwyd amdani uchod, oedd yn dangos bod siaradwyr yn cael mwy o drafferth dysgu'r strwythurau hynny sy'n wahanol yn eu dwy iaith na'r strwythurau hynny sy'n gorgyffwrdd.) Y syniad felly, yn y bôn, yw bod cyfnodau cynnar ein bywydau yn byrlymu o sefyllfaoedd lle rydym yn cymhwyso gwybodaeth newydd, tra bo'r broses o GYFANTOLIAD (*equilibration*) – sef y cydbwysedd rhwng cydweddu a chymhwyso – yn ymddangos fwyfwy fel bo'r unigolyn yn mynd yn hŷn. Felly, os yw natur meddwl yr oedolyn yn un sy'n ymdebygu i sefyllfa cyfantoliad, mae'n dilyn y bydd yr unigolyn yn dibynnu ar gydweddiad er mwyn dehongli sefyllfaoedd newydd. Hynny yw, bydd siaradwyr hŷn yn ceisio gwneud defnydd o'r systemau sydd wedi eu datblygu'n barod fel rhyw fath o strwythur y gallant ei ddefnyddio er mwyn trefnu'r wybodaeth newydd sy'n dod i law. Bydd unrhyw gategori newydd (neu'r broses o gymhwyso) ddim ond yn digwydd pan nad oes modd cydweddu gwybodaeth newydd â'r strwythur parod (Bialystok 2001). Yn wir, ceir honiadau bod pobl hŷn yn dibynnu'n fwy ar schemata sy'n bodoli'n barod er mwyn dehongli ac adalw digwyddiadau (Davidson 1996) – tystiolaeth bellach bod tuedd gan oedolion i ffafrio prosesau cydweddu dros brosesau cymhwyso.

Ac ystyried hyn o safbwynt dysgu iaith, byddai'n anoddach i oedolion hŷn ddysgu ail iaith gan y byddai'n dra anodd iddynt greu categorïau newydd ar gyfer y synau/strwythurau/geiriau hynny sy'n wahanol yn yr ail iaith. Felly, mae'n dilyn y bydd meistrolaeth yr oedolyn ar ail iaith yn llai cyflawn nag eiddo dysgwr ieuengach, a hynny am resymau nad oes a wnelo hwy â chyfnod allweddol sy'n gaeth i fioleg yr unigolyn.

Ochr yn ochr â'r gwahanol ddulliau o brosesu a chadw ar gof hen wybodaeth a gwybodaeth newydd, mae nifer o sgiliau gwybyddol cyffredinol sy'n dirywio gydag oed. Er enghraifft, ceir problemau encodio gwybodaeth newydd, dirywiad o ran y gallu i gofio manylion yn hytrach na gwybodaeth gyffredinol am ddigwyddiad, a chyfyngiadau o ran y COF GWEITHREDOL (*working memory*) ac o ran cyflymder gwybyddol a'r gallu i dalu sylw.

At hynny, mae natur cyd-destun dysgu iaith a’r amgylchedd ieithyddol – yr elfennau hynny sy’n cyfrannu at fewnbwn ieithyddol allweddol y dysgwr – yn dra gwahanol i blant ac oedolion. Yn amlach na pheidio, bydd plant yn dysgu ail iaith yn yr ysgol ac yn gorfod cymysgu â phlant eraill sy’n siarad yr iaith newydd yn ddyddiol. Bydd rhieni, ar y llaw arall, yn dysgu iaith drwy ddosbarthiadau nos neu drwy ddysgu gan eu plentyn, neu drwy ddysgu pytau wrth gymysgu gydag eraill yn y gymuned. At hynny, mae gwrandawyr yn llai beirniadol o gamgymeriadau mewn iaith plant o’u cymharu â’r disgwyliadau gan oedolion, ac mae disgwyl i oedolion feistroli agweddau mwy cymhleth yn gyflymach na phlant. Pa bynnag fodd y byddant yn mynd ati i ddysgu iaith a pha bynnag agweddau ar yr iaith y mae disgwyl iddynt eu meistroli, mae’n debyg y bydd amllder clywed, derbyn a defnyddio’r iaith mewn sefyllfaoedd naturiol ac mewn sefyllfaoedd mwy ffurfiol yn llai yn achos yr oedolion nag yn achos y plant (gweler, e.e., Baker a Prys Jones 1998).

Yn olaf, at hynny mae ffactorau agweddol (e.e. hunaniaeth a bod yn rhan o ddiwylliant) ac agweddau ar bersonoliaeth (e.e. swildod) hefyd yn gallu chwarae rhan (gweler, e.e., Snow a Hoefnagel-Höhle 1978; Johnson a Newport 1989). Mae gan yr agweddau hyn oll y potensial i amharu ar allu’r oedolyn i feistroli iaith gystal â phlant, ond nid oes gan yr un ohonynt unrhyw gysylltiad uniongyrchol â chyfnod allweddol o reidrwydd (Bialystok 2001).

At ei gilydd, felly, mae’r dystiolaeth sy’n bodoli yn dangos bod y gwahaniaethau rhwng gallu’r plentyn a’r oedolyn i feistroli iaith yn gyflawn yn cyfateb yn fwy i esboniadau gwybyddol na’r rhai biolegol. Mae rôl i newidiadau niwrolegol yr ymennydd yn y gwahaniaethau hyn, gan fod y newidiadau hynny’n bodoli ochr yn ochr ag aeddfediad dynol. Yn ychwanegol at hynny, mae natur wahaniaethol dysgu iaith o ran cyd-destun ei dysgu ac amllder ei defnydd a’i derbyn ar draws ac o fewn yr un siaradwr yn dylanwadu’n fawr ar ein gallu i feistroli iaith. At hynny, mae’r broblem yn parhau ynghylch beth yn union sy’n cael ei gaffael, a sut mae mesur hwnnw. Mae Bialystok (2001: 88) yn crynhoi fel a ganlyn:

It could be that the question about the existence of a critical period reflects a basic misconception about the nature of language learning. Aitchinson (1996) argues that language actually takes twenty years to develop: five years to acquire basic structure, five years to master complex grammar and subtleties, and ten more years to establish a rich vocabulary. It is only our illusion of childhood competence and our impatience with adult struggling that compels us to seek explanations that free us from the slow and laborious process that is the hallmark of all worthwhile learning.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

- : A yw plant yn well dysgwyr iaith nag oedolion?
- : Rhestrwch y dystiolaeth a drafodwyd uchod sy’n cefnogi’r syniad hwn, a rhestrwch y dystiolaeth sy’n dadlau i’r gwrthwyneb.
- : Beth yw eich barn chi ar hyn?
- : Beth yw goblygiadau hyn oll i ddwyieithrwydd?

4. CRYNODEB

Yn y bennod hon, trafodwyd hypothesis y cyfnod allweddol, sef un syniadaeth sydd wedi ei chynnig i egluro’r arsylwad cyson bod plant yn well dysgwyr iaith nag oedolion. Trafodwyd gwreiddiau biolegol yr hypothesis a’r dystiolaeth o blaid ac yn erbyn y syniad. Er mwyn canfod effeithiolrwydd y syniad trafodwyd pwysigrwydd cael diffiniad clir o gaffael iaith, gan nodi bod cymhlethdodau’r diffiniad hwnnw yn amharu ar allu unrhyw dystiolaeth i gefnogi’r hypothesis yn llawn. Trafodwyd hefyd pa ffactorau eraill, y tu hwnt i fioleg yr unigolyn, all ddylanwadu ar gyraeddiadau ieithyddol plant ac oedolion, gan gynnwys aeddfediad gwybyddol a phrofiadau sosioieithyddol.

GWAITH DARLLEN ALLWEDDOL

Johnson, J. S. a Newport, E. L. (1989). Critical period effects in second language learning: The influence of maturational state on the acquisition of English as a second language. *Cognitive Psychology* 21, 60–99. [Dyma'r brif erthygl y cyfeirir ati yn y maes hwn]

Birdsong, D. (1992). Ultimate attainment in second language acquisition. *Language* 68, 23–52.

Birdsong, D. (gol.) (1999). *Second Language Acquisition and the Critical Period Hypothesis*. Mahwah, NJ: Erlbaum. [Mae gwaith Birdsong yn herio'r syniad gwreiddiol gan amlygu achosion lle mae oedolion wedi llwyddo i gaffael ail iaith yn llwyddiannus ac felly yn trafod ffactorau eraill sydd yn debygol o fod yn chwarae rôl]

DeKeyser, R. M. (2003). The robustness of critical period effects in second language acquisition. *Studies in Second Language Acquisition* 22 (4), 499–533.

Hyltenstam, K. ac Abrahamsson, N. (2000). Who can become native-like in a second language? All, some, or none? On the maturational constraints controversy in second language acquisitions. *Studia Linguistica* 54 (2), 150–166.

AWGRYMIADAU DARLLEN AM DDWYIEITHRWYDD YN Y GYMRAEG

Binks, H. a Thomas, E. M. (2016). Effaith amllder iaith yn y cartref ar wybodaeth oedolion o'r system o greu enwau lluosog yn y Gymraeg. *Gwerddon* 22, 31–46. [Er nad yw'r erthygl hon yn trafod y cyfnod allweddol yn uniongyrchol, mae'n trafod ymddygiad ieithyddol oedolion sydd yn siarad Cymraeg y gellid ei gyferbynnu â'r astudiaethau am gaffaeliad plant a restrir ym Mhennod 3]

PENNOD 5

Gramadeg Cyfnewid Cod

1. CYFLWYNIAD

Dim ond un dewis sydd gan bobl uniaith pan maen nhw’n siarad: mae’n rhaid iddyn nhw ddefnyddio’r unig iaith maen nhw’n gallu ei siarad! Petai, er enghraifft, person uniaith Saesneg o Fanceinion yn agor ei geg, byddai’n rhaid iddo siarad Saesneg, dim ots gyda phwy mae’n siarad, a dim ots a yw’r person mae’n siarad ag o – cyd-siaradwr (*interlocutor*) yw’r term am hyn – yn uniaith neu’n ddwyieithog.

Mae gan bobl ddwyieithog fwy nag un dewis. Dyweder bod person yn ddwyieithog mewn Ffrangeg a Rwseg. Byddai hi’n medru agor ei cheg a dechrau siarad Ffrangeg neu siarad Rwseg; fel arfer byddai’r dewis yn dibynnu ar bwy mae’n siarad â nhw. Pe bai’r cyd-siaradwr yn deall Ffrangeg ond nid Rwseg, byddai hi’n dewis defnyddio Ffrangeg â’r person hwnnw; pe bai’r cyd-siaradwr yn siarad Rwseg ond nid Ffrangeg, yna defnyddio Rwseg fyddai’r dewis synhwyrol, er mwyn sicrhau dealltwriaeth rhwng y ddau siaradwr.

Ond mae gan berson dwyieithog *drydydd* dewis hefyd, sef defnyddio cyfuniad o’r ddwy iaith o fewn yr un sgwrs. Dim ond â chyd-siaradwr sydd yn ddwyieithog yn yr un ieithoedd y gallai wneud hyn, os yw eisiau cael ei ddeall. Er enghraifft, pe byddai ein siaradwr dwyieithog Ffrangeg-Rwseg uchod eisiau cyfuno Ffrangeg a Rwseg o fewn yr un sgwrs, er mwyn i’w chyd-siaradwr ddeall byddai’n rhaid i’r person hwnnw *hefyd* siarad Ffrangeg a Rwseg (yn ogystal ag unrhyw ieithoedd eraill). Pobl sy’n ddwyieithog yn yr un ieithoedd, felly, sydd yn gallu cyfathrebu gan gyfuno’u hieithoedd yn y modd hwn.

Mae pob person sy’n byw yng Nghymru heddiw ac yn siarad Cymraeg yn debygol iawn hefyd o fod yn gallu siarad Saesneg, felly mae hi’n bosib i rywun dwyieithog Cymraeg-Saesneg ddibynnu ar y ffaith bod siaradwr Cymraeg maen nhw’n siarad ag o yn mynd i ddeall Saesneg hefyd. Hwyrach mai dyma un rheswm pam y byddwn yn clywed siaradwyr Cymraeg o dro i dro – mae’r amled yn dibynnu ar y person, y sefyllfa a’r pwnc – yn cyfuno’r Gymraeg a’r Saesneg o fewn yr un sgwrs, neu hyd yn oed o fewn yr un frawddeg.

CWESTIWN AC ATEB (1)

Ystyriwch fod siaradwr Cymraeg yn dweud y brawddegau canlynol wrthyh pan fydd yn sgwrsio gyda chi:

Oh my God, mi oedd Eastenders yn amazing neithiwr. Dw i’n totally love-io soap operas!

Ai brawddegau Cymraeg ynteu Saesneg yw’r rhain, yn eich barn chi? Neu ydy disgrifio’r iaith ynddyn nhw yn fwy cymhleth na hyn? Beth sydd ‘yn Gymraeg’ amdanyn nhw, a beth sydd ‘yn Saesneg’ amdanyn nhw? (*Atebion ar ddiwedd y bennod.*)

Yn 1981, ysgrifennodd yr ieithydd Bedwyr Lewis Jones ei fod o’r farn mai dim ond pobl ifanc â lefel isel o addysg ffurfiol fyddai’n gosod geiriau Saesneg yn eu brawddegau Cymraeg (fel y gwelwyd yn yr enghraifft uchod), gan ychwanegu (1981: 49) mai pobl o ardaloedd lle nad oedd y Gymraeg yn arbennig o gryf – e.e. tu hwnt i’r Fro Gymraeg fondigrybwyll – oedd yn cymysgu eu hieithoedd yn fwyaf aml. Byddwch yn clywed termau fel ‘bratiaith’ neu ‘Wenglish’ yn cael eu defnyddio gan rai pobl am y ffordd hon o siarad, sydd yn dermau sydd yn awgrymu bod siarad fel hyn yn flêr a bratiog, ac/neu sy’n awgrymu nad Cymraeg *na* Saesneg mo’r iaith, ond cymysgedd annymunol o’r ddwy (h.y. mae ‘Wenglish’ yn cyfuno ‘Welsh’ ac ‘English’). Mae barnau negyddol ynghylch y ffordd hon o siarad yn bodoli, felly.

Serch hyn, o safbwynt academiaidd rhyngwladol, barn go hen ffasiwn yw un Bedwyr Lewis Jones bellach. Mae toreth o astudiaethau ar ddwyieithrwydd o fewn y degawdau diwethaf o'r hyn a elwir yn GYFNEWID COD (*code-switching* neu weithiau *code-mixing*) yn dangos yn glir fod cymysgu geiriau ac/neu ramadeg o ddwy iaith o fewn yr un sgwrs neu frawddeg yn ffenomen gyffredin mewn cymdeithasau dwyieithog, gan ddeall mai nodwedd ar iaith lafar anffurfiol yw cyfnewid cod fel arfer. Yn fwy na hyn, mae tystiolaeth nad nodwedd ar iaith yr anrhwyl a'r to ifanc yn unig yw cyfnewid cod, ond – i wahanol raddfeydd – rhywbeth sydd i'w glywed yn iaith *pob* siaradwr dwyieithog.

Yn y bennod hon byddwn yn trafod cyfnewid cod (CC) yn y cyd-destun Cymraeg ac mewn ieithoedd eraill, gan gofio ceisio gochel rhag bod yn rhagfarnllyd ynghylch a yw CC yn 'dda' neu'n 'ddrwg', gan mai lle'r ieithydd yw bod yn ddiduedd ac yn wyddonol am ffenomenau ieithyddol. Ein prif amcan yn y bennod hon yw ceisio diffinio CC, cyn mynd ymlaen i drafod strwythur gramadegol y ffenomen ieithyddol hon. Byddwn yn gwneud hynny drwy ystyried sawl damcaniaeth gyfoes sy'n ceisio esbonio'r rheolau y tu ôl i ramadeg CC.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: Ydych chi'n cyfnewid cod, h.y. yn defnyddio geiriau Saesneg gyda rhai Cymraeg?

: Pryd neu pam fyddwch chi'n gwneud hynny?

: Fyddwch chi'n ceisio *peidio* â chyfnewid cod gyda rhai pobl, e.e. eich rhieni, eich athrawon, eich bôd?

: Ym mha sefyllfaoedd fyddwch chi'n fwy neu'n llai tebygol o gyfnewid cod?

Cyn symud ymlaen i ddiffinio CC a'i drafod mewn mwy o fanylder, mae'n werth cofio nad pobl ddwyieithog Cymraeg-Saesneg yn unig sydd yn cyfuno eu hieithoedd fel hyn. Credir bod pobl yn defnyddio CC ym mhob cymdeithas ddwyieithog ar draws y byd bron. Yn wir, CC – yn hytrach na defnyddio un iaith yn unig – yw'r norm (h.y. y peth arferol a 'normal' i'w wneud) mewn rhai cymunedau, fel Miami yn Florida yn UDA, lle mae cyfuno Sbaeneg a Saesneg (caiff ei alw'n Spanglish gan rai!) yn gwbl arferol. Mae'n bosib hefyd bod CC yng Nghymru heddiw yn norm i nifer fawr o bobl, o leiaf yn eu hiaith bob dydd. Ond nid yw pawb sy'n byw o fewn cymdeithas ddwyieithog yn angenrheidiol yn defnyddio'u hieithoedd yn yr un modd: mae'n dibynnu ar eu cefndir, gyda phwy maen nhw'n cyfathrebu, a hefyd ar gefndir a hanes y rhan o'r byd maen nhw'n byw ynddi. Byddwn yn trafod mwy am hyn ym Mhennod 7 ar ddwyieithrwydd yn y gymdeithas.

Ac ystyried bod CC yn digwydd mewn pob math o ieithoedd, felly, isod ceir enghreifftiau o gyfnewid cod sydd wedi eu cofnodi mewn gwahanol barau o ieithoedd (h.y. gan siaradwyr sy'n siarad y ddwy iaith a nodir). Daw'r enghreifftiau o iaith anffurfiol, naturiol a gafodd ei chofnodi gan yr ymchwilwyr fel rhan o'u gwaith maes. Mae enghraifft (1) yn cael ei dyfynnu yng ngwaith Smith (2006) ac yn dod o iaith plentyn sy'n ddwyieithog mewn Sbaeneg a Saesneg (mae'r Saesneg mewn teip italig).

1) Maestro, y a ónde vamos a ir al *swimmin'*, ónde, ónde?

'Athro, athro, lle ydyn ni'n mynd i nofio, lle, lle?'

(o Smith 2006: 210)

Daw enghraifft (2) o ddata Treffers-Daller (1994), o iaith person sy'n byw ym Mrwsel ac sy'n siarad Ffrangeg ac Iseldireg (a nodir mewn teip italig).

2) Nadine est née au mois d'avril *en dan in de maand oktober heb ik een winkel opengedaan in...*

'Ganwyd Nadine ym mis Ebrill ac wedyn ym mis Hydref mi agorais i siop yn...'

(o Treffers-Daller 1994: 30)

Byddwn yn sôn mwy am sut mae’r ddwy enghraifft hyn yn wahanol yn yr adran nesaf, a beth mae hyn yn ei ddweud am sut y gallwn ni ddiffinio beth yn union yw CC.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: Edrychwch yn ofalus ar y ddwy enghraifft uchod o gyfnewid cod. Heblaw am yr ieithoedd, sut maen nhw’n wahanol?

: Pa un o’r enghreifftiau sydd fwyaf tebyg i’r math o gyfnewid cod y byddwch yn ei glywed gan siaradwyr yng Nghymru? ¹

2. DIFFINIO CYFNEWID COD

Yn fras, gallwn wahaniaethu rhwng dwy ffordd wahanol o gyfuno dwy (neu fwy) iaith wrth sgwrsio: o fewn yr un *sgwrs* neu o fewn yr un *frawddeg/cymal* (gan gynnwys oddi fewn i’r un gair weithiau). Gan ddilyn terminoleg Saesneg yr awdur Myers-Scotton (1993, 2002, 2006, etc.) byddwn yn galw’r ddau fath hyn o gyfnewid cod yn CC rhyng-gymalog ac CC mewngymalog:

- I. CYFNEWID COD RHYNG-GYMALOG (*inter-sentential* neu *inter-clausal code-switching*): Siaradwr yn defnyddio iaith A ar gyfer un cymal (*clause*), ac yna’n newid i iaith B ar gyfer y cymal nesaf. Efallai y bydd yn newid yn ôl i iaith A ar gyfer y frawddeg ganlynol, neu’n aros yn iaith B am dipyn.
- II. CYFNEWID COD MEWNGYMALOG (*intra-sentential* neu *intra-clausal code-switching*): Siaradwr yn defnyddio geiriau o fwy nag un iaith o fewn yr un cymal . Gall hyn fod yn un gair o un iaith a’r gweddill o’r iaith arall, neu’n sawl gair o’r ddwy iaith.

Gallwch weld enghreifftiau o’r ddau wahanol fath hyn o gyfnewid cod yn enghreifftiau A a B uchod. Mae B yn enghraifft o gyfnewid cod rhyng-gymalog oherwydd bod y cymal cyntaf yn y datganiad (*Nadine est née au mois d’avril*) yn Ffrangeg, ond yr ail gymal (*en dan in de maand oktober heb ik een winkel opengedaan in*) yn Iseldireg; mae’r siaradwr wedi cyfnewid cod rhwng y cymal cyntaf a’r ail gymal. Ar y llaw arall, mae A, gan y plentyn Sbaeneg-Saesneg, yn gyfnewid cod mewngymalog, gan fod y frawddeg yn un Sbaeneg heblaw am y defnydd o’r gair Saesneg *swimmin’*.

Cynigiodd Pieter Muysken (2000) derminoleg ychydig yn wahanol i ddisgrifio CC. Mae ei lyfr yn disgrifio teipoleg (*typology*) o CC: teipoleg yw fframwaith sydd yn categoreiddio ac yn disgrifio rhywbeth mewn ffordd drefnus. Edrychodd Muysken drwy nifer fawr o wahanol astudiaethau o CC mewn gwahanol ieithoedd, a gwelodd fod modd (yn ei dyb o) categoreiddio CC i dri gwahanol fath, er nad yw’r tri math yn angenrheidiol yn mynd i gael eu defnyddio yn yr un gymuned. Y tri math yw (1) MEWNOSOD (*insertion*), (2) EILEDU (*alternation*) a (3) GEIRIOLI CYFATH (*congruent lexicalisation*). Wnawn ni ddim trafod geirioli cyfath yma (gallwch ddarllen llyfr Muysken i ddysgu amdano), ond mae’n werth ystyried sut mae cysyniadau mewnosod ac eiledu yn cymharu ag CC mewngymalog a rhyng-gymalog.

1. Mewnosod

Mewnosod yw’r hyn y mae Muysken ac awduron eraill yn galw’r broses o osod geiriau o un iaith ymysg geiriau o iaith arall; mewnosodiadau (*insertions*) yw’r gair am y geiriau hynny. Felly, yn enghraifft A mae’r plentyn wedi mewnosod y gair *swimmin’* yng nghanol brawddeg sydd fel arall yn cynnwys geiriau Sbaeneg. Gellir hefyd fewnosod mwy nag un gair mewn talp (*chunk*) wrth gyfnewid cod, fel yn enghraifft (3) isod, a ddaw o iaith siaradwr dwyieithog Cymraeg-Saesneg.

1 ATEB: Mae’r frawddeg yn (1) i gyd yn cynnwys geiriau Sbaeneg, heblaw am *swimmin’*, sydd yn air Saesneg. Yn yr achos yma, wedi gosod gair Saesneg mewn brawddeg Sbaeneg y mae’r plentyn yn y bôn. Yn (2) mae’r siaradwr yn dechrau’r frawddeg mewn Ffrangeg ac yn ei gorffen mewn Iseldireg. Fel y gwelwch isod, mae enghraifft (1) yn fwy tebyg i’r CC a glywch yng Nghymru nag yw enghraifft (2).

3) A wedyn oedd hi'n wneud rhyw *morello cherry sauce* i roi drosto fo. (Davies2, Gwylan², 23 oed)

Er bod y frawddeg yn (3) yn dechrau ac yn gorffen yn Gymraeg, mae'r ymadrodd *morello cherry sauce* yn mewnosod geiriau o'r Saesneg. Mae trefn y geiriau'n dod o'r Saesneg hefyd, gan mai *morello cherry sauce* ac nid y drefn eiriol Gymraeg *sauce cherry morello* sydd yma, felly gallwn ddisgrifio hwn fel mewnosodiad sy'n dalp o Saesneg, gan fod yr ymadrodd cyfan yn dod o'r Saesneg.

CWESTIWN AC ATEB (2)

Dadansoddwch y frawddeg (ddychmygol) hon:

Mi wnaeth y ddynes yn y garej drwsio *converter catalytic* fy hen gar i.

Fyddech chi'n disgrifio'r geiriau Saesneg *converter catalytic* (i) fel un talp o fewnosod, neu (ii) fel dau fewnosodiad unigol? Ystyriwch beth yw trefn arferol y geiriau hyn yn yr iaith Saesneg, ac ystyriwch hefyd beth fyddai trefn arferol y geiriau cyfatebol yn y Gymraeg. (*Ateb ar ddiwedd y bennod.*)

2. Eiledu

Mae eiledu'n cael ei ddisgrifio fel newid cyfan-gwbl o Iaith A i Iaith B (neu Iaith B i Iaith A wrth gwrs), naill ai rhwng brawddegau neu o fewn yr un frawddeg (Muysken 2000: 4). Disgwylir i ramadeg Iaith A gael ei ddefnyddio ar gyfer geiriau o Iaith A ac i ramadeg Iaith B gael ei ddefnyddio ar gyfer geiriau o Iaith B. Er mwyn esbonio hyn, dyma enghraifft (4), a ddaw o iaith rhywun sydd yn siarad Saesneg a Siapaneg (a nodir mewn teip italig).

4) How do you say this *Nihongo de*?

‘Sut wyt ti’n dweud hyn mewn Siapaneg?’

(o Azuma 1991: 193, yn cael ei ddyfynnu yn Myers-Scotton 2002: 139)

Fel y gwelwch, mae'r frawddeg yn dechrau yn Saesneg ond yn gorffen yn Siapaneg, ond yn fwy na hyn mae'r geiriau Siapaneg *Nihongo de* ‘mewn Siapaneg (yn llythrennol: Siapaneg mewn)’ yn dilyn trefn ramadegol Siapaneg, nid Saesneg: yn Saesneg daw arddodiad fel ‘in’ o flaen yr enw, e.e. ‘in Japanese’, ond nid *de Nihongo* sydd yma ond *Nihongo de*. Felly, mae'r siaradwr wedi eiledu yng nghanol y frawddeg ac wedi cyfnewid iaith yn gyfan-gwbl (h.y. geiriau *a* gramadeg) o'r Saesneg i'r Siapaneg.

CWESTIWN AC ATEB (3)

Edrychwch ar y brawddegau canlynol, sydd oll yn cynnwys CC (weithiau ceir mwy nag un frawddeg neu gymal o fewn yr un enghraifft). Sut fydddech chi'n disgrifio'r math o CC a geir ym mhob enghraifft? Defnyddiwch dermau fel CC rhyng-gymalog/mewngymalog, mewnosod ac eiledu. (*Atebion ar ddiwedd y bennod.*)

- a. Mi wnaeth Caryl ddal y *nine forty-seven* o Fangor i Gaer.
- b. *It never rains but it pours* yntê.
- c. O'n i arfer mwynhau'r coleg *but now I'm not so sure*.
- ch. Ac oedd hi fel “*no way!*”, ac o'n i fath â “*you have no idea!*”

Mae astudiaethau'n dangos bod gwahanol fathau o siaradwyr yn defnyddio gwahanol batrymau CC. Mae'r amrywiaeth yn dibynnu ar gefndir y person (neu'r math o berson) dan sylw. Er enghraifft, gwelodd Bentahila a Davies (1995) fod pobl o Foroco sydd yn ddwyieithog mewn Arabeg a Ffrangeg yn defnyddio gwahanol fathau o CC yn dibynnu ar eu hoedran a'u cefndir: y rhai ifanc yn defnyddio

2 Mae enwau'r siaradwyr o gorpws *Siarad* – gweler y disgrifiad o'r corpws hwn yn ddiweddarach yn adran 3 isod – oll yn ffugenwau, er mwyn amddiffyn preifatrwydd y cyfranogwyr.

mwy o CC mewngymalog gydag Arabeg fel prif iaith y sgwrs, a'r rhai hŷn yn defnyddio mwy o CC rhyng-gymalog gan symud yn fwy rhwydd o Arabeg i Ffrangeg. Dadl yr awduron oedd bod cefndir addysg Ffrangeg y to hŷn yn golygu eu bod nhw'n ei chael hi'n haws ffurfio brawddegau llawn yn y naill iaith neu'r llall, lle roedd y to iau wedi cael eu haddysg mewn Arabeg ac felly'n fwy hyderus yn yr iaith honno, a dim ond yn defnyddio Ffrangeg ar gyfer ambell air yma ac acw, pan nad oedden nhw'n siŵr o'r gair Arabeg neu pan oedd y gair Ffrangeg yn fwy addas fel disgrifiad. Yn gefndir i hyn oll roedd y newid cymdeithasol sylweddol ym Moroco yn ystod yr 20fed ganrif, pan newidiodd prif iaith y wlad – e.e. iaith busnes, iaith addysg – o Ffrangeg i Arabeg wrth i'r wlad ennill ei hannibyniaeth yn 1956 (bu'r wlad dan reolaeth Ffrengig o 1912 tan hynny), er mai newid graddol ac nid un disymwth oedd y newid o Ffrangeg i Arabeg, ac yn 1995 roedd Ffrangeg yn dal i gael ei defnyddio fel cyfrwng addysg uwch mewn meysydd fel gwyddoniaeth ac astudiaethau technoleg. Mae angen talu sylw i'r math yma o agweddau cymdeithasol wrth drafod CC, gan fod ffactorau cymdeithasol yn gallu esbonio pam mae siaradwyr yn defnyddio'r patrymau ieithyddol a ddefnyddir ganddynt.

3. STRWYTHUR CYFNEWID COD

Cafodd CC ei ddiffinio ar ddechrau'r bennod fel y defnydd o *eiriau* o ddwy iaith yn yr un frawddeg. Ond beth am *ramadeg*? Oes modd cyfuno elfennau gramadegol o ddwy iaith, yn ogystal ag elfennau geiriol, yn yr un frawddeg yn llwyddiannus? Ac os oes, pa mor bell y gall siaradwyr fynd wrth gyfuno gramadeg fel hyn?

Mae astudio cyfyngiadau (*constraints*) ar CC yn boblogaidd yn y llenyddiaeth ers tro, ac un peth mae ieithyddion wedi ceisio'i ddarganfod yw a oes yna gyfyngiadau cyffredinol ar CC – h.y. a yw CC yn gallu digwydd mewn unrhyw ran o ramadeg, ynteu a yw CC yn cael ei gyfyngu e.e. i fathau arbennig o eiriau, neu i rannau arbennig o ramadeg? Ac, yn fwy pwysig i'r ieithyddion hyn, os darganfyddwch gyfyngiadau fel hyn mewn data o un pâr o ieithoedd, a fydd yr un cyfyngiadau'n bodoli mewn paru eraill o ieithoedd? Dyma'r rheswm am y defnydd o'r term 'cyffredinol' – 'universal constraints' yw'r term sydd yn gyffredin yn y llenyddiaeth cyfrwng Saesneg. Yn yr adran hon byddwn yn ystyried a oes lle i ddadlau bod rheolau cyffredinol ar gyfer CC ar draws ieithoedd y byd, ynteu a yw'r rheolau'n amrywio o sefyllfa i sefyllfa.

Awdur cynnar a geisiodd osod cyfyngiadau cyffredinol ar CC oedd Shana Poplack (1980), yn deillio o'i hastudiaeth o CC Sbaeneg-Saesneg yn iaith pobl o dras Puerto Ricaidd (fel y gwelwch, mae astudio CC rhwng y Sbaeneg a'r Saesneg yn weddol boblogaidd yn y llenyddiaeth yn hanesyddol – byddwn yn edrych ar e.e. ymchwil Sayahi (2002) ar y ddwy iaith hon ym Mhennod 6). Darganfyddodd Poplack fod ei siaradwyr yn tueddu i CC yn aml, ond nid oedden nhw'n CC ar hap. Yn hytrach, roedd patrymau i'r hyn yr oedden nhw yn, a ddim, yn ei wneud. Yn seiliedig ar ei hastudiaeth o'r patrymau hyn, cynigiodd Poplack ddau gyfyngiad cyffredinol ar gyfer CC: y CYFYNGIAD MORFFEM RHYDD (*free morpheme constraint*) a'r CYFYNGIAD CYWERTHEDD (*equivalence constraint*). Gadewch i ni eu hastudio mewn ychydig mwy o fanylder:

1. **Cyfyngiad morffem rhydd:** Honnai Poplack na fyddai siaradwyr yn CC rhwng morffemau clwm (*bound morphemes*). Morffemau clwm yw morffemau sydd yn bodoli fel rhan o air mwy cymhleth, e.e. morffemau lluosogi (e.e. *-au*, *-oedd* yn y Gymraeg), morffemau berfol (e.e. *-ais*, *-odd*), ac yn y blaen. Yn hytrach, dim ond rhwng dau forffem rhydd (*free morpheme*) – sef unrhyw forffem nad yw'n forffem clwm – y gellir CC. Yn fras, golygai hyn nad yw CC 'tu mewn i air' yn bosib. Enghraifft Poplack o CC fyddai'n torri'r cyfyngiad hwn yw gair fel **eatiendo* (mae'r asterisg yn dangos bod y gair yn 'amhosib'). Mae **eatiendo* yn cyfuno'r ferf Saesneg *eat* â'r atodiad berfol Sbaeneg *-iendo*, felly byddai'n golygu rhywbeth fel 'yn bwyta'. Ond gan fod y CC yn yr enghraifft hon yn digwydd rhwng dau forffem clwm (*eat* ac *-iendo*), roedd Poplack yn dadlau na fyddai'n ymddangos mewn iaith: byddai'n rhaid i siaradwr ddewis *eat* neu'r gair Sbaeneg (e.e. *comer*).

2. **Cyfngiad cywerthedd:** Gyda’r cyfngiad hwn mae Poplack yn dadlau mai dim ond rhwng geiriau lle na fyddai cyfnewid ieithoedd yn y fan honno’n amharu ar drefn eiriol y naill iaith neu’r llall y gall CC ddigwydd. Felly, os oes gan Iaith A ac Iaith B yr un drefn geiriau ar gyfer e.e. trefn yr enw a’r ansoddair (h.y. mae un wastad yn dod cyn y llall mewn brawddeg), yna byddai CC rhwng enw ac ansoddair yn gallu digwydd yn iaith pobl sy’n siarad A a B. Ond os oes gan Iaith C ac Iaith Ch drefn wahanol ar gyfer yr enw a’r ansoddair, yna ni fydd pobl sy’n siarad C ac Ch yn CC rhwng yr enw a’r ansoddair yn eu brawddegau. Darganfyddodd Poplack bod ei siaradwyr Puerto Ricaid hi yn ufuddhau i’r cyfngiad hwn fel rheol.

Sylwch mai sôn am bwyntiau cyfnewid (*switch points*) mae cyfyngiadau Poplack mewn gwirionedd, h.y. rhwng pa ddwy elfen mewn brawddeg y caniateir i chi gyfnewid ieithoedd. Yn ei barn hi, ac yn seiliedig ar ei data, ceir rhai pwyntiau mewn brawddeg lle *na* ellir cyfnewid ieithoedd.

Fel y nodwyd uchod, seiliodd Poplack ei damcaniaethau ar ei data hi ei hun a hefyd ar ddata’r ymchwilyr ddaeth o’i blaen (oedd hefyd yn astudio’r Sbaeneg fel arfer). Yn dilyn gwaith Poplack, aeth awduron eraill ati i weld a oedd y cyfyngiadau a gynigiodd hi yn wir am barau eraill o ieithoedd hefyd. Mewn astudiaethau fel rhai Bentahila a Davies (1995) o ddata Arabeg-Ffrangeg (gw. uchod) a Berk-Seligson (1986) o ddata Sbaeneg-Hebraeg, gwelir bod y cyfngiad morffem rhydd yn dal dŵr yn gyffredinol, ond cafwyd mwy nag un eithriad i’r cyfngiad cywerthedd. Er enghraifft, yn nata Berk-Seligson gwelir siaradwyr yn aml yn torri rheolau gramadegol Sbaeneg wrth iddynt eiledu o Sbaeneg i Hebraeg o fewn brawddeg; y rheol fwyaf cyffredin i gael ei thorri oedd peidio â chynnwys y fannod (*definite article*) – sef *y* neu *yr* yn y Gymraeg – gyda gair Hebraeg. Mae’r fannod *el* neu *la* yn bodoli yn y Sbaeneg, ond nid yw’n cael ei defnyddio yn yr Hebraeg. Darganfyddodd Berk-Seligson enghreifftiau fel yr un yn (5) – mae’r gair mewn teip italig yn Hebraeg a’r gweddill yn Sbaeneg.

5) Éya kére *mispár* del teléfono de tu ížo.

‘Mae hi eisiau *rhif ffôn* dy fab.’

(o Berk-Seligson 1986: 328)

Petai’r frawddeg hon yn Sbaeneg, byddai angen y fannod Sbaeneg *el* cyn y gair am ‘rhif’, ond gan mai gair Hebraeg (*mispár*) a ddefnyddir ar gyfer ‘rhif’, mae’r siaradwr wedi defnyddio rheol ramadegol Hebraeg (sef *nad* oes bannod o flaen brawddeg enwol) yn hytrach na rheol ramadegol Sbaeneg (bannod o flaen brawddeg enwol). Yn ôl Berk-Seligson mae’r enghraifft hon, ac enghreifftiau eraill tebyg iddi, yn mynd *yn groes* i’r cyfngiad cywerthedd, gan nad yw rheolau gramadegol y ddwy iaith yn cael eu cadw. (Mewn gwirionedd, gyda’r pâr yma o ieithoedd ni fyddai ffordd amlwg o *beidio* â thorri’r cyfngiad cywerthedd, heblaw drwy beidio â chyfnewid cod rhwng y fannod a’r enw o gwbl.)

CWESTIWN AC ATEB (4)

A yw’r brawddegau isod yn cefnogi neu’n gwrth-ddweud un o gyfyngiadau Poplack neu’r ddau ohonynt? Ym mha ffordd? (*Atebion ar ddiwedd y bennod.*)

a. Mae hi wedi *excite*-io’n lân am y Nadolig.

b. Dwyt ti ddim yn meddwl bod Cleif yn medru bod yn fachgen *uncompromising* braidd?

c. Mi fydd Elen yn *abseiling* ar ddydd Sadwrn.

Mae’n glir bod modd dangos eithriadau i ddau gyfngiad Poplack mewn CC Cymraeg-Saesneg. Ystyriwch drefn yr ansoddair a’r enw yn y ddwy iaith. Yn y Gymraeg, mae’r ansoddair fel arfer yn dilyn yr enw (*gwin coch*) ond yn y Saesneg mae’n dod o flaen yr enw (*red wine*), felly byddai Poplack yn rhagweld *na* fyddai cyfnewid rhwng yr ansoddair a’r enw yn iaith pobl ddwyieithog Cymraeg-Saesneg yn bosib. Ond mae’n siŵr eich bod wedi dod ar draws enghreifftiau o hyn droeon, efallai

yn eich iaith chi'ch hun, wrth e.e. ddefnyddio ansoddair Saesneg gydag enw Cymraeg (e.e. 'adeilad lovely', 'dyn weird') neu addasu enw Saesneg gydag ansoddair Cymraeg (e.e. 'lecture ardderchog', 'hotel drud').³ Gallwn hefyd feddwl am eithriadau i'r cyfyngiad morffem rhydd mewn CC Cymraeg-Saesneg, e.e. rhywbeth fel *love-io*, lle ceir CC rhwng y morffem Saesneg *love* a'r morffem clwm Cymraeg *-io*. Dadl Poplack (gw. Sankoff a Poplack 1981) am y math hwn o CC yw nad CC mohono, ond enghraifft o FENTHYG (*borrowing*), gan fod ynganiad gair fel *love-io* yn debygol o ddilyn rheolau ffonolegol y Gymraeg. (Byddwn yn trafod mwy ar eiriau benthyg ym Mhennod 9.) Gallwch ddarllen Poplack (1980) i ddarganfod mwy am y gwahaniaeth y mae hi'n ei weld rhwng CC a benthyg, lle mae hi'n trafod ac yn amddiffyn y ddau gyfyngiad uchod mewn mwy o fanylder. Y prif beth i'w ddeall yw nad yw cyfyngiadau 'cyffredinol' Poplack yn dal yn wir am bob pâr o ieithoedd yn y byd, ac felly hwyrach ei bod hi'n well eu trin fel tueddiadau yn unig.

Os nad yw awgrymiadau Poplack yn llawer o gymorth wrth ystyried data CC Cymraeg-Saesneg felly, a oes ffordd arall o ddadansoddi'r iaith a welwn? Model damcaniaethol ar gyfer strwythur CC yw'r fframwaith a ddyfeisiwyd gan Carol Myers-Scotton (2006) o'r enw'r model FFRÂM IAITH FATRICS (*Matrix Language Frame model*) neu'r FfIF. Mae'r model hwn, yn fras, yn dadlau y bydd unrhyw frawddeg sydd yn cynnwys CC mewngymalog yn arddangos anghymesurolddeb (*asymmetry*), yn ôl terminoleg Myers-Scotton, rhwng y ddwy iaith sydd yn 'cymryd rhan' yn y frawddeg honno. Beth a olygir gan 'anghymesurolddeb'? Dyweder bod dwy brif nodwedd sydd angen eu cynnwys mewn unrhyw frawddeg, sef geiriau a strwythur gramadegol (sylwch fod hyn yn symleiddio'r sefyllfa rywfaint!). Mewn brawddeg uniaith, fel (6), mae'r geiriau a'r gramadeg i gyd yn dod o'r un iaith – Saesneg yn yr achos hwn – ond mewn brawddeg ac ynddi CC, fel (7), mae modd i'r geiriau a'r gramadeg ddod o'r naill iaith neu'r llall.

6) The brave explorer walked through the forest.

7) Cerddodd yr explorer dewr drwy'r goedwig.

Yn (7) mae'r gair *explorer* yn dod o'r Saesneg tra bod gweddill y geiriau'n Gymraeg. Felly mae'r siaradwr wedi cyfuno geiriau o'r ddwy iaith. Beth am ramadeg y frawddeg yn (7)? Gallwn edrych ar bethau fel trefn y geiriau, a gweld bod lleoliad yr ansoddair *dewr* yn dilyn rheolau gramadegol y Gymraeg gan ei fod yn dilyn yr enw y mae'n ei addasu (mae'r Saesneg yn tueddu i osod ansoddeiriau o flaen yr enw). Yn wir, does dim arwydd o ramadeg Saesneg yn (7), er bod gair Saesneg ynddi. Mae hyn yn enghraifft o'r anghymesurolddeb y mae Myers-Scotton yn cyfeirio ato: yn (7), mae dwy iaith yn darparu cynnwys i'r frawddeg, ond mae'r rhan fwyaf o'r cynnwys yn dod o'r iaith Gymraeg (h.y. pob gair heblaw un, a'r gramadeg i gyd).

Y term y mae Myers-Scotton (2006) yn ei ddefnyddio er mwyn crisialu'r anghymesurolddeb hwn yw IAITH FATRICS (*Matrix Language*). Yr Iaith Fatrics⁴ (IF) yw'r iaith sy'n darparu'r rhan fwyaf o gynnwys mewn brawddeg ac ynddi CC; y Gymraeg yw'r IF yn (7) uchod. Gelwir yr iaith arall yn Iaith Fewnosodedig (*Embedded Language*); Saesneg yw'r Iaith Fewnosodedig (IO) yn (7) uchod. Mewn unrhyw frawddeg o CC mewngymalog, bydd *un* Iaith Fatrics ac *un* Iaith Fewnosodedig, ac yn ôl Myers-Scotton mae modd adnabod pa iaith yw p'run drwy edrych ar dystiolaeth o'r frawddeg.

Sut yn benodol y gellir adnabod IF cymal? Mae Myers-Scotton yn gosod dwy egwyddor (*principle*) sydd yn dweud pa gynnwys ieithyddol mae'r IF yn ei ddarparu mewn brawddeg lle ceir CC. Dyma grynodedau o'r egwyddorion hynny:

3 Rhaid nodi hefyd bod Poplack ei hun wedi canfod ambell enghraifft o hyn yn ei data hi! Yn gyffredinol mae Sbaeneg yn defnyddio trefn fel y Gymraeg ar gyfer ansoddeiriau, ond canfyddodd Poplack o leiaf un enghraifft o CC rhwng enw ac ansoddair yn ei data: 'los pechos flat' ('bronnau fflat'), lle mae ansoddair Saesneg yn addasu enw Sbaeneg. Mae Poplack yn tynnu sylw at y ffaith bod y math yma o CC yn cynrychioli llai nag 1% o'i data (Poplack 1980: 600).

4 Nodwch nad Myers-Scotton oedd y cyntaf i ddefnyddio'r term *Matrix Language*. Daw'r syniad o waith pobl fel Klavans (1983) a Joshi (1985), er nad oedd eu syniad nhw o iaith fatrics yr union yr un peth â syniad Myers-Scotton o iaith fatrics. Byddwch yn ofalus, felly, eich bod chi'n gwybod gwaith pwy y byddwch yn ei ddilyn wrth ddefnyddio term fel *Iaith Fatrics*, a'ch bod chi'n ei ddiffinio'n glir fel cysyniad.

1. **Egwyddor trefn geiriau (*Morpheme order principle*)**

Fel y nodwyd ar gyfer enghraifft (7) uchod, mae trefn geiriau o fewn brawddeg yn amrywio o iaith i iaith. Ystyriwch fod trefn y goddrych a'r ferf ffurfdroedig yn wahanol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg fel arfer, e.e. *Gwelodd Huw y tractor* lle mae'r goddrych *Huw* yn dilyn y ferf *gwelodd*, a *Huw saw the tractor*, lle mae'r goddrych *Huw* yn dod o flaen y ferf *saw*. Hefyd mae trefn yr ansoddair a'r enw yn wahanol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, e.e. *ci du*, lle mae'r ansoddair *du* yn dilyn yr enw *ci*, a *black dog*, lle mae'r ansoddair *black* yn rhagflaenu'r enw *dog*. Mae Myers-Scotton yn dadlau y bydd trefn y geiriau i gyd yn cael ei chymryd o'r un iaith, sef yr IF. Felly, mewn brawddeg Gymraeg-Saesneg ac ynddi CC, byddai disgwyl i drefn y goddrych a'r ferf a threfn yr ansoddeiriau (os yw'n berthnasol) ddilyn naill ai trefn y Saesneg neu drefn y Gymraeg, ond nid y ddwy.

2. **Egwyddor morffemau system (*System morpheme principle*)**

Gellir rhannu geiriau yn ddau fath: geiriau cynnwys a rhai geiriau (neu forffemau) gramadegol, sydd hefyd yn cael eu galw'n eiriau system. Mae enw neu ansoddair yn air cynnwys, gan ei fod yn air sydd yn cyfleu ystyr glir. Enghreifftiau o eiriau system, ar y llaw arall, yw geiriau fel *oedd* neu *wedi*, sydd â mwy o swydd ramadegol gan eu bod yn cyfleu e.e. amser y weithred. Gellir sôn am forffemau (*morphemes*) system hefyd, e.e. mae'r *-odd* yn *gwelodd* yn atodiad ffurfdroedig berfol trydydd person sydd yn dangos bod y weithred *gweld* wedi digwydd yn y gorffennol. Mae Myers-Scotton yn dadlau bod modd i forffemau cynnwys mewn cymal CC ddod o'r naill iaith neu'r llall – yr IF neu'r IO – ond mai dim ond o'r IF y daw rhai morffemau system. Nid oes lle yma i drafod mewn manylder y modd y mae Myers-Scotton yn categoreiddio morffemau system, ond yn fras mae hi'n dweud bod ffurfdroadau berfol yn un math o forffemau system sydd ddim ond yn gallu cael eu darparu gan yr IF, a byth gan yr IO.⁵ Wrth ddweud 'ffurfdroad berfol' rydyn ni'n golygu nid yn unig yr atodiad ar ferfau rheolaidd fel *prynu* – *prynaf* – *prynais* – *prynodd*, ond hefyd ffurfiau ar ferfau afreolaidd fel *mynd* – *af* – *es* – *aeth*, lle mae'r elfennau tywyll yn cynrychioli'r deunydd sy'n dod o'r IF.

Yn ôl y FfIF, mae pob brawddeg CC yn ufuddhau i'r ddwy egwyddor uchod – a chofier y dylai'r model allu disgrifio unrhyw CC mewn unrhyw ieithoedd, nid dim ond y Gymraeg a'r Saesneg (ar ieithoedd o Affrica y profodd Myers-Scotton ei damcaniaethau i gychwyn). Gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon er mwyn canfod IF unrhyw gymal CC, yn ddelfrydol! Gadewch i ni ystyried sut bydden ni'n canfod beth yw IF y frawddeg yn (8).

8) Mae *Americans* yn mwy... *commercial*. (Fusser27, Mabli, 19 oed)

Mae angen profi'r ddwy egwyddor uchod yn eu tro. Yn gyntaf, mae angen gweld a yw'r egwyddor trefn geiriau'n cael ei dilyn gan y siaradwr, a pha iaith mae'r egwyddor honno'n pwyntio tuag ati fel yr Iaith Fatrics. Un nodwedd sy'n gwahaniaethu trefn eiriol y Gymraeg oddi wrth y Saesneg yw, fel y nodwyd uchod, trefn y goddrych a'r ferf. Yn y frawddeg uchod, *mae* yw'r ferf ac *Americans* yw'r goddrych, ac mae *Americans* yn dilyn *mae* – trefn Gymraeg sydd ar y goddrych a'r ferf felly (*Americans mae...* fyddai'r drefn 'Saesneg' ar yr un geiriau, ond nid dyna a geir yma). Gan fod y drefn hon ar gyfer elfennau yn dderbyniol yn y Gymraeg, gallwn ddweud bod yr egwyddor trefn geiriau yn cael ei chefnogi gan y frawddeg hon, ac mai'r dystiolaeth yw mai Cymraeg yw'r iaith Fatrics, gan mai'r Gymraeg sydd yn darparu trefn y geiriau.

Ond mae angen hefyd profi'r ail egwyddor: mae'r egwyddor morffemau system yn chwilio i weld pa iaith sy'n darparu'r ffurfdroad berfol, h.y. morffoleg y ferf ffurfdroedig. Yn yr achos hwn, *mae* yw'r ferf, sydd yn digwydd bod yn ffurf bresennol 3ydd person *bod*, sydd yn ferf afreolaidd, ac yn ferf Gymraeg. Gan mai Cymraeg yw'r iaith sy'n ffynhonnell ar gyfer morffoleg y ferf, gallwn

5 Mae enghreifftiau eraill o forffemau system y mae'r model hwn yn dadlau eu bod yn dod o'r IF yn cynnwys nodwedd ramadegol sydd i'w gweld mewn nifer o ieithoedd, sef cyflwr (*case*) – fe'i ceir mewn Almaeneg, Ffinneg a Lladin, er enghraifft. Byddai (e.e.) unrhyw atodiadau o fewn brawddeg CC sydd yn cyfleu cyflwr yn gorfod dod o'r un iaith, yn ôl Myers-Scotton, a'r iaith honno fyddai'r IF.

ddweud mai'r Gymraeg y mae'r egwyddor morffemau system yn pwyntio tuag ati fel yr Iaith Fatrics. Gan fod yr egwyddor trefn geiriau a'r egwyddor morffemau system ill dwy'n gytûn yn hyn o beth, gallwn ddweud mai Cymraeg yw IF y cymal, ac felly mai Saesneg ydy'r IO. Mae hyn yn golygu mai'r Gymraeg y mae'r siaradwraig wedi ei defnyddio fel y ffynhonnell ar gyfer gramadeg mwy sylfaenol y frawddeg, ond ei bod hi wedi tarddu geiriau o'r ddwy iaith, e.e. *mwy* o'r Gymraeg ond *commercial* o'r Saesneg; gelwir y geiriau Saesneg yn fewnosodiadau.

Beth allwn ni ei wneud, felly, â'r ddamcaniaeth hon? Cysyniad gramadegol yw Iaith Fatrics, ac mae Myers-Scotton yn gofalu ei bod yn nodi (2002: 62) nad yw dewis rhywun o Iaith Fatrics yn angenrheidiol yn dangos beth yw iaith ddominyddol rhywun (h.y. yr iaith maen nhw fwyaf galluog ynddi) o safbwynt seicoieithyddol na chwaith yr iaith ddiofyn (h.y. yr iaith fwyaf addas ar gyfer y cyd-destun) o safbwynt sosioieithyddol. Yn wir, gall yr un siaradwr gynhyrchu brawddegau â'r naill iaith neu'r llall fel yr Iaith Fatrics, mewn egwyddor. Yr hyn y mae Myers-Scotton yn ei ddadlau bod dadansoddi Iaith Fatrics yn caniatáu i ni ei wneud yw adnabod pa iaith yw'r iaith gryfaf o safbwynt morffogystrawennol (*morphosyntactic*), sef strwythur gramadegol brawddeg, ar gyfer y siaradwyr hynny. Dyna pam mae astudiaeth o lawer o ddata yn gallu ein helpu yn y fan hyn: o edrych ar un frawddeg CC ar ei phen ei hun, nid yw adnabod Iaith Fatrics y frawddeg honno yn dweud cymaint â hynny wrthym am y siaradwr. Ond o edrych ar nifer fawr o frawddegau CC ar draws llawer o siaradwyr, gallwn ddechrau chwilio am batrymau. A yw'r Iaith Fatrics yn tarddu o'r un iaith bob tro, ynteu a oes amrywiaeth? Pa iaith sydd gryfaf yn ramadegol yn iaith y siaradwyr, a beth gall hyn ei ddweud wrthym am y siaradwyr hynny?

Gadewch i ni drafod am funud pa fath o ddata y gellid eu defnyddio ar gyfer dadansoddi iaith dwyieithog. Rhwng 2005 a 2008 casglodd tîm o ymchwilwyr ym Mhrifysgol Bangor gorpws o ddata ieithyddol a'i alw'n *Siarad*. Cronfa o recordiadau o sgysiau rhwng pobl sy'n ddwyieithog mewn Cymraeg a Saesneg yw *Siarad*, a ffocws diddordeb y tîm ymchwil oedd cyfnewid cod. Recordiwyd 151 o siaradwyr mewn grwpiau o ddau neu fwy yn sgwrsio gyda'i gilydd mewn ffordd naturiol ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol, a thrawsgrifiwyd (*transcribe*) pob sgwrs gan dagio'r geiriau Saesneg, oedd yn galluogi i ymchwilwyr wedyn adnabod y brawddegau oedd yn cynnwys cyfnewid cod. Gallwch weld y corpws a darllen a defnyddio'r data drwy fynd i <http://www.siarad.org.uk>. Byddwn ni'n trafod astudiaethau sy'n cyflwyno dadansoddiadau o ddata *Siarad* isod ac ym Mhennod 9.

Yn astudiaeth Davies (2010) o gyfnewid cod yn *Siarad*, dadansoddodd yr awdur iaith chwech o siaradwyr dwyieithog Cymraeg-Saesneg, gan adnabod Iaith Fatrics pob cymal CC mewngymalog a gynhyrchwyd gan y siaradwyr (349 cymal). Mewn 347 o'r cymalau hynny (99.43%), adnabwyd Cymraeg fel yr Iaith Fatrics, h.y. yr iaith oedd yn darparu ffurfdroad y ferf a threfn y geiriau. Nid oedd Saesneg yn Iaith Fatrics unrhyw un o'r cymalau. Roedd y ddau gymal oedd yn weddill yn arddangos trefn eiriol oedd yn ffurf gyfansawdd o ramadeg Cymraeg a Saesneg, ond prin iawn felly oedd gramadeg abnormal yn y data. Hynny yw, bron bob tro roedd y siaradwyr yma'n cyfnewid cod, roedden nhw'n cymryd gramadeg y Gymraeg fel sylfaen eu brawddegau, fel yn enghreifftiau (7) ac (8) uchod.

Er mai dim ond chwe siaradwr yr edrychwyd arnynt yn astudiaeth Davies (2010), gwelodd fod y CC yn patrymu'n debyg iawn rhwng y siaradwyr hynny, h.y. Cymraeg oedd y brif Iaith Fatrics i bob un ohonyn nhw. Yn fwy na hyn, mae astudiaeth fwy diweddar o'r holl ddata yn y corpws *Siarad* (Deuchar, Davies a Donnelly yn y wasg) yn dangos mai Cymraeg yw'r Iaith Fatrics ddewisol ym mwyafrif sylweddol brawddegau'r 151 o siaradwyr sydd yn y corpws *Siarad* cyfan, waeth beth yw eu cefndir. Mae hyn yn arwydd bod CC yn hynod o unffurf, pan mae'n digwydd, ar draws iaith siaradwyr Cymraeg yng Nghymru heddiw.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: Iaith Ffatrics Gymraeg sydd i'r frawddeg uchod. Sut un fyddai brawddeg CC fewngymalog gydag iaith Ffatrics *Saesneg*?

: Rhowch gynnig ar ddyfeisio dwy neu dair brawddeg o'r fath, gan gofio bod angen i drefn y geiriau ddod o'r Saesneg, a hefyd ffurfdroad y ferf. Ceir awgrymiadau isod o frawddegau damcaniaethol o'r fath. A yw'r rhain yn swnio'n naturiol i chi?

: Fyddech chi'n eu defnyddio ar lafar, neu ydych chi'n adnabod siaradwyr Cymraeg fyddai'n siarad fel hyn?

Ym mhob astudiaeth o CC gan siaradwyr Cymraeg, prin iawn yw'r brawddegau CC ag iaith Ffatrics Saesneg yn y data. Er bod modd clywed pobl yn eu cynhyrchu, mae'n glir mai'r norm yn y cyddestun Cymraeg yw glynu at iaith Ffatrics Gymraeg.⁶ Felly os yw brawddegau fel y rhai y cyfeiriwyd atyn nhw yn yr ymarfer uchod yn swnio'n rhyfedd i chi, mae'n debyg bod hynny oherwydd eu bod nhw mor anarferol ar lafar – ac mae pethau ieithyddol sy'n anghyffredin mewn iaith lafar neu lenyddol wastad yn swnio'n od i glust siaradwyr rhugl. Cofiwch felly bod gwahaniaeth rhwng iaith anarferol ac iaith 'anghywir'!

4. CRYNODEB

Yn y bennod hon rydyn ni wedi cyflwyno a diffinio cyfnewid cod, gan ganolbwyntio ar y Gymraeg a'r Saesneg, ond gan nodi bod CC hefyd i'w weld mewn ieithoedd ar draws y byd. Os ydych chi'n astudio ieithoedd eraill, yna gallwch geisio profi syniadau Poplack, Myers-Scotton etc. ar frawddegau CC o'r ieithoedd hynny, a gweld a yw'r modelau'n dal dŵr, ac a yw'r patrymau'n cyfateb i'r rhai a welwyd gyda'r Gymraeg. Yn y bennod nesaf byddwn yn edrych ar hynny'n union, drwy gymharu data dwyieithog o Gymru â data dwyieithog o wledydd ac o ieithoedd eraill. Byddwn hefyd yn trafod *pam* mae pobl yn CC, gan ystyried y gwahanol sefyllfaoedd cymdeithasol lle mae CC yn tueddu i ddigwydd.

AWGRYMIADAU DARLLEN AM DDWYIEITHRWYDD YN Y GYMRAEG

Davies, Peredur a Deuchar, Margaret (2010). Using the Matrix Language Frame model to identify word order convergence in Welsh-English bilingual speech. Yn *Continuity and Change in Grammar*, A. Breitbarth, C. Lucas, S. Watts a D. Willis (goln), 77–96. Philadelphia: John Benjamins. [*Yn adrodd ar ddadansoddiad o gyfnewid cod mewn data Cymraeg-Saesneg gan ddefnyddio'r model Ffrâm Iaith Ffatrics, gan edrych hefyd ar ymyrraeth Saesneg ar ramadeg y Gymraeg drwy'r CC*]

Deuchar, Margaret (2006). Welsh-English code-switching and the Matrix Language Frame model. *Lingua* 116, 1986–2011. [*Yn trafod nodweddion cyffredinol CC rhwng Cymraeg a Saesneg, a phrofi'r model Ffrâm Iaith Ffatrics ar ddata*]

Deuchar, Margaret a Davies, Peredur (2009). Code-switching and the future of Welsh. *International Journal of the Sociology of Language* 195, 15–38. [*Yn adrodd ar ddadansoddiad o gyfnewid cod mewn data Cymraeg-Saesneg gan ddefnyddio'r model Ffrâm Iaith Ffatrics, gan ystyried a yw CC yn arwydd o symud iaith neu farwolaeth yr iaith Gymraeg*]

Deuchar, Margaret, Davies, Peredur a Donnelly, Kevin (yn y wasg). *Building and Using the Siarad Corpus of Spoken Welsh: Bilingual Conversations in Welsh and English*. Philadelphia: John Benjamins. [*Yn trafod mewn manylder y broses o gasglu'r corpws Siarad o ddata Cymraeg-Saesneg, ac yn adrodd am y prif ddadansoddiadau o'r cynnwys, yn enwedig dadansoddiadau o CC*]

Deuchar, Margaret, Donnelly, Kevin a Piercy, Caroline (2017). 'Mae pobl monolingual yn minority': Factors favouring the production of code-switching by Welsh-English bilingual speakers. Yn

6 Mae'n bosib bod brawddegau iaith Ffatrics Saesneg yn digwydd yn iaith rhai siaradwyr yn fwy nag eraill, er nad oes gan Deuchar a'i chyd-weithwyr lawer o enghreifftiau yn eu data.

Sociolinguistics in Wales, M. Durham a J. Morris (goln), 209–239. Basingstoke: Palgrave MacMillan [Yn edrych ar amrywiaeth sosioieithyddol mewn CC yn nata'r corpws Siarad, h.y. y ffactorau cymdeithasol sy'n rheoli'r CC y mae siaradwyr yn ei gynhyrchu]

Deuchar, Margaret, Muysken, Pieter a Wang, Sung-Lan (2007). Structured variation in codeswitching: Towards an empirically based typology of bilingual speech patterns. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism* 10, 298–340. [Yn profi model Muysken o strwythur CC ar ddata Cymraeg-Saesneg a data Tsieineeg-Tsou (mae Tsou yn iaith a siaredir yn Taiwan)]

Deuchar, Margaret a Stammers, Jonathan (2016). English-origin verbs in Welsh: Adjudicating between two theoretical approaches. *Languages* 2016 1. [Yn trafod sut mae diffinio CC yn hytrach na gair benthyg gan gymharu damcaniaethau Poplack a Myers-Scotton ar y mater, a defnyddio data o'r corpws Siarad]

Herring, Jon, Deuchar, Margaret, Parafita Couto, Maria Carmen a Moro Quintanilla, Mónica (2010). 'When I went to Canada, I saw the madre': evaluating two theories' predictions about codeswitching between determiners and nouns using Spanish-English and Welsh-English bilingual corpora. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism* 13:5, 553–573. [Yn ystyried beth yw cyfyngiadau cystrawennol CC, gan gymharu data Sbaeneg-Saesneg a Chymraeg-Saesneg o gorpysau a gasglwyd ym Mhrifysgol Bangor]

Stammers, Jonathan (2010). *The Integration of English-origin Verbs into Welsh: A Contribution to the Debate over Distinguishing between Code-switching and Borrowing*. VDM Verlag: Saarbrücken. [Llyfr sy'n defnyddio data o'r corpws Siarad er mwyn trafod nodweddion CC yn y Gymraeg a'r hyn sy'n cyfrif fel CC]

Stammers, Jonathan a Deuchar, Margaret (2012). Testing the nonce borrowing hypothesis: counter-evidence from English-origin verbs in Welsh. *Bilingualism: Language and Cognition* 15:3, 630–643. [Yn trafod damcaniaethau Poplack o ran yr hyn sy'n cyfrif fel cyfnewid cod a'r hyn sy'n cyfrif fel gair benthyg – gw. Pennod 9 – gan ystyried tystiolaeth o ddata Cymraeg-Saesneg yn Siarad]

Atebion i'r blychau Cwestiwn ac Ateb:

Cwestiwn ac Ateb (1):

Dwy frawddeg lawn sydd yma, gydag ebychiad (*oh my God*) ar y dechrau. Os ystyriwch sut mae diffinio beth yw iaith brawddeg, yna gallwch feddwl am y geiriau neu am y gramadeg (ymhlith amryw o ffactorau eraill). Ceir cyfuniad o eiriau o'r ddwy iaith yma, felly ac ystyried hynny does dim brawddeg Gymraeg na brawddeg Saesneg yma, ond yn hytrach ddwy frawddeg ddwyieithog. Ond gallwn hefyd ystyried gramadeg brawddeg fel ffordd o ddiffinio pa iaith yw hi, ac o'r safbwynt hwnnw mae modd i ni ddangos mai gramadeg Cymraeg sydd i'r cyfan yma. Er enghraifft, mae *dw i'n totally love-io soap operas* yn cael ei ffurfio gan ddefnyddio gramadeg Cymraeg, gan fod y ferf *dw* yn dod o flaen y goddrych *i*, sydd yn drefn Gymraeg, a bod gan y ferf Saesneg *love* yr atodiad berfenwol Cymraeg *-io*. Byddai'r brawddegau'n dra gwahanol pe byddech chi'n defnyddio gramadeg Saesneg i'w ffurfio.

Cwestiwn ac Ateb (2):

Pe byddai'r frawddeg yn Saesneg i gyd ac yn dilyn gramadeg Saesneg, yna byddem yn gweld y geiriau yn y drefn *catalytic converter*, gan fod yr addasydd (*modifier*), sef *catalytic* yn yr achos hwn, yn dod o flaen yr enw yn y Saesneg. Yn yr enghraifft, fodd bynnag, *converter catalytic* sydd i'w weld. Mae'n glir nad cymryd y talp *catalytic converter* o'r Saesneg y mae'r siaradwr hwn, ond yn hytrach defnyddio trefn Gymraeg i'r ddwy elfen, sef yr enw a'r addasydd, a chyfnewid y ddau i'r Saesneg. Gallwn ddweud felly mai dau fewnosodiad unigol sydd i'w gweld yn *converter catalytic* yn y frawddeg hon.

Cwestiwn ac Ateb (3):

(a) mewnosod/CC mewngymalog; (b) eiledu ar ganol cymal/CC mewngymalog (i fod yn gywir mae *it never rains* ac *it pours* yn ddau gymal gwahanol); (c) eiledu rhwng dau gymal/CC rhyng-gymalog; (ch) eiledu/CC rhyng-gymalog ar ffurf dyfynnu.

Cwestiwn ac Ateb (4):

Mae'r tair brawddeg yn gwrth-ddweud cyfyngiadau Poplack mewn gwahanol ffyrdd. Mae *excite-io* yn (a) yn mynd yn groes i'r cyfyngiad morffem rhydd, gan fod CC yma rhwng bôn y berfenw (*excite*) a'i atodiad berfenwol (-*io*). Mae (b) yn mynd yn groes i'r cyfyngiad cywerthedd, gan fod gan y Gymraeg a'r Saesneg drefn wahanol ar gyfer ansoddeiriau ac enwau, felly ni ddylai cyfnewid rhwng enw ac ansoddair fod yn bosib, ond ceir *bachgen uncompromising* yma. Yn olaf, mae'r defnydd o *yn abseiling* yn gwrth-ddweud y cyfyngiad cywerthedd eto, gan nad yw'r Saesneg yn defnyddio geiryn agweddol (*yn*) er mwyn cyfleu agwedd, ac nid yw'r Gymraeg yn defnyddio ffurfiau rhangymeriadol fel *abseiling*, felly ni ddylai CC allu digwydd rhwng y ddwy elfen yma: dylai fod naill ai *abseiling* neu *yn abseilio* yn cael ei ddefnyddio yn ôl damcaniaethau Poplack. (Go brin y byddech chi'n dod ar draws enghraifft fel (c) ar lafar, ond mae (a) a (b) yn bosib.)

PENNOD 6

Defnyddio Cyfnewid Cod

1. CYFLWYNIAD

Yn y bennod flaenorol fe wnaethom drafod ffenomen cyfnewid cod (CC), sef y broses o gyfuno ieithoedd o fewn sgwrs ac/neu o fewn yr un frawddeg, gan ganolbwyntio ar strwythur gramadegol CC. Mae CC yn gyffredin yn iaith siaradwyr dwyieithog, fel y gwelwyd o'r astudiaethau y cyfeiriwyd atynt yn y bennod honno, ond yr hyn na thrafodwyd yn fanwl eto yw *pam* mae pobl yn CC. A oes mantais – neu anfantais – gymdeithasol dros wneud hynny? A oes cysylltiadau rhwng y ffordd y mae rhywun yn (neu ddim yn) cymysgu ieithoedd a'u hunaniaeth? A yw deallusrwydd neu allu ieithyddol yn cyfrannu at y dewis i gyfnewid cod? Byddwn yn trafod y cwestiynau hyn yn y bennod hon.

2. RHESYMAU DROS GYFNEWID COD

Ceir sawl rheswm ymarferol pam y byddai rhywun eisiau/angen cymysgu ei ieithoedd yn yr un sgwrs. Er enghraifft, gall siaradwr dwyieithog ddefnyddio gair (etc.) o un iaith er mwyn llenwi BWLCH GEIRIOL (*lexical gap*) yn ei wybodaeth o'r iaith arall. Ceir bwlch geiriol pan nad yw rhywun yn gwybod y gair am rywbeth, ac yn yr achos hwn rydym yn debygol o olygu bod rhywun yn gwybod y gair am rywbeth yn iaith A ond *nid* yn iaith B.

Gall hyn ddigwydd yn aml pan fydd pobl yn siarad am bynciau nad ydynt wedi arfer eu trafod mewn un o'r ieithoedd, e.e. technoleg neu wyddoniaeth. Mae jargon – sef geirfa o faes penodol – yn cynnwys geiriau na fydd pob siaradwr yn eu gwybod, oherwydd bod angen arbenigedd yn y maes hwnnw er mwyn eu defnyddio. Os yw profiad siaradwr dwyieithog o e.e. jargon technoleg cyfrifiadurol yn deillio o addysg Saesneg, yna mae'n debygol na fydd erioed wedi dysgu'r termau Cymraeg cyfatebol, felly mae'n debygol o wybod termau fel *motherboard* a *refresh rate*, ond ni fydd erioed wedi dysgu'r termau cyfatebol Cymraeg *mamfwrdd* a *cyfradd adnewyddu* (er y gellid dyfalu'r rhain, hwyrach!). Neu mae'n bosib na fydd siaradwr sydd wedi dysgu mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol yn ymwybodol o'r termau Saesneg cyfatebol – e.e. efallai y bydd rhywun yn fwy cyfarwydd â'r term *tynnu* na'r term *subtraction*.

Yn y ddwy sefyllfa uchod, gall y siaradwr benderfynu defnyddio'r unig derm mae'n ei wybod am y cysyniad, oherwydd ei fwlch yn yr iaith arall, sydd yn golygu ei fod yn cyfnewid iaith o anghenraid. Gallwn dybio mai gwneud iawn am ddiffyg yng ngwybodaeth ieithyddol y siaradwr y mae CC fel hyn.

Rheswm arall y gallai rhywun benderfynu CC yw oherwydd ei fod eisiau dyfynnu o iaith arall. Un nodwedd o sgwrsio yn gyffredinol yw bod pobl eisiau trafod rhywbeth y gwnaeth rhywun arall, nad yw'n rhan o'r sgwrs, ei ddweud. Os oedd y person hwnnw yn siarad Saesneg yn wreiddiol, yna mae'n gwneud synnwyr i chi ddyfynnu'r person hwnnw mewn Saesneg – hyd yn oed os y bu gweddill eich sgwrs mewn Cymraeg yn gyffredinol. Hynny yw, mae hyn yn rhywbeth mai dim ond siaradwyr dwyieithog sy'n gallu ei wneud (os ydynt hefyd mewn sgwrs â rhywun dwyieithog). Er y byddai'r siaradwr yn *gallu* dyfynnu mewn cyfieithiad o'r gwreiddiol, bydd llawer o siaradwyr yn penderfynu dyfynnu yn yr iaith wreiddiol, a hynny mae'n debyg er mwyn cyfleu'r profiad gwreiddiol mor agos a 'chywir' ag sydd bosib.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: Rhestrwch bum enghraifft o dermau y byddech chi’n fwy tebygol, fel arfer, o ddefnyddio’r gair Saesneg amdanyn nhw na’r gair Cymraeg. Beth yw’r rheswm am hyn?

: Ydych chi’n gwybod y gair Cymraeg cyfatebol, ynteu a oes bwlch geiriol (*lexical gap*) gennych ar gyfer y gair hwnnw?

: Os oes bwlch geiriol gennych, pam? Os nad oes bwlch geiriol gennych, pam ydych chi’n defnyddio’r gair Saesneg yn lle’r gair Cymraeg?

: A oes yna unrhyw eiriau Cymraeg nad ydych chi’n gwybod (neu ddim yn defnyddio) y gair Saesneg cyfatebol ar eu cyfer?

: Ydyn nhw’r un math o eiriau â’r rhai Saesneg a restrwyd gennych?

Mae’r cyd-destun hefyd yn gallu ein harwain i ddefnyddio CC weithiau. Term defnyddiol y gallwn ei ddefnyddio yw PAU (*domain*) – mwy nag un pau yw PEUOEDD – sef term a ddefnyddiwyd gan Joshua Fishman (1972) wrth drafod pryd a lle mae iaith yn cael ei defnyddio, a sut mae ffurf yr iaith yn cael ei reoli gan y sefyllfa; ‘domains of language use’, neu beuoedd defnydd iaith, oedd term llawn Fishman. Mae pau yn gyfuniad o ffactorau megis lle mae’r sgwrs yn digwydd, pwy yw’r siaradwyr, beth yw cyd-destun cymdeithasol y sgwrs, ac yn y blaen. Roedd Fishman yn crybwyll bod pum pau, sef *Teulu*, *Ffrindiau*, *Crefydd*, *Addysg* a *Gwaith*, ac roedd yn rhagdybio y byddai dewis rhywun o iaith neu arddull yn amrywio yn dibynnu ar ba bau roedden nhw ynddo. Er enghraifft, byddai rhywun yn siarad yn anffurfiol â chyfeillion (pau ffrindiau) ond yn ffurfiol yn y gweithle (pau gwaith), a dyma’r normau cymdeithasol y mae pobl yn tueddu i lynu atynt. Yn yr un modd, byddai rhai cymunedau’n defnyddio gwahanol ieithoedd mewn gwahanol beuoedd – byddwn yn dychwelyd at y syniad hwn ym Mhennod 7 ar ddwyieithrwydd cymdeithasol.

Gan fod cysylltiad rhwng CC ac arddull iaith – h.y. dim ond mewn iaith anffurfiol y mae pobl yn tueddu i gyfnewid cod – gallwn ddweud bod pobl yn fwy tebygol o ddefnyddio CC mewn rhai peuoedd nageraill. Yn ei gwaith yn astudio’r defnydd o iaith gan siaradwyr Cymraeg yn y gymdeithas, cofnododd Kathryn Jones (1995) nifer o ddisgyrsiau oedd yn digwydd mewn gwahanol leoliadau. Yn ei herthygl gwelwn ddyfyniadau o ddisgyrsiau a gafodd eu cynnal mewn pedwar gwahanol fath o leoliad: gwasanaeth capel, fferyllfa, swyddfa bost a pheiriant arian (‘twll yn y wal’). Recordiodd Jones y data yn 1991. Gwelir bod y defnydd a’r dewis o iaith yn amrywio o sefyllfa i sefyllfa. Er enghraifft, yn ei dadansoddiad o’r trafodiad (*transaction*) drwy’r peiriant arian, mae Jones yn nodi nad oes modd i’r defnyddiwr gyfnewid cod gan fod rhyngwyneb y peiriant yn cyfyngu’r defnydd o iaith. Yr unig ddewis yma yw rhwng defnyddio Cymraeg yn unig a Saesneg yn unig, h.y. mae modd cyfnewid iaith ar y dechrau ond nid oes modd newid y dewis wedyn. Yn y capel, lle mae Jones yn cofnodi’r defnydd iaith mewn cwrdd (cyfarfod) gweddi, Cymraeg ffurfiol heb CC yw’r hyn a welir. Mae Jones yn nodi bod cywair ffurfiol a thraddodiadol y capel yn peri i’r gweinidog ddefnyddio Cymraeg yn unig.

Mae’r disgyrsiau o’r swyddfa bost a’r fferyllfa yn wahanol: yn y ddau leoliad hyn, yr hyn sy’n cael ei gofnodi yw trafodiad rhwng cwsmer a’r person sy’n gweithio yn y siop. Yn y swyddfa bost mae’r cwsmer yn ceisio prynu stampiau a thalu i anfon llythyrau; yn y fferyllfa mae’r cwsmer eisiau prynu sebon ac mae’r gweithiwr yn ei helpu i ddewis pa sebon. Yn y ddwy sefyllfa mae’r siaradwyr yn cyfeirio at destunau – sydd yn cynnwys dogfennau (e.e. rhestr o brisiau yn y swyddfa bost) neu labelau ar eitemau sydd ar werth (e.e. y sebon yn y fferyllfa). Dyma ddetholiadau isod o’r ddwy sgwrs, a ddyfynnir yn erthygl Kathryn Jones (mae’r geiriau y mae Jones yn eu dynodi fel CC mewn teip italig). Gallwch ddarllen y ddwy sgwrs gyfan yn erthygl Jones (cedwir ei sillafu hi fel rheol).

- (1) [Mewn fferyllfa, mae’r cwsmer yn ceisio dewis sebon ac mae’r siopwraig yn ei helpu:]
- Cwsmer 1: O hec mae nhw’n mynd yn *grand*’rŵan.

Siopwraig: Mae nhw’n *posh*’rŵan yn dyden?

- Cwsmer 1: *Posh* 'rŵan ynden.
- Siopwraig: *ZEST* mae hwn yn neis ac mae hwnne'n *fresh* hefyd. Mae gynno ni *SIMPLE SOAP* heb ddim *perfume* o gwbl arno fo *NIVEA*...
- Cwsmer 1: Gai weld hwne. Be 'di?
- Siopwraig: Y *SIMPLE SOAP* 'sne'm *perfume* o gwbl ar hwne... Mae'r rhain yn *special offer* tri *NIVEA* fane'n *forty* na *fifty five pence*.
- Cwsmer 1: O.
- Siopwraig: Mae hwna'n *good value*.
- Cwsmer 1: *Good value* ia... 'Dwn i ddim 'chwaith. Be 'nai 'nai gymryd hwna.
- Siopwraig: Ia?
- Cwsmer 1: Ia diolch yn fawr.
- Siopwraig: *Thank you*.
- Cwsmer 1: Lle mae'n arian i 'rŵan?
- Siopwraig: *Forty five* os gwelwch chi na *fifty five* 'dio diolch.
- Cwsmer 1: Faint?... Pumpdeg pump ia?
- Siopwraig: Ia *please*.

Yn yr enghraifft ganlynol maen nhw'n trafod termau fel *newspaper rate* a *printed papers*, sydd yn cyfeirio at hen ffyrdd o dalu am anfon parseli a llythyrau.

(2) [Mewn swyddfa bost, mae'r cwsmer yn ceisio anfon parsel.]

- Cwsmer 2: Diolch yn fawr.
- Siopwr: 'Di'n mynd *abroad* ydi?
- Cwsmer 2: *Germany*.
- Siopwr: Be 'dach chi isio 'rŵan. 'Dach chi isio fo fynd y ffordd handia neu...
- Cwsmer 2: Wel be... ?
- Siopwr: *Printed papers*, neu 'dach chi isio... ?
- Cwsmer 2: Be ydi'r *newspaper rate*?
- Siopwr: *Newspaper rate? Three hundred and twenty pounds*. [Mae'n darllen o restr:] *"PRINTED PAPERS AND NEWSPAPER THREE HUNDRED AND TWENTY POUNDS"*¹. *One pound eighteen airmail*.
[...]
[Mae'r siopwr yn rhoi'r stampiau ar y parsel]
'Ne chi *eighteen* fanne... *forty nine*... *twenty eight*... Mae gynnoch chi *eighty five* ar hwne. Be ddwedes i oedd hwne 'dwch. Dwi ddim yn cofio *one pound eighteen*.
- Cwsmer 2: *One pound eighteen* ia.
- Siopwr: [Aneglur] *One pound and nine*.
- Cwsmer 2: *Oh dear*.
- Siopwr: *One pound nine*, be ddudes i dwch *one eighteen*.
- Cwsmer 2: *One eighteen*... Naw ceiniog.
- Siopwr: Naw ceiniog.
- Cwsmer 2: Wel rhowch ddeg dim ots.

1 Yn ôl Jones mae'n debyg mai camgymeriad oedd hwn gan y siopwr, ac mai *grams* ac nid *pounds* roedd o'n ei feddwl.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: Ar gyfer pob enghraifft o CC o eiriau Saesneg a welwch yn y ddau ddetholiad uchod, ceisiwch esbonio pam mae'r CC yn digwydd. A yw pob enghraifft o CC yn digwydd am yr un rheswm? (*Rhai atebion isod.*)

METHODOLEG MAES

: Mae Jones wedi gorfod labelu pob gair yn y sgysiau fel gair Cymraeg neu air Saesneg (mewn teip italig). Ydych chi'n cytuno â'r ffordd mae hi wedi eu dosbarthu?

: Oes yna unrhyw eiriau Saesneg y byddech chi wedi eu labelu fel rhai Cymraeg, neu'r ffordd arall?

: A oes rhai geiriau nad ydynt yn Saesneg nac yn Gymraeg?

O ddarllen y detholiadau mae'n glir bod y disgwrs rhwng y siopwr(aig) a'r cwsmer yn y ddwy siop yn lled-anffurfiol, a bod hyn, ymysg rhesymau eraill, yn peri i'r pedwar person ddefnyddio CC. Nodwch hefyd fod y siaradwyr yn cyfeirio at bethau sydd yn ddiwylliannol Seisnig (*airmail* ac ati) drwy CC i Saesneg, yn hytrach nag e.e. defnyddio term Cymraeg mwy anghyfarwydd, neu fathu term newydd. Mae Jones yn dweud bod y ffaith nad oedd y dogfennau oedd wrth law yn y ddwy sefyllfa yn rhai Cymraeg yn golygu bod y siaradwyr yn newid iaith i'r Saesneg wrth gyfeirio at y testunau hyn. Cyfeiria Jones hefyd at y ffaith bod nifer o'r termau Saesneg a ddefnyddir gan y siaradwyr yn dod o ddisgwrs marchnata a hysbysebu – *special offer, good value* ac ati. Mewn peuoedd marchnata, mae Saesneg yn llawer mwy grymus a blaenllaw na'r Gymraeg, hyd yn oed yn y rhannau mwyaf gwledig a chymunedol Gymreig o Gymru, ac felly hwyrach bod y defnydd o Saesneg yn y pau hwn yn anochel i lawer o bobl. Hynny yw, bydd y pau y byddwch yn siarad ynddo yn rheoli, i ryw raddau, eich dewis iaith a'r tebygolrwydd y byddwch yn CC.

Mae'r defnydd o dermau Saesneg ar gyfer arian (e.e. *one pound eighteen*) gan y siopwyr ac un o'r cwsmeriaid uchod yn werth ei nodi hefyd: go brin nad yw'r siaradwyr hyn yn gwybod sut i gyfrif mewn Cymraeg, ond eto maen nhw'n dewis defnyddio'r rhifau Saesneg. Awgryma Jones bod y siopwyr yn defnyddio rhifau Saesneg am eu bod nhw wedi arfer delio â chwsmeriaid drwy'r Saesneg fel rheol o ddydd i ddydd. Mae hi hefyd yn crybwyll y ffaith mai pobl ganol oed yw'r siopwraig a'r siopwr, sydd yn golygu ei bod hi'n debygol eu bod nhw wedi cael eu haddysg – gan gynnwys mathemateg – drwy gyfrwng y Saesneg (gan gofio mai yn y 1990au y casglwyd y data hyn). Mae Jones yn cymharu'r siopwyr â Chwsmer 1 yn y fferyllfa, sydd yn defnyddio Cymraeg ar gyfer ei rhifau ('Pumpdeg pump, ia?'): mae'r siaradwr yma, yn ôl Jones, yn llawer iau na'r siopwyr, ac wedi cael ei haddysg gynradd ac uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg.² Mae hyn yn awgrymu bod cysylltiad rhwng cyfrwng addysg a defnydd iaith – e.e. os byddwch chi'n gyfarwydd â thermau mathemategol Cymraeg, yna byddwch chi'n fwy tebygol o'u defnyddio – ac yn dychwelyd at y syniad o iaith a phau: mae'r cwsmer ifanc yn gwybod geirfa addas ar gyfer pau marchnata (o ran cyfrif, beth bynnag), ac felly mae hi'n gallu cyfathrebu yn y pau hwnnw heb ddefnyddio cymaint o CC â siaradwr nad oes ganddo wybodaeth mor eang o eirfa Gymraeg y pau hwnnw. Serch hynny, hwyrach eich bod chi wedi dod ar draws pobl ifanc sydd wedi cael eu haddysg ysgol drwy'r Gymraeg ond sy'n dal i ddefnyddio rhifau Saesneg, weithiau, ar gyfer pethau fel arian a dweud faint o'r gloch yw hi. Er nad yw Jones yn cyfeirio at hyn, tybed a yw pobl ifanc yn dynwared tueddiadau eu rhieni a phobl y genhedlaeth hŷn yma? Hwyrach bod y defnydd o rifau Saesneg mor gyffredin ymysg siaradwyr Cymraeg fel bod hyn wedi dod yn norm i siaradwyr mewn rhai peuoedd, waeth beth oedd eu haddysg. Hyd y gwyddom ni, nid oes astudiaeth ddofn o ddefnydd siaradwyr Cymraeg o CC ar gyfer rhifau wedi cael ei chyflawni.

2 Nid yw Jones yn nodi manylion am Gwsmer 2 yn y swyddfa bost.


3. CYFNEWID COD A HUNANIAETH

Er bod rhesymau ymarferol dros CC, fel y gwelsom, mae sawl astudiaeth wedi dangos bod siaradwyr yn CC am resymau mwy cymhleth hefyd. Un cysylltiad a wneir yn y llenyddiaeth yw'r un rhwng CC a HUNANIAETH (*identity*). Mae hunaniaeth yn gysyniad pwysig mewn ieithyddiaeth, ac yn fras gellir ei ddiffinio fel yr agweddau ar bersonoliaeth ac ymddygiad person sydd yn dangos i ba grŵp (neu grwpiau) cymdeithasol mae'r person hwnnw'n perthyn. Gallwn sôn, er enghraifft, am hunaniaeth ethnig, hunaniaeth genedlaethol, hunaniaeth rhyw neu hunaniaeth i is-grŵp penodol mewn cymdeithas (e.e. pobl sy'n dilyn yr un diddordebau neu'n perthyn i'r un clwb neu fudiad, swyddogol neu answyddogol).

Enghraifft o astudiaeth sy'n dangos hyn yw gwaith Sayahi (2002), a wnaeth astudiaeth o agweddau pobl ddwyieithog Sbaeneg-Saesneg yn ardal Efrog Newydd.³ Dull Sayahi oedd dosbarthu holiaduron i 25 o fyfyrwyr 'Latino' (h.y. Americanwyr o dras Hisbaenig) o brifysgol y State University of New York yn Albany, a gofyn iddyn nhw â pha grŵp cymdeithasol roedden nhw'n uniaethu.⁴ Atebodd 21 o 25 (84%) ohonynt eu bod yn 'Hisbaenig-Americanaidd'. Ni ddisgrifiodd yr un ohonynt eu hunain fel 'Americanaidd', sydd yn dangos bod gan y mwyafrif ohonynt hunaniaeth ddeuol (*hybrid*), h.y. maen nhw'n cysylltu eu hunaniaeth â mwy nag un diwylliant neu grŵp ethnig, yn yr achos hwn â bod o dras Hisbaenig ar un llaw ac yn rhan o ddiwylliant Americanaidd ar y llaw arall. Disgrifiodd un o'r cyfranogwyr sut roedd hi hyd yn oed yn cyfleu ei hunaniaeth yn wahanol yn dibynnu ar oedd hi'n bod yn 'swyddogol' ynteu'n cyfathrebu â'i ffrindiau:

On [an] official document, I would fill in [my identity] Puerto Rican or Hispanic or Latino. To my friends and others I consider myself Nuyorican. [yn Sayahi 2002: 376]

Disgrifiad o bobl sydd o dras Puerto Ricaidd yn byw ym mro Efrog Newydd yw'r term *Nuyorican*, ac mae, wrth gwrs, yn gymhathiad o'r geiriau *New York* a *Puerto Rican*. Mae'r dyfyniad uchod yn dangos bod gan bobl o'r gymuned benodol hon deimlad nad ydyn nhw'n rhan o un grŵp na'r llall, ond eu bod yn hytrach yn creu trydydd grŵp eu hunain sydd yn gyfuniad o'r ddau, ac yn teimlo'u bod yn rhan o'r grŵp hwnnw. Roedd Sayahi (2002) eisiau gweld a oedd cysylltiad rhwng yr hunaniaeth ddeuol yma roedd y cyfranogwyr yn sôn amdani a'r iaith roedden nhw'n ei defnyddio wrth siarad. Gofynnodd i'r cyfranogwyr roi gwybod a oedden nhw'n ystyried cyfnewid cod yn rhan o'u hunaniaeth. Dangosir y canlyniadau yn Ffigur 6.1 isod:



Ffigur 6.1: Canran y cyfranogwyr oedd yn dweud bod CC yn rhan o'u hunaniaeth; addaswyd o Sayahi (2002: 377)

3 Cofiwch fod gan yr iaith Sbaeneg hanes hir iawn yn America, a'i bod yn iaith sydd yn cael ei siarad gan nifer helaeth o bobl (mae bron i 37 miliwn o bobl yn yr Unol Daleithiau'n siarad Sbaeneg fel iaith gyntaf yn ôl arolwg gan yr US Census Bureau o 2010), felly nid iaith leiafrifol mo'r Sbaeneg yno.

4 HUNANADRODD (*self-report*) yw'r term am hyn, ac mae'n gallu bod yn ffordd ddefnyddiol, ond gweddol anwyddonol, o fesur rhywbeth am rywun.

Fel y gwelwch, roedd mwy na dwy ran o dair (68%) o’r cyfranogwyr dwyieithog hyn yn ystyried bod CC yn rhan annatod o’u hunaniaeth – hynny yw, mae mwyafrif y bobl yn nodi eu bod yn wahanol i bobl o grwpiau cymdeithasol eraill drwy gyfuno’u Sbaeneg a’u Saesneg wrth siarad. Gan bod eu hunaniaeth yn hunaniaeth Hisbaeneg-Seisnig, felly hefyd mae eu hiaith yn gyfuniad o Sbaeneg a Saesneg.⁵ Yr hyn y mae astudiaeth Sayahi yn ei ddangos yw bod yna yn aml gysylltiad rhwng rhywbeth cymdeithasol fel hunaniaeth a rhywbeth ieithyddol fel CC.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: Beth yw eich hunaniaeth chi? Cymreig? Seisnig? Prydeinig? Rhywbeth arall, e.e. rhywbeth mwy lleol (Cofi, Cardi...)?

: A yw’r ffordd yr ydych chi’n siarad yn rhan bwysig o’r hunaniaeth hon, yn eich tyb chi? Meddyliwch wedyn am sut mae aelodau o’r grŵp cymdeithasol yma’n siarad. A yw’r grŵp yn cael ei ddiffinio gan ddefnydd ei siaradwyr o un iaith benodol (e.e. Cymraeg), neu gan gyfuniad o ieithoedd (h.y. CC)?

: Ydych chi’n teimlo bod eich defnydd o CC yn rhan bwysig o bwy ydych chi fel person?

4. CYMHARU CYFNEWID COD YNG NGHYMRU Â CHYFNEWID COD MEWN CYMUNEDAU ERAILL
Yn y bennod ddiwethaf trafodwyd strwythur CC, gan edrych ar y gwahanol ffyrdd mae ieithyddion wedi ceisio esbonio’r cyfyngiadau gramadegol sydd ar CC mewn iaith pobl ddwyieithog. Gwelwyd o astudiaeth Davies (2010) o ramadeg CC siaradwyr Cymraeg-Saesneg bod patrymau tebyg yn cael eu defnyddio gan yr holl siaradwyr a ddadansoddwyd, ac mai Cymraeg yw Iaith Fatrics y cymalau y mae siaradwyr yn eu cynhyrchu fel rheol. Mae cysondeb ac unffurfiaeth i’w gweld, felly, yng nghydestun y Gymraeg yng Nghymru. Ond beth am barau eraill o ieithoedd? A yw’r patrwm hwn yn dal ym mhob cymuned ddwyieithog ar draws y byd? Hynny yw, a yw siaradwyr dwyieithog bob tro’n debygol o lynu at un o’u hieithoedd fel prif ffynhonnell eu strwythur gramadegol?

Yn ogystal â’r corpws *Siarad*, sydd yn gronfa o iaith pobl ddwyieithog Cymraeg-Saesneg, casglodd y tîm ym Mhrifysgol Bangor ddau gorpws dwyieithog arall. Mae corpws *Miami* yn gronfa o iaith pobl ddwyieithog Sbaeneg-Saesneg o Miami, Florida, ac mae corpws *Patagonia* yn gronfa o iaith pobl sydd yn siarad Cymraeg a Sbaeneg yn y Wladfa ym Mhatagonia, yr Ariannin.⁶ Mae astudiaethau Parafita Couto, Carter, Davies a Deuchar (2011) yn cymharu CC yng nghorpws *Siarad* â CC o gorpws *Miami*, tra bod Carter, Deuchar, Davies a Parafita Couto (2011) yn cymharu’r CC yn y ddau gorpws hynny â’r iaith yng nghorpws *Patagonia* hefyd. Mae’r CC yn y ddwy astudiaeth yn cael ei ddadansoddi yn nhermau’r model Ffrâm Iaith Fatrics fel yr astudiaeth o gorpws *Siarad* a drafodwyd uchod.

Yn Parafita Couto et al. (2011) mae’r awduron yn dadansoddi iaith chwech o siaradwyr dwyieithog Sbaeneg-Saesneg mewn tair sgwrs o’r corpws, yn cynnwys pum dynes ac un dyn, yn amrywio o ran oed a chefnidir. Roedd 149 o gymalau yn y data a ddadansoddwyd oedd yn cynnwys CC, a chanfyddiad yr awduron oedd bod gan 66% o’r cymalau Sbaeneg fel Iaith Fatrics a bod gan 33% o’r cymalau Saesneg fel yr Iaith Fatrics. Roedd hyn yn amrywio o siaradwr i siaradwr – er enghraifft, roedd un siaradwr (AME, dynes) yn defnyddio Iaith Fatrics Sbaeneg 100%, tra bod gan 51.5% o frawddegau SAR Iaith Fatrics Saesneg – er nad oedd yr amrywiaeth hwn yn ystadegol sylweddol o ran newidynnau allieithyddol (fel oedran, cefndir ac ati). Ceir gwahaniaeth clir felly

5

Nodwch fod gair cyffredin yn America am CC rhwng Sbaeneg a Saesneg, sef ‘Spanglish’. Mae yna hyd yn oed ffilm o’r enw *Spanglish* o 2004, gydag Adam Sandler yn chwarae’r brif ran ynddi. Nid yw’r term hwn yn derm ieithyddol clir, fodd bynnag, ac mae’n well cyfeirio at ‘cyfnewid cod rhwng Sbaeneg a Saesneg’ yn hytrach nag at ‘Spanglish’ os byddwch yn ei drafod fel ffenomen. Mae termau eraill yn bodoli hefyd mewn llefydd eraill, gan gynnwys ‘Singlish’ (sef Singaporeg a Saesneg) ac, wrth gwrs, ‘Wenglish’ yng Nghymru, ond fel ieithyddion dylem fod yn ofalus wrth eu defnyddio.

6

Mae’r tri chorpws ar gael am ddim ar-lein i’w chwilio a’u defnyddio ar y wefan www.bangortalk.org.uk.

rhwng y CC cyffredinol yng nghorpws *Miami* a'r CC yng nghorpws *Siarad*, gan fod Cymraeg yn iaith Fatrics i bron bob brawddeg yn nata *Siarad*, ond ymddengys fod naill ai Saesneg neu Sbaeneg yn ddewis sydd ar gael i'r siaradwyr yng nghorpws *Miami*.

Pam yr amrywiaeth hwn? Edrychodd Parafita Couto et al. ar agweddau cymdeithasol y siaradwyr yng nghorpws *Siarad* a chorpws *Miami* (gan gymryd bod hyn yn cyfleu siaradwyr o'r ddwy gymuned yn gyffredinol), gan ddefnyddio data a gasglwyd drwy holiaduron. Gwelsant fod rhai gwahaniaethau amlwg. Er bod y siaradwyr o'r ddwy gymuned yn ddwyieithog, roedd tystiolaeth bod siaradwyr corpwys *Miami* wedi cael mwy o amlygiad (*exposure*) i'r iaith Saesneg nag oedd siaradwyr corpwys *Siarad*. Er enghraifft, cafodd 52% o siaradwyr *Miami* eu haddysg gynradd drwy'r Saesneg, lle mai dim ond 28% o siaradwyr *Siarad* gafodd addysg gynradd Saesneg; gwelir gwahaniaeth tebyg ar gyfer addysg uwchradd. Roedd tystiolaeth hefyd bod siaradwyr *Miami* yn teimlo eu bod yn fwy rhugl yn eu Saesneg na siaradwyr *Siarad*, ond, ar y llaw arall, bod mwy o siaradwyr *Miami* yn dysgu Saesneg fel disgyblion uwchradd/oedolion na siaradwyr *Siarad*, a bod pobl o Gymru yn fwy tebygol o fod wedi dysgu'r Saesneg cyn mynd i'r ysgol: nodai 61% o siaradwyr *Siarad* eu bod wedi dysgu Saesneg erbyn 4 oed, o'i gymharu â 47% o siaradwyr *Miami*.

Mae gwahaniaethau eraill i'w gweld o ran rhwydwaith cymdeithasol a hunaniaeth y siaradwyr yn y ddau corpwys. Mae rhwydwaith cymdeithasol (*social network*) yn fesur o ba fath o bobl mae siaradwr yn cyfathrebu â nhw o ddydd i ddydd, ac, wrth gwrs, ystyried iaith yr ydym yn yr achos hwn – y dewis iaith yr ydym yn ei wneud wrth gyfathrebu â pherson penodol (a gall fod mai defnyddio'r ddwy iaith â nhw yw'r dewis hwnnw). Wrth gasglu'r data ar gyfer y corpora, gofynnodd yr ymchwilyr i'r cyfranogwyr nodi'r pum person roedden nhw'n siarad â nhw amlaf, a hefyd nodi'r iaith neu'r ieithoedd roedden nhw'n eu defnyddio gyda'r pum person hynny. Yng nghorpws *Miami* gwelir mai rhwydwaith cymdeithasol dwyieithog sydd gan siaradwyr Sbaeneg-Saesneg fel rheol, sydd yn golygu eu bod yn defnyddio cydbwysedd o Sbaeneg a Saesneg o ddydd i ddydd wrth siarad â'u teulu a'u ffrindiau agos, ond yng nghorpws *Siarad* mae'r cyfranogwyr yn tueddu i nodi bod ganddynt rwydwaith Cymraeg (h.y. maen nhw'n siarad Cymraeg â'r bobl y maen nhw agosaf atynt). Amrywiaeth hefyd a welir wrth edrych ar hunaniaeth y siaradwyr yng nghorpws *Miami*: mae sawl hunaniaeth wahanol yn cael ei chyfleu gan y cyfranogwyr, gan gynnwys Americanaidd (32%), Ciwbaidd (21%) a'r 48% arall yn cyfleu amrywiaeth o hunaniaethau gan gynnwys Feneswelaidd, Dominicaidd, Ciwbaidd-Americanaidd, Nicaragwaidd, ac ati. Cymharwch hyn â'r cyfranogwyr yng nghorpws *Siarad*, lle mae gan 90% o bobl hunaniaeth Gymraeg.

Mae Parafita Couto et al. yn defnyddio'r dystiolaeth hon i esbonio pam y ceir amrywiaeth yn y CC a welir rhwng corpwys *Miami* a chorpws *Siarad*. Yn eu barn nhw, mae'r ffaith bod pobl ddwyieithog Cymraeg-Saesneg yn tueddu i ddefnyddio Cymraeg yn fwy na Saesneg, a bod ganddynt hunaniaeth Gymraeg, yn golygu eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio Cymraeg fel sail ramadegol ar gyfer eu brawddegau. Ar y llaw arall, mae pobl ddwyieithog Sbaeneg-Saesneg *Miami* yn byw bywyd mwy dwyieithog, gan ddefnyddio cydbwysedd o'r ddwy iaith o ddydd i ddydd, a ddim i gyd yn rhannu'r un hunaniaeth yn angenrheidiol ond yn hytrach yn cymysgu â phobl o wahanol gefndiroedd a hunaniaethau, ac felly mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y CC maen nhw'n ei ddefnyddio, sydd yn gallu bod ag iaith Fatrics Sbaeneg neu iaith Fatrics Saesneg.

Yr awgrym felly yw bod cysylltiad rhwng cymdeithas ac iaith, a bod y normau cymdeithasol ar gyfer y gymuned rydyn ni'n byw ynddi yn gallu rheoli gramadeg yr iaith y byddwn yn ei defnyddio, hyd yn oed os nad ydym yn ymwybodol o hyn. Mae hon yn un ffordd o esbonio'r gwahanol batrymau yn nata Parafita Couto et al., ond hwyrach bod gennych chi esboniad arall.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

1)

A yw eich sefyllfa chi yn cyd-fynd â'r hyn y mae Parafita Couto yn ei ddadlau? Beth yw iaith/ieithoedd eich rhwydweithiau cymdeithasol chi?

2)

Ac ystyried y ddadl uchod am y cysylltiad rhwng normau cymdeithasol a phatrymau CC, beth fyddech chi'n ei ragweld fyddai'r patrwm a welwyd yng nghorpws *Patagonia*, yr Ariannin, lle mae siaradwyr yn ddwyieithog mewn Sbaeneg a Chymraeg? (*Trafodir yr ateb isod.*)

Mae Carter, Deuchar, Davies a Parafita Couto (2011; gw. hefyd Parafita Couto, Davies, Carter a Deuchar 2014 am drafodaeth ddiweddarach o'r un data) yn edrych, fel y nodwyd uchod, ar CC yn iaith pobl ddwyieithog Sbaeneg-Cymraeg sy'n byw yn y Wladfa ym Mhatagonia; maen nhw'n cymryd y data o gorpws 30 awr o ddata sydd ar batrwm y corpws *Siarad*, sef corpws *Patagonia*. Mae astudiaeth yn dangos canlyniadau profi'r model Ffrâm Iaith Fatrics ar chwech o siaradwyr, ac yn darganfod bod gan 93% o'r cymalau sy'n cynnwys CC yn y data Iaith Fatrics Gymraeg, gyda dim ond 3% ag Iaith Fatrics Sbaeneg. Mae mwyafrif y cymalau (97%) y mae'r siaradwyr yn eu cynhyrchu yn rhai uniaith (Cymraeg yn unig neu Sbaeneg yn unig), sydd yn awgrymu mai prin yw CC mewngymalog yn iaith pobl ddwyieithog Patagonia beth bynnag, ac mai CC rhyng-gymalog sydd yn fwy arferol iddyn nhw.

Wrth edrych ar gefndir hanesyddol a chymdeithasol y Wladfa, mae Carter et al. yn ceisio datrys pam mai i batrwm CC Cymru (bod un iaith yn llawer mwy tebygol o fod yn IF na'r llall) ac nid i batrwm CC Miami (bod y ddwy iaith yn ymddangos fel IF yn lled-gyfartal) y mae CC Patagonia yn ymdebygu. Maen nhw'n awgrymu mai un rheswm posib am y patrwm ym Mhatagonia yw nad yw siaradwyr Cymraeg yn fwyafrif mewn unrhyw gymuned yn yr Ariannin, o'i gymharu â Chymru, lle ceir rhannau o'r wlad lle mae mwyafrif y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, a Miami, lle mae tua 67% o'r boblogaeth yn siarad Sbaeneg, ac nad yw'r Gymraeg yn iaith gyffredin sydd i'w chlywed ar y stryd, ond yn hytrach ddim ond mewn rhai rhannau arbennig o'r gymdeithas, megis mewn bwytai a thai te Cymreig, cyfarfodydd Cymraeg, capeli, cartrefi rhai pobl, ac ati. Yn ôl yr awduron, gall hyn olygu nad yw cymysgu'r Gymraeg a'r Sbaeneg yn beth naturiol yn y gymuned Gymreig ym Mhatagonia, ond yn hytrach eu bod yn cadw'r Gymraeg yn iaith arbennig ar gyfer achlysuron penodol, lle mae'r sgysiau'n tueddu i fod yn uniaith yn hytrach na thrwy'r ddwy iaith, sydd yn cael ei adlewyrchu yn y nifer fechan iawn o frawddegau CC mewngymalog yn y data. Mae'r union reswm am natur y CC – neu'r diffyg CC – yn iaith Cymru'r Ariannin yn aneglur, yn ôl yr awduron, ac mae llawer o le ar gyfer ymchwil bellach ar y corpws *Patagonia* er mwyn edrych yn ddyfnach ar batrymau iaith Cymraeg y bobl ddwyieithog sydd yn byw yno.

5. CRYNODEB

Yn y bennod hon rydym wedi trafod sut a pham mae pobl yn cyfnewid cod, gan ystyried data i weld beth yw'r rhesymau dros ddefnyddio geiriau o iaith arall mewn disgwrs. Rydym hefyd wedi ystyried y cysylltiad rhwng CC a hunaniaeth, a gweld bod CC yn rhan bwysig o fywyd a phersonoliaeth rhai pobl ddwyieithog, yn dibynnu ar eu sefyllfa gymdeithasol ac ar natur yr ieithoedd yn ein cymuned. Mae hyn yn ein harwain i ystyried, yn y bennod nesaf, beth yn union a olygir gan gymdeithas ddwyieithog, ac i feddwl am y gwahanol ffyrdd mae dwy iaith yn gallu cydfodoli mewn cymdeithas.

AWGRYMIADAU DARLLEN AM DDWYIEITHRWYDD YN Y GYMRAEG

Jones, Kathryn (1995). Code-switching, intertextuality and hegemony: exploring change in bilingual discourse. Yn *Proceedings of the Summer School, Code-Switching and Language Contact*, 108–118. Leeuwarden: Fryske Akademy. [Yn trafod sut mae cyfnewid cod Cymraeg-Saesneg yn amrywio o gyd-destun i gyd-destun]

Parafita Couto, M. C., Davies, P., Carter, D. a Deuchar, M. (2014). Factors influencing code-switching. Yn *Advances in the Study of Bilingualism*, E. M. Thomas ac I. Mennen (goln), 111–140. Bryste: Multilingual Matters. [Yn cymharu CC mewn data Cymraeg-Saesneg o Gymru, Cymraeg-Sbaeneg o Batagonia a Saesneg-Sbaeneg o UDA]

Parafita Couto, Maria Carmen, Carter, Diana, Davies, Peredur a Deuchar, M. (2011). *Factors Determining Code-switching Patterns in Spanish-English and Welsh-English Communities. Las Actas del XXVIII Congreso Internacional de AESLA, Revista Española de Lingüística Aplicada*. [Yn cymharu CC mewn data Cymraeg-Saesneg o Gymru a Saesneg-Sbaeneg o UDA]

Carter, Diana, Deuchar, Margaret, Davies, Peredur a Parafita Couto, Maria Carmen (2011). A systematic comparison of factors affecting the choice of matrix language in three bilingual communities. *Journal of Language Contact* 4, 153–183. [Yn cymharu CC mewn data Cymraeg-Saesneg o Gymru, Cymraeg-Sbaeneg o Batagonia a Saesneg-Sbaeneg o UDA]

Jones, Bedwyr L. (1981). Welsh: Linguistic conservation and shifting bilingualism. Yn *Minority Languages Today*, E. Haugen, J. D. McClure a D. Thomson (goln), 40–51. Caeredin: Gwasg Prifysgol Caeredin. [Yn ystyried y bobl sy'n CC a pham, er bod ei feddylfryd braidd yn hen ffasiwn bellach]

PENNOD 7

Dwyieithrwydd yn y Gymdeithas

1. CYFLWYNIAD

Wrth drafod maes dwyieithrwydd mae modd gwahaniaethu rhwng dwyieithrwydd unigol – fel y trafodwyd ynybennodgyntaf – a dwyieithrwydd cymdeithasol. Wrth ystyried dwyieithrwydd unigol, rydym yn ystyried agweddau ar wybodaeth, defnydd a phrofiad yr unigolyn o ddwyieithrwydd, ond wrth ystyried dwyieithrwydd cymdeithasol rhaid i ni edrych ar y cymunedau y mae’r bobl ddwyieithog hyn yn byw ynddynt, sut mae pobl yn dod ar draws dwy iaith ac yn defnyddio dwy iaith yn eu cymunedau a sut mae dwyieithrwydd yn ffitio i mewn i’n byd.

Wrth ddefnyddio’r term ‘cymdeithas ddwyieithog’ gallwn fod yn cyfeirio at gymunedau lle mae’r boblogaeth i gyd yn ddwyieithog, neu at gymunedau lle mae’r lleiafrif yn ddwyieithog ond bod dwy iaith yn nodwedd sylweddol ar natur y gymuned. Cymdeithasau dwyieithog a’r hyn sy’n digwydd i ieithoedd mewn cymdeithas fydd ffocws y bennod hon. Byddwn yn ystyried pa wahanol fathau o gymunedau dwyieithog sydd yn bod, a sut gall cymdeithas ddod i fod yn ddwyieithog. Byddwn yn trafod sut gall dwy iaith gael dibenion a swyddogaethau gwahanol o fewn cymuned a byddwn yn ystyried y cysyniad o symud iaith mewn sefyllfa lle mae iaith fwyafrifol yn gwrthio iaith leiafrifol o’r neilltu a thrwy hynny’n lleihau dwyieithrwydd yn y gymdeithas.

2. CYMUNEDAU DWYIEITHOG AC AMLIEITHOG

Mae’n hawdd anghofio, efallai, bod dwyieithrwydd yn beth cyffredin yn y byd yn gyffredinol. Amcangyfrifir bod dros hanner poblogaeth y byd yn ddwyieithog. Er gwaetha’r ffaith bod rhai o wledydd mawr ac/neu ddylanwadol y byd yn rhai uniaith – h.y. mae mwyafrif trigolion y gwledydd hyn yn uniaith – ar y cyfan (e.e. Prydain, Unol Daleithiau America, Ffrainc, Tsieina, Awstralia, etc.), ceir gwledydd eraill lle mae dwyieithrwydd yn gwbl gyffredin e.e. bron unrhyw wlad yng nghyffandir Affrica, gwledydd enfawr fel India a gwledydd llai fel Gwlad Belg.

Ond mae hyd yn oed disgrifio gwledydd fel UDA a Tsieina uchod fel ‘gwledydd sydd ar y cyfan yn uniaith’ yn osgoi’r ffaith bod dwyieithrwydd i’w gael yn y gwledydd hynny hefyd. Yn Tsieina, er mai Mandarin yw’r iaith swyddogol a’i bod yn cael ei siarad gan bawb fwy neu lai, mae gwahanol ‘dafodieithoedd’ (neu amrywiadau) Tsieineeg fel Cantoneg i’w cael yng ngwahanol ranbarthau’r wlad, a’r amrywiadau ieithyddol hynny’n aml mor wahanol i Mandarin nes y gellid eu categoreiddio fel ieithoedd gwahanol iddi, a’r siaradwyr felly yn rhai dwyieithog. Yn UDA, Saesneg yw iaith gyffredinol y wlad, ac uniaith Saesneg yw’r mwyafrif yn gyffredinol, ond mae pobl sy’n ddwyieithog mewn Saesneg a Sbaeneg, Saesneg ac Eidaleg, Saesneg a Groeg ac yn y blaen yn hynod o gyffredin, ac mewn rhai mannau maen nhw’n fwy cyffredin fel cyfran o’r boblogaeth na phobl uniaith Saesneg: er enghraifft, yn Miami, Florida, mae 70% o’r boblogaeth yn siarad Sbaeneg – a’r rhan fwyaf ohonyn nhw, mae’n debygol, yn siarad Saesneg hefyd – lle mai dim ond 20% o boblogaeth talaith Florida gyfan sydd yn siarad Sbaeneg; h.y. mae Miami yn ddwyieithog ond dydy Florida ddim mor ddwyieithog â Miami, ac mae UDA ar y cyfan hyd yn oed yn llai dwyieithog!

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

- : Rhestrwch gymaint o ieithoedd ag y gallwch chi sydd, yn eich profiad a’ch gwybodaeth chi, yn cael eu siarad gan bobl sy’n byw yng Nghymru, Lloegr, yr Alban ac Iwerddon heddiw. Faint o amrywiaeth mewn defnydd iaith sydd i’w weld?
- : Lle, hyd y gwyddoch chi, mae’r ieithoedd hyn yn cael eu siarad – oes yna rai ardaloedd lle mae iaith yn fwy tebygol o gael ei siarad nag ardaloedd eraill?
- : Lle mae’r ardaloedd dwyieithog (neu amlieithog) yn eich tyb chi?

Felly, rhaid bod yn ofalus, wrth drafod dwyieithrwydd cymdeithasol, nad ydym yn cael ein camarwain gan ffiniau daearyddol gwledydd neu ranbarthau. Nodwedd *wleidyddol*, nid ieithyddol fel y cyfryw, yw ffin gwlad, ac nid yw'r ffaith bod gwlad yn ymddangos yn uniaith ar yr arwyneb yn golygu nad oes dwyieithrwydd i'w gael yn y wlad honno. Wedi'r cyfan, tua 19% o boblogaeth Cymru sy'n siarad Cymraeg (yn ôl Cyfrifiad 2011), ac felly y lleiafrif, ond mae rhannau o Gymru – siroedd ond hefyd trefi a phentrefi – lle mae mwyafrif y boblogaeth yn ddwyieithog mewn Cymraeg a Saesneg. Byddwn yn edrych ym Mhennod 8 ar astudiaeth o Gaernarfon yng Ngwynedd, lle mae dwyieithrwydd yn llawer mwy cyffredin nag unieithrwydd. Sôn am gymunedau neu gymdeithasau sydd orau wrth drafod cyfansoddiad ieithyddol ardaloedd, felly, er bod yn rhaid inni gofio bod iaith yn aml yn cael ei rheoli i ryw raddau gan benderfyniadau gwleidyddol – fel y llywodraeth sy'n penderfynu creu polisïau i amddiffyn iaith leiafrifol – ac mai ar eu gwlad nhw y mae'r penderfyniadau hynny'n cael effaith. Mewn achos fel yna, mae'n rhaid i ni ystyried y ffiniau daearyddol wedi'r cyfan.

Rhaid cofio hefyd bod modd siarad mwy na dwy iaith – yn wir, mewn rhai rhannau o'r byd mae hi'n hawdd cyfarfod pobl sy'n siarad ac yn defnyddio tair neu bedair neu fwy o ieithoedd yn rhan o'u bywyd bob dydd. Gellir defnyddio'r term AMLIEITHRWYDD (*multilingualism*) am hyn. Er enghraifft, yn Aruba – ynys ger Venezuela – mae pobl yn gyffredinol yn siarad Papiamentu, sef iaith sydd wedi datblygu o gyfuniad o sawl iaith Ewropeaidd, ar y stryd; yn siarad Sbaeneg oherwydd bod Aruba yn agos i Venezuela; yn siarad Saesneg oherwydd bod Aruba'n dibynnu'n fawr ar dwristiaeth o ran ei heconomi; ac yn siarad Iseldireg (*Dutch*) oherwydd bod Aruba yn swyddogol yn rhan o'r Iseldiroedd. Mae'n hawdd cael hyd i rywun pedairieithog yn Aruba, felly. Yn India, wedyn, mae pobl yn aml yn dairieithog (o leiaf!): mae Hindi yn cael ei dysgu yn yr ysgolion (i wahanol raddau yn dibynnu ar yr ardal) ac mae angen ei defnyddio os yw rhywun am weithio e.e. i'r llywodraeth yn New Delhi. Mae gan bob ardal ei iaith swyddogol leol ei hun, a hon yw'r iaith y bydd pobl yn ei siarad â'i gilydd yn y gymuned, ond er mwyn cyfathrebu â rhywun o ardal arall bydd angen i berson Indiaidd ddysgu iaith yr ardal honno hefyd. Yn olaf, mae Saesneg yn gyffredin iawn yn India, oherwydd cyfnod hanesyddol y Raj pan fu Prydain a'r iaith Saesneg yn bresenoldeb yn India.

Nid eithriadau yw'r gwledydd hyn chwaith – gallwn hefyd restru Lwcsembwrg, De Affrica, Singapore, ac yn y blaen. Gellir gweld felly bod amlieithrwydd yn bodoli ar draws y byd, ond – a dyma sy'n bwysig – bod rhesymau hanesyddol a chymdeithasol pam mae'r ieithoedd hyn yn cael eu siarad yn y gwledydd hyn. Wrth ddarllen ymlaen bydd angen i chi ystyried sut mae hanes yn siapio'r cymunedau rydyn ni'n byw ynddyn nhw, a sut mae hyn yn effeithio ar yr ieithoedd sy'n cael eu siarad a'u defnyddio yn y cymunedau hyn. Canolbwyntio ar gymunedau dwyieithog fyddwn ni fel rheol, ond mae'r hyn y byddwn ni'n ei drafod yn wir yn gyffredinol ar gyfer cymdeithas amlieithog hefyd.

Er mwyn dysgu mwy am wahanol gymdeithasau dwyieithog y byd, ewch at e.e. Baker a Jones (1998), ac am drafodaeth drylwyr o hanes cymdeithasol yr iaith Gymraeg, gan gynnwys ystyriaeth o ieithoedd a chymunedau dwyieithog eraill, ewch at e.e. Robert O. Jones (1997/2016).

3. SUT MAE CYMUNEDAU'N DOD I FOD YN DDWYIEITHOG?

Does yr un rhanbarth yn cychwyn fel rhanbarth dwyieithog: ystyriwn mai uniaith yw grŵp neu gymuned benodol cyn i ryw ddigwyddiad (neu gyfres o ddigwyddiadau) cymdeithasol eu hamlygu i iaith arall, a bod y rhanbarth hwnnw, dros amser, yn tyfu i fod yn rhanbarth dwyieithog. Un o'r prif resymau pam mae cymaint o amrywiaeth yng nghyfansoddiad rhanbarthau dwyieithog ledled y byd ydy bod amrywiaeth o wahanol ffyrdd y gall rhanbarth dyfu i fod yn un dwyieithog. Yn yr adran hon byddwn yn trafod rhai o'r ffyrdd hynny, gan ystyried wrth fynd yn ein blaen sut mae hanes cymdeithasol rhanbarth yn dylanwadu ar ei ddefnydd o iaith.

Isod ceir rhestr o wahanol brosesau cymdeithasol a demograffig sy'n gallu creu cymunedau dwyieithog. Nid yw'r eitemau mewn unrhyw drefn benodol, heblaw bod prosesau sy'n fwy

cysylltiedig â'r gorffennol (yn hytrach na rhywbeth sy'n debygol o ddigwydd heddiw) ar ddechrau'r rhestr.

1. **Concro a choloneiddio**

Mae grŵp o siaradwyr o un rhanbarth yn ymosod ar, ac yn cymryd drosodd, ran neu'r cyfan o ranbarth arall. Os yw pobl y ddau ranbarth yn siarad gwahanol ieithoedd, yna bydd iaith y concwerwyr yn cael ei chyflwyno i'r grŵp a goncwerwyd. Os yw'r concwerwyr yn aros yn y rhanbarth hwnnw, ac yn ei goloneiddio â mwy o siaradwyr eu hiaith nhw, yna gall iaith y coloneiddwyr ddod yn iaith flaenllaw yn y rhanbarth a goncwerwyd. Gan ddibynnu ar ba mor ormesol yw'r coloneiddwyr, gall y broses arwain at farwolaeth ieithoedd gwreiddiol y rhanbarthau a goncwerwyd ganddynt.

Enghraifft hanesyddol o hyn oedd y Rhufeiniaid yn lledaenu Lladin ar draws Ewrop a Phrydain, gan achosi i Ladin ddod yn brif iaith y rhan fwyaf o'r rhan honno o'r byd, a chan arwain at farwolaeth ieithoedd fel Galeg (*Gaulish*) a Gotheg (*Gothic*) yn y pen draw. Enghraifft fwy diweddar oedd Ewropeaid (o Sbaen ac yna o Brydain, gan mwyaf) yn coloneiddio gwledydd America yn ystod yr 16eg ganrif. Roedd y broses yn un dreisgar ar y cychwyn, wrth i'r *conquistadores*, dan gyfarwyddyd brenhiniaeth Sbaen, fforio i'r cyfandir newydd a lladd neu orchfygu'r llwythi brodorol, gan arwain at farwolaeth nifer o ieithoedd brodorol America. Mae hyn yn esbonio'n rhannol pam mai Sbaeneg yw iaith fwyaf niferus De America erbyn heddiw.

2. **Masnach**

Mae masnachwyr o un rhanbarth yn teithio (dros y môr neu'r tir) i brynu a gwerthu nwyddau gan fasnachwyr o ranbarth arall. Er mwyn hwyluso'r broses o fasnachu maen nhw'n dechrau dysgu eu hieithoedd ei gilydd, neu mae un grŵp yn dysgu iaith y llall, neu maen nhw'n creu iaith newydd er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth. Gelwir iaith fel hyn yn IAITH BIJIN (*pidgin language*). Nid yw iaith bijin yn cael ei chaffael fel iaith gyntaf, ond yn hytrach mae'n iaith sy'n datblygu drwy gyfuno gramadeg a geiriau o sawl iaith gan bobl o wahanol gefndiroedd sydd angen sicrhau cyd-ddealltwriaeth. Dros amser gall iaith bijin ddod yn ddigon cyffredin mewn cymdeithas nes iddi gael ei chaffael gan genedlaethau newydd o bobl y gymuned; os bydd hyn yn digwydd yna gelwir hi wedyn yn IAITH GREOL (*creole*). Mae gan ieithoedd creol fwy o statws yn gymdeithasol nag ieithoedd pijin, ac maen nhw'n cael eu defnyddio ar gyfer mwy na dim ond cyfathrebu rhwng masnachwyr, e.e. mae'n iaith y gymdeithas, iaith y cartref, hyd yn oed yn iaith awdurdod. Os daw iaith i fod yn iaith greol yna'n aml bydd hon yn cael ei defnyddio ochr yn ochr ag iaith neu ieithoedd eraill yr ardal, ac o hyn o beth mae'r gymuned yn dod yn ddwyieithog.

Yn Papua New Guinea (PNG) datblygodd yr iaith Tok Pisin drwy'r broses hon. Fel mae'r enw'n ei awgrymu ('talk pijin!'), dechreuodd Tok Pisin fel iaith bijin rhwng pobl frodorol PNG a'r masnachwyr a'r coloneiddwyr o dramor, a oedd fel rheol yn siarad Saesneg. Dros amser daeth Tok Pisin yn ddigon cyffredin nes iddi gael ei chaffael gan blant a dod yn iaith i gannoedd o filoedd o bobl; erbyn hynny gellid ei galw'n greol ac nid yn bijin. Er bod PNG yn wlad lle mae nifer fawr o ieithoedd yn cael eu siarad, i raddau mae twf Tok Pisin fel iaith greol wedi rhoi cyfrwng i bobl gyfathrebu â'i gilydd, a heddiw mae Tok Pisin yn cael ei defnyddio ar arwyddion a dogfennau cyhoeddus gan y llywodraeth, er mwyn cyrraedd cymaint o bobl â phosib. Mae Papiamentu, y soniwyd amdani uchod fel iaith yn Aruba, yn enghraifft arall o iaith greol sydd yn iaith gyffredin yn y gymdeithas.

3. **Ymfudo**

Wrth i grwpiau mawr o bobl symud o un gymuned i gymuned arall, os nad yw'r trigolion gwreiddiol a'r trigolion newydd yn rhannu iaith yna bydd angen i'r gymuned droi'n un ddwyieithog er mwyn i bobl allu cyfathrebu. Gellir gwahaniaethu hyn oddi wrth unigolion neu deuluoedd yn symud i wlad newydd i fyw, gan fod disgwyl i bobl o'r fath

gymhathu â'u cymuned newydd drwy ddysgu'r iaith leol (h.y. mae'r *status quo* yn cael ei gadw yn y gymuned), ond pan fydd grwpiau mawr o bobl yn ymfudo i'r gymuned newydd o fewn cyfnod gweddol fyr, gall hyn gael effaith sylweddol ar batrwm iaith y gymuned (h.y. mae'n rhaid i drigolion gwreiddiol y gymuned ddysgu iaith newydd y mewnfudwyr). Yn aml mewn hanes roedd pobl yn ymfudo i wlad arall er mwyn ceisio cael gwell swyddi ac, felly, er mwyn gwella eu safon byw.

Mewn rhai sefyllfaoedd mewn hanes cafwyd pobl o amryw o wahanol gefndiroedd ac a oedd yn siarad gwahanol ieithoedd oll yn cydgyfeirio i un lle, ac o reidrwydd roedd un iaith yn tueddu i gael ei dewis uwchlaw yr un o'r lleill, a honno fyddai'r iaith â'r statws uchaf yn y gymuned. Yr enghraifft gliriaf o hyn yn digwydd mewn hanes lled-ddiweddgar yw'r ymfudo a ddigwyddodd i Unol Daleithiau America yn ystod y 19eg ganrif, wrth i bobl yn Ewrop deimlo bod modd iddynt wneud eu ffortiwn yno. Symudodd pobl o wledydd fel yr Eidal, Groeg ac Iwerddon – a Chymru hefyd – i ddinasoedd America i fyw, ond Saesneg, ac nid eu hieithoedd nhw, a ddaeth i'r brig fel iaith gyffredinol y gymdeithas.

Enghraifft arall o ymfudwyr yn ysgogi cymuned i droi'n ddwyieithog yw Cymru yn ystod Chwyldro Diwydiannol y 18fed ganrif a'r 19eg ganrif. Cyn y cyfnod hwn roedd Cymru'n wlad uniaith Gymraeg ar y cyfan, heb ddinasoedd mawr, prysur. Ond wrth i'r diwydiannau glo, haearn, llechi, copor ac ati ffynnu yn ystod cyfnod y Chwyldro, cafodd miloedd o weithwyr o'r tu allan i Gymru eu denu i'r diwydiannau newydd er mwyn cael swyddi. Gan nad oedd y mewnfudwyr hyn yn siarad Cymraeg, a chan fod cymaint ohonynt, bu'n rhaid i drigolion Cymraeg yr ardaloedd y symudodd y mewnfudwyr i mewn iddynt ddysgu Saesneg er mwyn gallu cyfathrebu â nhw – yn hytrach na bod y mewnfudwyr eu hunain yn dysgu Cymraeg. Dros amser datblygodd y cymunedau diwydiannol yn rhai dwyieithog, ac yn y pen draw daeth Saesneg yn brif iaith y rhan fwyaf o'r cymunedau hyn. Esbonia hyn pam, er enghraifft, mae rhai o gymoedd diwydiannol de Cymru yn ardaloedd sydd ddim ond â chyfran fechan o siaradwyr Cymraeg erbyn yr 21ain ganrif, tra bod yr iaith Gymraeg ar y cyfan i'w chlywed yn fwy cyffredin yn ardaloedd mwy gwledig a llai diwydiannol Cymru.

4. Rhyngwladoli

Yn wahanol i'r sefyllfaoedd uchod, nid oes rhaid cael symudiadau poblogaeth er mwyn i gymuned ddod yn ddwyieithog. Ym mhroses rhyngwladoli (*internationalization*) mae un o ieithoedd blaenllaw'r byd yn lledaenu i gymunedau eraill y byd drwy'r cyfryngau, drwy ddiwylliant rhyngwladol a thrwy benderfyniadau gwleidyddol. Er enghraifft, os yw llywodraeth yn teimlo ei bod hi'n fuddiol i boblogaeth eu gwlad siarad iaith fyd-eang, fel Saesneg, yna gallant gyflwyno'r Saesneg fel iaith yn eu cyfundrefn addysg, fel bod pobl eu cymuned yn gallu cael mynediad at gyfryngau rhyngwladol (fel ffilmiau, llyfrau, cerddoriaeth, y we) ond hefyd er budd yr economi, gan fod masnach ryngwladol yn tueddu i fod drwy gyfrwng nifer fechan o ieithoedd byd-eang.

Enghraifft o wlad lle ceir dwyieithrwydd oherwydd rhyngwladoli yw Siapan. Ni chafwyd llawer o ymfudo gan siaradwyr Saesneg i Siapan yn hanesyddol, ond serch hynny mae atyniad y diwylliant Americanaidd i boblogaeth Siapan fodern, yn ogystal â thwf grym rhyngwladol Siapan ym myd masnach a diwydiant, wedi arwain at Saesneg yn dod yn rhan bwysig o gwricwlwm addysg Siapan, ac i'r iaith Saesneg gael ei gweld fel iaith bwysig a blaenllaw yno, er mai Siapaneg yw iaith gyntaf ac iaith bob dydd bron pawb yn y wlad.

5. Hyrwyddo iaith

Os bydd iaith leiafrifol yn cael ei hyrwyddo gan rywrai mewn awdurdod (e.e. y llywodraeth), yna gall hyn arwain dros amser at fwy a mwy o bobl yn siarad yr iaith honno, a thrwy hyn gellir cynyddu dwyieithrwydd y gymuned. Gellir hyd yn oed adfywio iaith farw (e.e. Hebraeg, Cernyweg) er mwyn ceisio troi cymuned uniaith (yn ôl?) i fod yn

un ddwyieithog. Mae'r broses hon o hyrwyddo yn fath o gynllunio iaith, ac yn enghraifft – yn wahanol, efallai, i'r lleill uchod – o ymdrech fwriadol i greu cymdeithas ddwyieithog. Mae Cymru'n enghraifft amlwg o sefyllfa lle mae'r llywodraeth, ers y 1960au, ond yn enwedig ers y 1980au, wedi bod yn gwneud ymdrechion i gynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg a'r sefyllfaoedd lle gellir defnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn enghraifft o gynllunio iaith er mwyn hyrwyddo ac amddiffyn iaith leiafrifol rhag marw, a hynny drwy annog pobl o gefndiroedd di-Gymraeg i ddod yn ddwyieithog yn y Gymraeg.

Mae enghreifftiau eraill o gynllunio iaith i'w gweld ledled y byd. Er enghraifft, yng Nghanada mae statws cyfartal gan y Saesneg a'r Ffrangeg, ac mae'r llywodraeth (yn gyffredinol, ond yn enwedig mewn ardaloedd fel Québec, sydd yn hanesyddol yn fwy Ffrengig) yn creu polisïau sydd yn annog dwyieithrwydd yn y ddwy iaith. Mae hyn yn cynnwys cynnal systemau addysg cyfrwng Ffrangeg, rhoi statws uchel a swyddogol i'r ddwy iaith a hyrwyddo'r syniad bod amlddiwylliant (*multiculturalism*) yn beth positif ac yn greiddiol i hunaniaeth Canada.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: Lle ydych chi'n byw?

: Pa mor ddwyieithog yw hi?

: Oes mwy na dwy iaith i'w clywed yno?

: Sut daeth y gymuned honno'n ddwyieithog?

: Ers faint mae hi'n ddwyieithog?

Y prif beth i'w gofio wrth astudio cymunedau dwyieithog yw bod ystod eang o amrywiaeth o ran sut daeth yr ardaloedd hynny'n ddwyieithog, ac yn aml bydd y ffactorau hanesyddol hyn yn arwain at e.e. yr ieithoedd yn dal statws gwahanol i'w gilydd ar lefel gymdeithasol, bod un iaith yn leiafrifol a'r llall yn fwyafrifol, neu bod gwahanol ieithoedd yn cael eu defnyddio at wahanol swyddogaethau. Byddwn yn trafod y ffactor olaf hwn mewn manylder yn yr adran nesaf.

4. DEUGLOSLIA A DWYIEITHRWYDD

Nid yw'r ffaith bod rhanbarth yn ddwyieithog yn angenrheidiol yn golygu bod trigolion y rhanbarth hwnnw'n defnyddio'r ddwy iaith yn gytbwys – hynny ydy, yn defnyddio un iaith gymaint â'r llall – na hyd yn oed bod pawb yn y gymuned yn gallu siarad y ddwy iaith. Mewn rhai cymunedau bydd gan un iaith statws uwch na'r iaith arall, a gall hynny olygu bod disgwyl i siaradwyr ddefnyddio'r iaith statws-uchel mewn sefyllfaoedd sydd â statws uchel, tra bo'r iaith statws-isel yn cael ei chyfyngu i sefyllfaoedd â statws is. Oherwydd hyn, mewn cymdeithasau o'r fath does dim modd i siaradwyr ddefnyddio'r ddwy iaith ym mhob agwedd ar eu bywydau: am resymau cymdeithasol penodol maen nhw'n gorfod gweddu'r iaith at y sefyllfa, heb fawr o ddewis.

Gelwir y cysyniad hwn yn DDEUGLOSLIA (*diglossia*). Charles Ferguson (1959) oedd y cyntaf i ddisgrifio'r ffenomen hon. (Er nad at sefyllfaoedd dwyieithog yr oedd Ferguson yn cyfeirio, mae'r cysyniad yn berthnasol i drafodaeth o gymdeithasau felly – fel y gwelwch isod – ac roedd Ferguson ei hun yn cydnabod bod tebygrwydd rhwng y sefyllfaoedd yr oedd o'n eu trafod a rhai dwyieithog.) Nododd Ferguson nifer o wahanol enghreifftiau o ieithoedd oedd â dau amrywiad (h.y. gwahanol ffurf) yr oedd siaradwyr yn eu defnyddio ar gyfer sefyllfaoedd penodol. Un iaith mae Ferguson yn cyfeirio ati yw Arabeg. Ym model Ferguson, dangoswyd bod y ddwy ffurf lafar ar Arabeg, sef Arabeg ffurfiol ac Arabeg tafodieithol, neu Arabeg 'Uchel' (H oedd label Ferguson) ac Arabeg 'Isel' (L), yn cael eu defnyddio mewn gwahanol sefyllfaoedd ym mywydau eu siaradwyr. Fe gofiwch i ni gyflwyno'r term pau (*domain*) ym Mhennod 6, gan gyfeirio at gyd-destunau cymdeithasol lle mae iaith benodol neu fath ar iaith yn gweddu yn fwy nag un arall. Yn ôl Ferguson, mae Arabeg 'Uchel' yn cael ei chyfrî'n werthfawr gan siaradwyr, ac mae'n cael ei defnyddio mewn peuoedd ffurfiol,

pwysig, uchel – fel byd addysg, yn y tŷ crefydd neu mewn llenyddiaeth – tra mae Arabeg ‘Isel’ yn cael ei chyfri’n llai gwerthfawr ac yn cael ei defnyddio mewn peuoedd dydd-i-ddydd, e.e. siarad â theulu a ffrindiau neu â phlant.

Dywedodd Ferguson fod sefyllfa ddeuglosig yn un sefydlog fel arfer, gan olygu nad oedd cymuned ddeuglosig yn debygol o newid ei phatrwm defnydd iaith o genhedlaeth i genhedlaeth, a bod pobl y gymuned wedi arfer â’r cysyniad o ddefnyddio gwahanol amrywiadau iaith ar gyfer gwahanol swyddogaethau neu beuoedd. Ystyriodd Ferguson ieithoedd eraill lle’r oedd dwy ffurf yn cael eu defnyddio ar gyfer gwahanol beuoedd neu sefyllfaoedd, fel Almaeneg safonol a thafodiaith Almaeneg Swistir yn y Swistir, Ffrangeg safonol a chreol (gw. uchod) Haitiaidd yn Haiti, a Groeg safonol, llenyddol a Groeg llafar yng Ngwlad Groeg. Ynghyd â gwahaniaeth mewn lle a pham mae pobl yn defnyddio’r gwahanol amrywiadau iaith hyn, nododd Ferguson fod pethau eraill yn gwahanu’r amrywiadau yng ngolwg eu siaradwyr, gan gynnwys bod gan y ffurf Uchel fel arfer fri cymdeithasol uwch na’r ffurf Isel – efallai am ei bod yn cael ei chysylltu â llenyddiaeth neu lywodraethu, er enghraifft – a bod ffurf ramadegol yr iaith Uchel fel arfer wedi ei chodeiddio a’i chofnodi (h.y. wedi ei safoni) tra bod gramadeg yr iaith Isel yn amrywiol iawn e.e. amrywiaeth tafodieithol o ranbarth i ranbarth.

Ehangodd yr ieithydd Americanaidd Joshua Fishman (1967) ar ddiffiniad Ferguson o ddeuglosia i gynnwys sefyllfaoedd lle mae’r ffurf ‘Uchel’ a’r ffurf ‘Isel’ yn ddwy *iaith* nid dau *amrywiad o’r un iaith*. Felly, mewn cymuned lle ceir deuglosia mewn dwy iaith a hefyd lle mae’r boblogaeth yn gyffredinol yn ddwyieithog, bydd un iaith yn cael ei defnyddio ar gyfer swyddogaethau ffurfiol, uchel, a’r iaith arall yn cael ei defnyddio ar gyfer swyddogaethau dydd-i-ddydd. Gelwir hyn yn DDEUGLOSLIA Â DWYIEITHRWYDD. Enghraifft a roddir yn aml o ddeuglosia fel hyn yw sefyllfa Paraguay yn Ne America. Mae dwy brif iaith i’w cael yn Paraguay, sef Guarani, yr iaith frodorol, a Sbaeneg, iaith y mewnfydwyr hanesyddol. Er bod pobl Paraguay yn gyffredinol yn ddwyieithog yn y ddwy iaith hon, y duedd yw iddynt ddefnyddio Sbaeneg mewn peuoedd ffurfiol/statws uchel ond i ddefnyddio Guarani fel eu hiaith dydd-i-ddydd ac mewn peuoedd statws is. Ond yn ail hanner yr 20fed ganrif bu newidiadau cymdeithasol yn Paraguay, a bellach mae Guarani yn iaith swyddogol sy’n cael ei dysgu mewn ysgolion ac ati, er mai Sbaeneg sy’n parhau fel iaith llywodraethu’r wlad. Gan mai Sbaeneg, yn yr enghraifft hon, yw iaith y peuoedd ‘uchel’, mae’n sefyll i reswm bod angen i bobl allu siarad Sbaeneg er mwyn gallu cymryd rhan yn haenau uwch cymdeithas. Byddai unrhyw un nad yw’n gallu siarad Sbaeneg dan anfantais gymdeithasol yma, ac yn wir mae’n ymddangos (Simons a Fennig 2017) nad oes siaradwyr uniaith Guarani yn bodoli bellach – dwyieithrwydd yw’r norm os ydych yn siarad Guarani.

Ymathmwyafllwyr o ddeuglosia yw DEUGLOSLIA HEB DDWYIEITHRWYDD (neu heb ddwyieithrwydd ymysg rhan helaeth o’r boblogaeth). Yn yr achos hwn bydd rhaniad clir mewn cymdeithas, lle mae pobl o statws uchel yn siarad un iaith a phobl o statws isel yn siarad iaith arall. Oherwydd y rhaniad hwn, mae’r ddwy iaith yn cael eu rhannu hefyd, gyda’r iaith statws-uchel yn cael ei defnyddio mewn peuoedd statws-uchel yn unig, a’r iaith statws-isel ddim ond mewn peuoedd statws-isel, ond gyda siaradwyr haen-isel yn methu â chymryd rhan mewn gweithgareddau statws-uchel, na’r gwrthwyneb. Mae enghreifftiau o hyn yn haws i’w darganfod yn hanesyddol yn hytrach nag yn y byd modern: er enghraifft, yn Rwsia cyn gwrthryfel 1917, Ffrangeg oedd prif iaith y dosbarth uchel (e.e. y Tsar, sef arweinydd Rwsia, a’i deulu estynedig) ond Rwseg oedd yr unig iaith yr oedd y werin, y bobl gyffredin, yn ei siarad. Roedd angen gallu siarad Ffrangeg felly er mwyn e.e. cael swyddi o statws uchel, ac roedd y rhaniad ieithyddol hwn felly’n rhaniad cymdeithasol ac economaidd hefyd, a arweiniodd yn y diwedd at y gwrthryfel enwog. Enghraifft arall o ddeuglosia heb ddwyieithrwydd oedd Lloegr yn y Canol Oesoedd cynnar, yn dilyn y goncwest Normanaidd. Yn y sefyllfa honno, Saesneg oedd iaith y werin bobl ond Ffrangeg oedd iaith y dosbarth uchel; roedd y deuglosia yn y sefyllfa hon hefyd yn amlygu’r bwlbh cymdeithasol rhwng y cyfoethog a’r tlawd. Parhaodd y deuglosia hwn tan tua’r 15fed ganrif, lle gwelwn frenin cyntaf ar Loegr ers 1066 (sef

Harri IV) oedd yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Nid oes deuglosia rhwng Ffrangeg a Saesneg yn Lloegr erbyn heddiw!

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

- : Mewn sefyllfaoedd lle ceir deuglosia *ond nid* dwyieithrwydd, beth fyddai agweddau pobl at yr iaith ‘isel’ yn gyffredinol?
- : Beth fyddai effaith yr agweddau hyn, o bosib, ar ddyfodol yr iaith ‘isel’? (Awgrym: meddyliwch am yr hyn a ddigwyddodd i’r iaith Gymraeg a’i siaradwyr yn hanesyddol, cyn yr 20fed ganrif.)

Os oes deuglosia heb ddwyieithrwydd, yna ni fydd y bobl sydd ddim ond yn gallu siarad yr iaith ‘isel’ yn gallu cael mynediad i’r peuoedd uchel, gan nad ydyn nhw’n siarad yr iaith addas. Yn yr un modd, ni fydd y bobl nad ydynt yn siarad yr iaith ‘isel’ yn gallu rhyngweithio â siaradwyr yr iaith honno. Byddai hyn yn achosi rhaniad cymdeithasol, gyda siaradwyr yr iaith ‘uchel’ yn rhedeg y wlad ac yn cael y swyddi da – gan fod angen gallu gweithredu yn y peuoedd uchel i gyflawni hyn – tra bod siaradwyr yr iaith ‘isel’ ddim ond yn gallu gweithredu o fewn y peuoedd isel; byddai gwahaniaeth economaidd clir rhwng y ddau grŵp hefyd oherwydd hyn. Mae’r enghraifft o Rwsia uchod yn dangos hyn yn eglur: roedd siaradwyr Rwseg yn hynod o dlawd yn y 19eg ganrif, tra bod y dosbarth uchel Ffrangeg yn byw mewn cyfoeth aruthrol. Yn y pen draw arweiniodd yr agendor cymdeithasol hwn at chwyldro, a bellach Rwseg yw prif iaith Rwsia, gan gynnwys ymysg y rhai sy’n llywodraethu. Yn achos Cymru, os ewch chi’n ôl i ddechrau’r 20fed ganrif neu’n gynharach, roedd angen Saesneg er mwyn gweithio mewn swydd gyhoeddus ac i gael cyflog da, ac felly roedd y siaradwyr uniaith Gymraeg yn tueddu i fyw mewn tldi, tra bod siaradwyr Saesneg nad oedden nhw’n medru’r Gymraeg yn gyffredinol yn bobl dosbarth canol neu uwch, o leiaf tan i’r Chwyldro Diwydiannol achosi mewnfudo uchel o weithwyr di-Gymraeg i Gymru yn y 18fed a’r 19eg ganrif.

Nid oes rhaid, fodd bynnag, i gymuned ddwyieithog fod yn un ddeuglosig. Mewn sefyllfa o DDWYIEITHRWYDD HEB DDEUGLOSIA, gall siaradwyr ddefnyddio’u dwy iaith mewn unrhyw bau cymdeithasol, ac nid oes statws gwahanol i ddwy iaith y gymdeithas. Un enghraifft o gymdeithas fel hyn yw gwlad fel Lwcsembwrg, lle ceir sawl iaith swyddogol: Lwcsembwrgeg, Ffrangeg ac Almaeneg. Mae pobl y wlad (sydd â phoblogaeth o tua 570,000) bron i gyd yn siarad o leiaf ddwy iaith: yn ôl adroddiad¹ a gomisiynwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd o 2012, mae 98% o’r boblogaeth yn ddwyieithog, 84% yn siarad o leiaf dair iaith, a 61% o’r boblogaeth yn siarad o leiaf bedair iaith (Saesneg yw’r bedwaredd iaith i’r rhan fwyaf). (Ac ystyried y ffactorau hyn, mae’n fwy addas disgrifio Lwcsembwrg fel gwlad dairieithog – e.e. dyna sut mae Clyne (1984) yn ei diffinio – ond gellir cael deuglosia mewn sefyllfaoedd tairieithog hefyd!) Ym mheuoedd ‘uchel’ cymdeithas Lwcsembwrg mae’r gyfraith yn caniatáu i bobl ddefnyddio unrhyw un o’r tair iaith swyddogol, h.y. mae’r tair iaith yn cael eu cefnogi’n gytbwys gan y llywodraeth yn hyn o beth, er mai Ffrangeg yw’r iaith fwyaf grymus yn gymdeithasol yn hanesyddol, ac yn yr iaith hon mae cyfreithiau’n cael eu cyhoeddi. Mewn ysgolion mae’r tair iaith yn cael eu defnyddio a’u dysgu. O ran bywyd dydd-i-ddydd, mae pobl Lwcsembwrg yn gallu dewis unrhyw un o’r tair iaith hefyd. O ran hyn, mae Lwcsembwrg yn enghraifft ddiddorol a modern o wlad lle mae dwyieithrwydd nid yn unig yn cael ei hybu ond yn ddisgwyliedig gan ei llywodraeth a’i thrigolion – nid oes deuglosia oherwydd bod y tair iaith yn cael eu defnyddio ym mhob haen o gymdeithas.

Yn olaf, gallwn nodi bod cymuned sydd heb DDWYIEITHRWYDD NA DEUGLOSIA yn gymuned uniaith, er y byddai deuglosia arddulliol – fel ym model gwreiddiol Ferguson – yn bodoli fel arfer, lle mae iaith ffurfiol yn angenrheidiol mewn peuoedd uchel tra bod iaith anffurfiol yn perthyn i beuoedd isel.

1 ‘Special Eurobarometer 386: Europeans and their languages’ (2012), adroddiad a gydlynwyd gan Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Cyfathrebu y Comisiwn Ewropeaidd. http://ec.europa.eu/public_opinion/archives/ebs/ebs_386_en.pdf

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: I ba raddau mae Rhys, Bethan a Liam (gw. Pennod 2) yn byw mewn cymunedau dwylieithog?

: Pryd a lle maen nhw’n cael cyfleoedd i siarad Cymraeg?

: Pa effaith allai eu cyd-destun cymunedol gael ar eu defnydd o’u dwy iaith?

Mae hanes dwylieithrwydd yn y gymuned yn rheoli, mae’n debyg, pa iaith sydd yn ddominyddol yn gymdeithasol, a pha iaith sy’n Uchel a pha iaith sy’n iaith Isel. Bydd y ffurf Uchel, fel y nodwyd uchod, yn cael ei chysylltu â swyddogaethau uchel a phwysig mewn cymdeithas. Mae hynny’n golygu bod y ffurf Uchel yn cael ei hystyried yn well rywsut gan siaradwyr na’r ffurf Isel. Y term i’w ddefnyddio wrth drafod hyn yw BRI (*prestige*), cysyniad sydd yn ymwneud â sut mae amrywiad iaith (e.e. iaith, tafodiaith) mewn cymdeithas yn cael ei weld gan drigolion y gymdeithas, a pha effaith mae hyn yn gallu ei gael ar eu defnydd o’r iaith honno. Mae amrywiad sydd â bri uchel yn cael ei weld fel y ffurf ‘orau’, mewn rhyw fodd, gan bobl yn y gymdeithas, ond nid yw hyn yn angenrheidiol yn golygu eu bod yn hoffi (h.y. ag agweddau positif tuag at) yr amrywiad hwnnw – e.e. gall iaith fwyafrifol fod â bri uchel mewn cymdeithas tra bod eich iaith leiafrifol yn isel ei bri (neu â STIGMA), ond hwyrach bod gennych agweddau personol mwy positif tuag at yr iaith leiafrifol. Rhoi syniad o ba amrywiadau ieithyddol sydd fwyaf blaenllaw a dylanwadol ar lefel gymdeithasol y mae’r mesuriad o fri. Ym model Ferguson, mae’r ffurfiau Uchel ar yr ieithoedd yr edrychodd arnynt – e.e. Arabeg safonol, Groeg safonol – yn uwch eu bri na’r ffurfiau llafar dydd-i-ddydd. Meddyliwch am sut mae Cymraeg safonol, llenyddol yn cael ei hystyried fel y ffurf ddelfrydol, orau o’r Gymraeg gan rai pobl, er nad hon yw’r iaith maen nhw’n ei defnyddio nac yn ei siarad â’u plant. Mae bri yn gysyniad cymhleth sydd â sawl haen, a gall iaith fod â bri cyfyngedig o ran e.e. ei thraddodiad llenyddol a diwylliannol, ond nid o reidrwydd y tu hwnt i hynny. Ym Mhennod 8 byddwn yn ystyried agweddau pobl at ieithoedd lleiafrifol, a byddwn yn dychwelyd at y syniad o faint o fri sydd gan y Gymraeg, ond cyn cloi’r bennod hon mae angen ystyried sut gall ffactorau fel gwahaniaeth bri a dominyddiaeth rhwng dwy iaith arwain at newidiadau dirfawr yn eu defnydd dros amser.

5. SYMUD IAITH

Rydym eisoes wedi trafod uchod sut mae cymdeithasau’n gallu troi o fod yn uniaith i fod yn ddwylieithog. Mae’r gwrthwyneb yn bosib hefyd. Os nad oes cyfartaledd cymdeithasol rhwng dwy iaith mewn cymuned, yna gall yr iaith fwyaf blaenllaw wthio’r iaith arall allan, gan wneud y gymuned yn un uniaith. Gelwir y broses hon yn symud iaith (*language shift*), a gan fod hyn yn berthnasol iawn i sefyllfaoedd ieithoedd lleiafrifol, a bod y Gymraeg yn iaith leiafrifol, mae’n werth oedi i drafod y broses hon ac yna i ystyried i ba raddau y mae hi ar droed yng Nghymru.

Ymysg yr awduron sydd wedi disgrifio’r broses o symud iaith mae Appel a Muysken (1987) a Crystal (2000). Fel hyn mae’r broses ddamcaniaethol yn cael ei disgrifio: ar y dechrau mae un iaith, sef Iaith A, yn flaenllaw yn y gymuned ac yn cael ei defnyddio ym mhob pau (gw. y drafodaeth ar ddeuglosia uchod). Ar ryw bwynt daw iaith arall, Iaith B, i mewn i’r gymuned, mewn un o’r ffyrdd a ddisgrifiwyd uchod yn adran 3. Yn y cyfnod hwn, efallai, ceir rhywfaint o ddwylieithrwydd mewn A a B, ond Iaith A sy’n parhau’n iaith flaenllaw yn y gymuned. Yna, am ryw reswm cymdeithasol, daw Iaith B yn fwy blaenllaw dros amser, gyda mwy o bobl yn dechrau dysgu/caffael a defnyddio Iaith B mewn mwy a mwy o beuoedd lle gynt dim ond Iaith A oedd yn cael ei defnyddio. Wrth i ddefnydd ar Iaith B gynyddu, mae defnydd ar Iaith A yn lleihau, ac wrth i amser fynd yn ei flaen bydd pobl yn defnyddio Iaith B yn unig mewn rhai peuoedd, ac wrth i hyn fynd yn fwy a mwy cyffredin bydd Iaith A yn diflannu o’r gymuned wrth iddi ddod yn llai defnyddiol a defnyddiadwy. Yn y pen draw ni fydd unrhyw un yn caffael neu ddysgu Iaith A a bydd hi’n iaith farw. Os bydd hyn yn digwydd yna bydd symud iaith cyflawn wedi digwydd, ond mae’r broses gyffredinol o un iaith yn goresgyn y llall ar lefel gymdeithasol fel hyn yn cael ei galw’n rhan o’r broses symud iaith.

Pa ffactorau sy’n gallu arwain at un iaith yn colli tir fel hyn? Gallant fod yn ffactorau economaidd (bod yr iaith fwyafrifol yn cael ei chysylltu â chynnydd a chyfleoedd ariannol), statws (bod gan yr iaith fwyafrifol fri cymdeithasol uwch a’i bod yn cael ei gweld fel un sy’n fwy gwerthfawr), gwleidyddol (e.e. bod yr iaith fwyafrifol yn cael cefnogaeth swyddogol gan y llywodraeth) neu ddemograffig (bod mwy o siaradwyr yr iaith fwyafrifol na’r un leiafrifol). Gall un o’r ffactorau hyn neu gyfuniad ohonynt arwain at siaradwyr, dros gyfnod o amser, yn troi i ffafrio’r iaith fwyafrifol dros yr iaith leiafrifol.

Un o’r enghreifftiau mwyaf adnabyddus o astudiaethau symud iaith yn y llenyddiaeth yw gwaith Susan Gal (1979) o dref Oberwart, lle bu symud iaith oddi wrth yr Hwngareg a thuag at yr Almaeneg yn ystod yr 20fed ganrif. Tref yn Awstria sydd yn agos at y ffin â Hwngari yw Oberwart (Felsőőyr yw’r enw Hwngareg arni), ac yn hanesyddol roedd cysylltiad cryf rhwng pobl y dref a gwlad Hwngari. Hwngareg oedd iaith draddodiadol Oberwart, er mai Almaeneg oedd iaith y rhan fwyaf o boblogaeth Awstria fel arall, ond er mwyn cyfathrebu ag Awstriaid eraill oedd yn ymweld ag Oberwart roedd angen i’w thrigolion allu siarad Almaeneg hefyd. Yn yr 20fed ganrif, fodd bynnag, yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf ac yn enwedig yng nghyfnod yr Ail Ryfel Byd ac wedyn, daeth yr Almaen a’r Almaeneg yn llawer mwy blaenllaw yn Ewrop: roedd ymgyrchoedd militaraid ymerodraeth yr Almaen ac, yn ddiweddarach, y Drydedd Reich o dan y Natsïaid wedi golygu bod gwledydd, yn enwedig yn nwyrain Ewrop, yn cael eu dylanwadu fwyfwy gan yr Almaeneg a diwylliant Almaenig. Dros amser, daeth hi’n fwy cyffredin i blant a phobl ifanc siarad Almaeneg â’i gilydd lle byddai eu tadau a’u mamau wedi siarad Hwngareg â’i gilydd. Daeth hi’n fwy cyffredin hefyd i glywed Almaeneg mewn peuoedd anffurfiol fel y dafarn. Yn ystod yr 20fed ganrif trodd Oberwart o fod yn dref dlawd lle mai amaeth oedd y prif ddiwydiant i fod yn dref ddiwydiannol, fodern: roedd yr Almaeneg, yn ôl Gal, yn cael ei chysylltu â bri cymdeithasol ac economaidd, tra bod Hwngareg yn cael ei chysylltu â hen bobl a’r gorffennol. Dros amser, felly, roedd yr Almaeneg yn ennill tir yn gymdeithasol tra bod yr Hwngareg ar drai, ac roedd yr Almaeneg yn cael ei defnyddio yn fwy aml mewn peuoedd lle na fyddai hi wedi cael ei defnyddio o gwbl ar droad yr 20fed ganrif.

Yn y model o symud iaith a ddisgrifiwyd uchod, ceir cyfnod lle mae iaith A ac iaith B yn cael eu defnyddio yn yr un cyfnod, ond mewn modd amrywiol – e.e. mewn gwahanol beuoedd ac/neu gyda gwahanol rwydweithiau cymdeithasol. Pan wnaeth Gal ei hastudiaeth ethnograffig hi o’r gymuned yn y 1970au roedd y ddwy iaith yn cael eu cyd-ddefnyddio, ond roedd gwahaniaeth amlwg yn nefnydd y bobl hŷn a’r bobl iau, ac roedd symud iaith ar droed. Roedd Gal yn rhagweld y byddai’r Almaeneg yn gwthio’r Hwngareg allan yn y diwedd, ac y byddai Hwngareg yn diflannu o Oberwart yn y pen draw. Er hynny, os edrychwn ni ar yr hyn sydd yn digwydd yn Oberwart tua dechrau’r 21ain ganrif, gellir gweld bod Hwngareg yn parhau yn Oberwart i ryw raddau – e.e. sefydlwyd ysgol uwchradd Hwngareg yno yn 1992 a chynigir Hwngareg fel pwnc mewn sawl ysgol leol, sydd yn arwydd bod dymuniad, o leiaf, gan y dref i ddylanwadu ar y genhedlaeth ifanc i barhau â’r iaith.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

- : A oes symud iaith wrthi’n digwydd – neu a yw symud iaith *wedi digwydd* – yng Nghymru? Neu mewn rhannau penodol o Gymru?
- : Meddyliwch am y pentref, tref neu ddinas lle rydych chi’n byw. (Ystyriwch i ba raddau y bu *newid* yng nghyfansoddiad ieithyddol y wlad/sir/dref honno dros amser hyd at heddiw.) Beth fydd dyfodol y sefyllfa honno, tybed?

Pe byddai symud iaith cyflawn wedi digwydd yng Nghymru yna ni fyddai neb yn siarad Cymraeg, felly mae’n deg dweud nad yw hynny wedi digwydd. Ond gallwn edrych ar niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn hanesyddol – e.e. gan ddefnyddio canlyniadau’r cyfrifiad cenedlaethol – a gweld bod nifer y siaradwyr wedi gostwng yn sylweddol ers y 19eg ganrif, er bod y niferoedd rywfaint yn fwy sefydlog erbyn 1991–2011. Gellid awgrymu bod y lleihad hwn wedi deillio o ffactorau megis cynnydd y Saesneg fel iaith gymunedol yn yr 20fed ganrif, cynnydd mewn twristiaeth a mewnfudo

o’r tu allan i Gymru, cynnydd ym mri Saesneg yn ddiwylliannol, ac yn y blaen. Yn sicr, gellir defnyddio Saesneg yn awr mewn mwy o beuoedd yng Nghymru nag y gellid ddwy ganrif yn ôl.

Ond cafwyd newidiadau cymdeithasol yn yr agwedd tuag at yr iaith Gymraeg yn ystod ail hanner yr 20fed ganrif, gan gynnwys cynllunio iaith ar lefel wleidyddol, genedlaethol, yn arwain at bethau fel Deddfau Iaith 1967 ac 1993, a chyhoeddi deddfau’n gwneud addysgu yn y Gymraeg yn angenrheidiol i blant ysgol. Gelwir proses fel hyn, lle mae’r llywodraeth yn gwneud ymdrech fwriadol i atal symud iaith rhag difa iaith leiafrifol, yn broses GWYRDROI SYMUD IAITH (*reversing language shift*), sydd yn rhan o’r broses o BARHAD IAITH (*language maintenance*); trafodir hyn mewn manylder yn e.e. Fishman 1991.

Mae bri’r Gymraeg wedi codi hefyd yn gyffredinol, e.e. yn y 1990au roedd tuedd lle gwelwyd sêr Cymreig oedd yn adnabyddus y tu allan i Gymru yn ymuno â chlwb answyddogol o’r enw Social, Welsh and Sexy (SWS): roedd pobl fel Catherine Zeta-Jones, Siân Lloyd, Rhys Ifans a Katherine Jenkins yn ‘aelodau’, ac roedd hyn yn codi ymwybyddiaeth pobl gweddill Prydain o Gymreictod a’r iaith Gymraeg. Yn ei dro, roedd y ffaith bod Cymreictod yn ffasiynol fel hyn – noder mai dyma’r cyfnod pan oedd bandiau pop Cymraeg fel Catatonia a Super Furry Animals yn cyrraedd y siartiau cerddoriaeth Saesneg – yn codi bri’r iaith ymhlith pobl Cymru, gan gynnwys pobl ifanc. Wrth i fri iaith leiafrifol gynyddu, mae hyn yn ei gwneud hi’n llai tebygol, yn ddamcaniaethol, y bydd pobl yn troi oddi wrthi a thuag at iaith arall. Yn fwy diweddar, mae cyfryngau cymdeithasol ar-lein yn caniatáu i bobl gyfathrebu drwy’r Gymraeg heb orfod poeni am safon na ffurfioldeb yr iaith a hefyd yn gweld defnydd o iaith leiafrifol ar gyfryngau newydd, modern. Wrth i iaith barhau i gael ei defnyddio mewn gwahanol beuoedd fel hyn, mae modd iddi wrthsefyll symud iaith.

Ar lefel statudol, felly, ceir bellach yr hawl a’r cyfle i rywun yng Nghymru ddefnyddio’r Gymraeg mewn unrhyw bau cymdeithasol, mae bri cyffredinol uchel gan y Gymraeg ac mae modd gweld defnydd o’r Gymraeg ym mhob pau, o leiaf mewn rhannau o Gymru ac o’r gymdeithas Gymreig. Ond mae defnydd o’r Gymraeg mewn peuoedd ‘isel’ fel y cartref yn dal i fod yn anghyffredin mewn rhai rhannau o Gymru, ac mae’n glir bod Cymraeg yn dangos mwy o symud iaith mewn rhai ardaloedd nag eraill. Amser a ddengys a fydd y broses o symud iaith a welwyd yn ystod y 19eg a’r 20fed ganrif yn cael ei gwyrddroi’n llwyr, ac un o’r prif arwyddion o hyn fyddai pe byddai nifer y siaradwyr Cymraeg yn codi dros amser. Mae angen i’r ysgolhaig sydd â diddordeb mewn dwyieithrwydd yng Nghymru gadw llygad ar newidiadau yng nghyfansoddiad ieithyddol a demograffig Cymru, felly, yn y dyfodol agos er mwyn gweld beth fydd yn digwydd.

6. CRYNODEB

Yn y bennod hon rydym wedi edrych ar y ffaith bod y cysyniad o ‘gymdeithas ddwyieithog’ yn un cymhleth, gan fod pob cymuned ddwyieithog yn wahanol i ryw raddau, a hynny oherwydd gwahaniaeth yn hanes y gymuned, yn y ffordd y daeth y gymuned honno’n ddwyieithog, ac yn rôl a statws y ddwy iaith yn y gymuned. Rydym hefyd wedi trafod symud iaith a sut mae’r gwahaniaeth bri rhwng ieithoedd mewn cymdeithas yn gallu arwain at newidiadau yng nghyfansoddiad ieithyddol y gymdeithas, ac o bosib at farwolaeth iaith yn y pen draw. Pan fyddwn ni’n sôn am wahaniaeth bri, gwahaniaeth statws a gwahaniaeth yn y ffordd mae pobl yn edrych ar ieithoedd mewn cymdeithas, mae’n angenrheidiol i ni ystyried agweddau tuag at iaith a sut mae barn pobl am wahanol ieithoedd yn rheoli eu defnydd o’r ieithoedd hynny ac yn rheoli sut maen nhw’n gweld siaradwyr o ieithoedd eraill. Hyn fydd testun y bennod nesaf.

AWGRYMIADAU DARLLEN AM DDWYIEITHRWYDD YN Y GYMRAEG

Baker, Colin a Prys Jones, Sylvia (1998). *Encyclopedia of Bilingualism and Bilingual Education*. Clevedon: Multilingual Matters. [Mae llyfr Baker a Prys Jones (1998) yn wyddoniadur gwerthfawr ar bob agwedd ar ddwyieithrwydd, a cheir llawer ynddo am ddwyieithrwydd yn y gymdeithas]

Jones, Mari C. (1998). *Language Obsolescence and Revitalization: Linguistic Change in Two Sociolinguistically Contrasting Welsh Communities*. Rhydychen: Clarendon Press. [Mae astudiaeth

Jones o newid iaith mewn cymunedau Cymraeg lle ceir cyffwrdd sylweddol â'r Saesneg yn ddefnyddiol wrth ystyried a yw symud iaith yn digwydd yn y fath gymunedau]

Jones, Robert O. (1997/2016). *Hir Oes i'r Iaith: Agweddau ar Gymdeithaseg yr Iaith Gymraeg*. Cyhoeddiad gwreiddiol (1997) Llandysul: Gwasg Gomer; ailgyhoeddiad fel e-lyfr gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (2016) – ar gael ar-lein ar <https://www.cadarn.ac.uk/resource/hir-oes-ir-iaith-%E2%80%93-robert-owen-jones>. [*Dyma waith cynhwysfawr sy'n olrhain yr iaith Gymraeg yn ei chyd-destun cymdeithasol o ddechrau ei hanes hyd at yr 20fed ganrif, bennod wrth bennod. Mae Pennod 1 yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer cael cefndir ar sosioieithyddiaeth, gan gynnwys trafodaethau o ddeuglosia, ac mae Pennod 6 yn trafod y lleihad cymdeithasol yn nefnydd a statws y Gymraeg a pha effaith a gafodd hyn ar yr iaith. Nodwch: mae'r llyfr hwn bellach ar gael fel e-lyfr am ddim drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Porth Cadarn. Mae'n werth ei ddarllen]*

PENNOD 8

Agweddau tuag at iaith a Dwyieithrwydd

1. CYFLWYNIAD

Dyma ddyfyniad o waith yr ieithydd Americanaidd Einar Haugen (1956), oedd yn arbenigwr cynnar ym maes sosioieithyddiaeth a dwyieithrwydd:

Wherever languages are in contact, one is likely to find certain prevalent attitudes of favour or disfavour towards the languages involved. These can have profound effects on the psychology of the individuals and their use of the languages... these attitudes are directed at the people who use the languages and are therefore inter-group judgements and stereotypes (Haugen 1956: 95)

Yr hyn y mae Haugen yn ei olygu yw bod pobl o wahanol grwpiau ieithyddol yn debygol o gael barn ynghylch pobl o grwpiau ieithyddol eraill sydd yn byw yn yr un gymuned, a bod y farn honno'n debyg o effeithio ar sut maen nhw'n gweld a defnyddio gwahanol ieithoedd y gymuned. Mae iaith (neu dafodiaith, neu amrywiad arall ar iaith) yn aml yn symbolaidd o grŵp cymdeithasol, a bydd y bobl o fewn grŵp yn adnabod eu hunain fel siaradwyr yr iaith honno, ac yn gwahaniaethu eu hunain oddi wrth grwpiau eraill sydd yn siarad ieithoedd (neu amrywiadau) gwahanol. Bydd gan bobl o un grŵp farn ar siaradwyr o grŵp arall oherwydd yr iaith/ieithoedd maen nhw'n medru eu siarad. Nid yw hi'n bosib gwahanu ein hagweddau tuag at iaith oddi wrth ein hagweddau tuag at siaradwyr, felly.

Yn y bennod hon byddwn yn edrych mewn mwy o fanylder ar agweddau pobl ddwyieithog tuag atynt eu hunain ac at bobl/ieithoedd eraill, a hefyd ar sut mae agweddau pobl o wahanol rannau o gymdeithas yn amrywio yn dibynnu ar yr ieithoedd y maen nhw'n eu siarad. Byddwn yn canolbwyntio'n helaeth ar agweddau tuag at y Gymraeg fel iaith leiafrifol yng Nghymru, gan fod ieithoedd lleiafrifol, o'u hanfod, yn bodoli mewn cyd-destun dwyieithog.

2. AGWEDDAU POSITIF A NEGyddOL TUAG AT DDWYIEITHRWYDD

Fel y gwnaethom ystyried yn y bennod ar ddwyieithrwydd cymdeithasol, ni fydd gan bob iaith mewn cymdeithas ddwyieithog o reidrwydd yr un lefel o fri. Os yw un iaith yn un leiafrifol ac iaith arall yn un fwyafrifol, mae'r iaith fwyafrifol yn debygol o fod yn ddominyddol yn gymdeithasol – ystyriwch y gwahaniaeth rhwng Cymraeg a Saesneg, er enghraifft, lle mae'r Saesneg yn cael ei defnyddio'n eang gan bawb ac ar bob lefel o gymdeithas, tra bod y Gymraeg yn cael ei siarad gan lai o bobl, ac yn llai tebygol o gael ei defnyddio mewn rhai peuoedd cymdeithasol, a bod amrywiaeth o ran ei siaradwyr a'i defnydd yn ddaearyddol hefyd. Os oes dwy iaith mewn cymuned, ac nad yw'r ddwy iaith yn 'gyfartal' mewn rhyw fodd, yna mae tebygrwydd y bydd gan bobl agweddau gwahanol tuag at yr ieithoedd hyn. Yn benodol, gallwn ddisgwyl i bobl fod ag agweddau sy'n gyffredinol yn fwy positif tuag at yr iaith sydd â'r bri uchaf – er bod hyn yn orsymleiddio, wrth gwrs, gan fod agweddau fel rheol yn bethau cymhleth sydd â llawer o elfennau a haenau.

Yn ei lyfr *Attitudes and Language* (1992) mae Colin Baker yn trafod enghreifftiau o astudiaethau ar agweddau at ddwyieithrwydd yn y cyd-destun Cymreig. Mae'n cyfeirio at ymchwiliad gan Sharp, Thomas, Price, Francis a Davies (1973): yn yr astudiaeth honno fe wnaeth yr awduron holi plant a phobl ifanc oed ysgol ynghylch eu gwahaniaeth barn tuag at yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg, drwy ofyn iddynt i ba raddau yr oedden nhw'n cytuno â chyfres o ddatganiadau. Roedd y datganiadau'n cynnwys *Dylem weithio'n galed i achub yr iaith Gymraeg, Nid oes gan y Gymraeg unrhyw le yn y byd modern, Mae Saesneg yn haws i'w dysgu na'r Gymraeg, a Dylai Cymry siarad Cymraeg, nid iaith ail-law fel Saesneg*. Gallwch weld bod pob un o'r dyfyniadau hyn yn gweithio o'r pwynt dechreuol bod un iaith yn cael ei gosod yn erbyn y llall, a bod angen, i ryw raddau, i siaradwyr wneud y dewis rhwng (yn yr achos hwn) Cymraeg a Saesneg. Roedd Sharp et al. felly'n cyflwyno ysgogiadau (*stimuli*) i'r cyfranogwyr oedd yn rhoi'r argraff fod dwyieithrwydd yng Nghymru yn sefyllfa negyddol, bod y

Gymraeg a'r Saesneg yn gwrthdaro ac nad oes modd iddynt gyd-fyw. Wrth gwrs, roedd hawl i'r cyfranogwyr anghytuno â'r datganiadau, ond gellid dweud bod datganiadau Sharp et al. i gyd yn dechrau o'r safbwynt bod dwyieithrwydd yn beth negyddol. Mae'r ddwy iaith yn cael eu *cymharu*, fel bod angen dewis un ar draul y llall, ac, fel y mae Baker yn dweud, mae gosod datganiadau fel hyn yn awgrymu bod lles i un iaith yn gorfod golygu dirywiad i'r iaith arall. Sut bynnag y daeth Sharp et al. at eu canlyniadau, un o'u canfyddiadau oedd bod agwedd y cyfranogwyr at y Gymraeg yn dibynnu ar eu hagwedd tuag at y Saesneg – hynny yw, y mwyaf positif eu hagwedd tuag at yr iaith Gymraeg, y lleiaf ffafriol oedd eu hagwedd tuag at yr iaith Saesneg. Byddwn yn dychwelyd at ba ffactorau sy'n rheoli ein hagweddau tuag at iaith isod.

Awgrymodd Baker (1992: 77) set wahanol o ddatganiadau ar gyfer holiadur a fyddai'n cyfleu'r sefyllfa ddwyieithog yng Nghymru mewn ffordd wahanol, e.e. *Mae siarad Cymraeg a Saesneg yn bwysig, Mae siarad dwy iaith yn well na siarad dim ond un iaith, Mae siarad Cymraeg a Saesneg yn helpu i rywun gael swydd, Mi gewch fwy o ffrindiau os ydych chi'n siarad Cymraeg a Saesneg*. Yn y datganiadau hyn nid yw Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyflwyno fel dwy iaith sydd yn tynnu yn erbyn ei gilydd, ond yn hytrach mae'n gosod dwyieithrwydd fel sefyllfa lle mae dwy iaith yn gallu cyd-fyw a helpu ei gilydd. Mae cyflwyno dwyieithrwydd fel hyn, felly, yn ei gyflwyno fel peth positif yn hytrach na pheth negyddol.

Wrth gwrs, mae gwahanol bobl yn mynd i gytuno â gwahanol safbwyntiau, ond un o'r pethau sydd yn cael ei amlygu yn nhrefnadaeth Baker yw bod modd i hyd yn oed ymchwilwyr ieithyddol gael eu dylanwadu gan rethreg un ochr neu'r llall. Mae Baker yn tynnu sylw at y ffaith, er enghraifft, bod pobl fel Saunders Lewis, awdur *Tynged yr Iaith*, yn erbyn dwyieithrwydd yng Nghymru, gan ei weld fel rhywbeth fyddai'n lladd yr iaith Gymraeg.

Er mwyn gweld sut y byddai cyfranogwyr yn ymateb i ddatganiadau sy'n cyfleu dwyieithrwydd fel peth cadarnhaol, yn hytrach na datganiadau sy'n cyflwyno dwyieithrwydd fel peth negyddol, fel y rhai a ddefnyddiodd Sharp et al. yn eu hastudiaeth nhw, gwnaeth Baker astudiaeth o agweddau plant tuag at ddwyieithrwydd yng Nghymru ac at y berthynas rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Casglodd ddata gan 797 o blant rhwng 11 ac 14 oed o Gymru, gan gyflwyno iddynt 25 o ddatganiadau, a gofyn a oedden nhw'n *cytuno'n gryf, cytuno, ddim yn cytuno nac anghytuno, anghytuno* neu'n *anghytuno'n gryf* â phob datganiad. Ar y cyfan roedd mwyafrif y plant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiadau oedd yn cyflwyno dwyieithrwydd fel peth positif (e.e. *Mae'n bwysig gallu siarad Cymraeg a Saesneg, Mae'n bwysig gallu ysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg, Dylai arwyddion ffordd fod mewn Cymraeg a Saesneg*) ac yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â datganiadau oedd yn cyflwyno dwyieithrwydd fel peth negyddol (e.e. *Mae plant yn drysu pan maen nhw'n dysgu Saesneg a Chymraeg, Mae gallu siarad¹ Cymraeg a Saesneg yn achosi problemau i bobl, Dim ond un iaith mae pobl angen gallu ei siarad*), ac yn amrywio yn eu hagweddau tuag at ddatganiadau fel *Mi all pobl sydd yn siarad Cymraeg a Saesneg gael mwy o ffrindiau na phobl sydd ddim ond yn siarad un iaith* ac *Rydw i'n teimlo'n wael dros bobl sydd yn methu siarad Saesneg a Chymraeg*.

Agwedd y plant yn gyffredinol oedd bod dwyieithrwydd yng Nghymru yn arwain at fanteision cymdeithasol, gan gynnwys teimlo ei fod yn help i bobl gael swydd ac i gael dyrchafiad o fewn y swydd honno, a bod manteision deallusol neu wybyddol iddo (e.e. roedd 56.5% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad *Mae pobl yn gwybod mwy os ydyn nhw'n siarad Saesneg a Chymraeg*; roedd 61.1% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r datganiad *Mae gallu siarad Cymraeg a Saesneg yn achosi problemau i bobl*, a dim ond 21.9% oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r datganiad *Mae gallu siarad Cymraeg a Saesneg yn gwneud pobl yn glyfrach*). Roedd cyfranogwyr ar y cyfan yn gweld bod modd i'r Gymraeg a'r Saesneg fodoli ochr yn ochr heb i un orfod bod yn drech na'r llall (e.e. roedd 68.5% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad *Gall yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg gyd-fyw yng Nghymru*).

1 Nodwch mai 'know' a ddefnyddir yn y cwestiwn Saesneg gwreiddiol yma ac isod.

Mae astudiaeth Baker yn awgrymu bod pobl ifanc yn tueddu i weld dwyieithrwydd fel peth positif, felly. Gwelir gwahaniaeth rhwng canlyniadau Baker (1992) a chanlyniadau Sharp et al. (1973); efallai fod hyn oherwydd bod treigl amser a newidiadau cymdeithasol wedi newid agweddau pobl ifanc Cymru tuag at ddwyieithrwydd, neu bod methodoleg Sharp et al. wedi dechrau o safbwynt gor-negyddol a oedd felly'n effeithio ar y canlyniadau, neu'n gyfuniad o'r ddau, neu oherwydd rheswm arall.

Nodwch fod y bobl ifanc yn astudiaeth Baker wedi dangos agweddau cyffredinol bositif tuag at ddwyieithrwydd yng Nghymru. Mae agweddau pobl ifanc tuag at iaith mewn cyd-destun cymuned fel Cymru yn bwysig i'w hystyried oherwydd mai dewisiadau ieithyddol y to iau sydd, ar y cyfan, yn penderfynu cyfeiriad iaith leiafrifol. Ystyriwch ffenomen symud iaith a drafodwyd ym Mhennod 7, lle mae dewisiadau ieithyddol y genhedlaeth ieuengaf yn gallu arwain at symud iaith os ydyn nhw'n ffafrio iaith wahanol i genhedlaeth eu rhieni ac/neu eu neiniau a'u teidiau.

Mae astudiaeth gan Jonathan Morris (2014) o agweddau pobl ifanc o ogledd Cymru tuag at y Gymraeg heddiw yn datgelu, ymysg pethau eraill, bod ganddynt agweddau sydd, yn gyffredinol, yn bositif iawn tuag at y Gymraeg yng Nghymru, ond bod hyn yn amrywio rywfaint o ran iaith cartref y bobl ifanc. Ymchwiliodd Morris i agweddau myfyrwyr chweched dosbarth (h.y. 16–18 oed) o ddwy ysgol uwchradd, un yng ngogledd-orllewin Cymru a'r llall yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Cymharodd Morris y ddwy ysgol hyn gan bod y ddwy ysgol yn cynnal o leiaf hanner eu haddysgu drwy'r Gymraeg, ond bod tua 80% o fyfyrwyr yr ysgol yn y gogledd-orllewin yn dod o gartrefi Cymraeg, lle mai dim ond tua 20% o fyfyrwyr yr ysgol yn y gogledd-ddwyrain oedd yn dod o gartrefi Cymraeg, yn ogystal â'r ffaith bod dwy ardal yr ysgol yn dra gwahanol o ran faint o siaradwyr Cymraeg sydd yn byw yno yn ôl cyfrifiad 2011, felly roedd hyn yn ei alluogi i gymharu a oedd y ffactorau cymdeithasol hyn yn effeithio ar agweddau'r bobl ifanc. Gofynnodd i 27 o gyfranogwyr, 13 o gartrefi Cymraeg ac 14 o gartrefi di-Gymraeg (Saesneg), lenwi holiaduron yn gofyn iddyn nhw raddio nifer o ddatganiadau rhwng 1 a 7 o ran i ba raddau yr oedden nhw'n cytuno â'r datganiad, ac yna holodd yr un bobl ifanc mewn cyfweiliadau.

Canfyddodd fod gan y rhan helaeth o'r cyfranogwyr agweddau positif iawn tuag at y Gymraeg, gan roi sgorau uchel yn yr holiadur i gwestiynau oedd yn gofyn iddyn nhw ddweud pa mor gyfeillgar, hardd a defnyddiol yw'r iaith Gymraeg. Dywedodd Morris fod hyn yn arwydd bod y cyfranogwyr yn gweld y Gymraeg fel sgîl defnyddiol a deniadol, sydd yn awgrymu bod gan yr iaith fri uchel i'r bobl ifanc hyn. Nid oedd gwahaniaeth sylweddol rhwng agweddau'r myfyrwyr o'r ddwy wahanol ardal, ond roedd patrwm yn y data wrth gymharu agweddau tuag at y Gymraeg â'u medredd (h.y. gallu) Cymraeg, o leiaf gan ystyried mai gofyn i'r cyfranogwyr fesur eu gallu Cymraeg eu hunain yr oedd yr holiadur. Golygai hyn, meddai Morris, fod siaradwyr ifanc sy'n llai rhugl yn y Gymraeg yn llai tebygol o fod ag agweddau positif iawn tuag ati (er nad oedd hyn yn golygu bod ganddynt agweddau negyddol). Mae un o'r merched a gyfwelodd Morris ar gyfer yr astudiaeth, sydd o gartref di-Gymraeg ac yn byw yn y gogledd-orllewin, yn nodi ei bod hi wedi bod dan bwysau gan ei chyfoedion oedd yn fwy medrus yn y Gymraeg am nad oedd hi'n gallu ei siarad mor dda â nhw, a bod hyn wedi arwain ati hi'n datblygu agweddau negyddol tuag ato fel pwnc ysgol.

Yn ogystal â hyn, gwelodd Morris fod cyfranogwyr o gartrefi di-Gymraeg yn llawer mwy tebygol o ddweud eu bod yn llai galluog o ran siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg na'r bobl ifanc o gartrefi Cymraeg, a hefyd bod gan y bobl ifanc o gartrefi di-Gymraeg ddefnydd isel iawn o'r Gymraeg o ddydd i ddydd o'u cymharu â'r rhai o gartrefi Cymraeg. Mae'r patrwm hwn yn amlygu'r ffaith bod iaith y cartref yn hollbwysig wrth reoli nid yn unig agweddau pobl tuag at iaith fel Cymraeg, ond hefyd ei fod yn rheoli eu defnydd ohoni, sydd hefyd yn awgrymu bod cysylltiad rhwng defnydd ac agwedd. Ceir tystiolaeth bod profiadau cymdeithasol negyddol yn gysylltiedig â'r iaith, megis yn yr ysgol ac/neu gyda grwpiau ffrindiau, yn effeithio ar agweddau pobl hefyd. Roedd cyfranogwyr Morris yn tueddu i ffurfio grwpiau ffrindiau yn seiliedig ar eu hiaith gartref, e.e. roedd y bobl o gartrefi di-Gymraeg yn cymdeithasu â'u cyfoedion mewn Saesneg.

Mae Morris hefyd yn gwneud cysylltiad rhwng gallu Cymraeg is y cyfranogwyr o gartrefi di-Gymraeg, o’u cymharu â’r rhai o gartrefi Cymraeg, â hyder, gan awgrymu bod eu diffyg hyder mewn Cymraeg yn peri iddynt ymwneud yn llai â Chymraeg, a all effeithio ar gymathu cymdeithasol a diwylliannol mewn ardaloedd mwy Cymraeg fel y gogledd-orllewin.

Gallwn felly wneud cysylltiad rhwng agweddau pobl ifanc a dyfodol iaith leiafrifol mewn cymuned ddwyieithog. Roedd y bobl ifanc yn astudiaeth Morris (2014) ar y cyfan yn dweud y bydden nhw eisiau anfon eu plant yn y dyfodol i ysgol cyfrwng Cymraeg, er enghraifft, sydd yn arwydd eu bod eisiau ceisio sicrhau dyfodol i’r iaith (ac felly i ddwyieithrwydd) yng Nghymru. Pe byddai gan bobl ifanc yng Nghymru yn gyffredinol agweddau positif tuag at y Gymraeg, yna mae’n debygol y bydden nhw’n pasio’r iaith ymlaen i’w plant rywsut, ac y byddai hyn yn gallu atal symud iaith.

Erbyn hyn mae’n glir bod amrywiaeth cefndir cymdeithasol yn debygol o olygu amrywiaeth mewn agwedd. Cyn cloi’r adran hon, felly, bydd hi’n werthfawr i ni ystyried pa fath o amrywiaeth ymysg siaradwyr Cymraeg sydd i’w gael yng Nghymru. Ym marn Musk (2006), yn seiliedig ar ei astudiaeth o ddefnydd o ac agweddau tuag at yr iaith Gymraeg mewn ysgolion, gellir gwahanu siaradwyr Cymraeg ifanc i dri grŵp: (1) pobl ddwyieithog sy’n ddominyddol yn y Gymraeg (*Welsh-dominant bilinguals*), (2) ‘nofwyr’ (*floaters*) a (3) pobl ddwyieithog sy’n ddominyddol yn y Saesneg (*English-dominant bilinguals*). Yn y model hwn mae Musk yn esbonio bod aelodau o’r grŵp cyntaf yn fwy hyderus yn siarad Cymraeg a’u bod yn defnyddio Cymraeg gyda’r nofwyr, a bod ganddynt agweddau positif iawn tuag at y Gymraeg a thuag at ei hamddiffyn, gan gynnwys barnu’n llym y rhai sy’n gwrthod siarad Cymraeg. Mae aelodau o’r trydydd grŵp yn siarad Saesneg gartref, yn isel eu hyder o ran defnyddio Cymraeg, ac yn tueddu i ddefnyddio Saesneg gyda siaradwyr Cymraeg eraill o bob grŵp; mae ganddynt agweddau negyddol tuag at unrhyw ymdrechion i geisio’u darbwylllo i beidio â defnyddio Saesneg (yn yr ysgol, er enghraifft). Mae aelodau o’r ail grŵp yn cael eu galw’n nofwyr gan eu bod rywle yn y canol rhwng y ddau grŵp arall – h.y. yn nofio rhywle rhwng y ddau begwn: gallant fod yn siarad naill ai Cymraeg neu Saesneg neu’r ddwy gartref, a gallant fod yn hyderus yn y ddwy iaith, ond eu bod yn cymodi ag iaith siaradwyr y ddau grŵp arall – h.y. yn siarad Cymraeg gyda phobl sy’n ddominyddol yn y Gymraeg ond yn siarad Saesneg gyda phobl sy’n ddominyddol yn y Saesneg. Dywedodd Musk fod gan nofwyr agweddau amrywiol tuag at y Gymraeg – e.e. eu bod yn gallu barnu pobl sydd yn gwrthod defnyddio Cymraeg, ond eu bod hefyd yn barnu ymdrechion gan athrawon i feithrin dwyieithrwydd. Yr hyn sy’n ddiddorol am nofwyr yw bod Musk wedi canfod bod modd i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref (fel rhai o’r nofwyr) serch hynny fod ag agweddau positif tuag at y Gymraeg a’i dyfodol.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: I ba un o’r tri grŵp ym model Musk ydych chi’n credu eich bod chi’n perthyn?

: Ydych chi’n ymwybodol bod eich agweddau chi tuag at y Gymraeg yn wahanol i agweddau pobl rydych chi’n eu hadnabod sy’n perthyn i’r grwpiau eraill?

: I ba raddau y byddwch chi’n cymdeithasu â siaradwyr Cymraeg o’r ddau grŵp arall?

Mae model Musk yn ein hysgogi i ystyried nad yw hi’n dasg mor syml â dweud bod Cymru’n cynnwys pobl sy’n siarad Cymraeg a phobl sydd yn methu siarad Cymraeg. Yn hytrach, ceir ystod eang o amrywiaeth o wahanol fathau o siaradwyr yn dibynnu ar eu cefndir, eu gallu, eu defnydd iaith a’r grwpiau cymdeithasol maen nhw’n byw ynddyn nhw, ac o fewn yr amrywiaeth cymdeithasol hwn ceir hefyd amrywiaeth yn eu hagweddau tuag at y Gymraeg, at ddwyieithrwydd ac at bethau eraill.

3. AGWEDDAU TUAG AT SIARADWYR GWAHANOL IEITHOEDD

Fel y nodwyd yn rhagarweiniad y bennod hon, mae'n gallu bod yn anodd – os nad efallai yn amhosib – gwahanu ein barn tuag at iaith oddi wrth ein barn tuag at siaradwyr yr iaith honno, gan ein bod yn seilio ein profiadau o iaith, yn fwy na dim, ar ein profiadau o'i siaradwyr.

Cafodd y cysyniad hwn ei ganfod gan yr ymchwilwyr Lambert, Hodgson, Gardner a Fillenbaum (1960), yn eu hastudiaeth arloesol o bobl ddwyieithog yng Nghanaada oedd yn siarad Ffrangeg a Saesneg. Fe wnaethon nhw ddefnyddio dull sydd yn cael ei alw erbyn hyn (e.e. Lambert 1967) yn *matched-guise*, neu GWEDD-BRIODI yn Gymraeg. Yn yr astudiaeth rhoddodd y cyfranogwyr eu barn ar yr hyn roedden nhw'n ei feddwl oedd yn gyfres o wahanol bobl yn darllen testunau mewn Saesneg Canada neu Ffrangeg Canada, gyda chwestiynau'n gofyn iddyn nhw nodi eu hagwedd at nodweddion y siaradwyr megis pa mor ddeniadol, cymdeithasol neu ddeallus oedden nhw, a hyd yn oed pa mor brydferth neu dal oedden nhw'n meddwl oedd y siaradwyr! Roedd y cyfranogwyr yn gwrando ar wyth llais, gyda dau lais arall fel rhai llanw (*filler*, neu ysgogiad nad oedd yn cael ei fesur gan yr ymchwilwyr), ac roedden nhw o dan yr argraff fod pob darlennydd roedden nhw'n rhoi barn arno yn berson gwahanol. Mewn gwirionedd, dim ond pedwar gwahanol siaradwr oedd i'w clywed, a phob un yn darllen unwaith mewn Saesneg ac unwaith eto mewn Ffrangeg. Oherwydd hyn, mewn gwirionedd roedd y cyfranogwyr yn barnu'r un siaradwyr yn siarad gwahanol ieithoedd, oedd yn galluogi i'r ymchwilwyr ganfod a oedd agweddau pobl at siaradwyr yn amrywio yn dibynnu ar ba iaith oedd yn cael ei siarad.

Canlyniad Lambert et al. (1960) oedd bod gan y cyfranogwyr oedd yn rhai Saesneg iaith gyntaf agweddau negyddol iawn tuag at recordiadau o siaradwyr Ffrangeg, gan ddweud eu bod yn meddwl bod y siaradwyr Saesneg yn fwy caredig, dibynadwy, deallus, tal a deniadol (etc.) na'r siaradwyr Ffrangeg. Roedd y canlyniadau ar gyfer y cyfranogwyr iaith gyntaf Ffrangeg yn annisgwyl – yn hytrach na bod ganddynt agweddau negyddol cymaradwy tuag at y siaradwyr Saesneg, dangosodd y canlyniadau bod y cyfranogwyr Ffrangeg yn barnu'r siaradwyr Ffrangeg yn negyddol – yn wir, yn *fwy negyddol* nag yr oedd y siaradwyr Saesneg iaith gyntaf yn ei wneud. Yn ogystal, barnodd y cyfranogwyr Saesneg y lleisiau Ffrangeg yn fwy ffafriol nag y gwnaeth y cyfranogwyr Ffrangeg ar nodweddion fel pa mor ddeniadol, pa mor ddibynadwy, pa mor gymdeithasol a pha mor ddeallus oedden nhw. Esboniodd yr awduron hyn drwy awgrymu bod stigma cyffredinol tuag at yr iaith Ffrangeg ymysg trigolion Canada (ar y pryd), a bod pobl iaith gyntaf Ffrangeg yn adleisio'r agwedd honno ar eu grŵp eu hunain wrth fwrw eu barn. Ystyriwch fod nifer o'r nodweddion a fesurwyd yn yr astudiaeth yn gallu cael eu cysylltu â llwyddiant cymdeithasol ac economaidd – e.e. mae person sydd yn ddibynadwy, deniadol a deallus yn debygol o fod yn dda yn ei swydd ac yn berson llwyddiannus a chyfoethog – ac felly bod pobl yn cysylltu'r iaith Saesneg â llwyddiant cymdeithasol fel hyn.

Gellir gweld yn yr esiampl hon bod yr agwedd gyffredinol bositif tuag at y diwylliant Seisnig dominyddol yng Nghanaada yn golygu yn ei thro fod agwedd gyffredinol negyddol tuag at y diwylliant Ffrengig annominyddol, a bod yr agweddau hyn mor dreiddiol fel bod y gymuned iaith gyntaf Ffrangeg yn eu cydnabod. Mantais y dull gwedd-briodi yw ei fod yn caniatáu i ni fel ymchwilwyr reoli barn pobl am *siaradwyr* (gan, yn aml, mai'r un siaradwr roedden nhw'n ei farnu) ac, yn hytrach, dangos barn pobl am *iaith* yn unig. Mae astudiaeth Lambert et al. hefyd yn dangos bod agweddau mewn cyd-destun dwyieithog yn gallu bod yn anghymesur h.y. bod agwedd y gymuned fwyafrifol neu ddominyddol yn debygol o ddylanwadu ar agwedd y gymuned gyfan.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: Beth fydddech chi'n disgwyl ei weld petaech chi'n gwneud astudiaeth gwedd-briodi ar agweddau tuag at Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru?

: Sut fydddech chi'n adeiladu'r arbrawf (e.e. pa fath o destunau fydddech chi'n eu defnyddio)?

: Oes unrhyw broblemau y bydddech chi'n gallu eu rhagweld o ran dewis lleisiau i'w recordio?

Yng ngwaith Bourhis, Giles a Tajfel (1973), gwelwn ddefnydd o'r dull gwedd-briodi er mwyn astudio agweddau tuag at y Gymraeg. Un o'r pethau roedd ganddyn nhw ddiddordeb yn ei astudio oedd a yw'r *gallu i siarad Cymraeg* yn nodwedd hanfodol ar *hunaniaeth Gymreig*, yn enwedig ac ystyried mai iaith y lleiafrif yw'r Gymraeg yng Nghymru. Fe wnaeth yr ymchwilyr ystyried bod modd gwahanu pobl Cymru i mewn i dri grŵp: (1) siaradwyr Cymraeg, (2) pobl ddi-Gymraeg sydd ag acen Gymraeg yn eu Saesneg, a (3) pobl ddi-Gymraeg sydd ag acen Saesneg RP (*Received Pronunciation*), sydd yn acen uchel ei bri sy'n gysylltiedig â Seisnigrwydd a'r iaith safonol fel arfer. Er mwyn creu'r ysgogiad, paratôdd Bourhis et al. destun byr (yn sôn am fywyd arweinydd corau o Gymru) mewn Cymraeg a Saesneg. Recordiwyd dau ddyn dwyieithog yn darllen y testun dair gwaith yr un: unwaith mewn Cymraeg, unwaith mewn Saesneg ag acen tafodiaith de Cymru, ac unwaith mewn acen RP. Recordiwyd sawl siaradwr arall yn darllen y testun unwaith yr un, er mwyn ceisio sicrhau na fyddai'r cyfranogwyr yn sylweddoli bod yr un dynion yn darllen y testun sawl gwaith mewn gwahanol ieithoedd/acenion. Yna, chwaraewyd yr holl recordiadau i 63 o gyfranogwyr oedd yn oedolion oedd wedi byw yng Nghymru am y rhan fwyaf o'u bywydau ac a oedd o ddosbarth cymdeithasol canol-isel. Gofynnwyd iddynt farnu pob 'siaradwr' ar sail nodweddion cymeriad fel 'gwladgarol', 'gellir ymddiried ynddo', 'deallus', 'hy/eofn', 'uchel ei gloch', 'yn hoffi chwaraeon' ac ati, yn ogystal â chwestiynau'n ymwneud ag e.e. a fyddai'r cyfranogwr yn hoffi bod yn debyg i'r siaradwr, cael y siaradwr fel bôc ac ati. Dywedodd yr ymchwilyr wrth y cyfranogwyr bod 10 llais *person gwahanol* ar y tâp, er mai dim ond chwe pherson gwahanol roedden nhw'n eu clywed mewn gwirionedd.

Canlyniadau astudiaeth gwedd-briodi Bourhis et al. oedd bod cyfranogwyr ar y cyfan yn barnu'r siaradwyr Cymraeg yn uwch na'r siaradwyr Saesneg ag acen Gymraeg, a'r rhai hynny'n uwch na'r siaradwyr Saesneg mewn acen RP, mewn saith nodwedd, gan gynnwys eu bod yn fwy gwladgarol, yn fwy cenedlaetholgar, yn fwy rhamantus, yn fwy emosiynol, yn fwy deniadol fel bôc, yn llai ceidwadol ac yn berson y bydden nhw'n hoffi bod yn fwy tebyg iddynt. Gellir gweld felly bod yr un siaradwyr yn cael eu barnu'n fwy positif o ran y nodweddion hyn pan oedden nhw'n siarad Cymraeg na phan oedden nhw'n siarad Saesneg – er mai'r un bobl oedd i'w clywed yn siarad. Yn ogystal, cafodd y siaradwyr Saesneg RP eu barnu fel rhai mwy hunanhyderus, mwy eofn a mwy snobyddlyd na'r siaradwyr Cymraeg neu Saesneg mewn acen Gymraeg. Awgryma hyn bod nodweddion lled-bositif yn cael eu priodoli i siaradwyr ag acenion Cymraeg a nodweddion lled-negyddol yn cael eu priodoli i siaradwyr ag acen anghymreig, h.y. RP. Un o'r casgliadau y gallwn ei lunio o'r astudiaeth hon felly yw bod gan bobl agweddau tuag at ieithoedd ac/neu acenion a bod yr agweddau hynny'n treiddio i mewn i sut rydym ni'n gweld ac yn trin pobl. Mae hefyd yn awgrymu bod modd i bobl ein gweld a'n trin ni'n wahanol yn dibynnu ar ba un o'n hieithoedd/acenion y byddwn ni'n eu defnyddio.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

- : Oes gennych chi brofiad o rywun yn eich trin chi’n wahanol yn dibynnu ar eich defnydd iaith ac o’u gwybodaeth nhw o’ch defnydd iaith? Er enghraifft, ydych chi erioed wedi cyfarfod rhywun oedd yn meddwl eich bod yn ddi-Gymraeg a newidiodd ei agwedd tuag atoch ar ôl sylwi eich bod yn gallu siarad Cymraeg? Neu oes gennych chi brofiad o’r gwrthwyneb yn digwydd i rywun di-Gymraeg?
- : Ydych chi erioed wedi ceisio newid eich acen er mwyn addasu barn pobl ar sail y ffordd rydych chi’n siarad?

Un peth ychwanegol yn astudiaeth Bourhis et al. sydd yn werth ei ystyried yw bod cymysgedd o siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith ymysg y cyfranogwyr, a hefyd bobl oedd yn methu siarad Cymraeg, ond *nad oedd gwahaniaeth ystadegol sylweddol* rhwng y gwahanol fathau o gyfranogwyr yn eu hagweddau tuag at y siaradwyr ar y tâp: roedden nhw i gyd yn gosod y lleisiau Cymraeg uwchben y lleisiau eraill ar gyfer y rhan fwyaf o’r nodweddion positif. Mae hyn yn awgrymu bod agwedd gyffredinol yng Nghymru bod acen Gymraeg, ac yn enwedig y gallu i siarad Cymraeg, yn nodwedd bositif – sydd i raddau yn mynd yn groes i’r hyn y gwnaeth Lambert et al. ei ddarganfod am siaradwyr iaith gyntaf Ffrangeg yng Nghanada. Yng Nghymru, yn ôl astudiaeth Bourhis et al., mae’r iaith (a’r acen) leiafrifol yn denu mwy o agweddau positif – ac yn uwch o ran bri – na’r iaith/acen fwyafrifol, o leiaf ymysg y math o gyfranogwyr a holwyd yma, sef pobl dosbarth canol-isel. Mae Bourhis et al. yn dweud bod hyn yn dangos bod gan Gymry ‘hunanddelwedd ffafrïol’ (1973: 458). Rhaid cofio, wrth gwrs, bod yr astudiaeth hon yn un go hen erbyn hyn, ond mae’r hyn y mae’n ei ddangos am debygrwydd agweddau pobl Gymraeg a di-Gymraeg at yr iaith (ac, felly, at ddwyieithrwydd yn y Gymraeg a’r Saesneg) yn dal i fod o ddiddordeb i ieithyddion sy’n astudio agweddau tuag at iaith.

METHODOLEG MAES

- Mae’n ddiddorol edrych ar yr iaith sy’n cael ei defnyddio yn erthygl Bourhis et al. er mwyn cyfleu eu hastudiaeth a’u safbwynt. Ar gyfer y tri chategori o bobl Cymru a grybwyllwyd uchod, dyma’r ffordd y mae’r awduron yn eu disgrifio:
1. ‘Welshmen who prefer to use their native tongue’;
 2. ‘Welshmen who cannot speak their native language but who nevertheless have traces of a Welsh accent in their English speech’;
 3. ‘Welshmen who cannot speak their native language and whose English is characterized by an RP-style of speech.’
- : Beth yw eich barn chi am y syniad o berson sydd yn ‘methu siarad ei famiaith’? A yw’r fath beth yn bosib, hyd yn oed?
- : Ydych chi’n meddwl bod Bourhis et al. yn ei gweld hi’n *annisgwyl* fod pobl sydd wedi eu geni yng Nghymru yn methu siarad Cymraeg? (Gallwn ychwanegu mai adlewyrchiad o’r cyfnod pan ysgrifennwyd yr erthygl yw’r ffaith mai ‘Welshmen’ ac nid ‘Welsh people’ neu ‘Welsh men and women’ sy’n cael eu trafod yma!)

4. AGWEDDAU AT Y GYMRAEG A HUNANIAETH

Mae astudiaeth Bourhis et al. (1973), yr edrychwyd arni uchod, yn dangos bod lleisiau Cymraeg mewn arbrawf gwedd-briodi wedi cael eu barnu’n fwy positif na lleisiau Saesneg – h.y. gellid dweud bod y llais Cymraeg wedi cael ei ystyried yn ‘fwy Cymreig’ na’r llais Saesneg oedd ag acen Gymreig. Mae hyn yn awgrymu cysylltiad rhwng iaith a hunaniaeth, sef bod siarad Cymraeg yn cael ei ystyried yn nodwedd bwysig ar fod yn Gymreig. Yn astudiaeth Bourhis et al. doedd dim gwahaniaeth ystadegol sylweddol yn agweddau pobl at y llais Cymraeg rhwng pobl Gymraeg o

Gymru a phobl ddi-Gymraeg o Gymru, ond mae astudiaethau eraill wedi dangos *bod* gallu Cymraeg rhywun – ymysg ffactorau eraill – yn rheoli ei agweddau a'i hunaniaeth.

Mae astudiaeth Coupland, Bishop, Williams, Evans a Garrett (2005) yn edrych ar agweddau myfyrwyr ysgol uwchradd ar draws Cymru tuag at yr iaith Gymraeg, gan ystyried pethau fel eu teimladau tuag at Gymru, eu hunaniaeth, eu teimladau tuag at yr iaith Gymraeg a'r pethau roedden nhw'n eu gwneud oedd â chyswllt â diwylliant Cymreig a'r gymdeithas Gymraeg. Casglwyd y data ar ffurf holiaduron gan fyfyrwyr o bedair ysgol ar draws pedair rhan o Gymru, sef Gwynedd, Powys, Sir Benfro a Bro Morgannwg, er mwyn cynrychioli rhannau o Gymru sydd yn dra gwahanol o ran nodweddion fel nifer y siaradwyr Cymraeg, traddodiad o ddefnydd Cymraeg yn y gymuned ac ati. Dadansodwyd data gan 229 o gyfranogwyr, oedd i gyd rhwng 16 ac 17 mlwydd oed. Roedd yr holiadur yn gofyn i'r myfyrwyr nodi i ba raddau roedden nhw'n cytuno â datganiadau fel *Rydw i'n falch o fod yn Gymro/aes*, *Rydw i'n ymwneud â cherddoriaeth Gymraeg*, *Mae'n bwysig defnyddio'r Gymraeg yn y cartref*, etc.

Grwpiodd yr awduron y cwestiynau yn sawl ffactor, sef: bywiogrwydd (*vitality*) y Gymraeg o ran demograffiaeth, ei bywiogrwydd o ran statws, ei bywiogrwydd o ran cefnogaeth sefydliadol, ei bywiogrwydd o ran ei dyfodol, cysylltiad personol (*personal affiliation*) pob cyfranogwr â'r Gymraeg a Chymreictod, eu hymrwymiad personol (*personal engagement*) i'r Gymraeg a Chymreictod o ran e.e. bod yn rhan o wleidyddiaeth, treftadaeth, cerddoriaeth, cyfryngau (ac ati) Cymraeg/Cymreig, eu barn ar ddefnydd rhyngweithiol (e.e. o fewn y teulu neu'r gymdeithas) o'r Gymraeg a'u barn ar ddefnydd seremonïol o'r Gymraeg. Ar ôl dadansoddi'r canlyniadau, mesurodd yr awduron y berthynas ystadegol rhwng y ffactorau uchod a dau brif newidyn annibynnol, sef (i) ardal ddaearyddol y cyfranogwyr a (ii) lefel gallu Cymraeg y cyfranogwyr.

O ran lle'r oedd y cyfranogwyr yn byw, cafwyd bod gwahaniaeth ystadegol sylweddol rhwng y cyfranogwyr o ran ffactorau ymrwymiad personol, defnydd rhyngweithiol a theimladau am fywiogrwydd y Gymraeg: yn benodol, roedd y myfyrwyr o Wynedd ym mhob achos yn tueddu i ddarparu'r atebion mwyaf positif ar gyfer y ffactorau hyn, a'r myfyrwyr o Sir Benfro yn rhoi'r atebion lleiaf positif. O ran y newidyn gallu yn y Gymraeg, cafwyd bod gwahaniaeth ystadegol sylweddol rhwng atebion y myfyrwyr ar gyfer pob ffactor heblaw'r rhai yn ymwneud â barn ar fywiogrwydd y Gymraeg (h.y. nid oedd gwahaniaeth sylweddol ym marn siaradwyr o wahanol gefndiroedd ieithyddol am fywiogrwydd yr iaith): ym mhob achos, myfyrwyr Cymraeg iaith gyntaf oedd â'r agweddau mwyaf positif am y ffactorau hyn, roedd y myfyrwyr ail iaith Gymraeg yn ateb yn llai positif na nhw – ac yn lleihau o ran positifrwydd eu hagwedd yn dibynnu ar lefel eu rhuglder Cymraeg – a'r myfyrwyr â phrin ddim gallu Cymraeg yn dangos ymatebion llai positif fyth i'r ffactorau.

Mae dau brif gasgliad gan Coupland et al. sy'n deillio o'r canlyniadau uchod. Yn gyntaf, gan bobl ifanc o ardaloedd fel Gwynedd – lle mae'r Gymraeg ar hyn o bryd yn parhau'n lled-gryf o safbwynt demograffig – y mae'r agweddau mwyaf positif am y Gymraeg, a nhw oedd fwyaf tebygol o nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg ac yn ei gweld fel iaith â statws uchel ac â dyfodol iach. Mae'r awduron yn dweud bod agweddau llai cadarnhaol tuag at y nodweddion hyn i'w cael gan fyfyrwyr o ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn *llai* cryf nag e.e. Gwynedd o ran demograffiaeth a bywiogrwydd y Gymraeg – myfyrwyr o lefydd fel Bro Morgannwg a Sir Benfro. Mae eu canlyniadau'n dangos hefyd bod gan bobl ifanc sy'n rhugl yn y Gymraeg – a siaradwyr Cymraeg fel mamiaith yn enwedig – agweddau mwy positif tuag at yr iaith ac at ddiwylliant Cymreig na siaradwyr llai rhugl yn y Gymraeg neu siaradwyr di-Gymraeg. Ar gyfer pob ffactor, y siaradwyr Cymraeg mwyaf rhugl oedd â'r agweddau mwyaf cadarnhaol, ond roedd gan siaradwyr ail iaith yn gyffredinol agweddau cadarnhaol hefyd.

Mae'n glir o'r data bod medru siarad Cymraeg yn hwyluso'r broses o ymwneud â diwylliant a chymdeithas Gymraeg, sydd yn ei dro yn arwain at fod ag agweddau mwy cadarnhaol tuag at hyn. Ar y llaw arall, *nid* oedd lefel gallu ieithyddol y cyfranogwyr yn effeithio'n sylweddol ar eu

barn am fywiogrwydd cyffredinol y Gymraeg nac am ei dyfodol ieithyddol, gan fod atebion yr holl gyfranogwyr ar gyfer y ffactorau hyn yn lled-bositif. Awgryma hyn felly bod pobl ifanc Cymru heddiw yn gyffredinol yn optimistaidd am y Gymraeg. Ond un peth pwysig i’w nodi yw’r gwahaniaeth rhwng agweddau’r cyfranogwyr tuag at ddefnydd rhyngweithiol y Gymraeg a defnydd seremonïol y Gymraeg, sef yn y bôn y gwahaniaeth rhwng defnydd dydd-i-ddydd a defnydd swyddogol o’r iaith: yn hyn roedd y cyfranogwyr i gyd yn tueddu i gytuno ei bod hi’n bwysig defnyddio’r Gymraeg o ran enwau, caneuon a seremonïau (ac ati), ond *nid* oedd pawb yn teimlo mor gryf am ddefnyddio’r Gymraeg fel iaith bob dydd; y bobl o’r ardaloedd mwy Cymraeg a’r rhai â mwy o allu Cymraeg oedd â’r agweddau mwyaf positif am hynny. Mae Coupland et al. yn awgrymu bod datblygiadau yn y gyfundrefn addysg yng Nghymru, felly, wedi cyfrannu tuag at gynyddu agweddau positif tuag at y Gymraeg fel endid i bawb, ond nad yw hynny wedi cael effaith mor ddwys ar brofiadau pobl o ddefnyddio’r Gymraeg – mae’r bobl ifanc o ardaloedd lle nad yw’r iaith yn gadarn yn y gymuned yn dal i dueddu i beidio â’i defnyddio.

METHODOLEG MAES

Er mwyn cael atebion gan bobl ifanc o wahanol rannau o Gymru, dosbarthodd Coupland et al. holiaduron i fyfyrwyr mewn pedair ysgol uwchradd ym mhob cwr o’r wlad. Y myfyrwyr eu hunain a lenwodd yr holiaduron, ac roedd gofyn i bob myfyriwr ateb yr un set o gwestiynau. Hyd y gwyddom, cwestiynau caeedig (h.y. aml-ddewis) oedd y cwestiynau i gyd yn yr holiadur.

: Beth yn eich tyb chi yw cryfderau a gwendidau holiaduron fel dull o gasglu data am agweddau pobl tuag at iaith a hunaniaeth?

: Pa ddulliau eraill, heblaw y rhai yr ydym eisoes wedi eu trafod yn y bennod hon, y gellid eu defnyddio i gasglu data ar agweddau iaith, o bosib?

Astudiaeth arall ar agweddau pobl tuag at yr iaith Gymraeg a hunaniaeth yw Eddie Williams (2009). Ei ffocws oedd trigolion Caernarfon, Gwynedd, a’r ardal gyfagos, lle mae’r gyfran o boblogaeth y dref sy’n gallu siarad Cymraeg yn uchel (83.9% yng Nghyfrifiad 2011; cymharwch hyn â’r gyfran yng Nghymru gyfan yn 2011, sef 19.0%), ac sydd felly’n debygol o fod y dref fwyaf Cymraeg yng Nghymru o’r safbwynt hwnnw – mae Williams yn ei galw’n ‘heartland’ y fro Gymraeg. Amcan yr astudiaeth oedd canfod beth oedd profiadau pobl yr ardal o ddefnydd y Gymraeg, ac o’r cysylltiad rhwng yr iaith a hunaniaeth, gan gymharu pobl o wahanol oedran a phobl Gymraeg a di-Gymraeg. Defnyddia Williams fethodoleg ansoddol sy’n gwrthgyferbynnu â’r dull meintiol a ddefnyddiodd Coupland et al. uchod: cynhaliodd gyfweiliadau wyneb-yn-wyneb â chwe pherson oedd yn byw yng Nghaernarfon, gan eu holi am eu profiadau cyffredinol a phenodol gyda’r Gymraeg, a gofyn hefyd am eu barn am ddigwyddiadau hanesyddol diweddar yn yr ardal oedd yn amlygu gwrthdaro rhwng siaradwyr Cymraeg a rhai nad oedden nhw’n medru’r Gymraeg.

Isod ceir rhai dyfyniadau gan y cyfranogwyr yn yr astudiaeth. Mae ffugenw’r cyfranogwr a’i oedran cyffredinol wedi eu nodi ar ôl pob dyfyniad. Mae’r dyfyniadau wedi eu cyflwyno yn yr iaith wreiddiol, h.y. Cymraeg neu Saesneg.

- ‘... [O]s ewch chi i Rostryfan a’r pentrefi cyfagos, dydy pethau ddim mor gadarn [ag yng Nghaernarfon ei hun]... mae ’na lot o bobol wedi setlo yno... heb ddiddordeb o gwbwl yn y Gymraeg... a does gennyn nhw ddim byd i’w wneud efo bywyd Cymreig... “*I couldn’t give a damn about the Welsh language*”. Dyna ydy ei agwedd o, reit, mi ddaeth o yma i fwynhau ei gychod o, reit?’ – ‘Walter’ (Cymraeg, 50au hwyr) [t.77]
- ‘Wel, i mi mae siarad Cymraeg yn bwysig ar gyfer bod yn Gymro, fel, ond dwi wedi cyfarfod pobl o’r De, pobl sydd ddim yn siarad Cymraeg ac maen nhw’r un mor frwdfrydig, ac maen nhw’n dweud eu bod nhw’n Gymry. Felly alla i weld y ddwy ochr. Mae’n debyg bod ni sydd

wedi cael ein geni a’n magu fama [h.y. yng Ngwynedd] wedi cael ein dwyn i fyny i siarad Cymraeg... ac mae o’n rhan o’n diwylliant ni, dydy?’ – ‘Walter’ [t.79]

- [Mae’r ymchwilydd yn gofyn sut mae hi’n diffinio’r ffaith ei bod hi’n Gymraes] ‘[A]chos mi ges i ’ngeni a’m magu fama [Caernarfon]. Pum deg mlynedd. Ac mi oedd fy nheulu i cyn hynny’n Gymry hefyd. [Ymchwilydd: ‘Beth am y bobl gafodd eu geni yng Nghymru, ac sy’n byw yma, ond sydd methu siarad Cymraeg?’] Biti amdanyn nhw, cywilydd arnyn nhw... [Ymchwilydd: ‘Beth am bobl yn Ne Cymru sydd methu siarad Cymraeg? Allwn ni ddweud eu bod nhw’n Gymry hefyd?’] Faswn i’n meddwl eu bod nhw’n medru bod yn Gymry. Os oedden nhw’n ddigon cryf i fynd i ysgol cyfrwng Cymraeg.’ – ‘Eirlys’ (Cymraeg, 50au cynnar) [t.78]
- “Does dim rhaid i ni gael yr iaith, ‘does dim rhaid i ni fyw yng Nghymru, ond mae’n rhaid i ni deimlo’n Gymraeg, dwi’n meddwl.’ – ‘Aled’ (Cymraeg, 30au hwyr) [t.79]
- ‘... [S]ometimes I feel – feel – that because I don’t speak Welsh I have to justify the fact that I’m Welsh. That’s crap I think. Because doesn’t matter what – who you are or where you’re from everybody should be treated the same.’ – ‘Barry’ (Di-Gymraeg, 30au hwyr) [t.79]
- ‘Mi ddylai ei fod o – os nad ydach chi’n dysgu [Cymraeg], ddylech chi ddim fod yn gallu dod ymlaen. Fel yn Ffrainc.’ – ‘Gwenda’ (Cymraeg, 50au hwyr) [t.50]
- ‘... [P]eople assume I’m English... So I... get both sides of it... I say I was born in Holyhead, went to school in Llangefni... “dwi’n siarad dipyn bach o Gymraeg, dwi’n iawn, cont” – then the attitude changes, but it’s – it’s quite scary before that. Yeah, it’s horrible.’ – ‘Barry’ [t.82]
- ‘It’s language, and what English people have got to understand when they come into Wales is Welsh is a first language. But a lot of them don’t realise this, that it’s their first language and they think – ‘cause people are talking in English, because there might be an English person there, and then they might suddenly start talking in Welsh – and they think that they’re being ignorant [h.y. haerllug].’ – ‘Sam’ (Di-Gymraeg, 40au cynnar) [t.84]
- ‘I find it hard to learn Welsh, I can sort of speak half, and I can understand it all... I’d love to be able to talk Welsh to them but I can’t... I’ve lived here since I was 10 years old... I was born in England but if anyone asks me where I’m from I say Wales.’ – ‘Sam’ [t.79]
- ‘Ac mi fedrwch chi weld pobol ifanc yma, maen nhw’n siarad Cymraeg, i mi mae hynny’n wirioneddol yn wyrth.’ – ‘Gwenda’ [t.81]
- ‘I get reminded... about once a week that I’m English, and why don’t I go back... I’m accepted by a lot of people, but not accepted by quite a few others that know me...’ – ‘Sam’ [t.83]

DADANSODDI A DEALL

- Cyn darllen ymlaen, ystyriwch y dyfyniadau uchod, ac yna atebwch y cwestiynau isod.
- 1) Beth yw’r amrywiaeth barn ymysg y siaradwyr o ran beth yw Cymro/Cymraes? Beth am gefndiroedd y siaradwyr sydd y tu ôl i’r amrywiaeth hwn, o bosib?
 - 2) Sut mae profiadau’r gwahanol siaradwyr o’r berthynas rhwng y Gymraeg a’r Saesneg yn y gymuned yn amrywio? A oes gwahaniaeth rhwng profiadau’r siaradwyr Cymraeg a’r rhai di-Gymraeg?
 - 3) I ba raddau mae data Williams yn cyd-fynd â’r hyn sydd yn Coupland et al. (2005), a drafodwyd uchod?

Mae’r cyfranogwyr uchod sy’n medru siarad Cymraeg yn dangos barn wahanol i’r rhai di-Gymraeg o ran yr hyn sydd yn diffinio bod yn Gymro neu’n Gymraes, i ryw raddau. Ystyriwch fod gan Eirlys agweddau cyfyngedig ar hyn, sef mai’r ddelfryd o Gymreictod yw bod angen i

rywun fod yn siarad Cymraeg ac wedi eu geni a'u magu yng Nghymru, ac â chyndeidiau o'r ardal hefyd; mae hi'n mynd ymhellach gan ddweud bod 'cywilydd' ar Gymry nad ydyn nhw'n gallu siarad Cymraeg. Ar y llaw arall, dydy Barry ddim yn gallu siarad Cymraeg ond mae'n dod o'r ardal ac yn galw'i hun yn Gymro – ac yn teimlo bod rhaid iddo gyfiawnhau ei Gymreictod i bobl eraill oherwydd ei ddiffyg gallu yn y Gymraeg ('people assume I'm English'). Ond nid yw'r holl siaradwyr Cymraeg yn teimlo fel Eirlys: nodwch fod Walter yn ymwybodol bod gan Gymry di-Gymraeg hunaniaeth Gymreig, a'i fod yn derbyn felly bod gwahanol safbwyntiau – mae Williams yn awgrymu bod Walter yn gweld bod bod yn 'frwdfrydig' yn gwneud iawn i ryw raddau am unrhyw ddiffyg gallu Cymreg – ac yn wir mae Aled, sydd yn iau nag Eirlys a Walter, yn diffinio Cymro neu Gymraes mewn ffordd eang iawn, sef bod dim ond rhaid iddyn nhw deimlo'n Gymreig. Mae'n ymddangos felly bod y siaradwyr hyn yn tueddu i ddiffinio bod yn Gymro yn *seiliedig ar eu cefndir a'u profiadau eu hunain*, ond bod rhai cyfranogwyr yma yn dangos ymwybyddiaeth o amrywiaeth hunaniaeth. Er hyn, i sawl cyfranogwr mae'r iaith Gymraeg yn ffactor creiddiol o hunaniaeth Gymreig – hyd yn oed Barry, sydd yn nodi ei fod yn gallu perswadio pobl o'i Gymreictod drwy ddweud ambell frawddeg Gymraeg, gan gynnwys 'cont', sydd yn air sy'n tueddu i fynegi agosatrydd i bobl o ardal Caernarfon, ac felly ei ddefnyddio fel label o'r ffaith ei fod yn perthyn i'r ardal, yn hytrach na'i fod yn dod 'o'r tu allan', y mae Barry yma.

Oraneu profiadau ieithyddol a hunaniaethol gwahanol, mae'n nodedig mai sôn am ymewnudwyr y mae'r cyfranogwyr Cymraeg yn tueddu i'w wneud, tra bod y rhai di-Gymraeg yn trafod eu profiad o ryngweithio â siaradwyr Cymraeg *lleol*. Mae Walter yn barnu mewnudwyr i'r ardal nad ydynt yn dangos unrhyw ddiddordeb yn y Gymraeg, sydd efallai'n cyfleu ei bryder am barhad yr iaith Gymraeg yn yr ardal. Ar y llaw arall, mae Barry a Sam yn trafod eu profiadau annymunol o fod yng nghwmni siaradwyr Cymraeg lleol, lle maen nhw'n honni eu bod nhw'n cael eu trin yn wahanol oherwydd eu bod nhw'n methu siarad Cymraeg yn rhugl. Yn wir, mewn rhan arall o'r erthygl mae Barry'n dweud bod 'a lot of racism' a 'hatred' yn lleol tuag at bobl ddi-Gymraeg yn ei brofiad o, ac mae'n nodi bod pobl ddi-Gymraeg yn lleiafrif yn ardal Caernarfon, sydd wrth gwrs i'r gwrthwyneb i brofiad siaradwyr Cymraeg yn nifer helaeth ardaloedd Cymru. Mae Williams yn nodi na wnaeth unrhyw un o'r siaradwyr Cymraeg ymysg ei gyfranogwyr sôn am eu profiadau nhw o'r 'hiliaeth' hon o'r cyfeiriad arall, sydd yn awgrymu bod siaradwyr Cymraeg yn llai ymwybodol o brofiad y rhai di-Gymraeg y mae Barry a Sam yn cyfeirio atynt. Ceir gwrthgyferbyniad rhwng 'ni' a 'nhw' gan y rhai Cymraeg a'r rhai di-Gymraeg, ond noder bod pwy ydyn 'nhw' yn wahanol i'r ddau grŵp.

Mae astudiaeth Coupland et al. (2005) yn dangos y ceir gwahaniaeth agweddau tuag at y Gymraeg rhwng pobl ifanc sy'n byw mewn ardal fwy Cymraeg, fel Gwynedd, ac ardaloedd llai Cymraeg. Roedd y bobl ifanc o Wynedd yn gweld Cymraeg fel iaith ddefnyddiol, fyw, yn hytrach na dim ond fel iaith seremonïol. (Nodwch, gyda llaw, bod y canlyniadau hyn yn mynd yn groes i ganlyniadau astudiaeth Jonathan Morris (2014) o agweddau myfyrwyr chweched dosbarth o ogledd Cymru, gan iddo weld yn ei ddata o nad lle'r oedd y cyfranogwyr yn byw oedd yn rheoli eu hagwedd, ond iaith eu cartref – h.y. roedd gan bobl ifanc o gartrefi di-Gymraeg agweddau llai positif na rhai o gartrefi Cymraeg, waeth beth oedd patrwm iaith eu cymuned.) Mae astudiaeth Williams, sy'n trafod oedolion o Wynedd, yn atgyfnerthu'r darganfyddiad hwn, gan fod y cyfranogwyr hyn – hyd yn oed y rhai di-Gymraeg – yn adnabod pwysigrwydd y Gymraeg fel rhan o'u hunaniaeth ac fel iaith i'w defnyddio ar lefel gymunedol; ystyriwch y dyfyniadau gan Sam a Gwenda uchod sy'n rhoi'r argraff eu bod yn ymwybodol nad yw proffil y Gymraeg yng Nghaernarfon yn angenrheidiol yr un fath yng ngweddill Cymru.

Prif ganfyddiad Coupland et al. yw mai fel symbol y mae pobl ifanc Cymru yn gweld y Gymraeg, ond mae data Williams yn dangos bod y Gymraeg yn fwy creiddiol na hyn i bobl sy'n byw mewn cymuned lle mae'r Gymraeg yn gryf ar lefel ddemograffig. O safbwynt trafod dwyieithrwydd, mae hyn yn fwy o dystiolaeth bod ein hagweddau tuag at iaith yn deillio o'n profiadau ieithyddol a chymdeithasol o'r ddwy iaith yn y gymuned.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: Ac ystyried canlyniadau’r astudiaethau a drafodwyd yn y bennod hon hyd yn hyn, pa agweddau tuag at y Gymraeg ac at ddwyieithrwydd ydych chi’n credu fyddai gan Rhys, Bethan a Liam (gw. Pennod 2)?

5. AGWEDDAU TUAG AT GYFNEWID COD

Hyd yn hyn yn y bennod rydym wedi ystyried agweddau tuag at y Gymraeg ac at Gymreictod, yn enwedig yn y cyd-destun dwyieithog yng Nghymru. Rydym wedi gweld bod agweddau tuag at hyn yn amrywio gan ddibynnu o le mae rhywun yn dod, pa mor rhugl ydynt yn y Gymraeg ac (i raddau) eu hoedran. Ond beth am agweddau pobl at ffurf ieithyddol y Gymraeg ei hun? A yw pobl yn barnu Cymraeg ansafonol yn wahanol i Gymraeg mwy ffurfiol? Un ffordd o edrych ar y pwnc hwn yw drwy ystyried agweddau pobl tuag at gyfnewid cod (CC), sydd – fel y trafodwyd eisoes ym Mhenodau 5 a 6 – yn nodwedd gyffredin ar iaith anffurfiol pobl sy’n siarad Cymraeg a Saesneg. Er hynny, mae’n hawdd canfod pobl Gymraeg sydd ag agweddau negyddol tuag at CC – ym Mhennod 5, fe wnaethom sôn sut mae’r gair difriol ‘bratiaith’ yn derm anffurfiol cyffredin am y broses hon, er nad yw’n derm ieithyddol addas. Ceir felly dyndra rhwng y ffaith bod rhai pobl yn defnyddio CC yn gyffredin ond eto bod ganddynt agweddau negyddol tuag at y ffenomen.

Mae astudiaeth Elen Robert (2009) o agweddau pobl at siaradwyr Cymraeg ail iaith o’u cymharu â siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn amlygu, fel mae’n digwydd, agweddau pobl tuag at CC hefyd. Yn yr astudiaeth hon defnyddiodd ddull gwedd-briodi tebyg i’r un a ddefnyddiodd Lambert et al. (1960 – gw. uchod), ond yn lle cael yr un siaradwr yn recordio sawl iaith wahanol, recordiodd Robert chwe merch 17–18 oed yn llefaru stori yn seiliedig ar gyfres o luniau cartŵn. Roedd pedair o’r merched yn Gymraeg ail iaith o wahanol lefelau gallu, a’r ddwy arall yn Gymraeg iaith gyntaf. Roedd defnyddio lluniau yn hytrach na thestun ysgrifenedig yn caniatáu i’r siaradwyr siarad yn naturiol, ac yn wir fe wnaeth y rhan fwyaf o’r siaradwyr ddefnyddio CC neu eiriau benthyg (h.y. geiriau sydd wedi ymsefydlu yn y Gymraeg) yn eu hiaith. Chwaraewyd y recordiadau hyn yn eu tro i 85 o gyfranogwyr, a gofynnwyd i’r cyfranogwyr hyn roi eu barn ar y chwe llais yn seiliedig ar nodweddion fel pa mor gywir oedden nhw’n meddwl oedd iaith y merched, pa mor Gymreig oedden nhw’n meddwl oedd y merched ac a oedden nhw’n meddwl eu bod nhw’n siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ynteu ail iaith (doedd y cyfranogwyr ddim yn cael unrhyw ffeithiau am y merched o flaen llaw, dim ond y recordiad sain ohonyn nhw’n llefaru).

Wrth adrodd ar y canlyniadau mae Robert yn gosod y chwe siaradwr mewn trefn, o’r farn fwyaf positif i’r farn fwyaf negyddol, ar gyfer pob nodwedd. Mae Tabl 8.1 isod yn crynhoi’r canlyniadau ar gyfer dwy o’r nodweddion, sef *Ydy’r ferch hon yn iaith gyntaf Gymraeg?* (yr uchaf ar y rhestr, y mwyaf tebygol i’r cyfranogwr feddwl mai Cymraeg oedd iaith gyntaf y siaradwr) a *Derbynioldeb yr iaith* (yr uchaf ar y rhestr, y mwyaf derbyniol yr oedd y cyfranogwr yn gweld iaith y ferch). Roedd pob nodwedd yn cael sgôr rhwng 1 a 7 gan y cyfranogwyr, a chyfartaledd yr holl sgorau yw’r rhif a geir yn y tabl. Mae Llais 1 yn Gymraeg iaith gyntaf ac yn dod o dde-orllewin Cymru; mae Llais 2 yn Gymraeg iaith gyntaf ac yn dod o ogledd-orllewin Cymru; mae Lleisiau 3–6 yn Gymraeg ail iaith ac yn dod o dde-ddwyrain Cymru ac yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg.

IAITH GYNTAF?	DERBYNIOLDEB
Ll 1 (6.27)	Ll 1 (5.99)
Ll 2 (6.09)	Ll 4 (5.23)
Ll 3 (4.99)	Ll 3 (4.69)
Ll 4 (4.99)	Ll 2 (4.54)
Ll 6 (4.51)	Ll 6 (4.23)
Ll 5 (2.51)	Ll 5 (2.88)

Tabl 8.1. Sgorau cyfartalog ar gyfer lleisiau'r siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith; addaswyd o Robert (2009: 106).

Nodwch nad yw'r drefn yr un fath ar gyfer y ddwy restr. Mae'r merched iaith gyntaf Cymraeg (1 a 2) yn cael eu hadnabod yn glir fel siaradwyr iaith gyntaf (gyda sgorau o 6 ac uwch), tra bod y merched ail iaith yn cael eu sgorio'n is o ran hyn. Hynny yw, roedd y cyfranogwyr yn ei chael hi'n gyffredinol hawdd i wahaniaethu'r siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf oddi wrth y rhai ail iaith yn seiliedig ar eu dull o siarad yn unig. Ond sylwch fel mae'r drefn ar gyfer pa mor dderbyniol oedd yr iaith i'r cyfranogwyr yn wahanol. Eto mae Llais 1 ar frig y rhestr, ond mae dull siarad Llais 2 – y ferch Gymraeg iaith gyntaf arall – yn cael ei farnu'n llai derbyniol na'r ferch ar y brig, a fymryn yn llai derbyniol na dwy o'r merched Cymraeg ail iaith (Llais 3 a 4). Ceir trefn debyg ar gyfer nodweddion eraill megis *Cywirdeb* a *Mynegiant*.

Pam mae'r lleisiau'n cael eu gosod yn y drefn hon? Mae Robert yn esbonio bod iaith y chwe merch yn amrywio mewn ffyrdd nodedig. Roedd Llais 3 yn alluog a rhugl ei Chymraeg, tra bod Llais 6 yn fwy herciog ac yn ei chael hi'n anoddach ffurfio strwythurau gramadegol cymhleth; gwelir bod Llais 3 yn cael ei barnu'n fwy ffafriol na Llais 6, sydd yn dangos bod y cyfranogwyr yn cysylltu derbynioldeb iaith person â'r gramadeg maen nhw'n ei gynhyrchu. Os hynny, dylid disgwyl efallai y byddai'r ddwy ferch Gymraeg iaith gyntaf (Llais 1 a Llais 2) yn cael eu barnu'n fwy positif na'r siaradwyr ail iaith o ran eu gallu ieithyddol, oherwydd bod siaradwyr iaith gyntaf yn gyffredinol yn rhugl a galluog yn yr iaith honno – ond yr hyn a welir yw bod Llais 1 yn cael ei barnu'n wahanol i Llais 2. Mae Robert yn esbonio bod hyn oherwydd bod Llais 2 yn defnyddio llawer o CC yn ei hiaith, tra bod Llais 1 yn defnyddio geiriau Cymraeg, os rhai tafodieithol, fel rheol, ac yn gyfyngedig yn ei defnydd o CC. Ar y llaw arall, wnaeth Llais 3 ddim defnyddio cymaint o CC. Hynny yw, oherwydd ei defnydd o CC, mae'n ymddangos i Llais 2 gael ei barnu am ei gallu ieithyddol, er gwaetha'r ffaith bod yn rhaid bod ganddi allu uchel yn y Gymraeg gan ei bod yn iaith gyntaf iddi. Mae Robert yn nodi i rai o'r cyfranogwyr wneud sylwadau negyddol tuag at Llais 2 i'r perwyl hwn, fel 'meddwl a siarad llac', 'cyfuniad o Gymraeg a Saesneg yn cael ei ddefnyddio' a 'bratiaith'. Mae Robert hefyd yn tybio bod y ffaith fod y ferch honno'n dod o ogledd Cymru tra bod y lleill o dde Cymru, a bod mwyafrif y cyfranogwyr hefyd o dde Cymru, o bosib wedi peri iddi gael ei hisraddio.

Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae casgliadau Robert yn tynnu sylw – ymysg pethau eraill – at agweddau puryddol ymysg siaradwyr Cymraeg tuag at ddefnydd iaith, a bod defnydd o CC yn llai derbyniol na pheidio defnyddio geiriau CC. Mae pethau fel derbynioldeb iaith yn nodweddion sy'n cyfrannu tuag at yr hyn sy'n cael ei alw'n ddeniadoldeb cymdeithasol (*social attractiveness*), sef faint o fri cymdeithasol sydd gan berson yn seiliedig ar y ffordd maen nhw'n ymddwyn. Yn yr achos hwn, mae canlyniadau Robert yn pwyntio at CC yng Nghymru fel rhywbeth sydd yn lleihau deniadoldeb cymdeithasol person Cymraeg, tra bod defnyddio ffurfiau tafodieithol ac/neu draddodiadol – fel roedd Llais 1 a 3 yn ei wneud, er enghraifft – yn cynyddu pa mor gymdeithasol ddeniadol yw rhywun. Mae'r casgliadau hyn felly'n dangos bod agweddau pobl tuag at bobl ddwyieithog, a thuag at ddwyieithrwydd yn gyffredinol, yn cael eu fframio gan ba ieithoedd maen nhw'n eu defnyddio, a sut.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: Pam y byddai pobl yn cysylltu cyfnewid cod â diffyg ieithyddol, o bosib? (*Ystyriwch gysyniadau fel 'bwlchau geiriol'.*)

: A oes sefyllfa lle byddai cyfnewid cod yn offeryn defnyddiol ar gyfer rhywun sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith? Meddyliwch yn ôl at Bennod 6: pa resymau fyddai gan siaradwyr iaith gyntaf sydd yn gwbl rugl eu Cymraeg i ddefnyddio cyfnewid cod yn eu hiaith lafar anffurfiol?

6. CRYNODEB

Mae'r bennod hon wedi ystyried agweddau tuag at iaith, a sut mae hyn yn rheoli'r ffordd mae pobl yn (i) gweld siaradwyr eraill a (ii) defnyddio'u hieithoedd eu hunain. Rydym hefyd wedi ystyried sut gall agweddau at iaith, yn enwedig ymysg siaradwyr ifanc, fod yn dyngedfennol i ddyfodol iaith. Yn y bennod nesaf byddwn yn edrych yn fwy manwl ar sut mae ieithoedd yn newid o ran eu gramadeg, a beth sydd yn digwydd i ieithoedd dros amser mewn sefyllfaoedd dwyieithog pan fydd dwy iaith yn cyffwrdd ac yn gallu dylanwadu ar ei gilydd.

AWGRYMIADAU DARLLEN AM DDWYIEITHRWYDD YN Y GYMRAEG

Bourhis, Richard Y., Giles, Howard a Tajfel, Henri (1973). Language as a determinant of Welsh identity. *European Journal of Social Psychology* 3, 447–60. [*Yn defnyddio'r dull gwedd-briodi i ganfod agweddau pobl tuag at yr iaith Gymraeg*]

Coupland, Nikolas, Bishop, Hywel, Williams, Angie, Evans, Betsy a Garrett, Peter (2005). Affiliation, engagement, language use and vitality: Secondary school students' subjective orientations to Welsh and Welshness. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism* 8, 1–24. [*Yn defnyddio holiaduron i ganfod agweddau plant o ysgolion uwchradd ar draws Cymru tuag at y Gymraeg a Chymreictod*]

Morris, Jonathan (2014). The influence of social factors on minority language engagement amongst young people: An investigation of Welsh-English bilinguals in North Wales. *International Journal of the Sociology of Language* 230, 65–89. [*Yn defnyddio grwpiau ffocws o fyfyrwyr ysgol uwchradd yng ngogledd Cymru i ganfod agweddau tuag at ddefnydd iaith*]

Musk, Nigel (2006). Performing bilingualism in Wales with the spotlight on Welsh: A study of the language practices of young people in bilingual education. *Studies in Language and Culture* 8, *Linköping Studies in Arts and Science* 375. [*Yn ystyried sut mae pobl ifanc yng Nghymru yn ymwneud â'r Gymraeg a'u hagweddau tuag ati*]

Williams, Eddie (2009). Language attitudes and identity in a North Wales town: 'Something different about Caernarfon'? *International Journal of the Sociology of Language* 195, 63–91. [*Yn defnyddio cyfweiliadau gydag oedolion o Gaernarfon yn trafod eu hagweddau tuag at iaith a hunaniaeth yn yr ardal*]

Robert, Elen (2009). Accommodating 'new' speakers? An attitudinal investigation of L2 speakers of Welsh in south-east Wales. *International Journal of the Sociology of Language* 195, 93–116. [*Yn defnyddio addasiad o'r dull gwedd-briodi i ganfod a oes gan bobl Gymraeg agweddau gwahanol tuag at siaradwyr iaith gyntaf a siaradwyr ail iaith*]

Sharp, Derrick, Thomas, Beryl, Price, Eurwen, Francis, Gareth a Davies, Iwan (1973). *Attitudes to Welsh and English in the Schools of Wales*. Basingstoke: Macmillan Education Ltd. [*Yn defnyddio holiaduron i ganfod agweddau plant ysgol tuag at ddwyieithrwydd yng Nghymru*]

PENNOD 9

Newid iaith yn y Cyd-destun Dwyieithog

1. CYFLWYNIAD

Mae cymdeithas ddwyieithog, fel y trafodwyd ym Mhennod 7, yn golygu bod mwy nag un iaith yn cael ei defnyddio o fewn yr un ardal ddaearyddol, a gall hyn arwain at nifer o wahanol ganlyniadau. Un o ganlyniadau posib dwyieithrwydd cymdeithasol yw newid cymdeithasol, megis bod newidiadau mewn defnydd iaith neu newidiadau gwleidyddol o ran hawliau iaith yn digwydd, neu gall fod yn newidiadau ieithyddol yn yr iaith neu'r ieithoedd sy'n cael eu caffael a'u defnyddio gan siaradwyr y gymdeithas honno. Er enghraifft, trafodwyd eisoes ym Mhenodau 5 a 6 sut mae pobl ddwyieithog yn meddu ar ffordd o gyfathrebu nad ydyw ar gael i bobl uniaith, sef cyfnewid cod rhwng dwy iaith, lle mae'r ddwy iaith yn cael eu defnyddio o fewn yr un sgwrs neu frawddeg. Nid newid yw cyfnewid cod fel y cyfryw, ond ffenomen sy'n gallu ymddangos neu beidio ymddangos yn iaith lafar person dwyieithog. Ond gall dwyieithrwydd mewn cymdeithas gael effaith barhaol ar ffurf iaith hefyd, lle mae ei gramadeg – sef geirfa, sain, cystrawen ac ati – yn cael ei drawsnewid dros amser. Gelwir hyn yn NEWID IAITH (*language change*), a dyna fydd ffocws y bennod hon.

Ym maes newid iaith, pan ydym yn trafod ieithoedd sydd yn cyd-fyw o fewn yr un gymdeithas, rydym yn sôn am GYFFWRDD IAITH (*language contact*). Gallwn alw unrhyw sefyllfa lle ceir dwyieithrwydd cymdeithasol yn sefyllfa cyffwrdd iaith: gall pobl y gymdeithas honno ar y cyfan fod yn ddwyieithog eu hunain, ac felly mae'r cyffwrdd iaith i bob pwrpas o fewn eu hymennydd nhw eu hunain yn ogystal ag o fewn y gymdeithas, ac/neu gall pobl y gymdeithas ar y cyfan fod yn uniaith ond bod sawl iaith yn cael eu siarad gan wahanol drigolion y gymdeithas, fel bod pawb i ryw raddau yn clywed gwahanol ieithoedd o ddydd i ddydd.

Wrth reswm, mae'r gwahanol sefyllfaoedd hyn yn golygu bod y cyffwrdd iaith a geir yno yn gyffwrdd o wahanol fathau. Yn llyfr dylanwadol Sarah Thomason a Terence Kaufman (1988), *Language Contact, Creolization and Genetic Linguistics*, mae'r awduron yn awgrymu bod sawl gwahanol lefel o gyffwrdd iaith yn bosib, yn dibynnu ar ba mor DDWYS (*intense*) yw'r dwyieithrwydd yn y gymuned ar gyfer unrhyw grŵp ieithyddol dynodedig. Mae 'dwyster' (*intensity*) yn y fan yma yn golygu ffactorau fel faint o bobl ddwyieithog sydd yn y grŵp iaith, pa mor rhugl yw'r siaradwyr hynny yn eu dwy iaith, am ba mor hir y bu'r gymuned yn ddwyieithog, a yw'r grŵp iaith yn fwy neu'n llai dominyddol ar sail sosio-economaidd na grŵp iaith arall, ac yn y blaen. Ar un pen i'r continwwm dwyster cyffwrdd iaith y mae Thomason a Kaufman yn ei awgrymu ceir CYFFWRDD YSGAFN (*light contact*), sef lle nad oes bron ddim dwyieithrwydd i'w weld yn y grŵp iaith, ond bod ganddynt ryw gyswllt â siaradwyr ieithoedd eraill. Ar ben arall y continwwm mae CYFFWRDD DWYS (*intense contact*), lle mae bron pawb yn y grŵp ieithyddol yn ddwyieithog, a'r ddwy iaith i'w clywed yn gyffredin yn eu cymuned ar draws ei gwahanol beuoedd. Er enghraifft, byddai cymuned arferol yn Lloegr yn arddangos cyffwrdd iaith ysgafn iawn, gan nad oes ysgogiad cymdeithasol creiddiol i bobl Lloegr fod yn ddwyieithog, gan mai Saesneg yw iaith arferol y wlad; oherwydd hyn, y tueddiad cymdeithasol yw bod pobl yn defnyddio'r Saesneg yn unig. Ar y llaw arall, byddai pobl sy'n siarad Gwyddeleg a Saesneg yn un o Gaeltachtaí Iwerddon yn profi cyffwrdd iaith dwys iawn gan fod pob siaradwr Gwyddeleg yn siarad Saesneg hefyd ac yn anochel yn dod ar draws Saesneg ar lefel gymdeithasol. Gellir cael sefyllfaoedd sydd yng nghanol y continwwm hefyd, lle mae'r cyffwrdd yn ganolig ac/neu'n gytbwys.

Y peth pwysig i'w ddeall am fodel cyffwrdd iaith Thomason a Kaufman i'n pwrpasau ni yw'r cysylltiad y mae'r awduron yn ei wneud rhwng dwyster cyffwrdd yr iaith a'r *math a'r maint* o newid iaith y gellid ei ddisgwyl mewn cymuned o'r fath. Yn fras, mae'r awduron yn awgrymu mai'r mwyaf dwys yw'r cyffwrdd mewn unrhyw sefyllfa, yna'r mwyaf o newid iaith y gellir ei ddisgwyl, a hefyd y mwyaf y gall y newid dreiddio i'r gramadeg. Mewn sefyllfa o gyffwrdd ysgafn, meddai

Thomason a Kaufman, newidiadau ‘arwynebol’ fel geirfa newydd y gellid eu disgwyl, tra mewn sefyllfa o gyffwrdd dwys gellid disgwyl gweld newid mwy sylweddol a chreiddiol yn strwythur yr iaith, ei chystrawen a’i ffonoleg. Byddwn yn dychwelyd at ragdybiaethau Thomason a Kaufman am gyffwrdd iaith tua diwedd y bennod, wrth ystyried newid gramadegol yn y cyd-destun Cymraeg.

Yn y bennod hon byddwn yn ystyried y gwahanol fathau o newid iaith sydd yn bosib, gan ganolbwyntio ar newid sy’n deillio o sefyllfaoedd cyffwrdd iaith. Byddwn yn edrych ar sut mae iaith yn cymryd geiriau o iaith arall a sut gellir cysylltu newidiadau gramadegol mewn iaith â dylanwad iaith arall, yn ystyried beth fydd dyfodol iaith fel Cymraeg ac yn ystyried dwyster ei chyffwrdd â’r Saesneg a’i siaradwyr.

2. Y DDAU FATH O NEWID IAITH

Mae newid iaith yn amrywio’n fawr o un iaith i’r llall, ac nid yw’r ffaith bod newid yn digwydd yn Iaith A o reidrwydd yn golygu y bydd yr un newid yn digwydd yn Iaith B. Mae deall bod newid iaith yn broses anghymesur ac, i ryw raddau, yn rhywbeth na ellir ei ragweld yn beth pwysig o’r cychwyn. Rhywbeth arall pwysig i’w gofio yw bod newid iaith yn beth cwbl gyffredin, os nad angenrheidiol, ym mhob iaith, ac nad oes angen cysylltu newid iaith â chyffwrdd iaith neu ddwyieithrwydd. Er hyn, mae dwyieithrwydd yn sicr yn *gallu* arwain at ieithoedd yn newid, ac felly mae angen ystyried sut fath o newidiadau sy’n debygol o ddigwydd yn sgil sefyllfa cyffwrdd iaith. Cyferbynnir newid iaith fel hyn â newid iaith *nad* yw’n dibynnu ar gyffwrdd iaith, ac felly ceir dau brif fath o newid iaith: newid iaith o’r tu allan a newid iaith mewnol.

Pan fyddwn ni’n sôn am newid iaith sydd yn deillio o gyffwrdd iaith, defnyddiwn y term NEWID O’R TU ALLAN (*externally motivated change*), er mwyn dangos bod tarddiad y newid yn dod o’r tu allan i’r iaith sy’n newid, gan iaith arall. Enghreifftiau o newid o’r tu allan yw lle daw geiriau i mewn i’r iaith o ieithoedd eraill. Gelwir hyn yn FENTHYG GEIRIAU (*borrowing*), a byddwn yn ei drafod yn ddiweddarach yn y bennod, ac yn y Gymraeg gallwn bwyntio’n syth at enghreifftiau amlwg fel *trên*, *golff*, *soffa* a *batri* fel geiriau sydd wedi dod i mewn i’r Gymraeg o’r Saesneg (*train*, *golf*, *sofa*, *battery*). Yn achos geiriau benthyg, gallwn brofi (fel arfer) nad oedden nhw’n bodoli yn y Gymraeg cyn y Saesneg drwy edrych ar dystiolaeth ysgrifenedig, a chael, er enghraifft – o’r *Oxford English Dictionary* a *Geiriadur Prifysgol Cymru* y daw’r manylion canlynol – bod y gair *sofa* yn ymddangos gyntaf yn y Saesneg, gan olygu sedd hir ar gyfer eistedd neu orwedd arni, yn 1717 ond nad yw’r gair yn ymddangos yn y Gymraeg tan 1837. Mae hon yn enghraifft amlwg o newid o’r tu allan, yn deillio o gyffwrdd iaith – pe na byddai gan siaradwyr Cymraeg unrhyw gyswllt â’r iaith Saesneg, yna mae rhesymeg yn dweud na fyddai ganddynt y modd i ddefnyddio’r gair Saesneg *sofa*. (Mae sain a sillafu *sofa* > *soffa* wedi newid i ryw raddau yn y broses fenthyg, ond proses go reolaidd o integreiddio strwythurol yw hon ac nid oes angen poeni amdani ar hyn o bryd.)

Gall newidiadau i’r gystrawen neu’r ffonoleg fod yn newid o’r tu allan hefyd. Dyma enghraifft o newid cystrawennol oherwydd cyffwrdd iaith: ers talwm roedd gan yr iaith Ffinneg (*Finnish*) drefn arferol i’r geiriau o fewn brawddeg lle roedd y ferf yn dod ar ôl y gwrthrych (*object*) ac ar ddiwedd y frawddeg, sef GODDRYCH-GWRTHRYCH-BERF, ond dros amser newidiodd trefn geiriau Ffinneg fel bod y ferf yn cael ei gosod rhwng y goddrych (*subject*) a’r gwrthrych, sef GODDRYCH-BERF-GWRTHRYCH, h.y. ddim bellach ar ddiwedd y frawddeg. Digwyddodd hynny, mae’n debyg, oherwydd dylanwad ieithoedd eraill cyfagos oedd â’r drefn GODDRYCH-BERF-GWRTHRYCH fel eu trefn geiriau arferol (Thomason 2001), sydd yn cynnwys ieithoedd fel Swedeg a Saesneg.

Byddwn yn trafod mwy ar sut mae ieithoedd yn dylanwadu ar ei gilydd pan fyddant mewn sefyllfa cyffwrdd yn y bennod hon, gan ystyried yn fanwl y cyd-destun Cymraeg, a gofyn beth yw’r sefyllfa cyffwrdd iaith sydd i’w gweld yng Nghymru, ac i ba raddau mae’r Saesneg wedi effeithio ar ffurf a gramadeg yr iaith Gymraeg yn ystod ei hanes.

Wrth gwrs, nid oes *angen* cyffwrdd ag iaith arall er mwyn i iaith newid. Mae NEWID MEWNOL (*internal change*) yn gyffredin dros ben ymysg ieithoedd y byd – yn hanesyddol ac yn gyfoes –

sef pan fydd rhyw broses ailstrwythuro neu aildrefnu ar ramadeg iaith yn digwydd, a hynny heb ddylanwad uniongyrchol iaith arall yn sgil cyffwrdd. Wnawn ni ddim trafod llawer ar newid mewnol yn y llyfr hwn, gan nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â dwyieithrwydd – yn wir, gall newid mewnol ddigwydd i iaith nad yw'n cyffwrdd ag unrhyw iaith arall – ond gellir rhoi ambell enghraifft er mwyn gwahaniaethu rhwng newid mewnol a newid o'r tu allan.

Math cyffredin o newid mewnol yw LEFELU CYDWEDDIADOL (*analogical levelling*), lle mae siaradwyr yn llyfnhau amrywiaeth o fewn system ramadegol, ac yn ei symleiddio: e.e. mewn Hen Saesneg, y ffurf luosog ar *boc* 'llyfr' oedd *bec*, h.y. roedd newid yn y llafariad. Erbyn heddiw, wrth gwrs, *books* yw'r ffurf luosog ar *book*, sef bod -s yn cael ei ychwanegu. Roedd y dull o ychwanegu atodiad -(a)s er mwyn creu'r lluosog yn gyffredin ymhlith enwau Hen Saesneg (e.e. *ceorl* 'gwas', *ceorlas* 'gweision'), ond roedd *boc* yn ffurf afreolaidd, yn debyg i sut mae (ac yr oedd) gair fel *goose* yn ffurfio'r lluosog (> *geese*), Yn achos *boc/bec*, dros amser rhoddodd siaradwyr Saesneg ffurf reolaidd ar *boc* a'i wneud yn *bocas* er mwyn iddo ymddwyn mewn ffordd debycach i eiriau fel *ceorl*. Ni chafwyd dylanwad allanol gan iaith arall – hyd y gwyddom – ar y broses hon; yn hytrach, proses fewnol oedd hi, gyda siaradwyr yn cael gwared ar batrymau gramadegol afreolaidd ac yn symud tuag at batrymau rheolaidd. Enghraifft arall o newid mewnol yw'r gair *glöyn byw*, sydd yn air cyffredin ymhlith nifer o siaradwyr Cymraeg (y rhai hynny nad ydynt yn defnyddio *pili-pala* neu *iâr fach yr haf!*), ond newid o'r ffurf wreiddiol *glöyn Duw* yw'r term, er mwyn – gallwn gymryd – peidio â defnyddio enw Duw'n ofer, gan fod hynny'n wrthun o ran moeseg Gristnogol gyffredinol yng Nghymru'r 18fed ganrif. Eto, nid oes angen canfod rheswm fel dylanwad y Saesneg yn achos *glöyn byw*, gan nad oes – i roi un rheswm – cysylltiad rhwng y newid a welwyd yn y Gymraeg a'r ffurf *butterfly* yn Saesneg; yn hytrach, yn yr achos hwn gellid dweud bod rheswm cymdeithasol (h.y. crefydd) y tu ôl i'r newid.

Y prif beth i'w ystyried wrth astudio newid iaith yw peidio â chymryd bod grym allanol iaith arall yn dylanwadu ar bob newid, na chwaith bod pob newid yn fewnol. Rhaid ystyried y ddau bosiblirwydd ym mhob achos, ac yn wir – fel y byddwn yn gweld yn ddiweddarach yn y bennod – mae'n aml yn anodd dweud pa fath o newid ydyw, neu gall hyd yn oed fod yn gyfuniad o'r ddau fath.

Gall newid iaith ddigwydd i un elfen ramadegol heb ddylanwadu ar unrhyw ran arall o'r iaith – fel gyda'r enghraifft *glöyn byw* uchod – neu gall fod yn newid sydd yn effeithio ar yr iaith mewn ffordd fwy sylweddol, ac sydd o bosib yn symptom o newid eang, cyffredinol yn yr iaith. Yr ail fath hwn sydd yn aml yn diddori'r rhai sy'n ymchwilio i newid iaith, gan ei fod yn galluogi i ni adnabod patrymau yn y modd y mae gramadeg yn newid, a hefyd mae'n rhoi cyfle i ni weld beth yw'r rhesymau cymdeithasol, allieithyddol sydd yn arwain at y newidiadau a welir. Mae rhai sefyllfaoedd o newid cymdeithasol yn gallu arwain at effeithiau ar yr ieithoedd sy'n cael eu siarad yn y gymdeithas, ac mae hyn yn arbennig o wir wrth edrych ar ieithoedd lleiafrifol mewn sefyllfaoedd cymdeithasol lle mae'r iaith fwyafrifol yn graddol ddominyddu ar yr iaith leiafrifol.

Sefyllfaoedd o symud iaith (a drafodwyd ym Mhennod 7) yw'r rhain fel arfer. Mae'r cysylltiad rhwng symud iaith a newid iaith i bob pwrpas yn troi o gwmpas amlygiad i'r iaith (cafodd amlygiad ei drafod yng nghyd-destun caffael iaith gan blant ym Mhennod 3). Os yw symud iaith wrthi'n digwydd yng nghyd-destun iaith leiafrifol, yna bydd yr iaith leiafrifol yn cael ei chlywed mewn llai a llai o beuoedd cymdeithasol wrth i amser fynd yn ei flaen, ac o ganlyniad i hyn bydd llai a llai o gyfleoedd i'w siaradwyr ei chlywed. Mae angen cael amlygiad i iaith er mwyn cael mewnbwn, ac mae angen mewnbwn iaith er mwyn ei chaffael, ac os nad oes gan siaradwyr ddigon o amlygiad i'r iaith yn gymdeithasol er mwyn cael digon o fewnbwn i'w dysgu'n gyflawn, yna byddant yn gorfod dibynnu ar fewnbwn anghyflawn, sydd yn gyfyngedig o ran geirfa a strwythurau gramadegol. Gall caffael amherffaith (*imperfect acquisition*) fel hyn arwain at siaradwyr heb lefel uchel o allu yn yr iaith, ac mewn sefyllfaoedd fel hyn gallwn weld mathau penodol o newid iaith yn digwydd, lle mae siaradwyr yn gwneud defnydd o'r iaith fwyafrifol (p'run ai eu bod nhw'n ymwybodol eu bod yn gwneud hynny neu beidio) er mwyn llenwi'r bylchau yn eu gwybodaeth. Gall y newidiadau ieithyddol hyn fod ar lefel geiriau, sy'n bosib hyd yn oed mewn sefyllfaoedd o gyffwrdd ysgafn,

neu’n newidiadau mwy sylweddol i strwythur gramadegol iaith, yn aml mewn ffordd fewnol o symleiddio ac ailstrwythuro – h.y. effaith anuniongyrchol cyffwrdd iaith.

Byddwn yn edrych yn fwy manwl ar sut mae’r Gymraeg wedi newid o dan ddylanwad cyffwrdd â’r Saesneg yn ddiweddarach yn y bennod hon, a bydd hyn yn cynnwys newidiadau anuniongyrchol o’r math a ddisgrifiwyd uchod. Cyn hynny, gadewch i ni ystyried un o ganlyniadau clirïaf cyffwrdd iaith, sef NEWID GEIRIOL (*lexical change*).

3. BENTHYG GEIRIAU

Rydyn ni wedi sôn eisoes am sut mae ‘benthyg’ geiriau yn un ffordd y gall iaith newid oherwydd dylanwad iaith arall. Mae’n broses sydd wedi digwydd ym mhob sefyllfa ddwyieithog ar draws y byd, i wahanol raddau yn dibynnu ar e.e. dwyster cyffwrdd iaith y sefyllfa. Gan fod benthyg geiriau mor gyffredin yn y Gymraeg, bydd yn ddefnyddiol treulio rhan o’r bennod hon yn ystyried y mathau o eiriau sydd wedi eu benthyg i’r Gymraeg, o ba ieithoedd maen nhw wedi cael eu benthyg ac ym mha gyfnodau yn hanes y Gymraeg y cawsant eu benthyg.

DADANSODDI A DEALL

Dyma restr o eiriau Cymraeg sydd wedi eu benthyg o’r Saesneg – ac ydyn, maen nhw i gyd yn eiriau Cymraeg bellach. Darllenwch drwyddyn nhw a rhowch awgrym o *pryd* y benthycwyd y gair i’r Gymraeg (mae hyn yn cael ei fesur mewn geiriaduron ar sail pryd y gwelwn ni’r gair wedi ei ysgrifennu am y tro cyntaf). Yna, ewch at *Eiriadur Prifysgol Cymru* (yn eich llyfrgell leol neu ar-lein ar www.geiriadur.ac.uk) ac edrychwch am bob gair. Pa mor agos oeddech chi o ran dyddiad? A yw’r atebion yn annisgwyl i chi? Pam hynny?

1. mwstásh
2. pathetig
3. program
4. adferteisio
5. relijion
6. lifft
7. rocio

Pwrrpas yr ymarfer uchod oedd dangos i chi nad proses ddiweddar yn unig yw benthyg geiriau i’r Gymraeg. Yn hytrach, mae geiriau Saesneg wedi bod yn cael eu benthyg i’r Gymraeg ers canrifoedd. Yn fwy na hynny, mae Cymraeg wedi benthyg geiriau o ieithoedd eraill hefyd – byddwn yn nodi rhai enghreifftiau isod.

Gadewch i ni ystyried yn gyntaf *pam* mae geiriau’n cael eu benthyg. Yn bennaf, dau brif reswm posib sydd: oherwydd bwlch geiriol neu oherwydd bri. Trafodwyd bylchau geiriol yng nghyd-destun cyfnewid cod ym Mhennod 6: yn achos benthyg, pan nad oes gair yn bodoli am gysyniad yn Iaith A, ond bod gair yn bodoli am y cysyniad yn Iaith B, mae siaradwyr Iaith A yn benthyg y gair o Iaith B er mwyn llenwi’r bwlch hwn yn eu geirfa. Gall bwlch fodoli oherwydd bod y cysyniad yn rhywbeth diwylliannol neu dechnolegol nad yw’n bodoli yng nghymuned na thraddodiad Iaith A e.e. mae eisteddfod yn gysyniad diwylliannol unigryw i Gymru – yn hanesyddol – ac felly pan fu’n rhaid i bobl ddi-Gymraeg gyfeirio at un, benthyg y gair Cymraeg i’r Saesneg a wnaethant, yn hytrach na bathu term newydd.¹ Felly hefyd y gwelir benthyciadau hanesyddol fel yr eirfa Gristnogol gafodd ei benthyg i’r Gymraeg yn ystod y mileniwm cyntaf O.C. (mae’n debyg), megis *mynach* (< Lladin *monachus*), *allor* (< Llad. *altāre*) ac *eglwys* (< Llad. *ecclesia*) – cysyniadau oedd yn benodol yn rhan o ddiwylliant neu draddodiad eglwysig, ac yn achos trigolion Prydain oedd newydd gael eu trosi’n

1 Ceir eisteddfodau ar draws y byd y tu hwnt i Gymru, e.e. yn America ac Awstralia. Weithiau ceir cysylltiadau Cymreig amlwg i’r ŵyl, ond nid bob tro.

Gristnogion gan y cenhadon cynnar, roedd arnynt angen geiriau am y pethau hyn. Gan mai Lladin oedd iaith Cristnogaeth am ganrifoedd lawer, o’r Lladin y benthycwyd y geiriau hyn (digwyddodd proses debyg o fenthbyg i’r Saesneg tua’r un cyfnod).

Yn fwy diweddar, benthycir yn aml enwau dyfeisiadau technolegol a chanddynt enw Saesneg: ystyriwch *trên* (< Saesneg *train*), *belar* (< S. *baler*, h.y. y peiriant fferm), *til* (< S. *till*, h.y. blwch cadw arian mewn siop); yn fwy diweddar eto defnyddir geiriau benthbyg ar gyfer offer cyfrifiadurol, fel *sgrin*, *monitor* a *printiwr*, er bod (i) y geiriau hyn wedi cael eu benthbyg yn hanesyddol yn gynharach er mwyn disgrifio pethau eraill (e.e. *sgrin* ar gyfer gwisgo y tu ôl iddi; *printiwr* llyfrau) ac mai cael eu hailddefnyddio dan ddylanwad eu hystyr newydd yn y Saesneg y maent yma, a (ii) mae geiriau Cymraeg wedi eu bathu/ailddefnyddio ar gyfer y rhan fwyaf o offer cyfrifiadurol – e.e. *llygoden* am ‘mouse’, *allwedd* am ‘key’, *gliniadur* am ‘laptop’, a’r gair *cyfrifiadur* ei hun. Bydd rhai pobl, wrth gwrs, yn cyfnewid cod er mwyn defnyddio termau Saesneg am bethau fel hyn, hyd yn oed os oes gair cynhenid Cymraeg eisoes yn bodoli. Gellir hefyd fenthbyg geiriau o’r Saesneg sydd eu hunain yn eiriau benthbyg o ieithoedd eraill: e.e. *byngalo* (benthyciad i’r Saesneg o’r Hindi gwreiddiol), *robot* (yn wreiddiol o Tsieceg), a *cangarw* (yn wreiddiol o’r iaith Awstralaidd Guugu Yimidhirr); benthycwyd y geiriau hynny gan y Saesneg er mwyn llenwi bwlch yn yr iaith honno hefyd.

Yr ail reswm dros fenthbyg gair yw bri (*prestige*), cysyniad y gwnaethom gyffwrdd arno yn ein trafodaethau ar ddwyieithrwydd cymdeithasol ac agweddau tuag at iaith ym Mhenodau 7 ac 8. Cofiwch fod lefel bri cymdeithasol yn fesuriad o, ymysg pethau eraill, pa mor bositif yr ystyrir rhyw nodwedd (e.e. iaith neu dafodiaith) gan grwpiau o fewn cymdeithas. Yn aml gall iaith fwyafrifol a swyddogol fod â bri uchel, gan ei bod hi’n flaenllaw yn y gymdeithas ac yn cael cefnogaeth statudol, yn weledol yn y cyfryngau torfol, ac yn y blaen – er enghraifft, mae Saesneg ym Mhrydain yn iaith uchel ei bri oherwydd hyn. Ar adeg arall gall iaith fod yn uchel ei bri er nad yw hi’n fwyafrifol, oherwydd bod ei siaradwyr yn ddominyddol yn y gymdeithas – er enghraifft, yn Lloegr yn dilyn y Goncwest Normanaidd yn 1066, concwerwyd yr Eingl-Sacsoniaid (*Anglo-Saxons*) brodorol (a oedd yn siarad Saesneg) gan y Normaniaid (a oedd yn siarad Ffrangeg), ac er mai lleiafrif oedd y Normaniaid, roedden nhw mewn grym ac roedd Ffrangeg yn iaith fwy dominyddol na’r Saesneg yn Lloegr o achos hyn.

Wrth ystyried cyffwrdd iaith a newid iaith, gellir dweud bod newid oherwydd cyffwrdd yn anghymesur mewn ieithoedd sydd â lefelau gwahanol o fri – hynny yw, nid yw dwy iaith sy’n cyffwrdd yn debygol o newid yn ieithyddol i’r un graddau os oes gan un iaith fri cymdeithasol uwch na’r llall; yn hytrach, disgwylir i’r iaith isel ei bri newid o dan ddylanwad yr iaith uchel ei bri, ond nid i’r gwrthwyneb (neu, nid gymaint). Ystyriwch y sefyllfa yn Lloegr wedi 1066 a ddisgrifiwyd uchod: yn y cyfnod hwn (sef cyfnod Saesneg Canol) gwelwyd newid sylweddol yn ffurf yr iaith Saesneg dan ddylanwad Ffrangeg – nid yn unig cafodd geiriau Ffrangeg eu benthbyg i’r iaith Saesneg ar raddfa sylweddol, gan ddisodli’r geiriau Saesneg cynhenid, ond hefyd gwelwyd newidiadau ffonolegol (h.y. sain yr iaith) a chystrawennol yn y Saesneg oherwydd dylanwad y Ffrangeg. Er i’r Saesneg newid yn sylweddol, fodd bynnag, ni welwyd newid mor fawr o gwbl yn Ffrangeg Lloegr yn yr un cyfnod. Mae modd esbonio hyn drwy nodi bod gan y Ffrangeg fri cymdeithasol llawer uwch na Saesneg yn y cyfnod hwn, ac felly roedd y newid iaith a welwyd yn anghymesur.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

- : Mae Cymraeg a Saesneg wedi bod yn cyffwrdd ers canrifoedd. A oedd gwahaniaeth bri hanesyddol rhwng Cymraeg a Saesneg?
- : A fydddech chi’n disgwyl gweld newid iaith cymesur yn y Gymraeg a’r Saesneg oherwydd y ffaith eu bod nhw wedi bod yn cyffwrdd fel hyn?

Nid oes llawer o newid gramadegol wedi digwydd i’r Saesneg yng Nghymru er gwaethaf canrifoedd o gyffwrdd iaith rhwng Cymraeg a Saesneg. Ceir ambell air benthbyg – fel *coracle* (< *cwrwgl*), *coomb*

(< *cwm*), ac o bosib *flannel* (< *gwlanen*) a *penguin* (mae ei darddiad o *pen gwyn*, yn ôl yr *Oxford English Dictionary*, yn bosib, ond mai at aderyn penwyn arall y cyfeiriai'r gair yn wreiddiol) – a cheir rhai nodweddion cystrawennol Saesneg a ddefnyddir gan rai pobl yng Nghymru e.e. mae Thomas (1985) yn cyfeirio at strwythurau fel *he is going to the cinema every week* yng ngorllewin Cymru, yn hytrach na'r strwythur mwy arferol Saesneg *he goes to the cinema every week*, a'r ffaith bod hyn yn gyfieithiad llythrennol o *mae o'n mynd i'r sinema bob wythnos*.

Ar y llaw arall, mae nifer helaeth iawn o eiriau benthyg wedi dod i mewn i'r Gymraeg o'r Saesneg, heb sôn am newidiadau cystrawennol fel y rhai a drafodir isod, ac felly gallwn ddweud bod y newid iaith a ddigwyddodd i'r ddwy iaith oherwydd eu cyffwrdd iaith hanesyddol yn anghymesur. Un esboniad dros yr anghymesuredd hwn yw bod y Saesneg yn uwch ei bri na'r Gymraeg ers amser maith, oherwydd ei statws ac oherwydd niferoedd uchel siaradwyr Saesneg yng Nghymru yn y cyfnod mwy diweddar, ac felly mae'r newid iaith wedi bod yn fwy sylweddol i gyfeiriad yr iaith sydd yn is ei bri. Mae'n debygol mai dyma'r patrwm fyddai i'w weld ar gyfer unrhyw sefyllfa gymdeithasol ddwyieithog debyg.

Gadewch i ni ddychwelyd at fenthyg geiriau. Mae bri yn ffactor mewn benthyg geiriau oherwydd bod siaradwyr weithiau'n benthyg gair o iaith uchel ei bri er bod ganddynt air am yr un cysyniad yn eu hiaith nhw eisoës. I raddau, benthyg gair oherwydd ei fod yn fwy 'ffasiynol' na'ch gair brodorol a geir yma. Dyna'r rheswm dros fenthyg rhai geiriau o'r Ffrangeg i'r Saesneg yn y Canol Oesoedd hwyr: e.e. daw termau milwrol fel *army*, *navy* a *combat* o'r Ffrangeg, ond hefyd eiriau am ddillad a dodrefn fel *dress*, *robe*, *couch* a *chair*. Er bod y pethau hyn i bob pwrpas yn bodoli ym mywyd y Saeson eisoës, fe wnaethon nhw ddechrau defnyddio'r geiriau Ffrangeg oherwydd bri yr iaith honno. Cafodd geiriau Ffrangeg eu benthyg i'r Gymraeg hefyd, ond bod y rhan fwyaf ohonynt wedi dod drwy'r Saesneg, h.y. bod gair wedi cael ei fenthyg o Saesneg i'r Gymraeg a hwnnw'n air o darddiad Ffrangeg – geiriau fel *barwn*, *baner*, *warden* a *doctor*.

Cyn cloi'r adran hon, mae angen ystyried y cysylltiad rhwng benthyg a chyfnewid cod. Fe gofiwch chi (Pennod 5) bod cyfnewid cod yn cael ei ddiffinio fel y defnydd o eiriau o iaith A ac iaith B yn yr un sgwrs, a gellir ehangu ar hyn drwy ddweud bod angen ystyried bod siaradwyr sy'n cyfnewid cod yn ymwybodol – ar ryw lefel – nad yw rhai geiriau y maent yn eu defnyddio yn perthyn i iaith A ond eu bod, yn hytrach, yn perthyn i iaith B. Er enghraifft, mae'r siaradwr Cymraeg sy'n dweud *dwi'n exfoliate-io bob bore* yn debygol o wybod bod *exfoliate* yn air Saesneg, ac felly'n ymwybodol ei fod yn cyfnewid cod. Fodd bynnag, nid yw siaradwyr bob tro'n sylweddoli bod gair benthyg yn air benthyg, ond yn hytrach yn cymryd mai gair o iaith A maen nhw'n ei ddefnyddio. Er enghraifft, mae *losin* yn deillio o'r gair Saesneg *lozenge*, ond mae'n annhebygol y byddai'r rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg sy'n dweud *losin* yn meddwl mai 'gair Saesneg' maen nhw'n ei ddefnyddio. Hynny yw, er mai'r defnydd o air estron yw cyfnewid cod a benthyg, un ffordd o'u gwahaniaethu yw drwy ddweud bod gair benthyg wedi cael ei *dderbyn* i'r iaith, lle nad yw cyfnewid cod *wedi cael ei dderbyn* i'r iaith (h.y. mae siaradwyr yn ei ddefnyddio ond yn ei weld fel gair o iaith arall).

DADANSODDI A DEALL

Isod ceir rhestr o eiriau Cymraeg. Mae rhai’n eiriau benthyg ac eraill yn eiriau brodorol Cymraeg (cyn belled ag y gwyddom). Ceisiwch ddyfalu pa eiriau sydd yn eiriau benthyg a pha rai sydd ddim (atebion ar ddiwedd y bennod). Yna edrychwch yng *Ngeiriadur Prifysgol Cymru* i weld tarddiad llawn pob un.

- 1. Ambarél
- 2. Mam
- 3. Cath
- 4. Licio
- 5. Ffordd
- 6. Coblyn
- 7. Brawd
- 8. Sbel
- 9. Glas
- 10. Smwddio
- 11. Hambygio
- 12. Cyfaill
- 13. Tecell
- 14. Rhacs

Mae nifer o eiriau benthyg yn dechrau fel cyfnewid cod. Ystyriwch y gair *licio* uchod. O’r ferf Saesneg *like* + atodiad Cymraeg *-io* y daw’r gair hwn (mae’n cael ei sillafu’n *leicio* weithiau, sy’n adlewyrchu’r deusain Saesneg yn gliriach), ac mae hyn yn ffordd gyffredin iawn o integreiddio berfau Saesneg i frawddegau Cymraeg – fel yn yr enghraifft *exfoliate-io* uchod. Mae’n debygol iawn bod *like-io* wedi dechrau fel cyfnewid cod wrth i siaradwyr dwyieithog ddefnyddio’r bôn Saesneg *like* mewn brawddeg oedd fel arall yn Gymraeg, gan fod yn ymwybodol ar y cychwyn mai gair Saesneg roedden nhw’n ei ddefnyddio. Yna, dros amser, wrth i fwy a mwy o bobl gyfnewid cod gyda’r un gair, byddai *like-io* wedi dod yn fwy cyffredin, nes i ryw genhedlaeth neu’i gilydd benderfynu ei fod yn swnio’n ddigon tebyg i air Cymraeg nes iddyn nhw ystyried mai Cymraeg ydoedd. Ar y pwynt hwnnw, mae’n deg dweud y byddai *like-io* neu *licio* wedi newid ei statws o fod yn gyfnewid cod i fod yn air benthyg, h.y. yn air Cymraeg o darddiad estron. Fel hyn, mae’n debygol, y mae nifer fawr o eiriau benthyg yn dod i fodolaeth: pan fydd gair o gyfnewid cod yn cael digon o amledd a defnydd yn iaith siaradwyr, dros amser bydd yn cael ei dderbyn fel gair brodorol.

Mae’n bosib bod rhai geiriau benthyg – rhai o’r rhai a drafodwyd yn yr adran hon, efallai – yn teimlo neu’n swnio’n ‘llai Cymraeg’ i chi na rhai eraill. Er enghraifft, er bod *adferteisio* wedi cael ei ddefnyddio mewn ysgrifennu Cymraeg ddwy ganrif a hanner yn ôl, mae sawl un yn synnu ei weld yn y geiriadur. Mae dau ffactor i’w cofio yma. Yn gyntaf, mae’n bosib bod geiriau sydd yn dal i fod yn debyg o ran eu ffurf i eiriau Saesneg yn fwy amlwg fel geiriau benthyg na gair sydd wedi newid yn sylweddol – er enghraifft, mae *rhacs* yn swnio’n dra gwahanol i’w air tarddiol *rags*, lle mae *lift* yn swnio bron yn union fel y gair Saesneg *lift*. Yn ail, mae geiriaduron fel *Geiriadur Prifysgol Cymru* yn cael eu creu drwy ddefnyddio tystiolaeth ysgrifenedig – e.e. mae *adferteisio* i’w weld mewn rhai llythyrau a ysgrifennwyd yn y 1700au – ond nid yw hyn yn angenrheidiol yn golygu bod y gair yn gyffredin ar lafar nac yn air ag amledd uchel. Nid bwriad geiriadur yw nodi pa eiriau sy’n gyffredin neu’n boblogaidd mewn iaith, dim ond nodi pa eiriau sy’n bodoli yn yr iaith! Os byddwn ni’n defnyddio geiriadur fel un o’r meini prawf er mwyn penderfynu ai cyfnewid cod ynteu air benthyg yw gair, yna mae’n rhaid i ni fod yn ymwybodol o’r cyfyngiadau hyn.

4. YMYRRAETH RAMADEGOL MEWN IEITHOEDD SY’N CYFFWRDD

Hyd yn hyn rydym wedi canolbwyntio ar newid geiriol mewn ieithoedd sy’n cyffwrdd, ond gellir gweld newid mewn rhannau eraill o ramadeg iaith hefyd – boed yn newid mewnol ynteu’n newid oherwydd cyffwrdd – gan gynnwys newid ffonolegol (y system sain), newid morffolegol (strwythur geiriol), semantegol (ystyr) neu gystrawennol (strwythur brawddegol) yr iaith. Gellid ysgrifennu llyfr cyfan ar bob un o’r pynciau hyn, felly am y tro gadewch i ni ganolbwyntio ar y math olaf o newid yn y rhestr, sef newidiadau yng nghystrawen iaith sy’n cyffwrdd iaith arall.

Yn ôl damcaniaethau Thomason a Kaufman (1988) y cyfeiriwyd atynt ar ddechrau’r bennod, y mwyaf dwys y dwyieithrwydd ymysg siaradwyr iaith, y mwyaf treiddiol a chreiddiol yw’r newid y gellir ei ddisgwyl. Ac ystyried y sefyllfa gymdeithasol – hanesyddol a chyfoes – rhwng Cymraeg a Saesneg yng Nghymru, gellid disgwyl bod Saesneg wedi cael effaith ar ramadeg y Gymraeg ar hyd ei hanes, er efallai fod y newidiadau’n amrywio, o ran eu math a’u dwyster, yn dibynnu ym mha gyfnod yn hanes y Gymraeg y gwnaethant ddigwydd. Pwrpas yr adran hon fydd crynhoi rhai astudiaethau ieithyddol sydd yn trafod newid gramadegol yn y Gymraeg, gan ganolbwyntio ar newidiadau lled-ddiweddar. Gan mai dwyieithrwydd yw ein diddordeb yn y llyfr hwn, byddwn yn trafod i ba raddau y gellir dweud mai dylanwad iaith arall yn sgil cyffwrdd – sef Saesneg, yn achos y Gymraeg – sydd y tu ôl i’r newid (achos, fel y gwelir, nid yw hi’n glir bob tro mai dylanwad uniongyrchol y Saesneg sydd yn gyfrifol am y newid).

Mae astudiaethau gan Mari C. Jones, a grynhoir yn Jones (1998), yn edrych ar amrywiaeth oedran ymysg siaradwyr Cymraeg mewn dwy ardal yng Nghymru, sef Rhosllannerchrugog – pentref yng ngogledd-ddwyrain Cymru tua pedair milltir o Wrecsam – a phentrefi Cwm Rhymni ym Morgannwg Ganol. Gwelodd fod dylanwad cymdeithasol cryf gan yr iaith Saesneg yng nghyffiniau’r ddwy ardal, ac felly ymchwiliodd i weld a oedd dylanwad gramadegol ar Gymraeg y ddwy boblogaeth oherwydd hyn. Ymysg y pethau a welodd hi yn Rhosllannerchrugog, er enghraifft, oedd bod gwahaniaeth yn rhai o’r nodweddion gramadegol a gynhyrchwyd gan wahanol siaradwyr yn dibynnu ar eu hoedran; hynny yw, roedd siaradwyr ifanc weithiau’n siarad yn wahanol i bobl hŷn. Yr hyn a welodd oedd bod y boblogaeth gyfan yn arddangos defnydd arloesol (*innovative*) – h.y. newydd – o ramadeg, ond bod rhai pobl o fewn y gymdeithas yn defnyddio’r ffurf arloesol yn fwy na phobl eraill. Isod ceir tabl sy’n crynhoi rhywfaint o’r amrywiaeth cystrawennol a welodd Jones (mae’r data wedi cael eu symleiddio rywfaint ar gyfer eu cyflwyno yma; i weld y data cyflawn, ewch at lyfr Jones).

NODWEDD RAMADEGOL ARLOESOL	% 7-19 OED	% 20-39 OED	% 40-59 OED	% 60-74 OED	% 75+ OED
Defnydd o ragenw gwrywaidd (<i>o/fo</i>) ar gyfer enw benywaidd	95	90	45	40	43
Dim defnyddio rhagenw <i>ei</i> cyn berfenwau (e.e. <i>dwi’n (ei) nabod o</i>)	92	68	46	40	32
Defnyddio <i>ie</i> i ateb cwestiwn (yn lle <i>ydw, oes, do, ayyb.</i>)	29	20	8	5	2

Tabl 9.1: Addasiad o ddata o Mari C. Jones (1998) sy’n dangos amrywiaeth yng ngramadeg Cymraeg pobl o wahanol oed o Rosllannerchrugog.

DADANSODDI A DEALL

Lluniwch graff sy'n arddangos yr amrywiaeth oedran uchod. Dylai'ch echelin *x* (ar hyd y gwaelod) gynnwys y pum categori oedran, a dylai'ch echelin *y* (sy'n mynd i fyny'r ochr) redeg o 0 i 100 a chael ei labelu â '% o ddefnydd arloesol gan siaradwyr'. Platiwch y data ar y graff ar gyfer y tair nodwedd gyda chroes fechan, yna tynnwch linell drwy'r croesau er mwyn dangos patrwm yr amrywiaeth ar gyfer y tair nodwedd. Beth yw'r patrwm a welwch chi ar gyfer y defnydd arloesol gan siaradwyr? A oes gwahaniaeth rhwng patrwm y tair nodwedd? (Mae'r atebion yn cael eu trafod isod.)

Yr hyn a welwn ni yn y data uchod yw, fel rheol, bod siaradwyr ifanc yn defnyddio mwy o'r nodwedd ramadegol arloesol na'r siaradwyr hŷn, ac yn wir, yr ieuengaf yw'r siaradwyr, y mwyaf o'r nodwedd arloesol maen nhw'n ei defnyddio. Ystyriwch, er enghraifft, bod plant a phobl ifanc 7–19 oed yn dileu *ei* o flaen berfenw mewn brawddeg fel *dwi'n (ei) nabod* o 92% o'r amser, tra bod pobl canol oed (40–59 oed) yn ei ddileu 46% o'r amser, a'r bobl hynaf (75+) yn ei ddileu ddim ond 32% o'r amser. Yr ieuengaf yw'r siaradwyr, felly, y mwyaf aml maen nhw'n defnyddio'r ffurf arloesol. Beth mae hyn yn ei ddangos i ni?

Mae ieithyddion sydd â diddordeb mewn astudio newid gramadegol mewn iaith yn gallu defnyddio amrywiaeth oedran o fewn data fel arwydd o newid iaith sydd wrthi'n digwydd. Mae damcaniaeth AMSER YMDDANGOSOL (*apparent time*) – gw. e.e. Chambers (1995) – yn honni bod unrhyw amrywiaeth mewn defnydd iaith a welir rhwng pobl o wahanol oedran, ac ystyried *nad* yw iaith pobl yn newid yn ystod eu bywydau, yn arwydd fod newid iaith wedi digwydd rhwng y cenedlaethau hynny. Hynny yw, os yw cenedlaeth ifanc yn defnyddio gramadeg yn wahanol i genhedlaeth eu rhieni, yna mae rhywbeth wedi newid yn yr iaith rhwng i'r rhieni gaffael yr iaith ac i'w plant gaffael yr iaith. Wrth reswm, mae rhai nodweddion ieithyddol sydd yn newid yn ystod bywyd person, ond mae digon o gefnogaeth i'r ddamcaniaeth amser ymddangosol yn y llenyddiaeth fel ei bod yn cael ei hystyried yn offeryn defnyddiol i adnabod newid iaith sydd wrthi'n digwydd: os gwelwch bobl o wahanol oedran yn defnyddio iaith yn wahanol o fewn yr un data, yna gellid dadlau bod hyn yn arwydd o newid iaith, a bod patrwm yr amrywiaeth oedran yn rhoi rhyw arwydd i chi o natur y newid.

O edrych ar ddata Jones (1998), felly, gallwn ddweud bod y ffurfiau arloesol uchod yn newid iaith sydd ar droed yn iaith pobl Rhosllannerchrugog, a'u bod yn dod yn fwy a mwy cyffredin yn yr iaith. Y pen draw, o bosib, fydd bod pawb yn defnyddio'r ffurfiau arloesol hyn, a'u bod felly'n dod yn hollol normal yn iaith y gymdeithas. Nodwch, fodd bynnag, bod rhai ffurfiau'n fwy cyffredin nag eraill: cyson iawn yw dileu *ei* yn iaith pobl ifanc, ond nid yw defnyddio *ie* yn lle *oes* ac ati yn hynod o gyffredin yn iaith y plant ieuengaf, hyd yn oed, eto, sy'n arwydd efallai ei fod yn ffurf ddiweddar iawn nad yw wedi treiddio i mewn i iaith y gymdeithas eto.

Beth oedd tarddiad y ffurfiau arloesol hyn? Mae modd gweld dylanwad gramadeg y Saesneg yn, er enghraifft, y defnydd o *ie* fel ateb i gwestiwn, gan mai dim ond yr opsiwn *yes* sydd fel arfer yn cael ei ddefnyddio i ateb cwestiwn Saesneg, tra bod sawl ffordd o ateb cwestiwn Cymraeg yn dibynnu ar ramadeg y cwestiwn (e.e. *oes gen ti bensel?* / *oes*; *ydy hi'n bwrw glaw?* / *ydy*; *ydy dy fabi di wedi mynd i gysgu?* / *do neu ydy*). Gellid esbonio'r gordddefnydd o *ie* fel ymateb gan siaradwyr Cymraeg o'r cenedlaethau iau i gymhlethdod y system ateb Gymraeg: wrth wynebu rheolau cymhleth y system, maen nhw'n ei symleiddio a'i modelu ar Saesneg, gan ddefnyddio dim ond un ateb, *ie* (neu *na*). Mae amlygiad i iaith, fel y gwelwyd ym Mhennod 3, yn hollbwysig er mwyn caffael strwythurau gramadegol, ac os na chaiff plant amlygiad digonol i strwythur, yn enwedig rhai megis y system ateb neu'r system dreiglo, er enghraifft, mae siawns na fydd y plentyn yn gallu dysgu na defnyddio'r system gyfan. Mae modd gweld cynnydd yn nefnydd *ie* fel symleiddio, dan ddylanwad Saesneg, ar y gramadeg er mwyn parhau i allu cyfathrebu er gwaethaf lleihad yn y mewnbwn.

Astudiaeth arall sy’n dangos amrywiaeth iaith o ran oedran yw ymchwil Davies a Deuchar (2014) i ddileu’r ferf gynorthwyol (*auxiliary verb deletion*) mewn brawddegau Cymraeg. Berf gynorthwyol yw’r ferf ffurfdroëdig (h.y. y ferf gryno) sy’n cyd-fynd â berfenw i gyfleu’r ystyr mewn brawddegau fel yn (1) a (2) – mae’r ferf gynorthwyol mewn print bras.²

- (1) RYDYCH chi’n yfed gwin gwyn.
- (2) Mi WYT ti’n hoffi coffi cryf.

Ac ystyried y sillafu, mae’r gramadeg yn (1) a (2) yn weddol ffurfiol – petaech chi’n dweud y brawddegau hyn ar lafar mewn iaith anffurfiol, mae’n debygol na fydden nhw’n swnio mor ‘llawn’ â hyn: er enghraifft, o ran sain mae’n debygol y byddai *cryf*, o leiaf i siaradwr tafodiaith gogledd Cymru, yn swnio’n fwy fel *cry*, a byddech chi’n annhebygol o glywed *rydych* yn aml ar lafar: mae’n fwy tebygol mai *’dych* neu *’dach* y byddai pobl yn ei ddefnyddio mewn iaith lafar anffurfiol. Yn awr ystyriwch y frawddeg yn (3): a fyddai hon yn anarferol i chi ei chlywed ar lafar mewn sefyllfa anffurfiol?

- (3) Ti’n licio coffi cry?

Mae’n debygol i chi deimlo bod (3) yn rhywbeth y byddai’n gyffredin i chi ei glywed mewn iaith bob dydd, ac un rheswm am hyn yw bod yr eirfa a’r seineg yn fwy anffurfiol. Er enghraifft, defnyddir *licio* yn lle *hoffi*, a *cry* yn lle *cryf*. Yn awr cymharwch gystrawen (3) â (2). Yr un gair yw goddrych (*subject*) y ddwy frawddeg – y rhagenw *ti*. Yn (2) ceir berf gynorthwyol, sef *wyt*, ond yn (3) nid oes rhagenw – gallwn ddweud bod y ferf gynorthwyol wedi cael ei dileu yn (3). (Gan ddibynnu ar eich cefndir damcaniaethol, byddai modd i chi ddefnyddio termau eraill am yr hyn sy’n digwydd yma, ond mae ‘dileu’ yn iawn i ni ei ddefnyddio am y tro, gan nad ydyw’n awgrymu ein bod ni’n dilyn unrhyw ddamcaniaeth gystrawennol benodol.)

Ystyriwch yr enghreifftiau eraill yn (4), (5) a (6) isod, sydd i gyd yn dangos dileu’r ferf gynorthwyol pan mae’n ffurf ar *bod*, ac felly’r goddrych (sydd wedi ei dywyllu ym mhob achos) yw’r gair cyntaf a glywir yn y frawddeg. Daw’r enghreifftiau yma i gyd o’r corpws *Siarad* (gw. Pennod 5 am fwy o fanylion am y corpws hwn), ac mae enw’r trawsgrifiad a ffugenw’r siaradwr mewn cromfachau ar ôl yr enghraifft; mae’r brawddegau wedi eu symleiddio fymryn yma er mwyn eglurdeb.

- (4) Ond **chi** jyst yn ffrindiau? (*Robert6, Eirlys, 56 oed*)
- (5) *Yeah, fi*’n gwybod hynny. (*Robert1, Reginald, 29 oed*)
- (6) **Lily**’n byw ’da Kristen. (*Fusser27, Lisa, 20 oed*)

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: Fyddech chi’n defnyddio’r strwythurau gramadegol sydd i’w gweld yn (3), (4), (5) ac/neu (6)? Neu a oes unrhyw rai ohonyn nhw’n swnio’n od yn eich tafodiaith chi?

: Fydden nhw’n swnio’n fwy naturiol yn iaith rhywun sy’n siarad tafodiaith wahanol? (Ceisiwch beidio â dal rhagfarn tuag at ddefnydd o ramadeg ansafonol fel hyn! Cofiwch mai trafod iaith bob dydd, anffurfiol rydyn ni’n ei wneud wrth ystyried newid iaith.)³

Yr hyn a ddarganfyddodd Davies a Deuchar (2014) oedd bod dileu *wyt* mewn brawddeg fel (3) yn gyffredin iawn mewn iaith anffurfiol. Fe wnaethon nhw ddadansoddi iaith 28 o siaradwyr dwyieithog o’r corpws *Siarad* ac echdynnu 643 o gymalau lle mai *ti* oedd y goddrych a lle y gellid

2 Ffurfiâu ar y ferf *bod* yw’r berfau cynorthwyol yn yr enghreifftiau hyn, er bod berfau fel *gwneud* hefyd yn gallu ymddwyn fel berfau cynorthwyol (WNES i weld *Ceri ddoe*, etc.).

3 Mae’r brawddegau o *Siarad* a geir yn (4), (5) a (6) i gyd yn dod o iaith siaradwyr a gafodd eu magu yn ne Cymru. Tra bod enghreifftiau fel hyn i’w clywed yn nhafodieithoedd de Cymru, fel rheol maen nhw’n ymddangos yn fwy prin neu’n absennol yn nhafodieithoedd gogledd Cymru (gw. e.e. Borsley et al. 2007, Davies a Deuchar 2014), ond bod dileu *wyt* yn bodoli ym mhob tafodiaith.

cael berf ffurfdroëdig gynorthwyol (*wyt*), ac yna nodi pa mor aml roedd y ferf gynorthwyol wedi cael ei dileu. Ar gyfartaledd, eu casgliad oedd bod 93% o gymalau yn dangos dileu *wyt*. Gan fod y data hyn yn cynrychioli siaradwyr o ystod eang o gefndiroedd (e.e. tafodiaith, rhyw, oedran), mae'r canlyniad hwn yn arwydd bod dileu *wyt* yn gyffredin iawn yn iaith anffurfiol siaradwyr Cymraeg. Yn fwy na hyn, mae Davies a Deuchar yn dadlau bod amrywiaeth o ran faint mae siaradwyr o wahanol oedran yn dileu *wyt* yn arwydd bod newid iaith wrthi'n digwydd – bod dileu *wyt* wedi dod yn fwy a mwy cyffredin ers i'r siaradwyr hyn gaffael eu hiaith – ac yn wir mae ymchwil gan Willis (2016) yn dangos tystiolaeth bod dileu'r ferf gynorthwyol i'w glywed mewn Cymraeg mor bell yn ôl â Chymraeg canol y 19eg ganrif, a'i fod bryd hynny'n cael ei ystyried yn arwydd o ramadeg ansafonol yn iaith siaradwyr Cymraeg ail iaith. (Byddwn yn edrych ar enghraifft arall isod o sut mae amrywiaeth oedran yn gallu cael ei ddehongli fel arwydd o newid iaith.)


Ai ymyrraeth gan ramadeg y Saesneg – ac felly newid o'r tu allan – sydd y tu ôl i'r arloesiad? Mae Davies a Deuchar yn tynnu sylw at y ffaith mai'r ferf yw elfen gyntaf cymal arferol Cymraeg, ac os yw'n cael ei dileu, yna'r goddrych (*ti* yn eu data nhw) sydd wedyn ar ddechrau'r cymal. Mae'r gystrawen hon yn debyg i gystrawen brawddeg arferol Saesneg, sydd â'r goddrych yn dod cyn y ferf (e.e. **You** turn to the right / **Ti'n** troi i'r dde). Mae'r awduron yn awgrymu bod dileu'r ferf gynorthwyol yn arwydd o ddylanwad y drefn gystrawennol Saesneg ar siaradwyr, nes eu bod yn hepgor y ferf yn eu brawddegau Cymraeg er mwyn gwneud iddyn nhw ymddangos yn fwy fel rhai Saesneg (proses anymwybodol fyddai hon). Gelwir y ffenomen newid iaith lle mae gramadeg un iaith yn mynd yn debycach i ramadeg iaith arall dros amser yn GYDGYFEIRIANT (*convergence*), a dyna y mae Davies a Deuchar (2014) yn ei awgrymu sy'n digwydd yma: mae'n arwydd bod cystrawen Gymraeg, mewn rhai mannau, yn tueddu i newid nes ei bod yn agosach at gystrawen Saesneg. Byddai hyn hefyd yn un esboniad o'r cynnydd yn nefnydd *ie* i ateb cwestiwn, fel yn nata Jones (1998). Er hyn, mae'r ffaith nad yw dileu'r ferf gynorthwyol yn digwydd ym mhob achos, ac nad yw brawddegau Cymraeg fel arall yn dangos trefn lle mae'r goddrych yn dod gyntaf, yn awgrymu bod y sefyllfa'n fwy cymhleth na hyn. Mae'r ymchwil hon felly yn enghraifft bosib o ddylanwad cystrawen Saesneg ar y Gymraeg ar gyfer rhai strwythurau.

Esiampl arall o newid gramadegol sydd wrthi'n digwydd yn y Gymraeg yw ymchwil Davies (2017) i strwythurau meddiannol. Strwythur meddiannol yw'r dull o gyfleu bod *x* yn perthyn i *y*, e.e. mae trefn y geiriau Cymraeg a welir yn *cwpan Ifor* yn dangos mai *Ifor* biau'r *cwpan* (yn e.e. Saesneg, *Ifor's cup* fyddai'r strwythur, felly yn amlwg gellir cael amrywiaeth ar draws gwahanol ieithoedd o ran sut i gyfleu perchnogaeth yn ramadegol). Pan fydd perchennog yr eitem yn cael ei gynrychioli gan ragenw, mae mwy nag un patrwm y gellir ei ddefnyddio i gyfleu hyn mewn Cymraeg: e.e. *fy nghwpan* neu *fy nghwpan i*, lle ceir rhagenw ychwanegol yn yr ail enghraifft, ond bod rhagenw meddiannol (*possessive pronoun*) cyn y peth sy'n cael ei feddiannu bob tro (*fy* yn yr achos hwn). Gellid galw'r math cyntaf, fel *fy nghwpan*, yn strwythur 'llenyddol' gan ei fod bellach efallai yn cael ei gysylltu ag arddull ffurfiol ac/neu lenyddol, tra gellid galw'r ail fath, fel *fy nghwpan i*, yn batrwm 'brechdan', gan fod rhagenw o flaen ac ar ôl y peth sy'n cael ei feddiannu, megis brechdan.

Ers cryn amser mae ymchwil i iaith plant Cymraeg (e.e. B. M. Jones 1990) wedi canfod bod patrymau eraill yn cael eu defnyddio heblaw'r patrwm brechdan neu lenyddol, lle *nad* oes rhagenw meddiannol, e.e. *cwpan fi*, ac mae M. C. Jones (1998) a Borsley, Tallerman a Willis (2007), er enghraifft, wedi nodi bod y patrwm hwn yn bresennol yn iaith rhai oedolion hefyd. I weld pa mor gyffredin yw'r patrwm arloesol hwn mewn iaith oedolion, dadansoddodd Davies (2017) strwythurau meddiannol yn iaith siaradwyr y corpws *Siarad*, gan ganolbwyntio ar strwythurau *ni* (person 1af lluosog) a strwythurau *ef/fo/hi* (3ydd person unigol), a chymharu defnydd siaradwyr o'r patrwm arloesol *X hi* (etc.) â'u defnydd o'r patrwm 'llenyddol' *ei X* (etc.) a'r patrwm 'brechdan' *ei X hi* (etc.).

Dim ond canlyniadau Davies ar gyfer y ffurfiau 3ydd person (gwrywaidd a benywaidd) y gwnawn ni eu hystyried yn awr. Cafodd 1,055 o strwythurau meddiannol eu dadansoddi, a chofier

bod 151 o siaradwyr yn y corpws *Siarad*, o wahanol gefndiroedd. Mae'r data'n cael eu dangos yn y graff isod, gyda thair llinell, un ar gyfer pob un o'r tri math o strwythur meddiannol, gyda'r echelin y yn dangos amledd pob gwahanol strwythur yn yr iaith ar draws y gwahanol fandiau oedran, sy'n cael eu dangos ar yr echelin x (mae nifer y siaradwyr ym mhob band iaith yn amrywio).



Ffigur 9.1: Amrywiaeth oedran yn amledd y gwahanol fathau o strwythur meddiannol 3ydd person unigol gan siaradwyr yn y corpws *Siarad* (wedi ei addasu o Davies 2017).

DADANSODDI A DEALL

Cyn darllen ymlaen, astudiwch y graff uchod. Pa amrywiaeth oedran ydych chi'n ei weld? Pa batrwm/batrymau sy'n cael eu defnyddio fwyaf aml gan bob grŵp oedran? Beth ydych chi'n ei feddwl y gallai hyn ei olygu?

Yr hyn a welir yn glir yn y graff yw bod y patrwm arloesol (e.e. *cwpan hi/fo/fe*) yn anghyffredin – 23.7% neu'n is – yn iaith siaradwyr 40+ oed, ond ei fod yn ymddangos yn llawer mwy aml yn iaith pobl sy'n iau na 40; mae'r gwahaniaeth yn ystadegol sylweddol. Y peth arall y gellir ei weld yw bod siaradwyr hŷn yn fwy tebygol o ddefnyddio'r patrwm 'brechdan' (*ei chwpan hi/ei gwpan o/e*) neu'r patrwm 'llenyddol' (*ei chwpan/gwpan*) na'r siaradwyr ifanc, sydd yn fwy tebygol o ddefnyddio'r patrwm arloesol. Hynny yw, os yw'r data uchod yn cael eu dadansoddi gan ddefnyddio'r model amser ymddangosol, yna'r newid iaith sy'n cael ei weld yma yw bod y patrwm arloesol yn cymryd lle'r patrymau llenyddol a brechdan yn iaith pobl ifanc a phlant, a gellid ystyried mai dyfodol tebygol y newid hwn yw bod y ffurf arloesol yn dod yn normal yn iaith siaradwyr, a bod y patrymau brechdan/llenyddol yn dod yn rhai anarferol neu'n nodwedd ar iaith ffurfiol yn unig.

Wrth gwrs, dim ond *amcan* o newid iaith y mae amser ymddangosol yn caniatáu i ni ei weld: er mwyn gweld a oes newid iaith yn digwydd go iawn, byddai angen gwneud astudiaeth *AMSER GO IAWN* (*real-time study*), sef mesur amledd nodwedd ieithyddol yn awr ac yna dychwelyd yn y dyfodol i'w fesur eto, a gweld a fu newid, ac ymhlith pa grwpiau o siaradwyr. Mae astudiaethau amser go iawn, o'u hanfod, yn cymryd amser hir i'w cwblhau, ac felly mae dulliau megis amser ymddangosol yn ddefnyddiol ar gyfer cael darlun cyflym o'r hyn sy'n debygol o fod yn digwydd.

Beth yw tarddiad y patrwm arloesol? Ai oherwydd cyffwrdd iaith mae'r patrwm wedi codi ac/ neu wedi cael ei ledaenu? Mae Davies yn nodi nad yw'r patrwm *X hi* (etc.) yn dangos unrhyw debygrwydd i'r strwythur Saesneg *her X*, felly mae'n annhebygol mai ymyrraeth uniongyrchol gan

y patrwm gramadegol Saesneg a welir yma, ond mae Davies yn nodi bod *X hi* yn debyg o ran trefn geiriau i'r dull Cymraeg o fynegi perchnogaeth rhyw eitem sydd ddim yn rhagenw, e.e. *cwpan Ifor* neu *cwpan y dyn*, lle mae'r perchennog yn dilyn yr eitem sy'n cael ei feddiannu. Un dehongliad o sut y cafodd y patrwm arloesol ei greu yw bod siaradwyr wedi symleiddio'r opsiynau oedd ar gael ar gyfer ffurfio'r strwythur meddiannol, ac wedi addasu'r strwythur rhagenwol er mwyn ei wneud yn fwy tebyg i'r strwythur enwol (sydd, fel mae'n digwydd, yn gwneud y Gymraeg yn fwy tebyg i Saesneg, sydd hefyd â strwythurau tebyg: *Ifor's cup, his cup*). Os bydd y patrymau llenyddol a brechdan yn dod yn llai cyffredin yn y dyfodol, yna bydd hyn yn enghraifft o symleiddio'r system ramadegol ar gyfer cyfleu perchnogaeth, a gellid dadlau bod hyn yn symptom o siaradwyr iaith leiafrifol yn addasu gramadeg eu hiaith yn wyneb pwysau dwys gan iaith fwyafrifol, ac felly'n enghraifft o newid iaith drwy gyffwrdd, ond bod dylanwad y Saesneg yn yr achos hwn yn anuniongyrchol yn hytrach nag uniongyrchol.

Yn olaf, gadewch i ni ddychwelyd at gyfnewid cod, y broses o gyfuno geiriau o ddwy iaith yn yr un sgwrs, fel y trafodwyd ym Mhenodau 5 a 6. Yn y penodau hynny fe wnaethom ystyried sut mae pobl yn cyfuno *geiriau* o wahanol ieithoedd, ond wrth drafod damcaniaethau Myers-Scotton (2002) a Poplack (1980) daeth hi'n glir bod tyndra rhwng gramadeg y ddwy iaith hefyd mewn unrhyw frawddeg lle mae ieithoedd yn cael eu cyfuno. Fel y gwelwyd (yn y drafodaeth o ganlyniadau e.e. Davies 2010, Parafita Couto et al. 2011, Carter et al. 2011), mae pobl ddwyieithog Cymraeg-Saesneg fel arfer yn defnyddio gramadeg Cymraeg ar gyfer eu brawddegau CC ac yn mewnosod geiriau Saesneg yn y 'slotiau' sy'n gweddu i ramadeg y Gymraeg. Ond fel yr adroddwyd yn Deuchar a Davies (2009), Davies a Deuchar (2010) a Deuchar, Davies a Donnelly (yn y wasg), ambell waith mae siaradwyr Cymraeg yn cynhyrchu brawddegau sydd yn arddangos ymyrraeth ramadegol gan y Saesneg yn ogystal â geiriau Saesneg. Er mai dim ond canran fechan iawn o'r data o *Siarad* a ddadansoddwyd oedd yn cynnwys ymyrraeth fel hyn, mae'n dystiolaeth bod y broses yn gallu digwydd. Ystyriwch drefn y geiriau yn y cymal yn (7) isod. Beth sydd yn anarferol yma?

(7) a wnes i gael paned efo *numerous* pobl yn cerdded pasio lawr fan'na. (*Stammers6, Blodwen, 18 oed*)

Mae'r ansoddair Saesneg *numerous* wedi cael ei fewnosod mewn brawddeg sydd fel arall yn Gymraeg o ran ei geiriau. Ond nodwch fod lleoliad *numerous*, sydd yn dod o flaen yr enw *pobl* yn hytrach nag ar ei ôl, yn dilyn rheolau gramadeg Saesneg, nid Cymraeg, gan fod ansoddeiriau fel arfer yn dod ar ôl yr enw yn nhrefn geiriau'r Gymraeg. Canfyddodd Deuchar et al. (yn y wasg) mai dim ond wyth brawddeg oedd yn dangos trefn ansoddeiriol anarferol fel hyn yng nghorpws cyfan *Siarad* (ystyriwch fod 40 awr o ddata ar draws iaith 151 o siaradwyr yn y corpws i gyd!). Maen nhw'n ymddangos fel petaent mor brin mewn iaith, felly, fel y gallwn ddweud nad oes newid iaith yn digwydd yma – nid yw siaradwyr fel rheol yn arddangos ymyrraeth Saesneg yn nhrefn ansoddeiriol eu Cymraeg.

Yn yr adran hon rydym wedi ystyried sawl astudiaeth o newid gramadegol yn y Gymraeg sy'n deillio o gyffwrdd iaith, ac wedi darganfod bod rhai newidiadau ar droed yn yr iaith sydd yn deillio o'r cyffwrdd dwys rhwng Cymraeg a Saesneg. Yn yr adran olaf byddwn yn trafod a yw newid iaith yn arwydd o berygl i'r iaith, ac yn nodweddiadol o iaith sydd yn agos at farwolaeth.

5. NEWID IAITH A MARWOLAETH IAITH

Hyd yn hyn yn y bennod hon rydym wedi bod yn trafod sut mae iaith yn gallu newid dros amser o ran ei geirfa ac agweddau eraill ar ei gramadeg. Proses ieithyddol yw newid iaith, o ran bod y prosesau a welir yn effeithio ar *ffurf* yr iaith. Rhywbeth y sonnir amdano'n aml yng nghyd-destun newid iaith yw MARWOLAETH IAITH (*language death*), ond mewn gwirionedd mae'n well ystyried marwolaeth iaith fel proses gymdeithasol, h.y. newid yn *nefnydd*, nid *ffurf*, iaith. Diffiniad syml o iaith farw yw iaith nad oes unrhyw un yn ei defnyddio bellach, ac mae ieithoedd marw o hen hanes yn cynnwys Picteg (*Pictish*, iaith pobl o Ogledd Prydain/yr Alban), Galeg (*Gaulish*, iaith trigolion Celtaidd Ffrainc tua dwy fil o flynyddoedd yn ôl) a Gotheg (*Gothic*, iaith y Gothiaid, sef cefndryd i'r

Eingl-Sacsoniaid oedd yn byw yng nghanol gogledd Ewrop). Rydyn ni’n galw’r ieithoedd hyn yn ieithoedd marw oherwydd (i) nid oes pobl yn fyw sydd yn cyfathrebu drwyddyn nhw, a (ii) does dim iaith arall wedi deillio ohonynt drwy broses o newid iaith – er enghraifft, er bod Celteg yn hen iaith nad yw’n cael ei siarad bellach, newidiodd dros amser i mewn i Gymraeg, Gwyddeleg ac ati, felly nid iaith *farw* yw Celteg ond iaith *sydd wedi newid*.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: Defnyddiwch y rhyngrwyd i ganfod rhagor o ieithoedd sydd wedi marw. Ceisiwch gael hyd i dair iaith a fu farw *ymhell yn ôl* – fel Galeg – a thair arall sydd wedi marw *yn fwy diweddar*. Beth yw’r iaith a fu farw’n fwyaf diweddar y gallwch chi gael hyd iddi?

: Beth oedd y sefyllfaoedd cymdeithasol a arweiniodd at ei marwolaeth hi?

Mae marwolaeth iaith yn tueddu i ddeillio o symud iaith, cysyniad a drafodwyd eisoes ym Mhennod 7, lle mae siaradwyr o fewn cymuned yn troi dros amser o ddefnyddio un iaith i siarad un arall, hyd nad oes neb yn caffael yr iaith wreiddiol a bod honno’n marw. Mae hyn yn golygu bod marwolaeth iaith bron bob tro yn ganlyniad i ddwyieithrwydd cymdeithasol, lle mae dwy iaith yn cyffwrdd ac un yn ennill ar draul y llall. Gellid gweld marwolaeth iaith fel y peth mwyaf eithafol a all ddigwydd i iaith sydd yn cyffwrdd un arall.

Er mai proses gymdeithasol sy’n ymwneud â phethau fel bri a newidiadau demograffig (e.e. lleihad mewn niferoedd siaradwyr) yw symud iaith, ac er nad yw pob enghraifft o newid iaith yn digwydd mewn sefyllfa o symud iaith – fel y trafodwyd uchod – mae iaith sydd â phobl yn symud oddi wrthi yn debygol o arddangos newidiadau, ac weithiau newidiadau gweddol sylweddol. Ceir astudiaeth nodedig o newid iaith mewn sefyllfa o symud iaith yng ngwaith Nancy Dorian (1977, etc.), sydd yn canolbwyntio ar dafodiaith o Aeleg yr Alban, sef Gaeleg East Sutherland (GES). Yn Embo, sef pentref yng ngogledd pell yr Alban lle mae GES yn cael ei siarad, a lle casglodd Dorian ei data, gwelodd hi mai iaith oedd yn cael ei chysylltu â physgotwyr a bywyd tlawd oedd GES, tra bod Saesneg yn iaith â bri uwch oedd yn cael ei chysylltu â llwyddiant cymdeithasol, economi a statws. Roedd Dorian yn cofnodi’r broses o symud iaith yn y gymuned oddi wrth GES tuag at Saesneg, gyda siaradwyr ifanc yn enwedig yn llai tebygol o ddeall a siarad GES na’r genhedlaeth hŷn. Roedd hi’n galw’r siaradwyr ifanc oedd yn deall GES ond ddim yn ei defnyddio’n aml iawn yn hanner-siaradwyr (*‘semi-speakers’*). Yr hyn a welodd Dorian yn digwydd i ramadeg iaith pobl Embo oedd bod gramadeg y cenedlaethau iau yn wahanol i ramadeg iaith y bobl hŷn, a’i fod yn y bôn wedi cael ei symleiddio a’i ailstrwythuro: e.e. roedd system dreiglo GES – nad yw’n annhebyg yn ei hanfod i system dreiglo’r Gymraeg, gan eu bod ill dwy’n ieithoedd Celtaidd – yn arddangos symleiddio sylweddol yn iaith y genhedlaeth iau, ac roedd y siaradwyr ifanc yn llai llwyddiannus o ran treiglo mewn rhai cyd-destunau na’r hen siaradwyr rhugl. Er enghraifft, mae gofyn treiglo enw benywaidd ar ôl bannod fenywaidd mewn Gaeleg, a thra oedd siaradwyr rhugl yn nata Dorian (1977) ddim ond yn peidio â threiglo yn y cyd-destun hwn mewn 1% o achosion, roedd yr ‘hanner-siaradwyr’ ifanc yn methu â threiglo, neu’n defnyddio’r treiglâd amhriodol, mewn 48% o achosion. Er bod y siaradwyr ifanc yn gallu arddangos treiglo mwy tebyg i’r siaradwyr rhugl mewn cyd-destunau eraill, ar y cyfan roedd Dorian yn gweld gwahaniaeth clir rhwng y ddau grŵp. Yn 1972, cyfrodd Dorian mai dim ond tua 140 o siaradwyr GES oedd ar ôl yn Embo, tra oedd tua 2,850 o bobl uniaith Saesneg hefyd yn byw yno – felly tua 4.7% o boblogaeth Embo oedd yn siaradwyr Gaeleg. Dadl Dorian oedd bod y newidiadau enbyd yn system ramadegol GES yn Embo yn arwydd o’r hyn a all ddigwydd i iaith sydd wrthi’n marw.

Fel y trafodwyd eisoes yn y bennod hon, mae gramadeg y Gymraeg yn newid mewn amryw o wahanol ffyrdd ar draws ei system, a gellid pwyntio at hyn fel tystiolaeth ei bod hi hefyd yn mynd drwy symud iaith. Yn wir, mae Alan Thomas (1982) yn awgrymu y gellir trin pethau fel benthg geiriau ar raddfa uchel, newidiadau yn y system dreiglo a’r defnydd o strwythur Saesneg wrth gyfnewid cod fel arwyddion bod y Gymraeg yn mynd drwy broses o symud iaith, ac felly ar y llwybr

tuag at farwolaeth. Er enghraifft, mae Ball a Müller (1992) yn trafod astudiaethau ar dreiglo sy'n awgrymu bod y treigladau llaes a'r treigladau trwynol Cymraeg yn cael eu defnyddio'n llai a llai aml ac/neu reolaidd mewn iaith gyfoes, tra bod y treigladau meddal yn cael ei ddefnyddio yn eu lle gan rai siaradwyr (gw. hefyd Thomas a Gathercole 2005 am drafodaeth o'r newid sydd efallai ar droed yn y system dreiglo yng nghyd-destun cenedl enwau yn y Gymraeg).

Gellid cymharu'r darganfyddiadau uchod â dadansoddiad Dorian o GES, a'i drin fel tystiolaeth bod siaradwyr sydd â diffyg mewnbyn digonol o reolau'r system dreiglo, oherwydd lleihad ym maint ac ansawdd y Gymraeg maen nhw'n ei chlywed yn eu bywydau, yn symleiddio gramadeg eu Cymraeg oherwydd hyn. Pe byddai ymchwilydd yn gweld bod gramadeg Cymraeg yn cael ei symleiddio a'i erydu mewn ffordd gyffredinol ar draws iaith y mwyafrif o siaradwyr, yna gellid defnyddio hyn fel mesuriad o sefyllfa'r Gymraeg.

Mewn modd tebyg, ystyriodd Deuchar a Davies (2009) a oes cysylltiad rhwng cyfnewid cod a dyfodol y Gymraeg. Fe wnaethon nhw fesur faint o arwyddion oedd mewn data o'r corpws *Siarad* bod cyfnewid geiriau o'r Saesneg mewn brawddegau Cymraeg hefyd yn achosi ymyrraeth gan ramadeg Saesneg, e.e. lleoliad yr ansoddair os oedd cyfnewid cod mewn brawddeg Gymraeg. Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, bychan iawn oedd y dystiolaeth bod hyn yn digwydd o gwbl. Awgrymodd Deuchar a Davies y byddai gweld pobl yn rheolaidd yn defnyddio gramadeg Saesneg wrth gyfnewid cod yn gallu bod yn arwydd o newid gramadegol sylweddol yn y Gymraeg, ac felly o bosib – wrth ystyried damcaniaethau Alan Thomas (1982) – yn arwydd o ddirywiad sylweddol yng ngramadeg y Gymraeg, mewn ffordd nid yn annhebyg i'r hyn a welodd Dorian gyda GES. Ond gan nad oedd y data *Siarad* yn dangos bod hyn yn digwydd, awgrymodd Deuchar a Davies (2009) bod y Gymraeg yn sefydlog ar hyn o bryd o ran newid o'r math hwnnw.

Ond rhaid cofio mai prosesau *cymdeithasol* nid *ieithyddol* yw symud iaith a marwolaeth iaith yn y bôn – er gwaetha'r ffaith eu bod nhw'n aml yn cyd-fynd â newid iaith o wahanol fathau. Felly, er mwyn canfod beth yw tynged yr iaith Gymraeg byddai angen edrych ar pwy sy'n siarad yr iaith, faint sy'n siarad yr iaith a phryd maen nhw'n siarad yr iaith – nid o reidrwydd ar beth yw *ffurf* yr iaith. Yn hyn o beth, gellid edrych ar ddata demograffig siaradwyr Cymraeg yn ystod y degawdau diweddar: gostyngodd nifer a chanran pwy o boblogaeth Cymru oedd yn medru siarad Cymraeg rhwng 2001 a 2011, yn ôl y Cyfrifiad cenedlaethol, a phe byddai'r patrwm hwnnw'n parhau yna byddai dyfodol y Gymraeg yn edrych yn dywyll (gw. y drafodaeth ar hyn yn e.e. Deuchar et al. yn y wasg). Ceir ffyrdd, fodd bynnag, o ymateb i newidiadau demograffig mewn iaith leiafrifol, sydd yn rhan o gynllunio iaith, ond materion cymdeithasol yn hytrach na rhai ieithyddol yw'r rhain gan mwyaf.

6. CRYNODEB

Yn y bennod hon rydym wedi edrych ar sut mae ieithoedd yn gallu newid, gan ystyried bod cyffwrdd iaith – sydd yn cynnwys dwyieithrwydd yn y gymdeithas ac/neu ymysg siaradwyr yr iaith – yn un ffactor sy'n gallu arwain at newid. Rydym wedi canolbwyntio gan mwyaf ar ieithoedd lleiafrifol, gan mai dyna sefyllfa'r Gymraeg ar hyn o bryd, gan ystyried y ffyrdd y gall iaith leiafrifol newid yn sylweddol pan fydd hi'n mynd drwy symud iaith a bod ei siaradwyr hi dan bwysau cymdeithasol oddi wrth iaith arall sy'n ddominyddol. Un ffactor pwysig wrth geisio amddiffyn iaith leiafrifol yw bod gan yr iaith honno bresenoldeb yn y byd addysg, gan fod hon yn ffordd flaenllaw i blant gael amlygiad i'r iaith. Bydd hyn yn un o'r pethau y byddwn ni'n ei drafod yn y bennod nesaf, ynghyd â goblygiadau eraill addysg ddwyieithog.

AWGRYMIADAU DARLLEN AM DDWYIEITHRWYDD YN Y GYMRAEG

Davies, Peredur (2017). Age variation and language change in Welsh: Auxiliary deletion and possessive constructions. Yn *Sociolinguistics in Wales*, M. Durham a J. Morris (goln), 31–59. Llundain: Palgrave Macmillan. [*Yn cyflwyno dadansoddiadau o amrywiaeth mewn defnydd o strwythurau*

meddiannol a dileu'r ferf gynorthwyol mewn data Cymraeg o Siarad, ac yn defnyddio amrywiaeth oedran fel ffordd o adnabod newid iaith]

Davies, Peredur a Deuchar, Margaret (2010). Using the Matrix Language Frame model to identify word order convergence in Welsh-English bilingual speech. Yn *Continuity and Change in Grammar*, A. Breitbarth, C. Lucas, S. Watts a D. Willis (goln), 77–96. Philadelphia: John Benjamins. [Yn adrodd ar ddadansoddiad o gyfnewid cod mewn data Cymraeg-Saesneg gan ddefnyddio'r model Ffrâm Iaith Patrics, gan edrych hefyd ar ymyrraeth Saesneg ar ramdeg y Gymraeg drwy CC]

Davies, Peredur a Deuchar, Margaret (2014). Auxiliary deletion in the informal speech of Welsh-English bilinguals: A change in progress. *Lingua* 143, 224–41. [Yn cyflwyno dadansoddiadau o amrywiaeth o ran dileu'r ferf gynorthwyol mewn data Cymraeg o Siarad, ac yn defnyddio amrywiaeth oedran fel ffordd o adnabod newid iaith]

Deuchar, Margaret a Davies, Peredur (2009). Code-switching and the future of Welsh. *International Journal of the Sociology of Language*, 195, 15–38. [Yn adrodd ar ddadansoddiad o gyfnewid cod mewn data Cymraeg-Saesneg gan ddefnyddio'r model Ffrâm Iaith Patrics, gan ystyried a yw CC yn arwydd o symud iaith neu farwolaeth yr iaith Gymraeg]

Jones, Bedwyr L. (1981). Welsh: Linguistic conservation and shifting bilingualism. Yn *Minority Languages Today*, E. Haugen, J. D. McClure a D. Thomson (goln), 40–51. Caeredin: Gwasg Prifysgol Caeredin. [Yn trafod agweddau cymdeithasol ar newidiadau yn y Gymraeg o gyd-destun dwyieithrwydd]

Jones, Mari C. (1998). *Language Obsolescence and Revitalization: Linguistic Change in Two Sociolinguistically Contrasting Welsh Communities*. Rhydychen: Clarendon Press. [Yn trafod dadansoddiadau manwl o amrywiaeth sosioieithyddol a newid iaith yn y Gymraeg mewn dwy gymuned yng Nghymru, gyda ffocws ar y ffyrdd y mae dylanwad y Saesneg yn ymyrryd ar y Gymraeg]

Thomas, Alan R. (1982). Change and decay in language. Yn *Linguistic Controversies: Essays in Linguistic Theory and Practice in Honour of F. R. Palmer*, D. Crystal (gol.), 209–219. Llundain: Edward Arnold Publishers. [Yn trafod y gwahanol newidiadau gramadegol roedd Thomas yn dadlau bod y Gymraeg yn mynd drwyddynt]

Thomas, E. M. a Gathercole, V. C. Mueller (2005.) Minority language survival: Obsolescence or survival for Welsh in the face of English dominance. Yn *ISB4: Proceedings of the 4th International Symposium on Bilingualism*, J. Cohen, K. T. McAlister, K. Rolstad a J. MacSwan (goln), 2233–57. Somerville: Cascadilla Press. [Yn trafod gwahanol enghreifftiau o ramadeg Cymraeg sydd wrthi'n newid, fel treiglo a chenedl enwau, gan edrych ar iaith plant ac oedolion. Mae'r awduron yn cymharu eu canfyddiadau gyda rhai Mari C. Jones (1998)]

Willis, David (2016). Cyfieithu iaith y caethweision yn *Uncle Tom's Cabin* a darluniadau o siaradwyr ail iaith mewn llenyddiaeth Gymraeg. *Llên Cymru* 39, 56–72. [Yn edrych ar Gymraeg hanesyddol ac yn trafod sut mae iaith siaradwyr ail iaith yn cyfrannu tuag at newid iaith]

Atebion Dadansoddi a Deall:

Mae'r geiriau canlynol yn eiriau benthyg: *licio* (< Saesneg *like*), *ffordd* (< *ford*), *coblyn* (< *goblin*), *shel* (< *spell*), *smwddio* (< *smooth*), *hambygio* (< *humbug*), *tecell* (< *tea-kettle*) a *rhacs* (< *rags*). Mae'r lleill yn eiriau Celtaidd ac felly'n gynhenid i'r Gymraeg. Edrychwch yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru am fwy o fanylion am hanes y geiriau hyn oll.

PENNOD 10

Manteision Dwyieithrwydd I: Sgiliau Metaieithyddol

1. CYFLWYNIAD

Mae’n hawdd rhesymu bod y gallu i drafod syniadau, i ddarllen, deall ac i wrando ar wybodaeth mewn mwy nag un iaith yn fanteisiol ar nifer o lefelau ac yn cyfrannu at ymwybyddiaeth sosioieithyddol, sosiowleidyddol a sosiogymdeithasol yr unigolyn. Ond un agwedd ar y maes sydd wedi denu cryn sylw a diddordeb dros y blynyddoedd yw honno sy’n ymwneud â’r berthynas rhwng dwyieithrwydd a sgiliau gwybyddol. Tra bod erthyglau papur newydd a straeon ar-lein di-ri erbyn hyn yn cenhadu ynghylch y berthynas gadarnhaol rhwng y ddau – ‘Why being bilingual works wonders for your brain’ (*Guardian*, 7 Awst 2016) etc. – mae pryder ymysg rhai rhieni a rhai ymarferwyr proffesiynol am effaith dwyieithrwydd ar blant yn dal i fodoli, yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle mae un iaith yn iaith y lleiafrif yn y gymuned. Tra bod ymchwil gynnar wedi amlygu patrymau cymysg o ran y berthynas rhwng dwyieithrwydd a sgiliau gwybyddol ar draws tri chfnod ymchwil penodol – cyfnod ymchwil negyddol, cyfnod ymchwil niwtral a’r cyfnod ymchwil cadarnhaol (gweler Pennod 1) – mae’r canlyniadau diweddaraf yn amlygu patrymau lled-gymhleth, ond hynod ddifyr, wrth i’r maes ehangu a datblygu. Bydd y bennod hon yn olrhain datblygiad ymchwil yn y maes, gan ganolbwyntio’n benodol ar y berthynas rhwng dwyieithrwydd a sgiliau metaieithyddol (gweler y diffiniad isod). Bydd y bennod nesaf, wedyn, yn mynd ymlaen i drafod y berthynas rhwng dwyieithrwydd a sgiliau anieithyddol.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

- : Ac ystyried eich profiadau chi eich hun fel siaradwr dwyieithog, pa fanteision ac anfanteision sydd ynghlwm â bod yn ddwyieithog i chi?
- : Gan ystyried rhai o’r trafodaethau sydd eisoes wedi eu cynnal mewn penodau blaenorol, ceisiwch lunio rhestr o dair mantais a thair anfantais, gan geisio nodi rheswm pam mae’r fantais/anfantais yn bod.

2. DATBLYGIAD YMCHWIL YM MAES DWYIEITHRWYDD

Fel y nodwyd ym Mhennod 1, hanes anffodus iawn sydd i ymchwil gynnar ym maes dwyieithrwydd. Yn dilyn ymchwiliadau na welsant unrhyw fanteision i ddwyieithrwydd, un ai oherwydd bod dwyieithrwydd yn amharu ar y plentyn (ymchwiliadau’r Cyfnod Negyddol) neu oherwydd nad oedd dwyieithrwydd yn ychwanegu dim at brofiad yr unigolyn (ymchwiliadau’r Cyfnod Niwtral), daeth y canfyddiad cyntaf bod posib gweld manteision amlwg i blant dwyieithog yng ngwaith ymchwil dylanwadol Peal a Lambert (1962). Gwnaed ymdrech bwrpasol yn yr ymchwil yma i sicrhau nad oedd y diffygion amlwg a welwyd yn yr ymchwiliadau blaenorol yn bodoli drwy samplu’n ofalus (e.e. cymharu dau grŵp o’r un oed, o’r un ardal) a thrwy gynnwys amrywiaeth ehangach o brofion gwybyddol y tu hwnt i IQ. Dangosodd eu dadansoddiadau bod y plant dwyieithog yn perfformio’n well na’r plant uniaith mewn 15 o’r 18 o dasgau, ac yn benodol yn y rheini oedd yn ymofyn peth hyblygrwydd meddyliol, gyda’r naill grŵp a’r llall yn perfformio fel ei gilydd yn y tri phrawf oedd yn weddill. Er bod diffygion methodolegol (megis lefelau sosio-economaidd gwahaniaethol ar draws y ddau grŵp) yn parhau i fodoli â’r ymchwil hon, agorodd y drws i nifer o ymchwiliadau dilynol oedd â’u bryd ar gyfrannu ymchwil wyddonol gadarn i geisio taflu mwy o oleuni ar y maes.

Ymchwiliadau gwyddonol

Yn dilyn ymchwil Peal a Lambert (1962) gwelwyd twf araf yn nifer yr ymchwiliadau oedd yn cymharu plant dwyieithog â phlant uniaith mewn nifer o wahanol brofion gwybyddol ac ieithyddol – y pedwerydd cyfnod ymchwil. Yn clymu’r rhain at ei gilydd roedd thema ‘hyblygrwydd’; hynny yw, roedd ffocws nifer o’r ymchwiliadau ar brofion oedd yn ymofyn lefel benodol o hyblygrwydd

meddyliol yn deillio o’r syniad bod plant dwyieithog yn meddu ar hyblygrwydd meddyliol yn sgil meddu ar ddwy iaith, a bod yr hyblygrwydd hwn yn caniatáu i’r meddwl hefyd fod yn fwy creadigol. Un math o brawf a ddefnyddiwyd yn lled-gyson yn y 1970au a’r 1980au oedd y PRAWF MEDDWL DARGYFEIRIOL (*Divergent Thinking Test* neu’r *Creative Thinking Test* fel y’i gelwid yn UDA), lle gosodwyd profion megis y rhai hynny sy’n cyflwyno siâp aneglur ar ffurf llinell gan ofyn i’r plentyn orffen y llun drwy ddibynnu ar ei ddychmyg a’i greadigrwydd. Drwy gynnal metaddadansoddiad o’r maes, dangosodd Ricciardelli (1992) bod 20 o 24 astudiaeth yn dangos mantais i blant dwyieithog. Math arall o brofion a ddefnyddiwyd yn aml iawn yn yr un cyfnod a ddangosodd fantais i blant dwyieithog oedd y profion hynny oedd yn mesur sgiliau metaieithyddol.

Beth yw metaieithyddiaeth?

Wrth drafod metaieithyddiaeth mae tuedd gan rai i ddiffinio’r term yn ei gyfanrwydd, tra bod eraill yn ymdrechu i rannu’r cysyniad yn gyfadrannau ystyrion. Yr hyn a olygir yn gyffredinol gan y term YMWYBYDDIAETH FETAIEITHYDDOL (*metalinguistic awareness*) yw bod rhywun yn meddu ar ymwybyddiaeth ymwybodol o sut mae iaith yn gweithio (Hoff 2001), ac nid yn ei hystyried fel modd o gyfathrebu yn unig. Ystyriwch brawf Piaget (1929). Gofynnodd Piaget i blant a oedd modd newid enwau’r haul a’r lleuad fel bod yr haul yn cael ei alw’n lleuad a’r lleuad yn cael ei alw’n haul. Roedd y rhan fwyaf o’r plant yn cytuno bod modd eu newid. Yna gofynnodd beth fyddai i’w weld yn yr awyr gyda’r nos pe byddai’r enwau wedi eu newid. Eto, roedd y rhan fwyaf o’r plant yn deall mai enw’r peth a fyddai i’w weld yn yr awyr gyda’r nos pe newidid yr enwau fyddai ‘haul’, sydd yn arddangos ymwybyddiaeth fetaieithyddol eithaf sylfaenol. Yna, gofynnodd sut y byddai’r awyr yn ymddangos gyda’r nos (h.y. tywyll ynteu olau). Roedd y rhan fwyaf o’r plant o’r farn y byddai’r awyr yn olau gyda’r nos, gan mai ‘haul’ fyddai yn yr awyr – y gwrthwyneb i’r hyn a ddisgwyliid gan unigolion sydd â sgiliau metaieithyddol. Hynny yw, er bod y plant yn ymwybodol eu bod nhw eu hunain ddim ond wedi newid y labelau (sef cynrychiolaeth wybyddol o’r ‘peth’), roeddent yn ymateb i ystyr y gair yn hytrach nag i nodweddion parhaol y ‘peth’. Roedd y plant yn methu gwahanu’r ystyr oddi wrth y gair – iddyn nhw, roedd yr ystyr yn rhan annatod o’r gair ei hun. Fodd bynnag, gan fod plant dwyieithog yn fwy parod i anwybyddu confensiwn ystyr geiriau, mae ymchwil yn honni eu bod yn dueddol o lwyddo’n well yn y math yma o brawf na phlant uniaith (gweler, e.e., Cummins 1978; Bialystok 1988; Ricciardelli 1992). Mae’r gallu hwn i dalu sylw penodol i iaith yn bwysig i blant gan ei fod yn sgil sydd yn cyfrannu at eu gallu i fynegi eu hunain yn briodol, i ddysgu ail iaith (a mwy), yn caniatáu iddynt adnabod a chywiro eu gwallau mynegiannol eu hunain ac unigolion eraill, gan gynnwys camgymeriadau wrth ddehongli ystyr, ac yn cyfrannu at eu dealltwriaeth o sut mae iaith yn cael ei defnyddio yn gymdeithasol (h.y. y gwahaniaeth rhwng ymddygiad ieithyddol priodol ar faes rygbi ac mewn cyfweliad). Mae’r sgiliau hyn yn sail i’w datblygiad deallusol ac addysgol wrth iddynt gyfathrebu a derbyn gwybodaeth drwy iaith.

Cyfeirir at yr un cysyniad gan rai fel GWYBODAETH FETAIEITHYDDOL (*metalinguistic knowledge*), GALLU METAIEITHYDDOL (*metalinguistic ability*) ac YMWYBYDDIAETH FETAIEITHYDDOL (*metalinguistic awareness*), er bod i bob un o’r rhain ogwydd sydd fymryn yn wahanol. Yn ôl Bialystok (2001), *gwybodaeth* fetaieithyddol yw ein gwybodaeth am iaith. *Gallu* metaieithyddol yw’r ymddygiad sy’n cael ei fesur fel arwydd o’n gwybodaeth, a’n *hymwybyddiaeth* fetaieithyddol yw ein gallu i wneud defnydd o wybodaeth fetaieithyddol ac nid ein gallu cyffredinol i ddefnyddio iaith. Ond un peth sy’n cymhlethu’r maes yw nad yw pawb yn cytuno ar beth yn union yw metaieithyddiaeth, nac felly sut y dylai ymddangos, neu sut mae’n bosib ei mesur a’i hastudio.

DADANSODDI A DEALL

Drwy roi enghreifftiau o agweddau ar y Gymraeg a’n defnydd a’n hymwybyddiaeth ohoni, ceisiwch ddiffinio gwybodaeth fetaieithyddol, gallu metaieithyddol ac ymwybyddiaeth fetaieithyddol eich hunain.

Un o'r cynhwysion mwyaf angenrheidiol ar gyfer ymwybyddiaeth fetaieithyddol yw'r gallu i dalu sylw. Fel y nododd Hoff (2001), ac fel mae'r term ei hun yn awgrymu, mae *ymwybyddiaeth* fetaieithyddol yn rhagofyn yr angen i fod yn prosesu iaith yn *ymwybodol*. Ond er mwyn bod yn ymwybodol o brosesu ieithyddol, rhaid talu sylw i strwythurau/ystyron/defnydd o'r iaith yn y lle cyntaf.

Gwahaniaethau rhwng siaradwyr uniaith a dwyieithog

Metaieithyddiaeth oedd un o'r meysydd cyntaf i ddangos y gall fod mantais glir yn sgil meddu ar fwy nag un iaith, ac i ddangos hynny drwy ddulliau ymchwil coeth. Y rheswm, mae'n debyg, yw bod meddu ar ddwy iaith, a'u dysgu ar yr un pryd, rywsut yn annog yr unigolyn i dalu sylw i agweddau arbennig ar y ddwy system, a thrwy hynny'n codi ymwybyddiaeth y plentyn/dysgwr o agweddau systemataidd iaith yn gyffredinol. Felly, yn ôl Bialystok (2001), gall rhai patrymau strwythurol ymddangos yn fwy amlwg i'r unigolyn sydd â dwy system ieithyddol barod i'w harchwilio. Gall bodolaeth y ddwy iaith hefyd annog y plentyn i dalu sylw i elfennau strwythurol iaith yn gynharach, ac felly'n gyflymach na phlentyn sydd a chanddo ddim ond un iaith barod i'w harchwilio.

Sut mae arbrofi am y gallu hwn?

Fel y nodir uchod, nid pawb sy'n gytûn â'r diffiniad o'r term *metaieithyddiaeth*. Yn yr un modd, nid yw pob prawf sydd yn brawf ar gyfer mesur gallu metaieithyddol yn profi'r un peth, yn ymofyn dealltwriaeth ar yr un 'lefel' nac yn cael ei gynnal drwy ddilyn yr un mathau o gonfensiynau arbrofol. Rhaid felly bod yn wiliadwrs wrth ddehongli'r canlyniadau, yn enwedig wrth sôn am allu uwchraddol y plentyn dwyieithog yn gyffredinol ar draws y tasgau. Ond, wedi dweud hynny, mae'r hyn y mae'r profion yn ceisio'i astudio yn gyffredin (h.y. maent i gyd yn ceisio mesur rhyw agwedd ar fetaieithyddiaeth), ac felly mae elfen o astudio'r ffenomen ym mhob un ohonynt. Ond nid oes modd cymharu ar draws y gwahanol dasgau, gan drafod y perfformiad yn ôl gallu metaieithyddol yn gyffredinol, nes bod cytundeb llwyr ynglŷn â'r hyn y mae pob prawf yn ceisio'i fesur.

Pa fath o brofion sy'n bodoli?

Mae nifer o wahanol brofion yn profi sgiliau metaieithyddol drwy astudio agweddau ar ddealltwriaeth yr unigolyn, a hynny ar lefel haniaethol o gystrawen, adnabyddiaeth eirfaol a ffonoleg. Ceir trosolwg hanesyddol a disgrifiadol o'r astudiaethau yn Bialystok (2001), ac mae'r drafodaeth honno wedi ei chrynhai isod. Hyd yma, mae'r astudiaethau sydd wedi cymharu ar draws siaradwyr dwyieithog ac uniaith wedi tueddu i fesur gallu metaieithyddol drwy dasgau cystrawennol ac adnabyddiaeth eirfaol yn hytrach na thasgau ffonolegol.

(i) Adnabyddiaeth eirfaol

Mae astudiaethau o adnabyddiaeth eirfaol yn ceisio astudio adnabyddiaeth plant o'r unedau ieithyddol hynny sy'n cynrychioli geiriau unigol yn eu hiaith. Er mwyn gallu adnabod unedau geirfaol a meddwl amdanynt fel unedau annibynnol y tu hwnt i lith y frawddeg, rhaid i'r plentyn fod yn ymwybodol o'r broses o ymrannu synau ac anwybyddu'r duedd naturiol i dalu sylw i ystyr y frawddeg ei hun. Er mwyn mesur gallu'r plentyn i wneud hyn, gofynnir iddo gwblhau tasgau megis cyfrif sawl gair sydd mewn brawddeg – arwydd bod y plentyn yn ymwybodol o'r broses o ymrannu synau yn unedau llai, ystyrlon – neu gofynnir i'r plentyn ddiffinio gair er mwyn dangos ymwybyddiaeth o ffiniau posib i ystyron geiriau. Er mwyn gallu gwneud hynny'n llwyddiannus, rhaid i'r plentyn fod â dealltwriaeth hefyd o sut mae ystyr geiriau'n gweithio.

Enghraifft gynnar o brawf adnabyddiaeth eirfaol oedd yn dangos gwell perfformiad gan blant dwyieithog yw hwnnw a ddatblygwyd gan Ben-Zeev (1977). Datblygodd dasg oedd yn gofyn i'r plentyn newid un gair am un arall mewn gwahanol frawddegau, fel a ganlyn:

In this game, the way to say 'we' is with spaghetti.

How would you say, We are good children?

gan ysgogi'r ymateb

Spaghetti are good children.

I lwyddo, rhaid anwybyddu'r ystyr anarferol, a chanolbwyntio ar y cyfarwyddiadau ffurfiol yn ei lle. I'r plentyn uniaith, yn ôl dehongliad Ben-Zeev o'r canlyniadau, mae ystyr yn cael ei hystyried fel rhywbeth sy'n rhan annatod o'r gair ei hun, rhywbeth na ellir ei newid. Mae'r plentyn dwyieithog, ar y llaw arall, yn fwy parod i dderbyn bod ystyr yn fwy o gonfensiwn nag o anghenraid, ac felly'n llawer mwy parod i ddeall a derbyn bod modd mynd yn groes i'r confensiwn os oes angen. Dyna un lefel o allu metaieithyddol. A dyna pam, yn ôl Bialystok, mae'r plant uniaith yn cael trafferth gyda'r math yma o dasg.

Yn wir, gwyddom fod ein gallu i anwybyddu ystyr yn dasg anodd yn gyffredinol. Dangosodd Stroop (1935) bod oedolion llythrennog yn dueddol o brosesu ystyr unrhyw air sydd yn wybyddus iddynt yn gwbl naturiol, waeth beth yw gofynion y dasg. Dangosodd gyfres o ansoddeiriau lliw mewn lliw inc nad oedd yn cyfateb i ystyr yr ansoddair (h.y. y gair *glas* mewn inc coch, etc.) a'r dasg oedd enwi lliw'r inc (nid y gair) mor gyflym â phosib (gweler Pennod 11). Er mwyn llwyddo mewn tasg o'r fath, rhaid atal y tueddiad arferol o brosesu ystyr y gair a thalu sylw i liw yr inc yn ei lle.

Mewn dulliau eraill o astudio adnabyddiaeth plant uniaith a dwyieithog o nodweddion geirfaol, gofynnir i blant ddysgu enwau newydd am wrthrychau (yn enwau gwir – e.e. fel yn y dull cyfnewid dau air, megis y pâr geirfaol 'haul-lleuad' a ddisgrifir uchod – ac yn enwau ffug, fel nad oes gan y plentyn ddealltwriaeth barod o'u hystyr) ac annog y plentyn i ddefnyddio'r gair newydd mewn brawddeg (er mwyn dangos ei ddealltwriaeth o ffiniau ystyr). Mae ymchwil o'r fath yn dangos bod plant uniaith a dwyieithog, fel ei gilydd, yn gallu dysgu'r enwau newydd yn ddiymdrech, ond bod y plant dwyieithog yn fwy llwyddiannus wrth ddefnyddio'r geiriau newydd mewn brawddegau pwrpasol (e.e. Feldman a Shen 1971), a nhw sydd fwyaf parod i dderbyn mai mympwyol yw labelau i wrthrychau ac y gall enwau ar gyfer gwahanol bethau cyfarwydd newid (e.e. Ianco-Worrall 1972).

Mewn ymchwil gan Edwards a Christophersen (1988), gofynnwyd i'r plant gyfrif nifer y geiriau mewn brawddeg pan fo eitemau'r frawddeg honno wedi eu cyflwyno yn eu trefn arferol a phan maent wedi eu cyflwyno'n ddi-drefn. Yn y cyflwr arferol roedd yn rhaid anwybyddu'r ystyr ond yn y cyflwr anhrefnus nid oedd amhariaeth o ran yr ystyr na dim arall i ddenu sylw'r unigolyn oddi wrth unedau unigol o'r frawddeg. Dylid disgwyl, felly, i'r plentyn dwyieithog berfformio'n well na'r plentyn uniaith yn y cyflwr arferol, tra nad oes disgwyl unrhyw wahaniaeth penodol yn eu perfformiad yn y cyflwr di-drefn. Roedd y canlyniadau'n dangos dro ar ôl tro bod mantais i'r plant dwyieithog yn y tasgau hynny oedd yn ymofyn lefel uchel o REOLAETH (*control*), ond nid o ran lefelau uchel o DDADANSODDI (*analysis*). Roedd perfformiad pawb yn gwella gyda chynnydd yn eu sgiliau llythrennedd wrth ddelio â'r problemau dadansoddol, ond y plant dwyieithog yn unig oedd yn llwyddo ar y problemau oedd yn ymofyn rheolaeth. Yr hyn y mae canlyniadau o'r fath yn ei awgrymu yw bod plant uniaith a dwyieithog yn cychwyn gyda'r un lefel o wybodaeth fetaieithyddol, ond bod y plant dwyieithog yn gallu cyflawni lefelau uwch o ymwybyddiaeth fetaieithyddol yn gyflymach.

Oes mantais gyffredinol felly?

Ond nid yw perfformiad y plant dwyieithog mewn profion o'u gallu metaieithyddol yn rhagori ar eiddo'r plant uniaith ym mhob agwedd ar eu hadnabyddiaeth eirfaol. Mewn cyfres o bedwar prawf metaieithyddol, gofynnodd Cummins (1978) i blant ystyried gwahanol agweddau ar eiriau. Er enghraifft, mewn un dasg, gofynnodd i blant feddwl am gysondeb geiriau gan ofyn iddynt ystyried bodolaeth gair petai'r endid yr oedd yn cyfeirio ato yn peidio bodoli (e.e. a fyddai'r gair *jiráf* yn parhau i fodoli pe byddai pob jiráf wedi diflannu o'r byd?). Roedd y plant hyn dwyieithog yn rhagori ar y dasg hon. Fodd bynnag, mewn tasg arall oedd yn archwilio dealltwriaeth plant o'r berthynas rhwng nodweddion ffisegol gwrthrych gair a'r gair ei hun (e.e. a yw'r gair *llyfr* wedi ei wneud allan o bapur?) nid oedd gwahaniaeth yn ôl cefndir iaith yr unigolion. Y rheswm am hyn, yn

ôl Cummins ar y pryd, yw bod plant dwyieithog yn rhagori o ran hyblygrwydd ieithyddol yn unig ac nid o ran eu gallu i resymegu y tu hwnt i sefyllfaoedd ieithyddol. (Ond buan iawn y pontiwyd sgiliau'r unigolyn dwyieithog i sefyllfaoedd anieithyddol, fel y gwelir yn y bennod nesaf.)

Yn yr un modd, darganfyddodd Ricciardelli (1992) mai dim ond mewn un dasg adnabyddiaeth eirfaol y cafwyd canlyniadau ffafriol oedd yn dangos rhagoriaeth arwyddocaol i'r plant dwyieithog dros y plant uniaith o blith tair tasg a gyflwynwyd. Nid yw canlyniadau o'r fath yn dangos mantais i blant dwyieithog yn gyson ar draws pob mesur o allu metaieithyddol. Hynny yw, fel y mae perfformiad y plant dwyieithog yn ymddangos yn well na phlant uniaith ar wahanol agweddau ar y dasg, nid yw perfformiad y plant dwyieithog yn ymddangos yn well na phlant uniaith yn gyffredinol. Weithiau, ni cheir gwahaniaethau ystadegol pan ddadansoddir y canlyniadau'n feintiol, ond gwelir gwahaniaethau cynnil o ran y dadansoddiadau ansoddol. Er enghraifft, dangosodd Rosenblum a Pinker (1983) nad oedd gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp o ran eu gallu i ddefnyddio gair ffug yn lle gair go iawn, ond roedd y plant dwyieithog yn fwy tebygol o gyfiawnhau eu hymatebion mewn termau haniaethol a chyffredinol, gan resymu oherwydd bod enwau'n bethau mympwyol y gellir eu newid o dan amgylchiadau penodol. Nid oedd ymatebion y plant uniaith yn dangos yr un 'lefel' o ddealltwriaeth.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: Pam mae ymatebion plant uniaith a phlant dwyieithog yn wahanol yn y math yma o dasg?

: Beth sy'n wahanol am brofiadau'r plentyn uniaith a dwyieithog?

: Ai profiad ieithyddol ynteu gymysgedd o effeithiau eraill sy'n dylanwadu ar eu perfformiad?

Ffactorau dylanwadol

Mewn profion sy'n annog unigolion i archwilio nodweddion iaith, megis mewn profion metaieithyddol, mae'n anochel bod ffactorau sy'n ymwneud â sgiliau iaith yn debygol o gael dylanwad ar berfformiad unigolion ar ryw lefel. Dangosodd Edwards a Christophersen (1988) mai po fwyaf oedd gallu'r plentyn i ysgrifennu a darllen yn ei iaith (lefel ei lythrennedd), y gorau oedd ei berfformiad mewn prawf cyfrif nifer o eiriau mewn brawddeg, a pho gryfaf (neu gyfartal) oedd lefel ei ddwyieithrwydd, y gorau oedd ei berfformiad mewn dau brawf oedd yn astudio mympwyedd cyfeiriol geiriau (h.y. prawf cyfnewid geiriau dilynol gyda'r angen i resymu ynghylch nodweddion materol y gair). Ar yr un pryd, nid oedd lefel eu dwyieithrwydd na lefel eu llythrennedd yn dylanwadu ar eu perfformiad mewn tasgau oedd yn ymofyn am benderfyniadau ynghylch gramadeg brawddegau a chymalau/ymadroddion. Felly, eto, os oes dylanwad gan y ffactorau hyn, nid yw'n dylanwadu ar bob lefel o'u gwybodaeth i'r un graddau.

Yn gyffredinol, felly, mae nifer o astudiaethau'n dangos mantais gynnar i unigolion sy'n ddwyieithog, yn enwedig os oes ganddynt sgiliau llythrennedd da, mewn tasgau sy'n gwrthio rhesymeg yr unigolion am eu cysyniad o 'air'. Fodd bynnag, pan fo'r data'n dangos mantais, nid yw'r fantais hon i'w gweld ar draws pob tasg neu hyd yn oed ym mhob rhan o bob tasg.

Mae Bialystok (2001) o'r farn bod canlyniadau o'r fath yn helpu i werthuso'r effaith, gan y byddai mantais gyson ar draws pob tasg a phob rhan o dasg yn gallu bod o ganlyniad i ryw effaith ehangach na dwyieithrwydd – rhywbeth ynghylch gallu'r unigolion neu fedredd iaith. Ond rhaid cofio mai nod pob tasg yw astudio gallu metaieithyddol, ac os nad yw disgwyliadau pob ymchwilydd o allu metaieithyddol yr un fath, efallai nad oes modd dweud bod y tasgau oll yn mesur yr un peth. Ond mae un peth yn amlwg: mae'r canlyniadau sydd wedi dod i law hyd yn hyn yn dangos bod angen astudio'n fanylach y sefyllfaoedd neu'r amodau hynny lle mae'r siaradwyr dwyieithog yn dangos mantais glir.

Ymwybyddiaeth gystrawennol

Wrth geisio astudio dealltwriaeth fetaieithyddol, y prawf nodweddiadol a ddefnyddir yw un sy'n ymofyn beirniadaeth yr unigolyn am dderbynioldeb gramadegol gwahanol frawddegau. Ond yma eto, nid yw pawb o'r un farn ynghylch derbynioldeb prawf o'r fath fel gwir fesur o allu metaieithyddol (gweler Bialystok 2001: 139).

Mewn profion o'r fath, mae'r brawddegau'n cael eu ffurfio'n bwrpasol fel bod rhaid i'r siaradwr adnabod unrhyw gamgymeriad strwythurol (h.y. camgymeriad o ran y gramadeg) gan anwybyddu unrhyw newid arall (e.e. newid o ran ystyr y frawddeg). Ond, er mwyn gwneud hynny, rhaid rheoli'r duedd arferol o dalu mwy o sylw i ystyr y frawddeg, ac adleoli'r sylw hwnnw fel ei fod yn canolbwyntio ar arsylwi ffurf y frawddeg yn ei le. Dyna yw gwraidd y gallu metaieithyddol yn y cyd-destun hwn, sef rheoli tueddiadau talu sylw.

Nid ydym, fel arfer, yn talu unrhyw sylw i strwythur ieithyddol wrth gyfathrebu gydag eraill yn llafar neu'n ysgrifenedig. Ond, mewn profion metaieithyddol, dyna sydd yn hawlio'n sylw – elfennau strwythurol iaith – a thrwy ymateb yr unigolion i elfennau o'r fath y mesurir eu gallu metaieithyddol. Felly, mesurir gallu'r unigolyn i reoli ei sylw ar agwedd arbennig ar y broblem. Mae'r angen i reoli tueddiadau arferol talu sylw yn fwyaf amlwg yn y sefyllfaoedd hynny pan mae sefyllfa neu broblem yn cynnwys elfen amwys neu elfen sy'n cystadlu ag elfen arall. Er enghraifft, nid yw brawddeg fel

(1) Rowliodd y bêl yr holl ffordd i lawr yr allt

yn amwys o ran ystyr na gramadeg (h.y. mae'r frawddeg yn gwneud synnwyr ac mae hi'n frawddeg gywir). Gan nad yw brawddeg o'r fath yn amwys, gellir llunio cynrychiolaethau gwybyddol a thalu sylw digonol i'r elfen sy'n bwysig yn ddigon hawdd wrth benderfynu ar gryfder gramadegol y frawddeg. Ond, pan ychwanegir camgymeriad gramadegol i'r frawddeg, megis

(2) Rowliodd y bêl holl i lawr yr allt ffordd

mae'r angen i ddadansoddi yn cynyddu fel bod rhaid talu sylw i'r camgymeriad gramadegol. Ond, os ychwanegir gwybodaeth sy'n tynnu sylw'r unigolyn, ond nad yw'n help i ddatrys y broblem, mae hyn yn achosi mwy o atynfa at y camgymeriad yn yr ystyr yn fwy na'r gramadeg, megis yn yr enghraifft

(3) Criodd y bêl yr holl ffordd i lawr yr allt.

Wrth resymu ynghylch derbynioldeb (neu gywirdeb) gramadegol y frawddeg, rhaid anwybyddu'r duedd i ganolbwyntio ar gynrychiolaeth wybyddol sy'n nodi bod yr ystyr yn anghywir, a derbyn bod y frawddeg, fel yn (3), yn dal yn ramadegol gywir.

Mewn ymgais i ddatrys y broblem mewn sefyllfaoedd o'r fath, felly, rydym yn llunio dwy (neu fwy) o gynrychiolaethau gwybyddol sydd ill dwy (neu fwy) yn berthnasol i'r broblem, ond dim ond un sy'n cynnwys yr ateb cywir. Rhaid talu sylw i un o'r cynrychiolaethau hynny (yr un gywir) gan atal sylw i'r llall, os am lwyddo yn y dasg. Drwy dalu sylw i'r gynrychiolaeth gystadleuol (yr un anghywir yn yr achos hwn) gall hynny arafu a thrwy hynny amharu ar berfformiad yr unigolyn. Mae angen i'r plant ddatblygu o fod â DEALLTWRIAETH GYNHWYSOL (*content-based understanding*) i fod â DEALLTWRIAETH STRWYTHUROL (*structure-based understanding*) o iaith er mwyn llwyddo yn y dasg.

Mae profion o'r fath wedi dangos eto wahaniaethau rhwng perfformiad plant dwyieithog ac uniaith yn y tasgau. Mewn ymchwiliad gan Galambos a Hakuta (1988) roedd plant dwyieithog ar y blaen gyda thasgau beirniadu a chywiro gramadeg brawddegau, ond dim ond y plant dwyieithog hŷn oedd ar y blaen mewn tasgau lle roedd yn rhaid canfod yr elfen amwys ac ailgyflwyno ystyr y frawddeg yn eu geiriau eu hunain. Yn ychwanegol at hyn, nodwyd bod lefel gallu'r plant yn eu dwy iaith yn cael effaith arbennig ar y canlyniadau. Felly, fel yn achos y profion adnabod elfennau

geirfaol, nid yw dwyieithrwydd ynddo'i hun yn dylanwadu ar y perfformiad; mae'n gyfuniad o ffactorau sy'n cynnwys dwyieithrwydd.

Dangosodd Galambos a Goldin-Meadow (1990) fod y gallu i adnabod a chywiro camgymeriadau yn sgîl sy'n datblygu'n systemataidd mewn plant dwyieithog ac uniaith (rhwng 4, 6 ac 8 oed), ond bod y plant dwyieithog yn datblygu'r sgîl yn gyflymach, ac yn dangos mantais dros y siaradwyr uniaith ar bob oed. Fodd bynnag, nid oedd gwahaniaeth yn eu gallu i egluro'r camgymeriadau. Roedd yr awduron o'r farn, felly, bod dwyieithrwydd yn newid cyflymder datblygu'r sgîl, ond nid hynt y datblygiad hwnnw.

Mae Bialystok a'i chyd-weithwyr hefyd wedi darganfod bod mantais i'r unigolyn dwyieithog mewn tasgau sy'n ymofyn barn am dderbynioldeb gramadegol y frawddeg, lle mae'r siaradwyr uniaith yn cael cryn drafferth derbyn bod brawddegau gramadegol yn gywir pan fo'r elfen semantidd (yr ystyr) yn anghywir. Ond eto, mae ymchwil arall wedi dangos nad yw hyn yn fantais gyffredinol, a bod lefel dwyieithrwydd, ac weithiau amllder derbyn mewnbnwn yn un neu ddwy o'r ieithoedd, yn dylanwadu ar allu'r unigolyn i berfformio i'w lawn botensial (ac arddangos y fantais ddwyieithog) yn y dasg (gweler, e.e., Gathercole et al. 2014 am astudiaeth o siaradwyr dwyieithog yng Nghymru).

Ymwybyddiaeth ffonolegol

Er nad dyma'r dull traddodiadol o astudio datblygiad metaieithyddol mewn siaradwyr dwyieithog ac uniaith, mae rhai astudiaethau wedi edrych ar berfformiad y naill grŵp a'r llall mewn profion o'r fath. Fodd bynnag, mae nifer o'r astudiaethau hynny'n ddiffygiol o ran nifer y plant sydd wedi'u cynnwys ac o ran y math o siaradwyr dwyieithog sydd wedi'u cynnwys. Er enghraifft, roedd y plant yn astudiaeth Rubin a Turner (1989) i gyd o deuluoedd Saesneg, ond bod rhai'n mynychu ysgolion trochi Ffrangeg ac eraill yn mynychu ysgolion Saesneg. Roedd y plant oedd yn cael Ffrangeg yn yr ysgol ar y blaen mewn profion o ymwybyddiaeth ffonolegol, tra bod Bruck a Genesee (1995) yn dangos bod y siaradwyr dwyieithog ar y blaen yn 5 oed ('Kindergarten') mewn prawf ymrannu odl gychwynnol ('onset-rime segmentation'), ond roedd y fantais wedi diflannu erbyn 6 oed ('Grade 1'). Yn 6 oed, roedd y siaradwyr uniaith ar y blaen mewn prawf cyfrif ffonemau.

At hynny, dangosodd Yelland, Pollard a Mercuri (1993) bod mantais gynnar i blant dwyieithog mewn tasg adnabod a oes gan luniau enwau hir ynteu fyr, er bod hynny'n diflannu erbyn 6 oed, a bod y siaradwyr dwyieithog ar y blaen gydag adnabyddiaeth o eirfa yn 6 oed. Ond siaradwyr dwyieithog cychwynnol oedd y rhain i gyd.

Ymchwiliodd Bialystok, Majumder a Martin (2003) i'r gwahaniaethau rhwng plant dwyieithog cryf ac uniaith 5, 6 a 7 oed mewn gwahanol brofion o ymwybyddiaeth ffonolegol. Er enghraifft, gofynnwyd iddynt newid sŵn dechreuol gair targed (e.e. disodli'r /k/ ddechreuol yn 'cat') gyda sŵn dechreuol gair arall (e.e. yr /m/ o 'mop') fel bod modd iddynt greu gair o'r newydd ('mat'). Mewn prawf o'r fath, nid oedd gwahaniaeth i'w weld rhwng y plant uniaith a'r plant dwyieithog.

Mewn arbrawf arall, defnyddiwyd y dasg sain-ystyr, lle roedd disgwyl i'r plant ddewis pa air o ddau ddewis oedd yn cyfateb i air targed o ran sŵn (odl) neu ystyr (CYFYSTYRAETH – *synonym*) e.e.

Which word sounds something like dog: frog or puppy?

Mae tasg o'r fath yn gofyn am lefelau isel iawn o ymwybyddiaeth seinegol. Mewn tasg arall roedd gofyn i'r plant gyfrif sawl ffonem oedd mewn gair, tasg sy'n gofyn i'r plentyn dalu sylw penodol i strwythur seinegol y gair (er nad oes angen sgiliau gwybyddol arbennig er mwyn cyflawni'r dasg). O dair tasg a roddwyd iddynt, roedd y plant dwyieithog yn perfformio'n well yn y prawf cyfrif ffonemau yn unig. Yn yr astudiaeth hon, ymrannwyd y plant yn ddau grŵp – y rhai hynny oedd yn ddwyieithog mewn Saesneg-Sbaeneg a'r rhai hynny oedd yn ddwyieithog mewn Saesneg-Tsieineeg. Dim ond y grŵp Saesneg-Sbaeneg oedd yn dangos y perfformiad gwell. Felly, mae'n debyg bod rhywfaint o fantais mewn bod yn ddwyieithog ar gyfer datrys tasg o'r fath, ond dim ond

pan fo’r prawf yn eithaf syml a dim ond pan fo strwythur ffonolegol (ac ysgrifenedig?) y ddwy iaith yn debyg i’w gilydd.

Eto, mae canlyniadau o’r fath yn tanlinellu nad dwyieithrwydd ei hun sy’n gyfrifol am unrhyw wahaniaethau, ond ffactorau amgenach na hynny, ffactorau sy’n ymwneud â’r profiadau y mae’r plentyn dwyieithog yn eu cael o fod yn ddwyieithog. Fodd bynnag, os yw’r amgylchiadau’n caniatáu, mae mantais i blant dwyieithog dros blant uniaith ar wahanol fesuriadau o allu metaieithyddol.

Materion methodolegol a pherthnasedd y canlyniadau

Un peth pwysig i’w gadw mewn cof wrth ystyried canlyniadau astudiaethau o’r fath yw bod gwahaniaethau amlwg a naturiol rhwng grwpiau dwyieithog ac uniaith. Wrth gwrs, mewn unrhyw ymchwil, mae angen sicrhau bod y grwpiau sy’n cael eu cymharu yn wahanol o safbwynt y nodweddion hynny sy’n cael eu mesur gan y dasg, a dim arall. Ond mae rhai nodweddion nad yw’n bosib eu mesur er mwyn sicrhau eu bod yr un fath ym mhob grŵp. Mae profiadau dysgu iaith a medredd y plant dwyieithog yn eu naill iaith a’r llall yn mynd i fod yn wahanol i’r profiad/medredd uniaith. Mae’n deg disgwyl, felly, y bydd perfformiad yn newid yn ôl rhai o’r nodweddion hyn.

Mae rhai ymchwilwyr wedi cychwyn cynnwys is-grwpiau o fewn y grŵp dwyieithog (e.e. dwyieithog cydamserol vs. dwyieithog olynol) yn eu hymchwil. Er enghraifft, ar y naill law, arsylwodd Bialystok (1988) fod mantais i siaradwyr dwyieithog cytbwys, tra bod Gathercole (1997) yn arsylwi anfanteision ar gyfer siaradwyr rhannol ddwyieithog. Yn fwy diweddar, mae gwaith ymchwil trylwyr Gathercole et al. (2014) wedi methu dangos mantais amlwg mewn profion metaieithyddol, ond roedd tuedd i siaradwyr dwyieithog oedd yn gryfach eu Cymraeg na’u Saesneg berfformio’n well na siaradwyr dwyieithog cytbwys neu siaradwyr dwyieithog oedd yn gryfach eu Saesneg na’u Cymraeg mewn profion metaieithyddol yn y Gymraeg, tra bod tuedd i siaradwyr dwyieithog oedd yn gryfach yn eu Saesneg berfformio orau o’r grwpiau dwyieithog mewn prawf metaieithyddol yn Saesneg. Os yw’r siaradwyr yn rhannol ddwyieithog, mae gallu neu fedredd yr unigolyn yn yr iaith yn dylanwadu ar ei berfformiad, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd cynnar (Hakuta a Diaz 1985), tra bod eraill yn honni bod gwell perfformiad yn datblygu ochr yn ochr â chynnydd mewn profiad (e.e. Jarvis, Danks a Merriman 1995). Bydd arsylwadau o unrhyw wahaniaeth rhwng grwpiau o’r fath yn ein cynorthwyo yn y gwaith o archwilio lle yn union y ceir y fantais ddwyieithog.

Problem arall yr ydym eisoes wedi sôn amdani yw’r tasgau eu hunain. Mewn tasgau sy’n gofyn am ddadansoddiadau manwl o ramadeg yr iaith (e.e. tasgau ymwybyddiaeth gystrawennol) gall lefel y dadansoddiad neu natur y gynrychiolaeth haniaethol o ble mae’r dadansoddiadau’n deillio newid yn ôl gofynion y dasg. Mewn tasgau beirniadu derbynioldeb gramadegol y frawddeg, er enghraifft, gofynnir i’r plentyn feirniadu defnydd o strwythurau gramadegol drwy ofyn iddo adnabod eithriadau i’r rheol. Ond, wrth gwrs, rhaid bod y plentyn yn ymwybodol o fodolaeth y rheol yn y lle cyntaf os am allu rhesymu ynghylch ei defnydd. Ond gall yr hyn a olygir gan ddealltwriaeth o reol, a pha lefel dealltwriaeth y mae hynny’n ei gynrychioli, newid yn ôl ffactorau megis lefel ymwybyddiaeth ac amlygrwydd y rheol. Er enghraifft, yn yr ymchwil gan Galambos a Goldin-Meadow (1990), roedd y tasgau’n gofyn i’r plant nodi a oedd camgymeriad, cywiro’r camgymeriad ac yna esbonio’r camgymeriad. Roedd y plant yn ymateb yn wahanol i’r tair tasg, er bod y tair tasg yn mesur ac yn annog ymatebion oedd yn gofyn am ymdriniaeth fetaieithyddol.

METHODOLEG MAES

Lluniwch brawf metaieithyddol eich hun er mwyn dangos gallu metaieithyddol yn y Gymraeg ac yn Saesneg.

Ac ystyried y mathau o ffactorau all ddylanwadu ar berfformiad plant dwyieithog, sut byddech chi’n disgwyl i Rhys, Bethan a Liam berfformio yn y dasg, a pham?

A oes mantais i siaradwyr dwyieithog mewn tasgau metaieithyddol?

Ac ystyried yr holl ymchwil a drafodir uchod, mae'n amlwg mai gwahaniaeth penodol sydd rhwng y ffordd y mae plant dwyieithog ac uniaith yn datblygu sgiliau metaieithyddol, ac nid gwahaniaeth cyffredinol. Nid yw'r plant dwyieithog ar y blaen ym mhob tasg, nac ym mhob rhan o dasg sydd wedi ei llunio'n bwrpasol er mwyn mesur gallu metaieithyddol arbennig. Ond gellid arsylwi bod y fantais ddwyieithog i'w gweld, gan amlaf, yn y tasgau hynny sy'n ymofyn am y gallu i ddewis a dethol ble mae'n rhaid talu sylw, yn enwedig pan fo gwybodaeth gamarweiniol yno i gystadlu am y sylw. Mae hyn yn gwneud synnwyr gan fod y plentyn dwyieithog wedi arfer talu sylw i, a chanolbwyntio ar, ffurf iaith (elfen haniaethol o'r system) er mwyn gallu gwahaniaethu rhwng a gwneud defnydd o'i ddwy iaith.

Yn ôl Galambos a Goldin-Meadow (1990), efallai fod yr ymarfer ychwanegol y mae'r plentyn dwyieithog yn ei gael o fod yn canolbwyntio ar ddwy iaith o oedran cynnar iawn (ac o'r crud mewn rhai achosion) yn hyrwyddo'r dasg o feddwl am iaith fel system ffurfiol ac arsylwi ei nodweddion. Er bod plant dwyieithog weithiau'n dangos cynrychiolaethau ieithyddol ar lefel uwch na phlant uniaith drwy fod â'r gallu i ddatrys problemau sy'n ymofyn am lefel uchel o ddadansoddi, nid yw canlyniadau o'r fath yn gyson. At hynny, gall ffactorau eraill megis lefel wybyddol y plant, y berthynas rhwng y ddwy iaith a gallu/medredd y plentyn yn y naill iaith a'r llall ddylanwadu ar eu canlyniadau mewn tasgau o'r fath.

Ond mae sgiliau metaieithyddol yn sgiliau gwybyddol. Felly, os yw dwyieithrwydd yn cael dylanwad ar berfformiad metaieithyddol, boed hynny o dan amgylchiadau penodol ai peidio, dylid disgwyl y bydd yr un effaith i'w gweld mewn tasgau sy'n gofyn am yr un math o ddadansoddiad meddyliol o broblem, ond lle nad oes angen i'r unigolyn ddibynnu ar ei wybodaeth o strwythur iaith er mwyn cyflawni hyn. Wrth i'r maes ddatblygu, gwelwyd cynnydd yn nifer yr astudiaethau oedd yn edrych yn benodol ar y berthynas rhwng dwyieithrwydd a sgiliau uwchwybyddol penodol. Awn ymlaen i drafod y berthynas hon yn y bennod nesaf.

3. CRYNODEB

Yn y bennod hon trafodwyd y maes ymchwil cynharaf lle arddangoswyd tystiolaeth o fanteision gwybyddol dwyieithrwydd, gan ffocysu'n benodol ar un agwedd ar sgîl gwybyddol sef metaieithyddiaeth. Trafodwyd cymhlethdod diffinio'r term a'r problemau wrth geisio mesur y sgîl yn wyddonol, ac adolygwyd y mathau o ymchwil a'r methodolegau penodol sydd wedi eu datblygu i geisio mesur y berthynas rhwng dwyieithrwydd a sgiliau metaieithyddol. Trafodwyd y rhesymau pam y gellid disgwyl i blant dwyieithog brofi mantais o ran eu sgiliau metaieithyddol a daethpwyd i'r casgliad bod yr ymchwil yn y maes yn dangos manteision mewn rhai agweddau ar fetaieithyddiaeth ond nid ym mhob agwedd nac ym mhob prawf.

GWAITH DARLLEN ALLWEDDOL

Gombert, J. E. (1992). *Metalinguistic Development*. The Developing Body and Mind Series, Llundain: Harvester Wheatsheaf. [Mae'r gyfrol hon yn gyflwyniad da i'r maes ac yn ymgais dda i berthnasu prosesau metaieithyddol i iaith yn benodol]

Baker, C. a Wright, W. (2017). *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism*, 6ed argraffiad. Clevedon: Multilingual Matters.

Bialystok, E. (2001). *Bilingualism in Development: Language, Literacy and Cognition*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt. [Mae'r ddau gyhoeddiad yma yn rhoi trosolwg da o'r llyfryddiaeth yn y maes ac yn benodol o ran y berthynas rhwng metaieithyddiaeth a dwyieithrwydd]

Bialystok, E. (1988). Levels of bilingualism and levels of linguistic awareness. *Developmental Psychology* 24, 560–567.

Bialystok, E. (1991). Metalinguistic dimensions of bilingual language proficiency. Yn *Language Processing in Bilingual Children*, E. Bialystok (gol.), 113–140. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol

Caergrawnt. [Mae’r ddwy erthygl yma yn rhoi syniad o sut y mae ymchwil yn mynd ati i archwilio’r berthynas rhwng dwieithrwydd a sgiliau metaieithyddol]

AWGRYMIADAU DARLLEN AM DDWYIEITHRWYDD YN Y GYMRAEG

Gathercole, V. C. M., Thomas, E. M., Kennedy, I., Prys, C., Young, N., Viñas Guasch, N., Roberts, E. J., Hughes, E. K. a Jones, L. (2014). Does language dominance affect cognitive performance in Bilinguals? Lifespan evidence from preschoolers through older adults on Card Sorting, Simon, and Metalinguistic Tasks. Special issue of *Frontiers in Psychology* on the Development of Executive Function in Children. *Frontiers in Psychology: Developmental Psychology* 5, erthygl 11. [Dyma erthygl sydd yn seiliedig ar astudiaeth wyddonol sydd wedi archwilio sgiliau metaieithyddol plant ac oedolion dwieithog yng Nghymru]

PENNOD 11

Manteision Dwyieithrwydd II: Sgiliau Uwchwybyddol

1. CYFLWYNIAD

Un agwedd ar faes ymchwil dwyieithrwydd sydd wedi cynyddu’n aruthrol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yw honno sy’n edrych ar y berthynas rhwng dwyieithrwydd a sgiliau anieithyddol penodol, sef sgiliau UWCHWYBYDDOL (*Executive Function*) – set o sgiliau gwybyddol sydd yn rheoli ein hymateb i wahanol bethau fel bod modd i ni gyflawni’r hyn yr ydym yn ei wneud. Mae’r sgiliau hyn yn cynnwys ein gallu i dalu sylw (yn ddethol, fel y bo’r galw), trefnu gwybodaeth, datrys problemau, diystyru gwybodaeth ddiangen a meddwl yn hyblyg, ymysg eraill. Mae’r rhain yn sgiliau pwysig i’w meistroli, fel y nodir yn y dyfyniad hwn:

The development of the executive-function system, located in the prefrontal cortex, is the most crucial cognitive achievement in early childhood. Children gradually master the ability to control attention, inhibit distraction, monitor sets of stimuli, expand working memory, and shift between tasks. Importantly, these are the same cognitive processes that show the first evidence of decline in aging. Therefore, if bilingualism affects executive functioning, the impact should be found across the entire cognitive system and throughout the entire life span (Bialystok a Craik 2010: 20).

Erbyn heddiw, mae peth wmbreth o ymchwil wedi ei chynnal yn y maes, yn defnyddio nifer fawr o brofion gwahanol, ar draws nifer o barau o ieithoedd ac ar draws ystod eang o oedrannau, ac mae’r canlyniadau’n gymysg ac yn dra chymhleth. Bwriad y bennod hon yw olrhain y rhesymeg tu ôl y syniad bod gwahaniaethau posib ar draws siaradwyr dwyieithog ac uniaith o ran y sgiliau hyn, a chyflwyno darlun cyfoes o sut mae’r ymchwil yn ymddangos, yn enwedig felly yma yng Nghymru, gan annog trafodaeth ar y ffactorau hynny sy’n dylanwadu ar berfformiad unigolion mewn sgiliau o’r fath.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

: Ac ystyried rhai o’r trafodaethau sydd eisoes wedi eu cynnal ym mhenodau blaenorol y llyfr, ceisiwch ystyried beth sydd yn unigryw a phenodol am brofiadau’r siaradwr dwyieithog i’w gymharu â phrofiadau’r siaradwr uniaith fyddai’n arwain at well sgiliau uwchwybyddol fel y disgrifir uchod?

Pam disgwyl gwahaniaeth rhwng siaradwyr dwyieithog ac uniaith?

Mae’r ymennydd dynol yn rhwydwaith cymhleth o gysylltiadau niwral. Cyn bod y baban dynol wedi ei eni, mae i’r ymennydd dynol filiynau o niwronau parod sy’n datblygu swyddogaethau penodol ac yn cysylltu’r naill a’r llall. Ac os yw prysurdeb yr ymennydd dynol yn ddigon i godi braw, mae prysurdeb yr ymennydd dwyieithog hyd yn oed yn fwy brawychus! Mae i’r ymennydd dwyieithog ddau rwydwaith ieithyddol cymhleth i’w storio, i’w prosesu ac i’w hadalw pan fo’r galw, ond nid yw’r ymennydd ddim mwy o ran maint, yn ddim gwahanol o ran siâp nac yn drymach o ran pwysau nag unrhyw ymennydd arall. Gwyddid ers y 1980au fod dwy iaith y siaradwr dwyieithog ‘ymlaen’ yn yr ymennydd drwy’r amser, sy’n golygu bod angen i’r unigolyn reoli ei ddau rwydwaith ieithyddol os am siarad iaith A neu iaith B yn hytrach na chymysgedd annealladwy o’r ddwy. Mae’r syniad bod mantais i’r ymennydd dwyieithog o ran sgiliau uwchwybyddol yn deillio o’r angen i newid yn ôl ac ymlaen o un iaith i’r llall yn sydyn ac yn aml – ac o’u profiad o glywed unigolion eraill yn ymddwyn yn yr un ffordd – ac o’r angen i wahanu’r ddau rwydwaith ieithyddol gan sbarduno a thalu sylw i elfennau perthnasol o rwydwaith iaith A ac anwybyddu rhwydwaith iaith B wrth siarad neu brosesu iaith A, ac i dalu sylw i elfennau perthnasol o rwydwaith iaith B gan anwybyddu rhwydwaith iaith A wrth siarad a phrosesu iaith B. Yn union fel y mae disgwyl i unigolyn ganoli ei sylw ar rywbeth penodol ac anwybyddu gwybodaeth berthnasol sydd yn amharu wrth gwblhau

tasgau metaieithyddol (gweler Pennod 10), mae’n rhesymol disgwyl y bydd siaradwyr dwyieithog yn llwyddo i reoli eu sylw, anwybyddu gwybodaeth amherthnasol i’r dasg a newid eu sylw o un peth i’r llall yn fwy llwyddiannus mewn tasgau anieithyddol na siaradwyr uniaith.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...


: Ac ystyried yr arsylwad fod siaradwyr dwyieithog yn gorfod newid o un iaith i’r llall yn gyson, ac yn gorfod atal eu sylw i un iaith pan fyddant yn defnyddio’r llall, ceisiwch lunio rhestr o 5 rheswm pam y byddai hyn yn fanteisiol i’r unigolyn.

2. YMCHWIL

Mae nifer o wahanol brofion wedi eu llunio i fesur gwahanol agweddau ar sgiliau uwchwybyddol, ac mae set benodol o’r rheini wedi ei defnyddio’n gyson mewn ymchwil sy’n edrych ar y berthynas rhwng siaradwyr dwy iaith ac un. Mae rhai o’r rheini’n olrhain sgiliau newid rheol tra bo’r gweddill yn olrhain sgiliau talu sylw dethol neu gyfuniad o’r ddau.

(i) Tasg newid rheol

Dimensional-Change Card Sort Task – DCCS (Frye, Zelazo a Palfai 1995; Zelazo, Frye a Rapus 1996): Yn y ffurf traddodiadol o’r prawf hwn, cyflwynir dau flwch o flaen plentyn. Ar un blwch gosodir cerdyn sy’n arddangos siâp penodol (e.e. seren) wedi ei liwio (e.e. coch) ac, ar y llall, gosodir cerdyn sydd yn arddangos siâp gwahanol (e.e. cylch) wedi ei liwio mewn lliw gwahanol i’r siâp arall (e.e. glas). Rhoddir set o gardiau i’r plant eu trefnu i mewn i’r blwch perthnasol yn dilyn cyfarwyddiadau penodol a gynigir. Mae hanner y cardiau’n arddangos llun o seren las ac mae’r hanner arall yn arddangos cylch coch, ac wedi eu lliwio’n wahanol i’r cardiau ar y ddau flwch. Tasg y plentyn yn syml iawn yw trefnu’r cardiau, mor gyflym â phosib, i mewn i’r blychau perthnasol yn dilyn rheol benodol (e.e. ‘Rho’r cardiau seren i gyd yn y blwch lle mae’r cerdyn seren a rho’r cardiau cylch yn y blwch lle mae’r cerdyn cylch’). Ar ôl cwblhau’r dasg, gofynnir i’r plentyn drefnu’r cardiau eto, mor gyflym â phosib, ond y tro hwn yn ôl rheol wahanol (e.e. ‘Rho’r cardiau coch yn y blwch lle mae’r cerdyn coch a’r cardiau glas yn y blwch lle mae’r cerdyn glas’).




Tuedd naturiol pob plentyn bach (o dan rhyw 5 oed) yw methu trefnu’r cardiau yn ôl yr ail reol heb ymyrraeth gyson gan y rheol gyntaf. Fodd bynnag, er mor anodd yw atal y duedd i ddisgyn yn ôl i’r rheol gyntaf ymysg plant, mae ymchwiliadau sydd wedi cymharu plant dwyieithog a phlant uniaith ar y math yma o dasg wedi dangos mantais i blant dwyieithog (e.e. Bialystok 1999; Bialystok a Martin 2004; Zelazo, Müller, Frye a Marcovitch 2003; Carlson a Meltzoff 2008; Goetz

2007). Ceir nifer o addasiadau o'r prawf hwn ar gyfer oedrannau hŷn (gweler Gathercole et al. 2014 am astudiaeth o Gymru) ac er mwyn ehangu'r math o ffactorau i'w prosesu. Wrth wneud hynny, ceir canlyniadau ychydig yn fwy cymysg.

(ii) Tasgau newid rheol a rheoli sylw


‘Opposite Worlds’: Tasg yw hon sydd yn cymharu gallu'r unigolyn i gyflawni tasgau bach syml sy'n dilyn confensiynau arferol ac yna i wyrdroi'r dasg gan orfod perfformio'r dasg i'r gwrthwyneb. Ar gyfer plant iau, gellid gofyn yn syml iddynt enwi rhes o anifeiliaid lle mae'r rhes yn cynnwys dau fath o anifail – e.e. mochyn a llew. Wedi cwblhau'r dasg honno, gofynnir i'r plentyn wneud yr un peth, ond y tro hwn drwy gyfnewid yr enwau fel bod pob mochyn bellach yn llew a phob llew bellach yn fochyn. Tasg arall fyddai gofyn i blentyn berfformio'r un dasg â'r ymchwilydd, e.e. drwy daflu'r un nifer o beli – un neu ddwy – i bwl peli. Yna, wedi iddynt gwblhau'r dasg, gofynnir iddynt berfformio i'r gwrthwyneb – h.y. pan fo'r ymchwilydd yn taflu un bêl dylai'r plentyn daflu dwy a phan fo'r ymchwilydd yn taflu dwy bêl dylai'r plentyn daflu un. Gellid addasu'r dasg fymryn ymhellach gan gynnwys nifer fwy o eitemau a nifer fwy o nodweddion gydag oedolion a phlant hŷn, megis cyfuniadau o glapio dwylo a chlicio bysedd.

Er enghraifft, gellid gofyn i blant watwar ymddygiad yr ymchwilydd. Yng nghyflwr cyntaf y prawf (Cyflwr 1) pan fydd yr ymchwilydd yn clapio ddwywaith, bydd gofyn i'r plentyn glapio ddwywaith. Pan fydd yr ymchwilydd yn clapio deirgwaith bydd gofyn i'r plentyn glapio deirgwaith:



Cyflwr 1

Yna, gofynnir i'r plentyn aildrefnu ei ymddygiad drwy newid y rheol. Y tro hwn, os bydd yr ymchwilydd yn clapio ddwywaith bydd angen i'r plentyn glapio deirgwaith, ac os bydd yr ymchwilydd yn clapio deirgwaith bydd angen i'r plentyn glapio ddwywaith:




Cyflwr 2

Mae ymchwil Gathercole et al. (2010) o Gymru wedi dangos bod mantais eithaf cryf i siaradwyr dwyieithog yn y dasg hon.

(iii) Tasgau rheoli sylw

Tasg Ffigyrau Amwys: Tasg yw hon lle cymherir gallu plentyn i ddadansoddi darlun cymhleth er mwyn canfod siâp penodol oddi mewn i'r darlun hwnnw â'i allu i ganfod dau ogwydd ar yr un llun lle mae posib gweld y darlun o ddau safbwynt gwahanol (megis yn y llun adnabyddus o anifail sydd o un persbectif yn edrych fel cwningen ond o edrych ar yr un llun o ogwydd gwahanol mae'n edrych fel hwyaden). Mae Bialystok a Shapero (2005) wedi dangos bod plant dwyieithog yn well wrth adnabod lluniau amwys na phlant uniaith, pan mae'n rhaid atal sylw i un persbectif wrth geisio darganfod y llall, tra bod dim gwahaniaeth ar y dasg chwilota am siâp cudd oddi mewn i ddarlun cymhleth gan mai proses sy'n ymofyn sgiliau dadansoddi yw honno. Gweler enghreifftiau o'r math o dasgau isod.¹




Tasg Stroop: Yn y dasg yma cyflwynir pedwar cyflwr i'r unigolyn: enwi lliwiau, darllen ansoddeiriau lliw wedi eu hysgrifennu mewn du, darllen ansoddeiriau lliw wedi eu hysgrifennu mewn lliw gwahanol i ystyr y gair (e.e. 'coch' mewn lliw glas), ac enwi lliw inc y gair (h.y. glas am y gair 'coch' yn yr enghraifft uchod). Er enghraifft:

Enwi lliwiau			Darllen rhestr ansoddeiriau lliw		
			coch	melyn	glas
			gwyrdd	glas	coch
			glas	melyn	gwyrdd
Darllen yr ansoddair (anwybyddu lliw'r inc)			Enwi'r lliw (anwybyddu ystyr yr ansoddair)		
gwyrdd	glas	coch	gwyrdd	glas	coch
melyn	coch	glas	melyn	coch	glas
coch	melyn	gwyrdd	coch	melyn	gwyrdd


Darganfyddodd Bialystok, Craik a Luk (2008) fantais i siaradwyr dwyieithog yn y dasg.

1 Chwilota am siâp: <http://pec.sagepub.com/content/42/9/971.full.pdf>
Ffigwr amwys: <http://www.laurenscharff.com/courseinfo/SL2000/tdbuexp.html>

Tasg Simon: Mae'r dasg yma'n ymofyn sgiliau tebyg i'r dasg DCCS ond heb y newid rheol. Yn y dasg hon bydd sgwâr yn ymddangos un ai ar ochr chwith neu ar ochr dde sgrin. Gall y sgwâr hwnnw fod yn un o ddau liw: e.e. coch neu wyrdd. Os yw'n goch, rhaid pwyso botwm sydd wedi ei osod i'r chwith o flaen y cyfrannwr; os yw'n wyrdd, rhaid pwyso botwm sydd wedi ei osod i'r dde ohono. Os yw'r sgwâr sy'n ymddangos ar ochr chwith y sgrin yn goch, yna mae'r lliw'n ymddangos ar yr un ochr â'r botwm ar gyfer 'coch'. Os yw'r sgwâr sydd yn ymddangos ar ochr dde'r sgrin yn wyrdd, yna mae'r botwm ymateb yn digwydd bod ar yr un ochr â lle mae'r sgwâr yn ymddangos ar y sgrin:




Fodd bynnag, pan fo sgwâr coch yn ymddangos ar y dde neu sgwâr gwyrdd yn ymddangos ar y chwith, rhaid atal y duedd naturiol i bwysu'r botwm sy'n cyfateb i safle'r sgwâr (chwith neu dde) a thalu sylw penodol i'r lliw:




Mae ymchwil gan Bialystok, Craik, Klein a Viswanathan (2004) a Martin-Rhee a Bialystok (2008) wedi dangos mantais i siaradwyr dwyieithog yn y dasg.

Tasg Flanker: Yn y dasg hon mae angen talu sylw penodol i saeth darged (neu i un pysgodyn bach mewn addasiadau ar gyfer plant) sydd wedi ei hamgylchynu gan bedair saeth arall, dwy bob ochr. Mae'r saethau i gyd un ai'n wynebu tua'r chwith neu'n wynebu tua'r dde, ond mae'r cyfeiriad y mae'r saeth darged yn wynebu iddo yn gallu bod yr un fath neu'n gwbl annibynnol ar weddill y saethau. Os yw'r saeth yn wynebu i'r chwith, rhaid pwyso botwm ar y chwith, ac os yw'n wynebu i'r dde, rhaid pwyso botwm ar y dde.



Os yw'r saeth yn wynebu'r un ffordd â gweddill y saethau, mae dynodi i ba gyfeiriad mae'r saeth ganol yn wynebu yn eithaf hawdd. Ond os yw'r pedair saeth arall yn wynebu'r ffordd wahanol i'r saeth darged, o dan amgylchiadau pan mae'n rhaid ymateb mor sydyn â phosib i'r dasg, mae tuedd i unigolion wneud camgymeriadau a tharo'r botwm sy'n cyd-fynd â chyfeiriad cyffredinol mwyafrif y saethau.



Fodd bynnag, darganfyddodd Costa, Hernandez a Sebastian-Galles (2008) fantais i'r grŵp dwyieithog o'i gymharu â'r grŵp uniaith yn eu hymchwil hwy.

METHODOLEG MAES

Bydd rhai o’r enghreifftiau uchod yn brofion sydd yn rhy hawdd i rai unigolion (yn enwedig i oedolion) tra bod eraill yn dasgau fyddai’n rhy anodd i blant ifanc. Ceisiwch addasu’r profion uchod fel eu bod yn briodol ar gyfer unigolion o wahanol oed.

Yna, ceisiwch lunio prawf fyddai’n gallu mesur gallu unigolion (plant ac/neu oedolion) i

- (i) newid yn sydyn o dalu sylw i un peth i orfod talu sylw i rywbeth arall (felly prawf lle mae angen talu sylw i A yn gyntaf, wedyn talu sylw i B), ac
- (ii) i atal sylw i rywbeth pan fyddant yn canolbwyntio ar rywbeth arall.

Manteision ar hyd oes?

Mae nifer o astudiaethau wedi dangos oediad mewn diagnosis ar gyfer dementia – cyflwr lle ceir dirywiad amlwg yn sgiliau uwchwybyddol unigolion – gyda siaradwyr hŷn dwyieithog ar gyfartaledd ychydig o flynyddoedd yn hŷn na siaradwyr hŷn uniaith pan ganfyddir bod yr anhwylder arnynt (Bialystok, Craik a Freedman 2007 – 4 blynedd o wahaniaeth; Craik, Bialystok a Freedman 2010 – 4.3 blynedd; Bialystok, Craik, Binns, Ossher a Freedman 2014 – 7.3 mlynedd; Alladi et al. 2013 – 4.5 blynedd yn gyffredinol). Mae nifer yr astudiaethau sydd wedi archwilio’r fantais o ran sgiliau uwchwybyddol ymysg oedolion hŷn yn llai niferus yn gyffredinol, ond mae manteision wedi eu cofnodi (Bialystok, Craik, Klein a Viswanathan 2004; Bialystok, Craik a Luk 2008; Bialystok, Martin a Viswanathan 2005; Emmorey, Luk, Pyers a Bialystok 2008).

3. YMCHWIL O GYMRU

Erbyn hyn mae cryn dipyn o ymchwil wedi ei chynnal yn edrych ar fanteision dwyieithrwydd ymysg siaradwyr dwyieithog yma yng Nghymru. Mae’r astudiaethau sydd wedi eu cyhoeddi hyd yma yn dangos patrwm cymysg iawn, ac mae’r ymchwil sydd eto i’w chyhoeddi yn dilyn yr un drefn. Isod ceir crynodeb o’r patrwm sydd wedi ei amlygu ymysg yr ymchwil yma yng Nghymru.

CYHOEDDIAD	MATH O SAMPL	MATH O DASG	MANTAIS DDWYIEITHOG?
Young, Rhys, Kennedy a Thomas (2017)	Oed: 7–8 ac 11–12 O Gymru: Cartref Cymraeg Cartref Cymraeg a Saesneg Cartref Saesneg O Iwerddon: Siaradwyr Gwyddeleg ail iaith (Ysgolion cyfrwng Saesneg) Siaradwyr Gwyddeleg ail iaith (Ysgolion cyfrwng Gwyddeleg) Plant uniaith Saesneg	Flanker SART Stroop	Cymysg, ond ar y cyfan ‘na’

CYHOEDDIAD	MATH O SAMPL	MATH O DASG	MANTAIS DDWYIEITHOG?
Gathercole et al. (2016)	Oed: 4 oed, 5 oed, glasoed, oedolion ifanc, oedolion hŷn Cefndir iaith: Cartref Cymraeg Cartref cymysg Cartref Saesneg Uniaith Saesneg	Simon	Oes, ar gyfer oedolion hŷn
Lye (2015)	Oed: Plant ag anghenion dysgu 7–8 ac 11–12 oed Cefndir iaith: Cartref Cymraeg Cartref cymysg Cartref Saesneg Uniaith Saesneg	Stroop Flanker Switch Creadigrwydd	Nac oes
Hindle et al. (2015)	Oedolion â chlefyd Parkinson’s Dwyieithog ac uniaith	Amrywiaeth o brofion yn mesur amrediad o sgiliau uwchwybyddol	Nac oes
Gathercole et al. (2014)	Oed: 3, 4, 5, 8 a 15 oed Cefndir iaith: Cartref Cymraeg Cartref cymysg Cartref Saesneg Uniaith Saesneg	Card Sort Simon Metaieithyddiaeth	Nac oes
Clare et al. (2016)	Oedolion â chlefyd Alzheimer’s Dwyieithog Uniaith	Amrywiaeth o brofion yn mesur amrediad o sgiliau uwchwybyddol	Ddim yn gyffredinol, ond mymryn o gryfder o ran cyflyrau atal sylw

CYHOEDDIAD	MATH O SAMPL	MATH O DASG	MANTAIS DDWYIEITHOG?
Rhys (2013)	Oed: 7–8 ac 11–12 Cefndir iaith: Cartref Cymraeg Cartref cymysg Cartref Saesneg Uniaith Saesneg	Stroop Flanker SART creadigrwydd	Gan mwyaf ‘na’ ond rhai cryfderau
Kennedy (2013)	Oed: 7–8 ac 11–12 Cefndir iaith: Siaradwyr Gwyddeleg ail iaith (Ysgolion cyfrwng Saesneg) Siaradwyr Gwyddeleg ail iaith (Ysgolion cyfrwng Gwyddeleg) Plant uniaith Saesneg	Stroop SART Flanker Creadigrwydd	Cymysg, ond ar y cyfan ‘na’
Gathercole et al. (2010)	Oed: 7–8 a 13–15 Cefndir iaith: Cartref Cymraeg Cartref cymysg Cartref Saesneg Uniaith Saesneg	Stroop Tasg tapio	Cymysg

Mae’n amlwg, felly, o’r tabl uchod mai cymysg iawn yw’r canlyniadau a ddaeth o’r ymchwiliadau gwyddonol sydd wedi eu cynnal gyda siaradwyr dwyieithog yma yng Nghymru.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

Edrychwch ar y golofn samplau a’r golofn tasgau yn yr ymchwiliadau a restrir yn y tabl uchod.

: Beth yw’r prif wahaniaethau rhwng y samplau a’r tasgau?

: Ymysg pa siaradwyr fydddech chi wedi disgwyl gweld mantais, a pham?

: Yna meddyliwch am yr hyn sydd yn unigryw i’r samplau dwyieithog o Gymru. Ceisiwch feddwl am yr hyn sydd yn unigryw i’r math yma o siaradwr dwyieithog i’w gymharu â siaradwyr dwyieithog yng Nghanada ac yng ngweddill gwledydd Prydain. Sut ac i ba raddau y byddai’r ffactorau hynny’n dylanwadu ar berfformiad plant mewn profion fel hyn?

: Yn olaf, ceisiwch ystyried natur y sampl a elwir yn sampl uniaith. Ac ystyried y trafodaethau sydd wedi eu cynnal eisoes yn y llyfr, i ba raddau y mae’n bosib canfod sampl cwbl uniaith erbyn hyn? I ba raddau y byddai natur y siaradwr uniaith yn dylanwadu ar y canlyniadau mewn ymchwiliadau fel hyn?

: Sut bydddech chi’n disgwyl i Rhys, Bethan a Liam berfformio yn y tasgau hyn?

Ffactorau dylanwadol

Mae nifer o ffactorau sosioieithyddol a seicoieithyddol yn amlwg yn dylanwadu ar allu unigolyn i berfformio’n dda mewn gwahanol dasgau. Trafodir rhai o’r rhain isod.

- (i) **Natur y siaradwr dwyieithog.** Mae pa ddwy iaith y mae siaradwr dwyieithog yn eu siarad a’r berthynas rhwng y ddwy iaith yn gallu dylanwadu ar ganlyniadau. Dangosir hyn yn glir yn ymchwil Yang a Lust (2007) ac Adesope et al. (2010), sydd ill dwy’n nodi mathau penodol o siaradwyr dwyieithog (e.e. siaradwyr Tsieineeg a Choreeg) sydd yn arddangos manteision yn y tasgau.
- (ii) **Natur y sampl ddwyieithog mewn ymchwil.** Yn ôl Namazi a Thordardottir (2010) ac Adesope et al. (2010) mae angen llawer gwell rheolaeth ar natur y sampl ddwyieithog mewn ymchwil os ydym am weld gwir effaith dwyieithrwydd ar sgiliau uwchwybyddol. Mae gormod o amrywiaeth ar draws ymchwiliadau, o rai sy’n cymharu siaradwyr dwyieithog sydd yn siarad Saesneg ac unrhyw iaith arall fel ail iaith i rai sydd yn cymharu siaradwyr uniaith ag unrhyw fath o siaradwyr dwyieithog fel grŵp ‘dwyieithog’. Ond fel mae’r llyfr hwn wedi dangos, mae’r amrywiaeth rhwng siaradwyr yn anferth. A oes disgwyl bod siaradwr sydd wedi dysgu dwy iaith o’r crud yn ymateb yr un fath â siaradwr a ddysgodd ail iaith yn gynnar yn ei fywyd neu siaradwr a ddysgodd ail iaith yn hwyr? A oes posib bod y rhai hynny a ddysgodd ail iaith yn hwyr yn profi mantais atal sylw gan fod rhaid iddynt atal y duedd naturiol i ddefnyddio’r iaith gryfaf pan fyddant yn ceisio gwneud defnydd o’r ail iaith? Mae’r rhain yn gwestiynau nad oes iddynt atebion pendant eto.
- (iii) **Natur y profiad ieithyddol.** Mewn nifer o sefyllfaoedd dwyieithog nid oes modd cadw dwy iaith ar wahân yn gyfan gwbl. Mae tueddiad mawr i gyfnewid cod, fel y soniwyd eisoes ym Mhenodau 5 a 6, sydd yn golygu nad yw siaradwyr dwyieithog bob amser yn clywed mewnbyn 100% Iaith A a 100% Iaith B. O dan amgylchiadau felly, mae’r angen i atal sylw i un iaith wrth ddefnyddio’r llall o bosib yn wannach mewn rhai siaradwyr nag mewn eraill.
- (iv) **Gallu ieithyddol.** Gall sgiliau iaith yr unigolyn ddylanwadu ar gyflymder prosesu ac felly hefyd ar berfformiad unigolion mewn profion uwchwybyddol (Marton 2015). Dangosodd Sorace (2015) yn yr un modd bod cydberthynas amlwg rhwng sgiliau uwchwybyddol a gallu cystrawennol.

- (v) **Defnydd iaith.** Mae faint o ddefnydd y mae unigolyn yn ei wneud o un iaith neu'r llall yn gallu dylanwadu ar ei berfformiad. Yn ymchwil Gathercole et al. (2010) roedd tuedd i blant 7–8 oed o gartrefi di-Gymraeg oedd yn ddwyieithog yn sgil mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg berfformio'n well na phlant uniaith Saesneg mewn un prawf tra bod perfformiad plant 13–15 oed o'r un cefndir yn ymdebygu i berfformiad plant uniaith ac yn arwyddocaol is na phlant dwyieithog eraill yn y prawf.
- (vi) **Statws sosio-economaidd.** Yn aml iawn mae'r sampl uniaith sydd yn cyfrannu at ymchwil yn dod o'r boblogaeth leol ac yn ffurfio grŵp sydd o gefndir sosio-economaidd tebyg. Daw'r sampl ddwyieithog, weithiau, o boblogaethau sydd wedi mewnfudo, ac o gefndiroedd sosiolddiwylliannol gwahanol (Adesope et al. 2010; Sabbagh, Xu, Carlson, Moses a Lee 2006). Gall rhai o'r sampl ddwyieithog ddod o gefndir sosio-economaidd uchel sydd yn chwilio am addysg ddwyieithog i'w plant. Drwy reoli cefndir sosio-economaidd ar draws samplau mewn ymchwil, nid yw ymchwiliadau diweddar wedi canfod unrhyw wahaniaethau mewn perfformiad mewn profion uwchwybyddol (Paap a Greenberg 2013; Duñabeitia et al. 2014; Calvo a Bialystok 2014; Morton a Harper 2007).
- (vii) **Methodoleg yr ymchwil.** Oherwydd natur eang sgiliau uwchwybyddol, mae'n bwysig nodi'n glir beth mae unrhyw brawf uwchwybyddol yn ei fesur, sut mae'n ei fesur ac a yw'r un peth yn cael ei fesur mewn gwahanol brofion. Ar hyn o bryd, mae rhai'n dadlau bod dulliau arbrofol a rheolaeth o fewn y dulliau hynny yn wan (e.e. Paap, Johnson a Sawi 2015).
- (viii) **Iaith y prawf.** Os defnyddir profion sydd yn dibynnu ar iaith, mae pa iaith y mae'r dasg honno yn cael ei chyflwyno ynddi yn bwysig, ac yn gallu arwain at ganlyniadau cymysg. Er enghraifft, yn ymchwil Gathercole et al. (2010), gwelwyd mantais i blant o gefndiroedd iaith cymysg wrth enwi lliw'r inc fel rhan o brawf Stroop pan oeddent yn cwblhau'r dasg yn Saesneg ond nid felly pan oeddent yn cwblhau'r dasg yn Gymraeg.
- (ix) **Gwahaniaethau bywyd.** Mae dwyieithrwydd yn cyd-berthyn i nifer o ffactorau eraill yn cynnwys deallusrwydd uwch, perfformiad addysgol uwch, amllder ymarfer corff, bywyd cymdeithasol a hyfforddiant cerdd (Valian 2015). Mae dwyieithrwydd, felly, yn un o nifer o nodweddion sydd yn gallu arwain at well perfformiad mewn tasgau uwchwybyddol.

Herio'r farn

Yn fwy diweddar, fodd bynnag, mae nifer o astudiaethau wedi eu cynnal nad ydynt yn canfod manteision amlwg i siaradwyr dwyieithog yn yr un tasgau. Ymysg y rhain ceir cyhoeddiadau² yn dwyn teitlau megis

Cognitive Advantage in Bilingualism: An Example of Publication Bias?

There is no coherent evidence for a bilingual advantage in executive processing

a

Bilingual advantages in executive functioning either do not exist or are restricted to very specific and undetermined circumstances.

Daw'r teitl cyntaf yn dilyn y canfyddiad, o'r 52 o 104 o grynodedau cynadleddau a gafodd eu cyhoeddi yn y maes, cafodd 68% o'r ymchwil oedd yn cefnogi'r fantais ddwyieithog ei cyhoeddi, cafodd 50% o'r ymchwil oedd yn nodi canlyniadau cymysg ei chyhoeddi, a dim ond 29% o'r ymchwil oedd ddim yn cefnogi'r fantais a gafodd ei chyhoeddi. Daeth yr ail deitl yn sgil ymchwil oedd wedi mesur 19 o sgiliau uwchwybyddol gwahanol gan ganfod dim mantais i siaradwyr dwyieithog ac

2 De Bruin, A., Treccani, B. a Della Sala, S. (2015). Cognitive advantage in bilingualism: An example of publication bias? *Psychological Science* 26 (1), 99–107.

Paap, K. R. a Greenberg, Z. I. (2013). There is no coherent evidence for a bilingual advantage in executive processing. *Cognitive Psychology* 66 (2), 232–258.

Paap, K. R., Johnson, H. A. a Sawi, O. (2015). Bilingual advantages in executive functioning either do not exist or are restricted to very specific and undetermined circumstances. *Cortex* 69, 265–278.

un achos o anfantais. Roedd y trydydd teitl yn ganlyniad i ymchwil oedd wedi darganfod bod dros 80% o erthyglau a gyhoeddwyd yn y maes ers 2011 yn dangos diffyg gwahaniaeth, a hyd yn oed pan oedd gwahaniaeth, roedd y samplau’n fychan, heb eu paru a’r dadansoddiadau ystadegol yn ddadleuol.

Yn y pen draw, rhaid dehongli casgliadau yn ofalus gan dalu sylw i’r ffactorau a restrir uchod. Fel y nodwyd gan Gathercole et al. (2016: 606):

... executive function abilities are not a monolithic phenomenon, but consist of abilities that are reflected in different ways, with different patterns observable, in relation to distinct tasks... many distinct factors contribute to and help shape individuals’ performance on executive function tasks.

Yn hynny o beth, felly, pwrpas ymchwil bellach yn y maes yw ceisio canfod ymhle, i bwy ac o dan ba amgylchiadau y mae unrhyw fanteision uwchwybyddol penodol, fel y’u hadnabyddir yn y llenyddiaeth, yn bodoli.

MEDDYLIWCH AM FUNUD...

Mae mantais wybyddol dwyieithrwydd yn rhywbeth sydd yn cael ei ddefnyddio’n gyson fel arf i hyrwyddo dwyieithrwydd.
: Yn rhinwedd y casgliadau uchod, sut mae mynd ati i hysbysu manteision gwybyddol i sicrhau bod yr hyn sydd yn cael ei rannu yn gydnaws â’r ymchwil?

4. CRYNODEB

Yn y bennod hon, aethpwyd i’r afael â maes manteision dwyieithrwydd drwy ganolbwyntio’n benodol ar ymchwil ym maes dwyieithrwydd a sgiliau uwchwybyddol. Trafodwyd y rhesymeg y tu ôl i’r honiad bod mantais benodol i siaradwyr dwyieithog o ran dargyfeirio sylw ac atal sylw i rywbeth wrth ganolbwyntio ar rywbeth arall, gan adnabod nodweddion unigryw y profiad dwyieithog sy’n arwain at fantais yn y sgiliau hyn. Trafodwyd nifer o wahanol fathau o brofion sydd wedi eu creu i fesur gwahaniaethau rhwng siaradwyr dwyieithog a siaradwyr uniaith, a rhwng gwahanol fathau o siaradwyr dwyieithog yn y cyd-destun dwyieithog yng Nghymru, a rhannwyd canlyniadau nifer o astudiaethau o Gymru. Daethpwyd i’r casgliad bod y canlyniadau yn y maes yn gymysg erbyn hyn, ond trafodwyd rhai o’r rhesymau pennaf dros y gwahaniaethau mewn canlyniadau y dylid eu hystyried wrth ddehongli data.

AWGRYMIADAU DARLLEN AM DDWYIEITHRWYDD YN Y GYMRAEG

Gathercole, V. C. M., Thomas, E. M., Jones, L., Viñas Guasch, N., Young, N. a Hughes, E. K. (2010). Cognitive effects of bilingualism: Digging deeper for the contributions of language dominance, linguistic knowledge, socioeconomic status, and cognitive abilities. *Journal of Bilingual Education and Bilingualism, Special Issue* 13 (5), 617–664.

Gathercole, V. C. M., Thomas, E. M., Kennedy, I., Prys, C., Young, N., Viñas Guasch, N., Roberts, E. J., Hughes, E. K. a Jones, L. (2014). Does language dominance affect cognitive performance in Bilinguals? Lifespan evidence from preschoolers through older adults on Card Sorting, Simon, and Metalinguistic Tasks. Special issue of *Frontiers in Psychology* on the Development of Executive Function in Children. *Frontiers in Psychology: Developmental Psychology* 5, erthygl 11.

Gathercole, V. C. M., Thomas, E. M., Viñas Guasch, N., Kennedy, I., Prys, C., Young, N. E., Roberts, E. J., Hughes, E. K. a Jones, L. (2016). Teasing apart factors influencing Executive Function performance in bilinguals and monolinguals at different ages. *Linguistic Approaches to Bilingualism* 6 (5), 605–647.

Young, N., Rhys, M., Kennedy, I. A. a Thomas, E. (2017). The linguistic, cognitive and emotional advantages of minority language bilingualism. Yn *Bilingualism and Minority Language in Europe*:

Current Trends and Developments, F. Lauchlan a M. C. Parafita Couto (goln), 120–142. Newcastle Upon Tyne: Cambridge Scholars Publishing.

[*Mae'r rhain oll yn rhoi blas o'r gwahanol fathau o astudiaethau sydd wedi eu cynnal yn edrych ar y berthynas rhwng dwyieithrwydd a sgiliau uwchwybyddol*]

Hindle, J. V. a Martin-Forbes, P. A., Bastable, A. J. M., Pye, K. L., Martyr, A., Whitaker, C. J., Craik, F. I. M., Bialystok, E., Thomas, E. M., Mueller Gathercole, V. C. a Clare, L. (2015). Cognitive Reserve in Parkinson's Disease: The Effects of Welsh-English Bilingualism on Executive Function. *Parkinson's Disease*, 1–10. DOI: 10.1155/2015/943572.

Clare, L., Whitaker, C. J., Craik, F. I. M., Bialystok, E., Martyr, A., Martin-Forbes, P. A., Bastable, A. J. M., Pye, K. L., Quinn, C., Thomas, E. M., Gathercole, V. C. M. a Hindle, J. V. (2014). Bilingualism, executive control, and age at diagnosis among people with early-stage Alzheimer's disease in Wales. *Journal of Neuropsychology*. DOI: 10.1111/jnp.12061.

[*Mae'r ddwy erthygl yma yn edrych ar y berthynas rhwng dwyieithrwydd a sgiliau uwchwybyddol mewn cleifion sydd yn dioddef o glefyd Parkinson's ac Alzheimer yng Nghymru*]

Llyfryddiaeth

- Adesope, O. O., Lavin, T., Thompson, T. ac Ungerleider, C. (2010). A systematic review and meta-analysis of the cognitive correlates of bilingualism. *Review of Educational Research* 80, 207–245.
- Alladi, S., Bak, T. H., Duggirala, V., Surampudi, B., Shailaja, M., Shulka, A. K. a Kaul, S. (2013). Bilingualism delays are at onset of dementia, independent of education and immigration status. *Neurology* 81, 1938–1944.
- Appel, R. a Muysken, P. (1987). *Language Contact and Bilingualism*. Amsterdam: Amsterdam University Press.
- Baker, C. (1992). *Attitudes and Language*. Clevedon: Multilingual Matters.
- Baker, C. a Prys Jones, S. (1998). *Encyclopedia of Bilingualism and Bilingual Education*. Clevedon: Multilingual Matters.
- Baker, C. a Wright, W. (2017). *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism*, 6ed argraffiad. Clevedon: Multilingual Matters.
- Ball, M. J. a Müller, N. (1992) *Mutation in Welsh*. Llundain: Routledge.
- Bates, E. (1993). Comprehension and production in early language development: Comments on Savage-Rumbaugh et al. *Monographs of the Society for Research in Child Development* 233 (58), 3–4, 222–242.
- Bates, E. a MacWhinney, B. (1989). Functionalism and the competition model. Yn *The Crosslinguistic Study of Sentence Processing*, B. MacWhinney ac E. Bates (goln), 3–73. Efrog Newydd: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
- Bentahila, A. a Davies, E. (1995). Patterns of code-switching and language contact. *Lingua* 96, 75–93.
- Ben-Zeev, S. (1977). The influence of bilingualism on cognitive strategy and cognitive development. *Child Development* 48, 1009–1018.
- Berk-Seligson, S. (1986). Linguistic constraints on intrasentential code-switching: A study of Spanish/Hebrew bilingualism. *Language in Society* 15, 313–348.
- Bhatia, T. J. a Ritchie, W. C. (2012). *The Handbook of Bilingualism and Multilingualism*, 2il argraffiad. Rhydychen: Wiley-Blackwell.
- Bialystok, E. (1988). Levels of bilingualism and levels of linguistic awareness. *Developmental Psychology* 24, 560–567.
- Bialystok, E. (1991). Metalinguistic dimensions of bilingual language proficiency. Yn *Language Processing in Bilingual Children*, E. Bialystok (gol.), 113–140. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
- Bialystok, E. (1997). The structure of age: In search of barriers to second language acquisition. *Second Language Research* 13, 116–137.
- Bialystok, E. (1999). Cognitive complexity and attentional control in the bilingual mind. *Child Development* 70, 636–644.
- Bialystok, E. (2001). *Bilingualism in Development: Language, Literacy and Cognition*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
- Bialystok, E. a Craik, F. (2010). Cognitive and linguistic processing in the bilingual mind. *Current Direction in Psychological Science* 19 (1), 19–23.
- Bialystok, E. a Hakuta, K. (1994). *In Other Words: The Psychology and Science of Second Language Acquisition*. Efrog Newydd: Basic Books.

- Bialystok, E. a Luk, G. (2012). Receptive vocabulary differences in monolingual and bilingual adults. *Bilingualism: Language and Cognition* 15, 397–401.
- Bialystok, E. a Martin, M. M. (2004). Attention and inhibition in bilingual children: Evidence from Dimensional Change Sort Task. *Development Science* 7 (3), 325–339.
- Bialystok, E. a Miller, B. (1999). The problem of age in second language acquisition: Influences from language, task, and structure. *Bilingualism: Language and Cognition* 2, 127–145.
- Bialystok, E., Craik, F. a Luk, G. (2008). Cognitive control and lexical access in younger and older bilinguals. *Journal of Experimental Psychology, Learning, Memory and Cognition* 34 (4), 859–873.
- Bialystok, E., Craik, F. a Freedman, M. (2007). Bilingualism as a protection against the onset of symptoms of dementia. *Neuropsychologica* 45, 459–464.
- Bialystok, E., Majumder, S. a Martin, M. M. (2003). Developing phonological awareness: Is there a bilingual advantage? *Applied Psycholinguistics* 24, 27–44.
- Bialystok, E., Martin, M. M. a Viswanathan, M. (2005). Bilingualism across the lifespan: The rises and fall of inhibitory control. *International Journal of Bilingualism* 9, 103–119.
- Bialystok, E., Craik, F., Klein, R. a Viswanathan, M. (2004). Bilingualism, aging and cognitive control: Evidence from the Simon task. *Psychology and Aging* 19 (2), 290–303.
- Bialystok, E., Craik, F., Binns, M. A., Osher, J. a Freedman, M. (2014). Effects of bilingualism on the age of onset and progression of MCI and AD: Evidence from executive function tests. *Neuropsychology* 28, 290–304.
- Bialystok, E., a Shapero, D. (2005). Ambiguous benefits: The effect of bilingualism on reversing ambiguous figures. *Developmental Science* 8 (6), 595–604.
- Binks, H. a Thomas, E. M. (2016). Effaith amllder iaith yn y cartref ar wybodaeth oedolion o'r system o greu enwau lluosog yn y Gymraeg. *Gwerddon* 22, 31–46.
- Birdsong, D. (1992). Ultimate attainment in second language acquisition. *Language* 68, 23–52.
- Birdsong, D. (gol.) (1999). *Second Language Acquisition and the Critical Period Hypothesis*. Mahwah, NJ: Erlbaum.
- Bleses, D., Makransky, G., Dale, P. S., Højen, A. ac Aktürk Ari, B. (2016). Early productive vocabulary predicts academic achievement 10 years later. *Applied Psycholinguistics* 37 (6), 1461–1476.
- Borsley, R., Tallerman, M. a Willis, D. (2007). *The Syntax of Welsh*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
- Bourhis, R. Y., Giles, H. a Tajfel, H. (1973). Language as a determinant of Welsh identity. *European Journal of Social Psychology* 3, 447–460.
- Bruck, M. a Genesee, F. (1995). Phonological awareness in young second language learners. *Journal of Child Language* 22, 307–324.
- Bruner, J. (1983). *Child's Talk: Learning to Use Language*. Efrog Newydd: W. W. Norton.
- Calvo, A. a Bialystok, E. (2014). Independent effects of bilingualism and socioeconomic status of language ability and executive functioning. *Psychological Science* 26, 99–107.
- Carlson, S. M. a Meltzoff, A. N. (2008). Bilingual experience and executive functioning in young children. *Developmental Science* 11 (2), 282–298.
- Carter, D., Deuchar, M., Davies, P. a Parafita Couto, M. C. (2011). A systematic comparison of factors affecting the choice of matrix language in three bilingual communities. *Journal of Language Contact* 4, 153–183.
- Chambers, J. K. (1995). *Sociolinguistic Theory*. Rhydychen: Blackwell.
- Chomsky, N. (1957). *Syntactic Structures*. Mouton: The Hague.

- Chomsky, N. (1995). *The Minimalist Programme*. Cambridge, MA: MIT Press.
- Clare, L., Whitaker, C.J., Craik, F. I. M., Bialystok, E., Martyr, A., Martin-Forbes, P. A., Bastable, A. J. M., Pye, K. L., Quinn, C., Thomas, E. M., Gathercole, V. C. M. a Hindle, J. V. (2016). Bilingualism, executive control, and age at diagnosis among people with early-stage Alzheimer's disease in Wales. *Journal of Neuropsychology* 10 (2), 163–185.
- Clyne, M. (1984). *Language and Society in the German-speaking Countries*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
- Costa, A., Hernandez, M. a Sebastian-Galles, N. (2008). Bilingualism aids conflict resolution: Evidence from the ANT task. *Cognition* 106, 59–86.
- Coupland, N., Bishop, H., Williams, A., Evans, B. a Garrett, P. (2005). Affiliation, engagement, language use and vitality: Secondary school students' subjective orientations to Welsh and Welshness. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism* 8, 1–24.
- Craik, F., Bialystok, E. a Freedman, M. (2010). Delaying the onset of Alzheimer disease: Bilingualism as a form of cognitive reserve. *Neurology* 75, 1726–1729.
- Crystal, D. (2000). *Language Death*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
- Cummins, J. (1978). Bilingualism and the development of metalinguistic awareness. *Journal of Cross-Cultural Psychology* 9, 131–149.
- Davidson, D. (1996). The role of schemata in children's memory. Yn *Advances in Child Development and Behaviour*, H. W. Reese (gol.), cyfrol 26, 35–58. Efrog Newydd: Academic Press.
- Davies, P. (2010). Identifying Word-order Convergence in the Speech of Welsh-English Bilinguals. Traethawd hir PhD Prifysgol Bangor (heb ei gyhoeddi).
- Davies, P. (2017). Age variation and language change in Welsh: Auxiliary deletion and possessive constructions. Yn *Sociolinguistics in Wales*, M. Durham a J. Morris (goln), 31–59. Basingstoke: Palgrave Macmillan.
- Davies, P. a Deuchar, M. (2010). Using the Matrix Language Frame model to identify word order convergence in Welsh-English bilingual speech. Yn *Continuity and Change in Grammar*, A. Breitbarth, C. Lucas, S. Watts a D. Willis (goln), 77–96. Philadelphia: John Benjamins.
- Davies, P. a Deuchar, M. (2014). Auxiliary deletion in the informal speech of Welsh-English bilinguals: A change in progress. *Lingua* 143, 224–241.
- De Bruin, A., Treccani, B. a Della Sala, S. (2015). Cognitive advantage in bilingualism: An example of publication bias? *Psychological Science* 26 (1), 99–107.
- De Houwer, A. (1990). *The Acquisition of Two Languages from Birth: A Case Study*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
- De Houwer, A. (1995). Bilingual language acquisition. Yn *The Handbook of Child Language*, P. Fletcher a B. MacWhinney (goln), 219–250. Rhydychen: Blackwell.
- DeKeyser, R. M. (2003). The robustness of critical period effects in second language acquisition. *Studies in Second Language Acquisition* 22 (4), 499–533.
- Deuchar, M. (2006). Welsh-English code-switching and the Matrix Language Frame model. *Lingua* 116, 1986–2011.
- Deuchar, M. a Davies, P. (2009). Code-switching and the future of Welsh. *International Journal of the Sociology of Language* 195, 15–38.
- Deuchar, M., Davies, P. a Donnelly, K. (yn y wasg). *Building and Using the Siarad Corpus: Bilingual Conversations in Welsh and English*. Amsterdam: John Benjamins.
- Deuchar, M., Donnelly, K. a Piercy, C. (2017). 'Mae pobl monolingual yn minority': Factors favouring the production of code-switching by Welsh-English bilingual speakers. Yn *Sociolinguistics in Wales*, M. Durham a J. Morris (goln), 209–239. Basingstoke: Palgrave MacMillan.

- Deuchar, M., Muysken, P. a Wang, S. (2007). Structured variation in codeswitching: Towards an empirically based typology of bilingual speech patterns. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism* 10, 298–340.
- Deuchar, M. a Quay, S. (2000). *Bilingual Acquisition: Theoretical Implications of a Case Study*. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen.
- Deuchar, M. a Stammers, J. R. (2016). English-origin verbs in Welsh: Adjudicating between two theoretical approaches. *Languages* 2016 1:7.
- Döpke, S. (2000a). Generation of and retraction from cross-linguistically motivated structures in bilingual first language acquisition. *Bilingualism: Language and Cognition* 3 (3), 209–226.
- Döpke, S. (2000b). The interplay between language-specific development and crosslinguistic influence. Yn *Cross-linguistic Structures in Simultaneous Bilingualism*, S. Döpke (gol.), 79–103. Amsterdam: Benjamins.
- Dorian, N. C. (1977). A hierarchy of morphophonemic decay in Scottish Gaelic language death: The differential failure of lenition. *Word* 28, 96–109.
- Doyle, A., Champagne, M. a Segalowitz, N. (1978). Some issues on the assessment of linguistic consequences of early bilingualism. Yn *Aspects of Bilingualism*, M. Paradis (gol.), 13–20. Columbia, SC: Hornbeam Press.
- Duñabeitia, J. A., Hernández, J. A., Antón, E., Macizo, P., Estévez, A., Fuentes, L. J. a Carreiras, M. (2014). The inhibitory advantage in bilingual children revisited: Myth or reality? *Experimental Psychology* 1–18. Doi: 10.1027/1618-3169/a000243.
- Edwards, D. a Christophersen, H. (1988). Bilingualism, literacy, and metalinguistic awareness in preschool children. *British Journal of Developmental Psychology* 6, 235–244.
- Edwards, J. (2012). *Multilingualism: Understanding Linguistic Diversity*. Llundain: Continuum.
- Elman, J. L., Bates, E. A., Johnson, M. H., Karmiloff-Smith, A., Parisi, D. a Plunkett, K. (1996). *Rethinking Innateness: A Connectionist Perspective on Development*. Cambridge, MA: MIT Press.
- Emmorey, K., Luk, G., Pyers, J. E. a Bialystok, E. (2008). The source of enhanced cognitive control in bilinguals: Evidence from bimodal bilinguals. *Psychological Science* 19, 1201–1206.
- Feldman, C. a Shen, M. (1971). Some language-related cognitive advantages of bilingual five-year-olds. *Journal of Genetic Psychology* 118, 235–244.
- Ferguson, C. A. (1959). Diglossia. *Word* 15, 325–340.
- Fishman, J. A. (1967). Bilingualism with and without diglossia; Diglossia with and without bilingualism. *Journal of Social Sciences* 23, 29–38.
- Fishman, J. A. (1972). *Language in Sociocultural Change*. Stanford: Stanford University Press.
- Fishman, J. A. (1991). *Reversing Language Shift: Theoretical and Empirical Foundations of Assistance to Threatened Languages*. Philadelphia: Multilingual Matters.
- Fledge, J. E. (1992) Speech learning in a second language. Yn *Phonological Development: Models, Research, Implications*, C. A. Ferguson, L. Menn ac C. Stoel-Gammon (goln), 565–604. Timonium, MD: York Press.
- Fledge, J. E. a Fletcher, K. L. (1992). At what age of learning (AOL) do foreign accents first become perceptible? *Journal of the Acoustical Society of America* 91, 370–389.
- Frye, D., Zelazo, P. D. a Palfai, T. (1995). Theory of mind and rule-based reasoning. *Cognitive Development* 19, 483–527.
- Gal, S. (1979). *Language Shift: Social Determinants of Linguistic Change in Bilingual Austria*. San Francisco: Academic Press.

- Galambos, S. J. a Goldin-Meadow, S. (1990). The effects of learning two languages on levels of metalinguistic awareness. *Cognition* 34, 1–56.
- Galambos, S. J. a Hakuta, K. (1988). Subject-specific and task specific characteristics of metalinguistic awareness in bilingual children. *Applied Psycholinguistics* 9, 141–162.
- Gathercole, V. C. Mueller (1997). The linguistic mass/count distinction as an indicator of referent categorization in monolingual and bilingual children. *Child Development* 68, 832–842.
- Gathercole, V. C. Mueller (2007). Miami and North Wales, so far and yet so near: Constructivist account of morpho-syntactic development in bilingual children. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism* 10, 224–247.
- Gathercole, V. C. Mueller a Hoff, E. (2007). Input and the acquisition of language: Three questions. Yn *Blackwell Handbook of Language Development*, E. Hoff a M. Shatz (goln). Rhydychen: Blackwell.
- Gathercole, V. C. Mueller a Thomas, E. M. (2005). Minority language survival: Input factors influencing the acquisition of Welsh. Yn *ISB4: Proceedings of the 4th International Symposium on Bilingualism*, J. Cohen, K. T. McAlister, K. Rolstad a J. MacSwan (goln), 852–74. Somerville: Cascadilla Press.
- Gathercole, V. C. Mueller a Thomas, E. M. (2009). Bilingual first-language development: Dominant language takeover, threatened minority language take-up. *Bilingualism: Language and Cognition* 12 (2), 213–237.
- Gathercole, V. C. Mueller, Thomas, E. M. a Hughes, E. (2008). Designing a normed receptive vocabulary test for bilingual populations: A model from Welsh. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism* 11, 678–720.
- Gathercole, V. C. Mueller, Thomas, E. M. a Laporte, N. I. (2001). The acquisition of grammatical gender in Welsh. *Journal of Celtic Language Learning* 6, 53–87.
- Gathercole, V. C. Mueller, Thomas, E. M., Jones, L., Viñas Guasch, N., Young, N. a Hughes, E. K. (2010). Cognitive effects of bilingualism: Digging deeper for the contributions of language dominance, linguistic knowledge, socioeconomic status, and cognitive abilities. *Journal of Bilingual Education and Bilingualism, Special Issue* 13 (5), 617–664.
- Gathercole, V. C. Mueller, Thomas, E. M., Kennedy, I., Prys, C., Young, N., Viñas Guasch, N., Roberts, E. J., Hughes, E. K. a Jones, L. (2014). Does language dominance affect cognitive performance in Bilinguals? Lifespan evidence from preschoolers through older adults on Card Sorting, Simon, and Metalinguistic Tasks. Special issue of *Frontiers in Psychology* on the Development of Executive Function in Children. *Frontiers in Psychology: Developmental Psychology* 5, erthygl 11.
- Gathercole, V. C. Mueller, Thomas, E. M., Viñas Guasch, N., Kennedy, I., Prys, C., Young, N. E., Roberts, E. J., Hughes, E. K. a Jones, L. (2016). Teasing apart factors influencing Executive Function performance in bilinguals and monolinguals at different ages. *Linguistic Approaches to Bilingualism* 6 (5), 605–647.
- Genesee, F. (1989). Early bilingual development: one language or two? *Journal of Child Language* 16, 161–179.
- Genesee, F. (2001). Bilingual first language acquisition: Exploring the limits of the language faculty. *Annual Review of Applied Linguistics* 21, 153–168.
- Genesee, F. (2003). Rethinking bilingual acquisition. Yn *Bilingualism: Challenges and Directions for Future Research*, J. M. deWaele (gol.), 158–182. Clevedon: Multilingual Matters.
- Genesee, F. a Nicoladis, E. (2006). Bilingual acquisition. Yn *Handbook of Language Development*, E. Hoff ac M. Shatz (gol.). Rhydychen: Blackwell.
- Gombert, J. E. (1992). *Metalinguistic Development*. The Developing Body and Mind Series, Llundain: Harvester Wheatsheaf.

- Grosjean, F. (1982). *Life with Two Languages*. Cambridge, MA: Harvard University Press.
- Grosjean, F. (2010). *Bilingual: Life and Reality*. Cambridge, MA: Harvard University Press.
- Hakuta, K. a Diaz, R. (1985). The relationship between degree of bilingualism and cognitive ability: A critical discussion and some new longitudinal data. Yn *Children's Language*, K. E. Nelson (gol.), cyfrol 5, 319–344. Hillsdale, NJ: Erlbaum.
- Haugen, E. (1956). *Bilingualism in the Americas: A Bibliography and Research Guide*. Alabama: University of Alabama Press.
- Herring, J. R., Deuchar, M., Parafita Couto, M. C. a Moro Quintanilla, M. (2010). 'When I went to Canada, I saw the madre': Evaluating two theories' predictions about codeswitching between determiners and nouns using Spanish-English and Welsh-English bilingual corpora. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism* 13, 553–573.
- Hindle, J. V., Martin-Forbes, P. A., Bastable, A. J. M., Pye, K. L., Martyr, A., Whitaker, C. J., Craik, F. I. M., Bialystok, E., Thomas, E. M., Mueller Gathercole, V. C. a Clare, L. (2015). Cognitive Reserve in Parkinson's Disease: The Effects of Welsh-English Bilingualism on Executive Function. *Parkinson's Disease*, 1–10. DOI: 10.1155/2015/943572.
- Hoff, E. (2001). *Language Development*, ail argraffiad. Belmont, UD: Wadsworth, Cengage Learning.
- Hoffmann, C. (1991). *Introduction to Bilingualism*. Llundain: Routledge.
- Hulk, A. a Müller, N. (2000). Bilingual first language acquisition at the interface between syntax and pragmatics. *Bilingualism: Language and Cognition* 3 (3), 227–244.
- Hyltenstam, K. ac Abrahamsson, N. (2000). Who can become native-like in a second language? All, some, or none? On the maturational constraints controversy in second language acquisition. *Studia Linguistica* 54 (2), 150–166.
- Ianco-Worrall, A. (1972). Bilingualism and cognitive development. *Child Development* 43, 1390–1400.
- Jarvis, L. H., Danks, J. H. a Merriman, W. E. (1995). The effect of bilingualism on cognitive ability: A test of the level of bilingualism hypothesis. *Applied Psycholinguistics* 16, 293–308.
- Johnson, J. S. a Newport, E. L. (1989). Critical period effects in second language learning: The influence of maturational state on the acquisition of English as a second language. *Cognitive Psychology* 21, 60–99.
- Jones, B. L. (1981). Welsh: Linguistic conservation and shifting bilingualism. Yn *Minority Languages Today*, E. Haugen, J. D. McClure a D. Thomson (goln), 40–51. Caeredin: Gwasg Prifysgol Caeredin.
- Jones, B. M. (1990). Variation in the use of pronouns in verbnoun phrases and genitive noun phrases in child language. Yn *Celtic Linguistics, Ieithyddiaeth Geltaidd: Readings in the Brythonic Languages, a Festschrift for T. Arwyn Watkins*, M. Ball, J. Fife, E. Poppe a J. Rowland (goln), 53–76. Amsterdam: John Benjamins.
- Jones, K. (1995). Code-switching, intertextuality and hegemony: Exploring change in bilingual discourse. Yn *Proceedings of the Summer School, Code-Switching and Language Contact*, 108–118. Leeuwarden: Fryske Akademy.
- Jones, M. C. (1998). *Language Obsolescence and Revitalization: Linguistic Change in Two Sociolinguistically Contrasting Welsh Communities*. Rhydychen: Clarendon Press.
- Jones, R. O. (1997/2016). *Hir Oes i'r Iaith: Agweddau ar Gymdeithaseg yr Iaith Gymraeg*. Cyhoeddiad gwreiddiol (1997) Llandysul: Gwasg Gomer; ailgyhoeddiad fel e-lyfr gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (2016) – ar gael ar-lein ar <https://www.cadarn.ac.uk/resource/hir-oes-ir-iaith-%E2%80%93-robert-owen-jones>.

- Joshi, A. K. (1985). Processing of sentences with intrasentential code switching. Yn *Natural Language Parsing*, D. R. Dowty, L. Karttunen ac A. Zwicky (goln), 190–205. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
- Kecskes, I. a Papp, T. (2000). *Foreign Languages and Mother Tongue*. Mahwah, NJ: Lawrence Erlbaum.
- Kennedy, I. A. (2012). Irish medium education: Cognitive skills, linguistic skills, and attitudes towards Irish. Traethawd doethurol heb ei gyhoeddi.
- Kim, K. H. S., Relkin, N. R., Lee, K.-M. a Hirsch, J. (1997). Distinct cortical areas associated with native and second languages. *Nature* 388, 171–174.
- Klavans, J. L. (1983). The syntax of code switching: Spanish and English. Yn *Proceedings of the Linguistic Symposium on Romance Languages*, W. W. Cressey a D. J. Napoli (goln), 213–232. Philadelphia: John Benjamins.
- Klein, D., Zatorre, R. J., Milner, B., Meyer, E. ac Evans, A. C. (1995). The neural substrates of bilingual language processing: Evidence from positron emission tomography. Yn *Aspects of Bilingual Aphasia*, M. Paradis (gol.), 23–36. Rhydychen: Pergamon.
- Kupisch, T., Müller, N. a Cantone, K. F. (2002). Gender in monolingual and bilingual first language acquisition: Comparing Italian and French. *Lingue e Linguaggio* 1 (1), 107–149.
- Lambert, W. E. (1967). A social psychology of bilingualism. *Journal of Social Issues* 23, 91–109.
- Lambert, W. E., Hodgson, R. C., Gardner, R. C. a Fillenbaum, S. (1960). Evaluational reactions to spoken languages. *Journal of Abnormal and Social Psychology* 60, 44–51.
- Lanvers, U. (1999). Lexical growth patterns in a bilingual infant: The occurrence and significance of equivalents in the bilingual lexicon. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism* 2, 30–52.
- Lenneberg, E. H. (1967). *Biological Foundations of Language*. Efrog Newydd: Wiley.
- Leopold, W. F. (1939–1949). *Speech Development of a Bilingual Child: A Linguist's Record (Vol. 1–4)*. Evanston, IL: Northwestern University Press.
- Locke, J. L. (1993). *The Child's Path to Spoken Language*. Cambridge, MA: Harvard University Press.
- Lye, C. B. (2015). An exploratory study of the linguistic and cognitive skills of Welsh-English bilingual children with moderate learning difficulties in Welsh-medium education. Traethawd doethurol heb ei gyhoeddi.
- Macnamara, J. (1966). *Bilingualism and Primary Education: A study of Irish Experience*. Caeredin: Gwasg Prifysgol Caeredin.
- Maratsos, M. P. (2000). More overregularizations after all: New data and discussion on Marcus, Pinker, Ullman, Hollander, Rosen & Xu. *Journal of Child Language* 27, 183–212.
- Martin-Rhee, M. M.. a Bialystok, E. (2008). The development of two types of inhibitory control in monolingual and bilingual children. *Bilingualism: Language and Cognition* 11 (1), 81–93.
- Marton, K. (2015). Do bilingual children perform more efficiently in different experimental tasks than their monolingual peers? Papur a gyflwynwyd yn *Bilingualism and Executive Function: An Interdisciplinary Approach*. CUNY, Mai 17–18.
- Mayberry, R. I. ac Eichen, E. B. (1991). The long-lasting advantage of learning sign language in childhood: Another look at the critical period for language acquisition. *Journal of Memory and Language* 30, 486–512.
- Meisel, J. M. (1989). Early differentiation of languages in bilingual children. Yn *Bilingualism Across the Lifespan: Aspects of Acquisition, Maturity, and Loss*, K. Hyltenstam ac L.K. Obler (goln), 3–40. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
- Montrul, S. (2008). *Incomplete Acquisition in Bilingualism: Reexamining the Age-factor*. Amsterdam: John Benjamins.

- Morris, J. (2014). The influence of social factors on minority language engagement amongst young people: An investigation of Welsh-English bilinguals in North Wales. *International Journal of the Sociology of Language* 230, 65–89.
- Morton, J. B. a Harper, S. N. (2007). What did Simon say? Revisiting the bilingual advantage. *Developmental Science* 10, 719–726.
- Muller, N. (1998). Language development in simultaneous bilingual children. Yn *Language Acquisition*, S. H. Foster-Cohen (gol.), 243–272. Llundain: Palgrave.
- Musk, N. (2006). Performing bilingualism in Wales with the spotlight on Welsh: A study of the language practices of young people in bilingual education. *Studies in Language and Culture* 8, *Linköping Studies in Arts and Science* 375. [Cafwyd mynediad ar-lein, Mawrth 2017: <http://liu.diva-portal.org/smash/record.jsf?pid=diva2%3A22924&dswid=8516>.]
- Muysken, P. (2000). *Bilingual Speech: A Typology of Code Mixing*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
- Myers-Scotton, C. (1993). *Dueling Languages: Grammatical Structure in Code-switching*. Rhydychen: Clarendon Press.
- Myers-Scotton, C. (2002). *Contact Linguistics: Bilingual Encounters and Grammatical Outcomes*. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen.
- Myers-Scotton, C. (2006). *Multiple Voices: An Introduction to Bilingualism*. Malden, MA: Blackwell Publishing.
- Namazi, M. a Thordadottir, E. (2010). A working memory, not bilingual advantage, in controlled attention. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism* 13, 597–616.
- Newport, E. L. (1990). Maturational constraints on language learning. *Cognitive Science* 14, 11–28.
- Newport, E. L. (1991). Contrasting conceptions of the critical period for language. Yn *The Epigenesis of Mind: Essays on Biology and Cognition*, S. Carey ac R. Gelman (goln). Hillsdale, NJ: Erlbaum.
- Nicoladis, E. (2001). Finding first words in the input. Yn *Trends in Bilingual Acquisition*, J. Cenoz ac F. Genesee (goln), 131–147. Amsterdam: John Benjamins.
- Nicoladis, E. a Secco, G. (2000). The role of a child's productive vocabulary in the language choice of a bilingual family. *First Language* 58, 3–28.
- Oller, D. K. (2005). The distributed characteristic in bilingual learning. Yn *Proceedings of the 4th International Symposium*, J. Cohen, K. T. McAlister, K. Rolstad a J. MacSwan (goln), 1744–1749. Somerville, MA: Cascadilla Press.
- Oller, D. K., Jarmulowicz, L., Gibson, T. a Hoff, E. (2007). First language vocabulary loss in early bilinguals during language immersion: A possible role for suppression. Yn *Proceedings of the Boston University Conference on Language Development*, H. Caunt-Nolten, S. Kulatilake ac I-hao Woo (goln), 474–484. Somerville, MA: Cascadilla Press.
- Oyama, S. (1976). A sensitive period in the acquisition of a non-native phonological system. *Journal of Psycholinguistic Research* 5, 261–285.
- Paap, K. R. a Greenberg, Z. I. (2013). There is no coherent evidence for a bilingual advantage in executive functioning. *Cognitive Psychology* 66, 232–258.
- Paap, K. R., Johnson, H. A. a Sawi, O. (2015). Bilingual advantage in executive functioning either do not exist or are restricted to very specific and undetermined circumstances. *Cortex* 69, 265–278.
- Paradis, J. a Genesee, F. (1996). Syntactic acquisition in bilingual children: Autonomous or independent? *Studies in Second Language Acquisition* 18, 1–25.

- Parafita Couto, M. C., Carter, D., Davies, P. a Deuchar, M. (2011). *Factors determining code-switching patterns in Spanish-English and Welsh-English communities. Las Actas del XXVIII Congreso Internacional de AESLA, Revista Española de Lingüística Aplicada.*
- Parafita Couto, M. C., Davies, P., Carter, D. a Deuchar, M. (2014). Factors influencing code-switching. Yn *Advances in the Study of Bilingualism*, E. M. Thomas ac I. Mennen (goln), 111–140. Bryste: Multilingual Matters.
- Patterson, J. a Pearson, B. Z. (2004). Bilingual lexical development: Influences, contexts, and processes. Yn *Bilingual Language Development and Disorders in Spanish-English speakers*, G. Goldstein (gol.), 77–104. Baltimore, MD: Paul Brookes.
- Peal, E. a Lambert, W. (1962). The relation of bilingualism to intelligence. *Psychological Monographs* 76, 1–23.
- Peal, E., a Lambert, W. E. (1962). *The Relation of Bilingualism to Intelligence*. Washington: American Psychological Association.
- Pearson, B. Z., Fernández, S. C. ac Oller, D. K. (1993). Lexical development in bilingual infants and toddlers: Comparison to monolingual norms. *Language Learning* 43, 93–120.
- Pearson, B. Z. a Fernández, S. C. (1994). Patterns of interaction in the lexical growth in two languages of bilingual infants and toddlers. *Language Learning* 44, 617–653.
- Piaget, J. (1929). *The Child's Conception of the World*. Efrog Newydd: Harcourt, Brace, Jovanovich.
- Pinker, S. (1994). *The Language Instinct*. Llundain: Penguin Books.
- Pinker, S. (1999). *Words and Rules: The Ingredients of Language*. Llundain: Phoenix.
- Poplack, S. (1980). 'Sometimes I'll start a sentence in Spanish y termino en español': Toward a typology of code-switching. Yn *The Bilingualism Reader*, L. Wei (gol.), 221–256. Llundain Efrog Newydd: Routledge. [Mae'r rhifau tudalennau yn y llyfr hwn yn cyfeirio at rifau'r tudalennau yn y *Bilingualism Reader*.]
- Ramirez, J., Pasta, D., Yuen, S., Ramey, D. a Billings, D. (1991). *Longitudinal Study of Structured English Immersion Strategy, Early-exit and Late-exit Transitional Bilingual Education Programs for Language-minority Children, Vol. 2*. Washington, D.C.: U.S. Department of Education.
- Reber, A. S. (1995). *The Penguin Dictionary of Psychology*. Llundain: Penguin Books.
- Redlinger, W. E. a Park, T. Z. (1980). Language mixing in your bilinguals. *Journal of Child Language* 3, 449–455.
- Rhys, M. (2013). Sgiliau iaith a gwybyddiaeth plant dwyieithog mewn cyd-destun iaith leiafrifol. Traethawd doethurol heb ei gyhoeddi.
- Rhys, M. a Thomas, E. M. (2013). Bilingual Welsh–English children's acquisition of vocabulary and reading: Implications for bilingual education. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism* 16, 633–656.
- Ricciardelli, L. A. (1992). Creativity and bilingualism. *Journal of Creative Behaviour* 26 (4), 242–254.
- Robert, E. (2009). Accommodating 'new' speakers? An attitudinal investigation of L2 speakers of Welsh in south-east Wales. *International Journal of the Sociology of Language* 195, 93–116.
- Romaine, S. (1994). *Bilingualism*, 2il argraffiad. Rhydychen: Wiley.
- Rosenblum, T. a Pinker, S. A. (1983). Word magic revisited: Monolingual and bilingual children's understanding of the word-object relationship. *Child Development* 54, 773–780.
- Rubin, H. a Turner, A. (1989). Linguistic awareness skills in grade one children in a French immersion setting. *Reading and Writing: An Interdisciplinary Journal* 1, 73–86.

- Sabbagh, M. A., Xu, F., Carlson, S. M., Moses, L. J. a Lee, K. (2006). The development of executive functioning and theory of mind: A comparison of Chinese and U.S. preschoolers. *Psychological Science* 17 (1), 74–81.
- Saer, D. J. (1923). The effects of bilingualism on intelligence. *British Journal of Psychology* 14, 25–38.
- Sankoff, D. a Poplack, S. (1981). A formal grammar for code-switching. *Papers in Linguistics* 14, 3–45.
- Sayahi, L. (2002). Social identity and code-switching in bilingual contexts: A comparative approach. Yn *Language and Identity: Selected Papers of the International Conference, October 2–5, 2002*, L. R. N. Ashley a W. H. Finke (goln), 373–381. Efrog Newydd: Cummings & Hathaway.
- Sharp, D., Thomas, B., Price, E., Francis, G. a Davies, I. (1973). *Attitudes to Welsh and English in the Schools of Wales*. Basingstoke: Macmillan Education Ltd.
- Simons, G. F. a Fennig, C. D. (goln) (2017). *Ethnologue: Languages of the World, Twentieth Edition*. Dallas, Texas: SIL International. Fersiwn ar-lein: <http://www.ethnologue.com>.
- Smith, D. J. (2006). Thresholds leading to shift: Spanish/English codeswitching and convergence in Georgia, U.S.A.. *International Journal of Bilingualism* 10, 207–240.
- Snow, C. E. a Hoefnagel-Höhle, M. (1978). The critical period for language acquisition: Evidence from second language learning. *Child Development* 49, 1114–1128.
- Sorace, A. (2015). Referring expressions and executive functions in child and adult bilinguals. Papur a gyflwynwyd yn 'Bilingualism and Executive Function: An Interdisciplinary Approach'. CUNY, Mai 17–18.
- Stammers, J. R. (2010). *The Integration of English-origin Verbs into Welsh: A Contribution to the Debate over Distinguishing between Code-switching and Borrowing*. VDM Verlag: Saarbrücken.
- Stammers, J. R. a Deuchar, M. (2012). Testing the nonce borrowing hypothesis: Counter-evidence from English-origin verbs in Welsh. *Bilingualism: Language and Cognition* 15:3, 630–43.
- Stroop, J. R. (1935). Studies in interference in serial verbal reactions. *Journal of Experimental Psychology* 18, 643–662.
- Theakston, A., Lieven, E. V. M., Pine, J. a Rowland, C. F. (2002). Going, going, gone: The acquisition of the verb 'go'. *Journal of Child Language* 29 (4), 783–811.
- Thomas, A. R. (1982). Change and decay in language. Yn *Linguistic Controversies: Essays in Linguistic Theory and Practice in Honour of F. R. Palmer*, D. Crystal (gol.), 209–219. Llundain: Edward Arnold Publishers.
- Thomas, A. R. (1985). Welsh English: A grammatical conspectus. Yn *Varieties of English around the World: Focus on: England and Wales*, W. Viereck (gol.), 213–222. Amsterdam/Philadelphia: John Benjamins.
- Thomas, E. M. (2007). Natur prosesau caffael iaith gan blant: marcio cenedl enwau yn y Gymraeg. *Gwerddon* 1, 58–94.
- Thomas, E. M. a Gathercole, V. C. Mueller (2005.) Minority language survival: Obsolescence or survival for Welsh in the face of English dominance. Yn *ISB4: Proceedings of the 4th International Symposium on Bilingualism*, J. Cohen, K. T. McAlister, K. Rolstad a J. MacSwan (goln), 2233–57. Somerville: Cascadilla Press.
- Thomas, E. M. a Gathercole, V. C. Mueller (2007). Children's productive command of grammatical gender and mutation in Welsh: An alternative to rule-based learning. *First Language* 27, 251–278.
- Thomas, E. M., Gathercole, V. C. Mueller a Hughes, E. K. (2014). Sociolinguistic influences on the linguistic achievements of bilinguals: Issues for the assessment of minority language

- competence. Yn *Solutions for the Assessment of Bilinguals*, V. C. Mueller Gathercole (gol.), 175–193. Clevedon: Multilingual Matters.
- Thomas, E. M. a Mayr, R. (2010). Children's acquisition of Welsh in a bilingual setting: A psycholinguistic perspective. Yn *Welsh in the 21st Century*, D. Morris (gol.), 99–117. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Thomas, E. M. a Mennen, I. (goln) (2014). *Advances in the Study of Bilingualism*. Clevedon: Multilingual Matters.
- Thomas, E. M., Williams, N., Jones, Ll. A., Davies, S. a Binks, H. (2014). Acquiring complex structures under minority language conditions: Bilingual acquisition of plural morphology in Welsh. *Bilingualism: Language and Cognition* 17 (3), 478–494.
- Thomason, S. G. a Kaufman, T. (1988). *Language Contact, Creolization, and Genetic Linguistics*. Berkeley, CA: University of California Press.
- Thomason, S. G. (2001). *Language Contact: An Introduction*. Caeredin: Gwasg Prifysgol Caeredin.
- Thordardottir, E. (2011). The relationship between bilingual exposure and vocabulary development. *International Journal of Bilingualism* 15 (4), 426–445.
- Thordardottir, E., Rothenberg, A., Rivard, M. E. a Naves, R. (2006). Bilingual assessment: Can overall proficiency be estimated from separate measurement of two languages? *Journal of Multilingual Communication Disorders* 4, 1–21.
- Tomasello, M. (1992). *First Verbs: A Case Study of Early Grammatical Development*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
- Tomasello, M. (2000). The item-based nature of children's early syntactic development. *Trends in Cognitive Sciences* 4, 4, 156–163.
- Tomasello, M. (2003). *Constructing a Language: A Usage-based Theory of Language Acquisition*. Cambridge, MA: Havard University Press.
- Treffers-Daller, J. (1994). *Mixing Two Languages: French-Dutch Contact in a Comparative Perspective*. Berlin: Walter de Gruyter.
- Umbel, V. M., Pearson, B. Z., Fernandez, M. C. ac Oller, D. K. (1992). Measuring bilingual children's receptive vocabularies. *Child Development* 63, 1012–1020.
- Valian, V. (2015). Bilingualism and cognition. *Bilingualism: Language and Cognition* 18 (1), 3–24.
- Vihman, M. M. (1985). Language differentiation by the bilingual infant. *Journal of Child Language* 12, 297–324.
- Volterra, V. a Taeschner, T. (1978). The acquisition and development of language by bilingual children. *Journal of Child Language* 5, 311–326.
- Weber-Fox, C. M. a Neville, H. J. (1996). Maturational constraints on functional spacializations for language processing: ERP and behavioural evidence in bilingual speakers. *Journal of Cognitive Neuroscience* 8, 231–256.
- Wei, L. (2000). *The Bilingualism Reader*. Llundain: Routledge.
- Werker, J. F. (1995). Exploring developmental changes in cross-language speech perception. Yn *An Invitation to Cognitive Science, Col. 1: Language*, L. R. Gleitman ac M. Liberman (goln), 87–106. Cambridge, MA: MIT Press.
- Williams, E. (2009). Language attitudes and identity in a North Wales town: "Something different about Caernarfon"? *International Journal of the Sociology of Language* 195, 63–91.
- Willis, D. (2016). Cyfieithu iaith y caethweision yn *Uncle Tom's Cabin* a darluniadau o siaradwyr ail iaith mewn llenyddiaeth Gymraeg. *Llên Cymru* 39, 56–72.
- Yang, S. a Lust, B. (2007). Cross-linguistic differences in cognitive effects due to bilingualism: experimental study of lexicon and executive attention in two typologically distant language groups. Yn *Proceedings of Boston University Conference on Language*

development (BUCLD) 31, Vol. 2, H. Caunt-Nulton, S. Kulatilaka ac I-hao Woo (goln), 692–703. Somerville: Cascadilla Press.

Yelland, G. W., Pollard, J. a Mercuri, A. (1993). The metalinguistic benefits of limited contact with a second language. *Applied Psycholinguistics* 14, 423–444.

Young, N., Rhys, M., Kennedy, I. A. a Thomas, E. (2017). The linguistic, cognitive and emotional advantages of minority language bilingualism. Yn *Bilingualism and Minority Language in Europe: Current Trends and Developments*, F. Lauchlan a M. C. Parafita Couto (goln), 120–142. Newcastle Upon Tyne: Cambridge Scholars Publishing.

Zelazo, P. D., Frye, D. a Rapus, T. (1996). An age-related dissociation between knowing rules and using them. *Cognitive Development* 11, 37–63.

Zelazo, P. D., Müller, U., Frye, D. a Marcovitch, S. (2003). The development of executive function in early childhood. *Monographs of the Society for Research in Child Development* 68 (3), rhif cyfres 274.

Prifysgol Bangor
Ffordd y Coleg
Bangor
Gwynedd
LL57 2DG

www.bangor.ac.uk

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3WQ

www.colegcymraeg.ac.uk

Agweddau ar Ddwieithrwydd

